CRONFA GYMUNEDOL
COMMUNITY FUND

# Blwyddyn heb ei hail

## Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2020-21








HC 409
SG/2021/271

cronfagymunedolylg.org.uk

OGL

© Hawlfraint y Goron 2021
Ni yw'r Gronfa Loteri Fawr sy'n gweithredu fel Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu dan delerau Trwydded y Llywodraeth Agored f3.0 oni nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i. nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi geisio caniatâd deiliad perthnasol yr hawlfraint.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn: gov.uk/official-documents.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau mewn perthynas â'r cyhoeddiad hwn atom yn Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, 3 Embassy Drive, Edgbaston, Birmingham, B15 1TR.

ISBN 978-1-5286-3063-4
E02678178

Argraffir ar bapur sy'n cynnwys isafswm o 75% cynnwys ffibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig gan HH Associates Ltd ar ran Rheolydd Llyfrfa Ei Mawrhydi

# Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y Gronfa Loteri Fawr*

*(yn gweithredu fel Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol)

## Ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021

Wedi'i gyflwyno i Senedd y Deyrnas Unedig yn unol ag Adran 23(3) a pharagraff 21 Atodlen 4A Deddf Y Loteri Genedlaethol etc. 1993 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998 a Deddf y Loteri Genedlaethol 2006).

Wedi'i roi gerbron Senedd yr Alban gan Weinidogion Yr Alban ar 14 Rhagfyr.

Wedi'i roi gerbron Cynulliad Gogledd Iwerddon.

I'w argraffu ar 14 Rhagfyr 2021 yn unol â gorchymyn Tŷ'r Cyffredin.

HC 409
SG/2021/271

# Rhan 01
# Ein blwyddyn mewn adolygiad


Neges gan y Cadeirydd a’r Prif Weithredwr 06
Ein fframwaith strategol 10
Ein hegwyddorion 11
Arian a ddyfarnwyd yn 2020-21 13
Taflu goleuni ar yr adolygiad o effaith 14
Effaith gwirfoddoli 16
Ein hariannu brys yn Lloegr 18
Blwyddyn heb ei hail 20
Edrych ar draws ein rhaglenni a’n portffolios 26




Lagmore Youth Project

# Neges gan y Cadeirydd



**Blondel Cluff CBE**

Cadeirydd

**“Mae’r ariannu arloesol hwn nid yn unig wedi darparu rhaff achub i lawer ond mae hefyd wedi creu platfform y gallwn ei ddefnyddio i ailadeiladu’n well.”**

Fel Cadeirydd cymharol newydd, rwy’n gallu gweld pethau o safbwynt newydd. O’r fan hon, gallaf weld y cyflawniad Hercwleaidd a wnaed gan y Gronfa wrth ddiwallu anghenion cymunedau ledled y DU yn ystod trychineb byd-eang. Gwelais hefyd bŵer aruthrol ac unigryw cymuned. Ar adeg pan gwtogwyd ar ryngweithio personol er budd iechyd a diogelwch y cyhoedd, gwelsom fudiadau cymunedol dirifedi yn cefnogi’r rhai mwyaf agored i niwed yn llwyddiannus. Rwy’n falch o gefnogaeth y Gronfa i’r ymdrech hon, gan ddarparu grantiau’r Loteri Genedlaethol i nifer o elusennau a grwpiau cymunedol ledled y DU, tra’n gweithio mewn partneriaeth â llywodraethau lleol, gweinyddiaethau datganoledig a llywodraeth ganolog. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, fe ddarparom £1 biliwn o ariannu (gan gynnwys anrhydeddu ymrwymiadau a oedd yn bodoli eisoes) i dros 20,000 o fudiadau. Roedd hyn yn gynnydd o 21% yn y taliadau a wnaed o gymharu â’r flwyddyn flaenorol.

Cyflawnwyd hyn i gyd er gwaethaf newid sylweddol yn ein model gweithio a welodd, yn yr un modd â chymaint o fudiadau eraill, ein staff yn gweithio’n ddi-dor o gartref. “Mae’r ariannu arloesol hwn nid yn unig wedi darparu rhaff achub i lawer ond mae hefyd wedi creu platfform y gallwn ei ddefnyddio i ailadeiladu’n well.” Mae’r atgoffâd hwn o’r cyfraniad amhrisiadwy y mae cymunedau yn ei wneud yn un y bydd y Gronfa yn adeiladu arno o ddifrif wrth i ni weithio i wella lles cyffredinol cymunedau’r DU er budd ffyniant pob un ohonom.

Ar ôl ymweld â The Way yn Wolverhampton yn ddiweddar, un o’r 14 prosiect HeadStart yr ydym wedi buddsoddi dros £68.5 miliwn ynddynt i gefnogi iechyd meddwl pobl ifanc dros y pum mlynedd diwethaf, rwy’n cydnabod bod llawer o waith y Gronfa wedi cael effaith enfawr ar wytnwch y genedl yn ystod yr amser tyngedfennol hwn, gan wella’r potensial ar gyfer adferiad cyflym. Nodais hefyd y gwaith rydym yn ei ddatblygu mewn cydweithrediad â’r sector preifat yr wyf, ochr yn ochr â’n gwaith ar draws y llywodraeth, yn bwriadu ei ddatblygu ymhellach. Mae hefyd yn amlwg bod gan bob un o’r pedair gwlad ran arbennig i’w chwarae yn adferiad y DU, gyda Gogledd Iwerddon, yr Alban, Cymru a Lloegr i gyd yn gartref i gymunedau y gall eu dyfeisgarwch a’u harloesedd, o’u rhannu, gefnogi eraill mor hawdd mewn mannau eraill ledled y DU. Rwyf wedi ymgymryd â rôl Cadeirydd Pwyllgor Ariannu’r DU a bydd ei waith yn parhau i adlewyrchu pwysigrwydd cynyddol cydweithredu o’r fath.

Er bod yn rhaid i ni gofio ar bob adeg bod ‘Gymunedol’ yn ein henw ni yn sefyll dros gymuned, mae’n amlwg bod gan y Gronfa ran ganolog i’w chwarae wrth gefnogi cymdeithas sifil, nid yn unig yn ariannol, ond hefyd wrth gynnull a chydgrynhoi ei chydrannau niferus ac amrywiol, a thrwy ychwanegu llais cryf, anwleidyddol sy’n hawdd ei glywed. Mae hyn yn hynod bwysig i’r DU o ystyried yr amcangyfrif o £200 biliwn o werth cymdeithasol a gynhyrchir gan y sector bob blwyddyn.*

Ar ôl treulio dros chwe blynedd fel un o gadeiryddion rhanbarthol Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, sy’n darparu ymdeimlad cryf o berchnogaeth gymunedol o dreftadaeth odidog y DU, rwy’n awyddus i sicrhau bod teulu dosbarthwyr y Loteri Genedlaethol yn cydweithredu’n agosach. Gobeithiaf y bydd rhyngwyneb gronynnog unigryw’r Gronfa â chymunedau ym mhob un o 650 etholaeth y DU yn cael ei ddefnyddio gan bob aelod o deulu’r loteri i gefnogi eu priod fandadau.

Dros y flwyddyn nesaf, mae gennym lawer o gyfleoedd cyffrous i ddefnyddio ein hariannu, gwybodaeth, profiad a rhwydweithiau helaeth, dan adain brand y Loteri Genedlaethol (un o frandiau mwyaf blaenllaw y DU) i fynd i’r afael â rhai o’r materion mwyaf profiadol a wynebwyd erioed gan gyhoedd y DU. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi dyfarnu £59 miliwn i brosiectau ag elfennau amgylcheddol trwy 736 o grantiau diolch i arian gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol. Fe ymunom ag eraill i ddod â hyd yn oed mwy o arian i’r bwrdd gyda’n buddsoddiad mewn prosiectau amgylcheddol yn cynyddu i £85 miliwn trwy 1,476 o grantiau trwy weithio gydag eraill. Mae ein Cronfa Gweithredu Hinsawdd gwerth £100 miliwn yn ganolog i’n Strategaeth Amgylcheddol dros y 10 mlynedd nesaf. Rydym yn bwriadu hwyluso dathliadau Jiwbilî Platinwm Ei Mawrhydi ledled y DU a defnyddio ein pŵer ymgynnull i ddarparu cefnogaeth gatalytig i elusennau lleol dirifedi wrth iddynt hwy a’r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu adfer.

Rwy’n awyddus i sicrhau bod cyfansoddiad y Gronfa yn adlewyrchu’r rhai yr ydym yn eu gwasanaethu, ac felly rwy’n hynod ddiolchgar am y cyfraniad pwysig a wnaed gan ein panel cynghori Pobl Ifanc yn Arwain yr ydym bellach yn bwriadu ei gyflwyno yng Ngogledd Iwerddon a’r Alban. Mae ariannu’n cynrychioli dros chwarter yr holl arian cyhoeddedig sy’n cynnwys ieuenctid yn y DU. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, roedd ariannu i blant a phobl ifanc yn fwy na £200 miliwn ar gyfer prosiectau a ariannwyd gan y Loteri Genedlaethol a dros £300 miliwn mewn partneriaeth ag eraill gan gynnwys y llywodraeth i roi bron 7,000 o grantiau, gan ddarparu cyfleoedd mawr eu hangen i blant a phobl ifanc ledled y DU.

Mae ein gwaith er budd pawb a bydd yn parhau i gael ei ddefnyddio i gyrraedd y cymunedau hynny sy’n cael eu heffeithio fwyaf gan y pandemig i sicrhau nad oes unrhyw un yn cael ei adael ar ôl. Rwy’n hyderus, er gwaethaf y boen a’r dioddefaint yr ydym wedi’u dioddef dros y flwyddyn ddiwethaf, trwy weithio gyda’n gilydd y byddwn i gyd yn byw’n dda ein byd.

**Blondel Cluff CBE**



*Comisiwn Teulu’r Gyfraith ar Gymdeithas Sifil: Andy Haldane, Y Trydydd Sector a’r Pedwerydd Chwyldro Diwydiannol

# Cyflwyno'r Prif Weithredwr



**David Knott**
Prif Swyddog Gweithredol

**"Mae cefnogaeth chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, ynghyd ag ariannu brys gan lywodraethau, wedi helpu i sbarduno ymchwydd mewn ysbryd cymunedol."**

Bu hon yn flwyddyn eithriadol a thrasig. Mae'r pandemig byd-eang wedi dod â cholled ofnadwy o fywyd ac wedi effeithio'n arw ar bob un ohonom. Ond mae hefyd wedi taflu goleuni mawr ar rywbeth yr oeddem bob amser yn gwybod ei fod yn wir ond a oedd yn rhy aml wedi'i guddio o'r golwg: cymunedau yw calon ein cenedl. Y cysylltiadau hanfodol sy'n clymu cymdeithas gyda'i gilydd. Pŵer parhaus pobl yn helpu eraill yn ystod cyfnodau o angen.

Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol wedi cefnogi cymunedau trwy'r argyfwng hwn wrth sicrhau'r swm uchaf o ariannu erioed. Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae £753 miliwn o ariannu'r Loteri Genedlaethol ac ariannu argyfwng COVID-19 wedi cefnogi cymunedau ledled y DU. Mae'r Gronfa wedi cyhoeddi dros 2,000 o grantiau - y nifer uchaf erioed. Ynghyd â pharhau â'r gwaith presennol, bu i'r ymateb brys arwain atom yn prosesu cynnydd sylweddol mewn ceisiadau mewn rhai portffolios, cynnydd o 40% mewn dyfarniadau a chynnydd o 23% yng nghyfanswm yr ariannu.

Fel y mae'r adroddiad hwn yn ei nodi, mae cefnogaeth chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, ynghyd ag ariannu brys gan lywodraethau , wedi helpu i sbarduno ymchwydd mewn ysbryd cymunedol. Mae pump o bob chwech o'n gwobrau grantî newydd yn mynd i elusennau bach a chanolig eu maint, mentrau cymdeithasol a mudiadau cymunedol. Mae ein canfyddiadau yn dangos bod hyn wedi helpu mudiadau i gyrraedd pobl newydd, wedi galluogi mwy o bobl i wirfoddoli, ac wedi gwella cysylltiadau ac ymdeimlad lleol o berthyn.

Ym mis Chwefror croesawodd y Gronfa Gadeirydd newydd, Blondel Cluff, ynghyd â Chadeiryddion Pwyllgorau Gwlad newydd a benodwyd yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Fel Prif Swyddog Gweithredol edrychaf ymlaen at weithio gyda holl aelodau bwrdd a staff y Gronfa Gymunedol i wasanaethu cymunedau ledled y Deyrnas Unedig.

Hoffwn achub ar y cyfle i ddiolch i'm cydweithwyr, y mae eu hymroddiad wedi bod yn gadarn trwy heriau addysgu gartref, galwadau fideo a desgiau dros dro. Fel blaenoriaeth i'r Gronfa byddwn yn sicrhau ein bod yn parhau â dulliau gweithio wrth inni ddychwelyd, wrth gynnig yr un gefnogaeth ddibynadwy y gellir ymddiried ynddo i grantïon. Gan ddysgu o'r gorffennol, byddwn yn sicrhau bod y Gronfa yn lle gwych i bawb weithio.

Wrth inni ddod i mewn i gyfnod newydd, hoffwn dynnu sylw at yr Adolygiad Effaith a gychwynnwyd gennym yn ystod y flwyddyn. Mae eisoes yn adrodd stori bwerus am y cyrhaeddiad, y raddfa a'r cyfraniad y mae cefnogaeth chwaraewyr y Loteri yn ei alluogi. Y flwyddyn nesaf byddwn yn cyhoeddi mwy ar yr effaith hanfodol a gawsom, gan ein galluogi i roi cymunedau yn gyntaf wrth inni ailadeiladu. Byddwn yn sicrhau bod effaith yn llywio ariannu a strategaeth ar gyfer patrwm cymunedol ôl-bandemig.

Mae tudalennau'r adroddiad hwn yn deyrnged i ddycnwch a chryfder cymunedau ledled y DU wrth iddynt ddod ynghyd i gefnogi ei gilydd yn yr amgylchiadau anoddaf. Dylai pob cydweithiwr yng Nghronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol fod yn falch o'u cyflawniad a'u gwasanaeth i bobl a chymunedau dros y flwyddyn ddiwethaf. Rwy'n falch o'u harwain nhw.

**David Knott, Prif Swyddog Gweithredol**



# Ein fframwaith strategol




Tumble Family Centre

## Pan fydd pobl yn arwain, mae cymunedau'n ffynnu.

Pobl yw'r rhai sy'n deall yr hyn y mae ei angen yn eu cymunedau'n well na neb.

Rydym yn gwrando, gweithio ar y cyd ac yn ariannu fel bod pethau da'n digwydd.

Dyna pam rydym yn falch o ddyfarnu arian a godir gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol ym mhob cwr o'r Deyrnas Unedig.





# Ein Hegwyddorion

**Mae'r hyn a wnawn a sut rydym yn gweithredu fel mudiad yn seiliedig ar ein hegwyddorion**

**1 Ar gyfer pawb**
Mae ein grantiau'n agored i'r holl gymunedau, beth bynnag eu man cychwyn ac rydym yn deall y bydd angen cefnogaeth ychwanegol ar rai.

**2 Cryfderau pobl**
Rydym yn dechrau gyda'r hyn y gall pobl ei gyfrannu, a'r potensial yn eu syniad.


**3 Catalydd i bobl eraill**
Rydym yn gwrando ar, dysgu gan, gweithredu ar ac yn hwyluso'r pethau sydd o bwys i bobl, cymunedau a'n partneriaid.

**4 Cyfeiriad a rennir, dulliau amrywiol**
Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth y cymunedau rydym yn gweithio gyda nhw ar draws y Deyrnas Unedig, yn gyson o ran ansawdd y cyfleoedd a gynigiwn, ac yn cefnogi pobl i daclo anghydraddoldeb.

**5 Hyder, nid rheolaeth**
Mae gennym ffydd mewn gallu pobl i beri i bethau gwych ddigwydd, gan gredu y dylai ein hariannu alluogi yn hytrach na rheoli.

**6 Prosesau syml, barn dda**
Rydym yn defnyddio prosesau syml a chymesur sy'n ein galluogi i ffurfio barn dda.

**7 Defnyddio adnoddau'n dda**
Rydym yn gwneud dewisiadau gwybodus am yr adnoddau a roddir i ni gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol: gyda gwybodaeth, gyda phobl a gydag arian, ac mewn ffordd sy'n amgylcheddol gynaliadwy.



Jigsaw




# Arian a ddyfarnwyd yn 2020-21

**Cyfanswm o**
**£752.6m**
**20,217 o grantiau**

**DU**
**£45.2m**
**159 o grantiau**

**Gogledd Iwerddon**
**£37m**
**1,199 o grantiau**

**Cymru**
**£38.1m**
**921 o grantiau**



**Yr Alban**
**£76.9m**
**2,258 o grantiau**

**Lloegr**
**£555.2m**
**15,680 o grantiau**

Mae'r cyfansymiau ar gyfer portffolios gwledydd yn cynnwys partneriaeth â thrydydd partïon.

Talwyd allan
**£1 biliwn**
(yn cynnwys ymrwymiadau a oedd yn bodoli eisoes)

# Taflu goleuni ar yr adolygiad o effaith

Yn ystod 2020–21 comisiynodd Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol Adolygiad o Effaith mewnol. Adeiladodd hyn ar y sylfeini a osodwyd trwy Strategaeth Data'r Gronfa ac mae'n adlewyrchu ymrwymiad cynyddol y Gronfa i wybodaeth, tystiolaeth a dysgu.

## Mae ein hadolygiad o effaith yn cynnwys:

### Pecyn cymorth beirniadol

Ymrwymiad i werthusiad o'r radd flaenaf o Gronfa Gymorth Cymunedol y Coronafeirws (CCSF), i asesu'r effaith a'r gwerth am arian y mae'r pecyn cymorth hanfodol hwn wedi'i gael yn ystod y pandemig cenedlaethol.




Flourish

### Cloddio data

Cloddio data grantïon cyfredol a hanesyddol, gan ddefnyddio'r wybodaeth adrodd bresennol a defnyddio dulliau tagio data arloesol.

### Arolwg cynrychioliadol

Am y tro cyntaf, arolwg cynrychioliadol ar draws ein holl bortffolios ariannu, rhaglenni ariannu o bob maint, bach a mawr, ein hariannu yng Nghymru, Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon a'r DU gyfan, ac yn cynnwys ariannu argyfwng ac ariannu nad yw'n argyfwng gan roi darlun cyflawn o'r Gronfa gyda'r prif ddata yn dangos canlyniadau ac effaith grantiau.

Byddwn yn parhau i ddod o hyd i ffyrdd newydd o wrando ar gymunedau. Mae ein Mynegai Ymchwil Cymunedol eisoes wedi derbyn adborth gan bobl ledled y DU a byddwn yn parhau gyda hyn y flwyddyn nesaf.

### Archwiliad o weithgarwch y Gronfa gyfan

Gweithio i archwilio ymagwedd gweithgareddau ar draws y Gronfa mewn meysydd blaenoriaeth gan gynnwys cefnogaeth y Gronfa i gymunedau lleol, ac i bobl ifanc, cael pobl i mewn i gyflogaeth, y mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas, yr hinsawdd a'r amgylchedd.








Laurencetown, Lenaderg and Tullylish Community Association

## Bydd y gwaith hwn yn parhau yn 2021–22

Mae canfyddiadau cynnar eisoes yn dangos y raddfa a'r gwahaniaeth aruthrol y mae cefnogaeth chwaraewyr y Loteri Genedlaethol yn eu gwneud yng nghymunedau'r DU bob dydd.

Cyrhaeddodd y Gronfa bob etholaeth ac 80% o wardiau yn ystod y tair blynedd diwethaf yn unig - gyda **48 miliwn o bobl yn gweld prosiect yn cael ei ariannu yn eu hardal leol** (Lloegr yn unig). .

Ni yw'r prif ariannwr anstatudol o gyfleoedd i bobl ifanc, gan ddyrannu dros £860 miliwn o ariannu yn ystod y tair blynedd diwethaf (**sy'n cynrychioli tua thraean o'r ariannu ar gyfer pobl ifanc y tu allan i oriau ysgol**), gan wella cyfleoedd trwy brosiectau yn y celfyddydau, chwaraeon, gwirfoddoli a chymorth i mewn i gyflogaeth.

Rydym yn ymateb i anghenion a newidiadau yn ein cymunedau, er enghraifft trwy'r twf cyffredinol mewn ceisiadau (**i fyny 39% yn Lloegr**). Y gyfran o werth yr ariannu a ddyfernir i fudiadau bach yw 23%.

Rydym yn hanfodol o ran ariannu isadeiledd cymdeithasol lleol, sy'n gyfrifol am gefnogi dros **1,000 o ganolfannau cymunedol yn ystod** y tair blynedd diwethaf yn unig.

# Effaith gwirfoddoli

Arolygom bron i 14,000 o wirfoddolwyr mewn elusennau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol neu'r Llywodraeth sy'n gweithredu yn ystod y pandemig.

Mae'r data'n tynnu sylw at y buddion cadarnhaol o ddarparu cymorth di-dâl i fudiadau cymunedol ac elusennau lleol, gyda mwyafrif llethol (99%) o'r rhai a holwyd yn nodi o leiaf un budd cadarnhaol iddynt eu hunain oherwydd eu gwirfoddoli.

Dywedodd gwirfoddolwyr yn fwyaf cyffredin fod eu profiad wedi gwneud iddynt deimlo fel pe baent yn gwneud gwahaniaeth (84%) a'i fod wedi rhoi ymdeimlad o bwrpas neu gyflawniad personol iddynt (y ddau yn 66%). Dywedodd dros draean ei fod yn rhoi sgiliau a phrofiadau newydd iddynt (37%).

Cafodd llawer o'r rhai a wirfoddolodd yn ystod y pandemig eu cymell gan gryfhau eu perthnasoedd ag aelodau eraill o'u cymuned. Pan ofynnwyd iddynt y rhesymau pwysicaf dros roddi eu hamser yn ddi-dâl roeddent am deimlo eu bod yn gysylltiedig â'u cymuned (38%), gyda'r un nifer yn dweud eu bod am gymryd rhan yn ymateb eu cymuned i'r pandemig.

Dywedodd dros hanner y gwirfoddolwyr fod darparu cymorth di-dâl yn rhoi cysylltiad cryfach iddynt â'r gymuned leol (55%) ac yn dod â nhw i gysylltiad â phobl o wahanol gefndiroedd neu ddiwylliannau (53%). Roedd gwirfoddoli hefyd yn caniatáu iddynt gwrdd â phobl newydd (46%).

Nid yw gwirfoddoli o fudd i'r gymuned ehangach yn unig; gall hefyd gael effaith gadarnhaol ar y person sy'n rhoi o'i amser. Dywedodd bron i hanner (47%) y rhai a holwyd fod gwirfoddoli yn gwella eu hiechyd meddwl a'u lles.

Ym mis Tachwedd 2020, dangosodd ymgyrch Methu Allan i Helpu Allan, mewn partneriaeth â'r Loteri Genedlaethol, ITV a'r Gronfa, bŵer y gymuned.* Ymatebodd tua 700,000 o bobl yn gadarnhaol gyda gweithredoedd o garedigrwydd yn eu cymuned yn dilyn yr ymgyrch deledu ac ar-lein.

Gweithiodd yr ymgyrch gyda sawl elusen proffil uchel megis FareShare, Y Groes Goch Brydeinig a Chymdeithas Alzheimer i dynnu sylw at gyfleoedd gwirfoddoli. Roedd dros 58% o'r rhai a ymwelodd â'r wefan ar gyfer yr ymgyrch yn edrych am ffyrdd i wirfoddoli yn eu cymuned leol. Roedd y ffyrdd o gymryd rhan yn amrywio o gymorth ar-lein a dros y ffôn, cyfeillio â'r rhai a allai fod yn unig, dosbarthu bwyd a defnyddio celf i helpu pobl â'u hiechyd meddwl a'u lles.


Shore Street Garden

* Adroddiad Social Impact ITV, tud 56






Flourish

O'n Mynegai Ymchwil Cymunedol (7,000 o ymatebwyr ledled y DU) rydym yn gwybod y canlynol:

Mae **75%** yn dweud bod gwirfoddolwyr lleol yn bwysig ar gyfer cryfhau eu cymuned leol, tra bod 65% yn dweud eu bod yn haeddu mwy o gydnabyddiaeth.

Mae **30%** o bobl yn bwriadu cymryd mwy o ran yn eu cymuned yn dilyn y pandemig.

O astudiaeth annibynnol, gynrychioliadol gyda dros 5,000 o ddeiliaid grantiau yn 2021, gwyddom y canlynol:

Mae **82%** o'n deiliaid grantiau yn gweithio gyda gwirfoddolwyr **(hynny yw 4 o bob 5 deiliad grant).**

Mae **870,000** o wirfoddolwyr wedi cael eu hysgogi gan ein cyllid dros y tair blynedd diwethaf, mae hyn yn cynnwys **240,000 o wirfoddolwyr** newydd.

# Ein hariannu brys yn Lloegr

Aeth ein cyllid argyfwng (gan gynnwys Cronfa Gymorth Cymunedol y Coronafeirws mewn partneriaeth â'r Llywodraeth) i elusennau a grwpiau cymunedol ledled Lloegr a oedd angen help i gadw eu drysau ar agor a gwasanaethu eu cymuned leol. Rhoddodd yr arian achubiaeth i sefydliadau a oedd yn wynebu dod i ben ac i bobl a chymunedau ledled y wlad a oedd yn ei chael hi'n anodd fforddio hanfodion dyddiol.

Eleni gwnaethom

*15,463

o ddyfarniadau gwerth cyfanswm o **£338 miliwn.**

Ebrill-Tachwedd 2020



Laurencetown, Lenaderg and Tullylish Community Association.

*Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys ariannu'r Loteri Genedlaethol a DCMS, gall y ffigurau a adroddir ar ariannu DCMS yn unig fod yn wahanol.





**Cefnogodd**

**89%**

o ddyfarniadau gymunedau i gyflawni gweithgareddau sydd wedi'u hanelu'n benodol at gefnogi cymunedau trwy argyfwng COVID-19.

**Roedd**

**69%**

o'r dyfarniadau am £10,000 neu lai.

**Aeth**

**48%**

o ddyfarniadau i fudiadau micro neu fach

**Aeth**

**44%**

o'r ariannu i elusennau cofrestredig, **cyfanswm o £149 miliwn**

**Aeth yr ariannu hwn i bob awdurdod lleol yn Lloegr**

Daw'r data hwn o ddata monitro mewnol a gasglwyd yn ystod haf 2020. Am ddadansoddiad manwl o effaith ein hariannu argyfwng pwrpasol yn Lloegr, gweler Rhoi Cymunedau yn Gyntaf: Ein hadroddiad effaith.

**Aeth**

**19%**

o'r ariannu gwerth cyfanswm o £51 miliwn i fudiadau sy'n darparu cyngor a chefnogaeth i bobl sy'n cael eu gwthio i argyfwng.

**Aeth**

**17%**

o'r ariannu gwerth cyfanswm o £46 miliwn i fudiadau sy'n cefnogi pobl sy'n profi iechyd meddwl gwael.

**Aeth**

**14%**

o'r ariannu gwerth cyfanswm o £39 miliwn i fudiadau sy'n cefnogi pobl sy'n profi anghydraddoldebau iechyd.

**Bwriad**

**43%**

o'r dyfarniadau oedd cefnogi pobl sy'n profi unigrwydd ac arwahanrwydd.

**Bwriad**

**42%**

o'r ariannu oedd cefnogi elusennau i oroesi'r argyfwng ariannu uniongyrchol.

# Blwyddyn heb ei hail




Flourish

**Fe roddodd argyfwng y coronafeirws ofynion digynsail ar bob ariannwr. Roedd ein ffocws, ynghyd ag eraill, ar wneud popeth a oedd yn bosibl i gefnogi cymunedau ledled y DU wrth i effaith y pandemig ddatblygu.**

Dyfarnom arian a oedd yn caniatáu i grwpiau cymunedol barhau i gefnogi cymunedau lleol pan oedd y rhan fwyaf o weithgareddau a gwasanaethau arferol naill ai'n cael eu cau neu eu torri'n ôl yn sylweddol. Trwy ein gwaith, darparodd grwpiau cymunedol achubiaeth i'r bobl oedd angen eu help fwyaf. Fe wnaethant hyn yn gorfforol gyda bwyd a chyflenwadau, yn logistaidd trwy wasanaethau ehangach i gadw prosiectau i fynd, neu'n emosiynol trwy gwnsela cefnogol a chreu cysylltiadau i leihau arwahanrwydd cymdeithasol ac unigrwydd.

Ar unwaith, fe anfonom neges o sicrwydd a hyblygrwydd at yr holl ddeiliaid grantiau presennol. Fe ailddiffiniom ein cynnig ariannu ac addasu ein dulliau gweithio i sianelu arian mawr ei angen i gymunedau yn gyflym. Ar yr un pryd, fe weithiom mewn partneriaeth â llywodraethau cenedlaethol ledled y DU i lunio, cefnogi a dosbarthu ariannu fel rhan o'r pecynnau ymateb brys o'r cyhoedd i'r sector elusennol, gan alluogi grwpiau cymunedol, elusennau a mentrau cymdeithasol i ddarparu cefnogaeth uniongyrchol i bobl a cymunedau. Mae ein hariannu wedi cefnogi pobl ar draws y pedair gwlad, gan gyrraedd ardaloedd gwledig ac arfordirol, trefi a dinasoedd ledled y DU.





## Gweithio mewn partneriaeth

Cynyddodd gwerth gweithio mewn partneriaeth â mudiadau eraill i gynyddu cyrhaeddiad ac effaith ariannu'r Loteri Genedlaethol hyd yn oed ymhellach mewn ymateb i'r pandemig. Caniataodd inni ymateb yn gyflymach a chanolbwyntio ar ddiwallu anghenion cymunedau amrywiol ac adnewyddu ein hymrwymiad i'r ymagwedd hon.

Eleni fe ddyfarnom dros £753 miliwn o arian y Loteri Genedlaethol ac ariannu brys COVID-19 gan lywodraethau i gefnogi cymunedau ledled y DU. Gyda dros 20,000 o grantiau yn y cyfnod hwnnw, fe ddyfarnom 21% yn fwy o ariannu nag mewn blynyddoedd blaenorol, gyda staff yn gweithio'n ddiflino i sicrhau bod grwpiau cymunedol yn derbyn cymorth brys. Ar draws holl ddosbarthwyr y Loteri Genedlaethol, dyfarnwyd dros £1 biliwn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i achosion da, diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol.

O fewn wyth mis cyntaf y cyfnod clo, dyfarnwyd dros **£447 miliwn** yn llwyddiannus i dros **14,800** o brosiectau ledled y DU.

Trwy gydol yr holl ansicrwydd, arhosodd un peth yn gyson eleni: ysfa, angerdd ac ewyllys da cymunedau ledled y DU i ddod at ei gilydd a chefnogi ei gilydd yn ystod cyfnod anodd. Yn Lloegr, rydym wedi ariannu ychydig dros 8,000 o ddeiliaid grantiau trwy ein partneriaeth â'r Llywodraeth: Cronfa Gymorth Cymunedol y Coronafeirws. Mae canlyniadau dros dro ein hymchwil yn dangos bod mwyafrif y deiliaid grantiau (75%) wedi cefnogi pobl newydd gyda'u hariannu.

Bu ariannu alluogi mwy o bobl i wirfoddoli yn eu cymuned leol, gyda:

**56%** o wirfoddolwyr yn nodi ymdeimlad o gysylltiad â'u cymuned leol

**48%** yn nodi bod eu hiechyd meddwl a lles wedi gwella

**32%** yn nodi llai o unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol

Rydym wedi cefnogi ymateb Llywodraeth yr Alban i'r coronafeirws ers mis Mawrth 2020, gan ddarparu dros £3 miliwn o gronfeydd y Llywodraeth i 51 o grwpiau fel rhan o Gronfa Supporting Communities. Ar hyn o bryd rydym yn cydweithredu â Llywodraeth yr Alban, Sefydliad Corra, Cyngor Sefydliadau Gwirfoddol yr Alban (SCVO), Firstport, Inspiring Scotland, Menter yr Ucheldiroedd a'r Ynysoedd, Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu'r Alban ac ystod o fudiadau rhwydwaith cymunedol i gyflawni Cronfa Adfer y Coronafeirws.

Mae ein perthnasoedd cryf wedi caniatáu inni froceru a chefnogi mudiadau naill ai'n ariannol, neu trwy gysylltiadau newydd a dysgu ar y cyd.

Yng Nghymru, fe wnaeth ein hymagwedd seiliedig ar ardal ac ansawdd ein perthnasoedd hariannu ein galluogi i ymateb yn gyflym iawn i effaith gychwynnol argyfwng COVID-19. Roeddem yn rhagweithiol wrth gysylltu â phob deiliad grant i dawelu eu meddwl y byddai ein hariannu'n parhau i lifo ac y byddem yn eu cefnogi i ymateb i'r heriau yr oeddent yn eu hwynebu - p'un a oedd pwysau ariannol, galw cynyddol neu llunio ymateb brys.

Gofynnodd yr Adran Cymunedau yng Ngogledd Iwerddon inni ddosbarthu £8.8 miliwn o ariannu o'u Cronfa Elusennau COVID-19. Sefydlwyd hwn i gwrdd â chostau na ellir eu hosgoi ar gyfer elusennau sydd wedi disbyddu pob llwybr cymorth arall ac sy'n wynebu cau yn fuan iawn. Fe wnaethom gyflawni ar gyflymder, gan ddefnyddio ein gwybodaeth a'n perthnasoedd lleol helaeth, a dangos ein rôl fel gwneuthurwr grantiau dibynadwy.

Dywedodd derbynwyr grantiau wrthym fod yr arian hwn yn cadw eu mudiadau ar agor, gan ganiatáu iddynt barhau i ddarparu eu gwasanaethau, gan newid eu cynnig os oedd angen.

Rhan fawr o'n gwaith partneriaeth fu cyrraedd cymunedau a gafodd eu heffeithio fwyaf gan y pandemig - oherwydd hynny, bydd tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI) a chroestoriadedd yn parhau i fod yn ffocws mawr i ni yn 2021. Rydym eisoes yn aelodau o'r glymblaid Amrywiaeth, Ecwiti a Chynhwysiant lle rydym yn gweithio gydag arianwyr eraill i sicrhau ein bod gyda'n gilydd yn dod yn fwy cynhwysol ac yn gweithio tuag at ganlyniadau teg. Rydym hefyd yn gweithio ochr yn ochr ag arianwyr eraill a 360Giving i ddatblygu ein gallu i gipio gwell data ar y grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yr ydym yn bwriadu eu cyrraedd trwy ein hariannu. Rydym yn glir bod ariannu'r Loteri Genedlaethol ar gyfer pawb ac wedi bod yn buddsoddi mewn rolau pwrpasol i'n cefnogi yn ein huchelgais i gyflawni ar gyfer pob cymuned ledled y DU.


Monkstown Boxing Club





## Pobl Ifanc yn Arwain



Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi ariannu **4,200 o brosiectau** sy'n cefnogi pobl ifanc gyda gwerth o

**£238m**



"Rwyf wrth fy modd yn gweithio gyda grŵp mor amrywiol ac ysbrydoledig o bobl ifanc i lunio ariannu a fydd yn cael effaith gadarn-haol ar filoedd o fywydau."

Kim, Panel Cynghori Pobl Ifanc yn Arwain, Cymru

Fel yr ariannwr mwyaf o weithgaredd ieuenctid yn y DU, rydyn ni am sicrhau bod lleisiau pobl ifanc yn cael eu cynnwys yn ein holl waith, p'un ai trwy'r grantiau rydyn ni'n eu rhoi, y bobl rydyn ni'n gweithio gyda nhw neu'r hyn rydyn ni'n ei ddysgu.

Yng Nghymru a Lloegr y flwyddyn ariannol hon, aethom at i recriwtio pobl ifanc o ledled y prosiectau yr ydym yn eu hariannu ar hyn o bryd i fod yn bartner gyda ni trwy gydol y flwyddyn. Gan ffurfio Panel Cynghori Pobl Ifanc yn Arwain yn y ddwy wlad, rydym yn defnyddio eu hadborth i lywio ein ffordd o feddwl am y camau nesaf ar gyfer ein hariannu ac anghenion pobl ifanc trwy gydol ein hariannu brys.

Ym mis Mawrth 2020, fe ddangosom ymrwymiad cryf i'n strategaeth Pobl Ifanc yn Arwain trwy ofyn i ddau gynrychiolydd fod yn rhan o'n Pwyllgor yn Lloegr, gan ychwanegu amrywiaeth at y trafodaethau ynghylch ein hariannu yn y dyfodol a darparu mewnwelediadau a phrofiadau ffres.

Bellach mae gan ein pobl ifanc rolau dylanwadol fel arsylwyr yng nghyfarfodydd y Bwrdd. Maent yn chwarae rhan weithredol yng ngrŵp llywio'r Adran dros Ddigidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) ac yn eistedd ar fyrddau arweinyddiaeth arianwyr eraill fel Bwrdd Arweinyddiaeth Cronfa #iwill ac arwain Llais Ieuenctid ar ran rhwydwaith Arianwyr Plant a Phobl Ifanc.



Welcome to our woods

## Yr Amgylchedd

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweld cymunedau'n dod at ei gilydd ac yn cyflwyno ymatebion effeithiol nid yn unig i argyfwng y coronafeirws, ond hefyd i'r argyfwng yn yr hinsawdd sy'n tyfu.

Mae'r Gronfa Gweithredu Hinsawdd yn rhan o'n Strategaeth Amgylchedd, sydd wedi gweld buddsoddiad sylweddol gan y Loteri Genedlaethol trwy brosiectau a arweinir gan y gymuned sy'n canolbwyntio ar weithgareddau sydd nid yn unig yn gwella'r amgylchedd, ond hefyd yn ei ddefnyddio i wella bywydau pobl a chymunedau.

Rydym wedi ymrwymo £100 miliwn dros 10 mlynedd ar gyfer gweithredu yn yr hinsawdd, gan leihau ôl troed carbon cymunedau a chefnogi mudiadau a arweinir gan y gymuned. Hyd yn hyn mae ein Cronfa Gweithredu Hinsawdd wedi dyfarnu 27 dyfarniad o bron i £20 miliwn, gyda dyfarniadau pellach yn cael eu dyfarnu yn ddiweddarach eleni, a fydd yn dangos yr hyn sy'n bosibl pan fydd pobl yn arwain wrth fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

Eleni rydym wedi dyfarnu dros

**£85m**

i brosiectau sydd ag elfen amgylcheddol, trwy **1,476 o grantiau.**

Yn ogystal â hyn, mae'r Gronfa'n archwilio sut i ymgorffori'r amgylchedd a gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd trwy gydol ei phortffolios ariannu, megis ei grantiau amgylcheddol atodol sy'n cael eu treialu yng Nghymru ar hyn o bryd.





## Mynegai Ymchwil Cymunedol

Wrth i'r DU ddechrau adfer o argyfwng y coronafeirws, byddwn yn edrych tuag at yr hyn rydyn ni wedi'i ddysgu o'r flwyddyn ddiwethaf ac yn gwrando ar y bobl a'r cymunedau rydyn ni'n eu hariannu i ddarganfod y ffordd orau i barhau â'n cefnogaeth. Mae ymchwil a gynhaliwyd gennym ar ddiwedd 2020 yn awgrymu y gallai'r pandemig fod yn newid arwyddocaol i'r DU, gan arwain pobl i wneud newidiadau parhaol i'r ffordd y maent yn byw eu bywydau a'r cysylltiadau y maent yn eu hadeiladu gyda ffrindiau, teulu a'r gymuned ehangach.

Dywed **77%** y bydd y pandemig yn newid eu hymddygiad.

Mae **48%** o'r farn y bydd ysbryd cymunedol yn well yn yr hir dymor yn dilyn y pandemig.

Mae **46%** o'r farn y bydd COVID-19 yn cael effaith gadarnhaol ar faint mae pobl yn poeni am eraill.

Daw'r canfyddiadau o'n Mynegai Ymchwil Cymunedol sydd newydd ei lansio - arolwg blynyddol o oedolion ledled y DU gyda'r nod o gael gwell dealltwriaeth o ysbryd cymunedol a'r asedau cymunedol lleol y mae pobl yn hoff iawn ohonynt.

## Cynnull

Fel mudiad DU-gyfan, mae cynnull deiliaid grantiau o bob cwr o'r DU wedi bod yn heriol erioed. Fe wnaeth Cynhadledd Communities Can ar-lein ym mis Mawrth oresgyn yr her hon, gan ganiatáu i grwpiau gysylltu a rhannu dysgu o argyfwng COVID-19.

Ar draws y dydd, mynychodd 726 o bobl y gynhadledd a chlywsom gan 38 o wahanol siaradwyr, gan gynnwys y Farwnes Barran, y Gweinidog Cymdeithas Sifil, a draddododd araith gyweirnod adlewyrchol ac ysbrydoledig.

Helpodd yr amgylchedd ar-lein i chwalu rhwystrau daearyddol ac roedd yn golygu y gallem fod yn wirioneddol gynrychioliadol o'r cymunedau eang ac amrywiol yr ydym yn eu cefnogi. **"Roedd y digwyddiad yn ysbrydoledig yn enwedig y bobl ifanc. Fe wnaeth fy ysbrydoli i fod eisiau gwneud mwy gyda'r bobl ifanc LGBTQ+ rydyn ni'n gweithio gyda nhw ac ar eu cyfer."** Cyfranogwr Communities Can.

Fe greon ni fwy o leoedd i gynnull gyda lansiad pum Clwb Coffi Cymunedol i ddeiliaid grant yn Lloegr, gan roi cyfle i 3,200 o elusennau a grwpiau cymunedol gael sgwrs rithwir â chyfoed o fudiad arall. Daeth y digwyddiad cyntaf â chwarter ein deiliaid grant ynghyd o'r de-orllewin i gysylltu a rhannu. Roedd 97% o'r farn ei fod yn ffordd dda o dreulio amser, roedd 95% yn gwerthfawrogi'r cyfle i gynnig help a chyngor i gyfoed ac roedd 88% yn teimlo'n llai ynysig o ganlyniad.

> **"Dyma'r person cyntaf i mi siarad ag ef yn y chwe mis diwethaf, diolch am y cyfle hwn."**
>
> Cyfranogwr

Ar ôl blwyddyn eithriadol byddwn yn parhau i fod yma i bawb, gan gefnogi ymdrech adfer ac ailadeiladu pobl a chymunedau ledled y DU.



Shantona

> "Rydw i bob amser yn cwestiynu'r effaith rydyn ni'n ei chael - ar hyn o bryd, mae'r effaith yn enfawr, ac mae'n dangos."
>
> Nahid, Prif Swyddog Gweithredol

# Lloegr

Dyfarnwyd
**£358 miliwn**
**ar draws**
**6,500 o grantiau**





## Parhau i wasanaethu cymunedau

Trwy gydol y flwyddyn, mae ein timau ariannu rhanbarthol wedi bod yn gweithio gyda phobl a chymunedau ledled y wlad i'w helpu i addasu a chwrdd â'r heriau sy'n eu hwynebu yn sgil argyfwng y coronafeirws.

Er na ellid cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb mwyach, bu ein staff ariannu sicrhau eu bod wrth law i ymateb i ymholiadau deiliaid grantiau a chynnig cyngor ariannu ar-lein. Bu elusennau dirifedi a grwpiau cymunedol newid eu cynnig i wasanaethau ar-lein neu newid eu cefnogaeth i gymunedau i gefnogaeth arianwyr brys, gan gyflenwi bwyd a hanfodion eraill i'r rhai mewn angen. Roeddem yn hyblyg gyda'n hariannu, naill ai'n cynnig grantiau atodol neu'n ymestyn ariannu lle bo angen. Mewn partneriaeth â'r Llywodraeth yn Lloegr i ddarparu ariannu brys trwy Gronfa Gymorth Cymunedol y Coronafeirws, fe ddyfarnom dros £275 miliwn i 8,483 o brosiectau, gan alluogi cymunedau i barhau i wneud eu gwaith hanfodol yn ystod cyfnod cythryblus.

Mae Heart of BS13 yn fudiad cymunedol yn ne Bryste sy'n defnyddio ymagwedd amgylcheddol o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, megis salwch meddwl ac ansicrwydd bwyd. Roedd y mudiad wedi dechrau ystyried ehangu ei wasanaethau i ddarparu prydau bwyd am ddim neu gost isel i bobl a oedd yn cael trafferth gyda thlodi bwyd, pan darodd COVID-19.

Dywed Kristjan, Cogydd ac Arweinydd Menter Maeth: "Diolch i grant o £78,736 gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, rydw i a fy nghyd-gogydd, Luke, yn amcangyfrif ein bod ni bellach wedi coginio dros 17,000 o brydau bwyd, wedi'u danfon gan wirfoddolwyr a gan fudiad lleol arall, Siop Feiciau FixX Bikes."

Derbyniodd Empowr-U yn Coventry ariannu i ddarparu rhaglen fentora i bobl ifanc. Mae gwirfoddolwyr wedi bod yn cefnogi eu cymuned ledled y pandemig gyda gweithgareddau a lleoedd i drafod iechyd meddwl.

> "Rydyn ni wedi gallu darparu gweithgareddau i bobl ifanc yn Coventry gymryd rhan ynddynt. Heb y gefnogaeth hon, ni fyddem wedi gallu ehangu ein gwasanaeth - mae wedi ein helpu i dyfu a chreu cymuned fentora mwy fyth."
>
> Joe, Cyfarwyddwr, Empowr-U

Roedd dros **5,000** o'n grantiau eleni am lai na **£10,000**, ac **82%** o'r grantiau hyn i fudiadau â throsiant o lai na **£1 miliwn**.

## Cadw pobl gyda'i gilydd

Taflodd argyfwng y coronafeirws oleuni ar bwysigrwydd cadw pobl yn gysylltiedig.

Derbyniodd The Abbey Community Centre ariannu i gysylltu pobl hŷn â gwirfoddolwyr TG-llythrennog i gefnogi eu dysgu, lleihau unigedd a gwella lles yn ystod pandemig cyfredol COVID-19.

> **"Mae'r pandemig wedi bod yn gyfnod anhygoel o unig i lawer o bobl. Yr ymadrodd rwy'n ei glywed bob tro rwy'n gwneud y galwadau ffôn hyn yw 'diolch am ofalu'. Maen nhw mor ddiolchgar bod rhywun allan yna yn gofyn amdanyn nhw ac ar gael i siarad os ydyn nhw ei angen."**
>
> Caroline, Ymddiriedolwyr a Gwirfoddolwr dros y Ffôn, The Abbey Community Centre.

Mae Healthy Communities Together yn rhaglen newydd a ddatblygwyd gyda The King's Fund, yr elusen gofal iechyd, i leihau anghydraddoldebau iechyd a gwella iechyd a lles. Gan gefnogi a datblygu partneriaethau rhwng y sector gwirfoddol a chymunedol, y GIG, ac awdurdodau lleol, fe roddom ariannu gwerth £50,000 i chwe phartneriaeth ledled Lloegr i ddatblygu'r cydweithio hwn. Yn fuan ar ôl ein hariannu cychwynnol, bu i ni gydnabod y pwysigrwydd ac angen cynyddol am y gwaith hwn, gan ddyfarnu 14 grant datblygu ychwanegol.

Wedi'i hagor eleni, mae Local Connections Fund yn helpu elusennau a grwpiau cymunedol yn Lloegr sy'n gweithio i leihau unigrwydd trwy eu cynorthwyo i adeiladu cysylltiadau ar draws eu cymunedau. Mae £2 filiwn yn cael ei fuddsoddi gan yr Adran Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) a'r Gronfa. Rhennir yr ariannu'n filoedd o ficrograntau a ddyfernir i fudiadau bach (gydag incwm blynyddol o £50,000 neu lai) sy'n dod â phobl a chymunedau ynghyd. Mae 871 o ddyfarniadau wedi'u dyfarnu hyd yma i fudiadau megis LilyAnne's, caffi cymunedol yn Hartlepool sy'n dosbarthu hamperi i bobl ynysig sy'n byw ar eu pennau eu hunain. Dywedodd Trevor, Rheolwr LilyAnne's: "Roeddem am greu ffordd o ddangos i aelodau ein cymuned ein bod yn gofalu trwy ddarparu pecynnau bwyd bach a fydd yn helpu i wella lles meddyliol y rhai sydd wedi'u hynysu'n gymdeithasol."

## Rydym yn gatalydd i bobl eraill

Roedd gweithio mewn partneriaeth yn rhan annatod o'n hymateb i'r argyfwng. Fe ddyfarnom £59.4 miliwn i 14 o bartneriaid arbenigol a ariannodd dros 3000 o grantiau, gan sicrhau ymateb cyflym a chefnogaeth i ystod ehangach o bobl a chymunedau ar lefel llawr gwlad. Trwy ein Partneriaeth Cronfa Cymorth Menter Gymdeithasol COVID-19, rydym yn gweithio gydag Ymddiriedolaeth Barrow Cadbury wrth iddynt weithio i leddfu caledi a chwalu rhwystrau at gyrchu gwasanaethau a brofir gan aelodau o gymunedau mudol a ffoaduriaid, o ganlyniad i'r pandemig.

"Mae hwn yn hwb i'w groesawu'n fawr i ran o'r sector sy'n ei chael hi'n anodd iawn. Byddwn yn sicrhau bod pob ceiniog yn cael ei defnyddio i gefnogi ffoaduriaid ac ymfudwyr yn ystod y cyfnod anodd hwn." Sara, Prif Weithredwr, Ymddiriedolaeth Barrow Cadbury Trust.





Dyfarnwyd dros £2 filiwn o arian y Loteri Genedlaethol trwy ein rhaglen ariannu gydweithredol gyda'r Gronfa Fyd-eang i Blant. Dyluniwyd Cronfa Phoenix yn ei chyfanrwydd gan grŵp craidd o fudiadau du a lleiafrifol dan arweiniad y gymuned o bob rhan o Loegr, gyda lens cyfiawnder yn ganolog iddo.

## Rydym yn dysgu gan y bobl a'r cymunedau rydym yn eu hariannu

Un o gryfderau allweddol ein hariannu ymatebol yw'r gallu i sicrhau bod ein hariannu'n gysylltiedig â'r cyd-destun lleol. Trwy hyn rydym wedi gweld rhai themâu allweddol yn dod i'r amlwg ledled y wlad - cyflogaeth, iechyd a lles, anghenion cymhleth, unigrwydd, plant a phobl ifanc. Mae'r themâu hyn yn cyd-fynd â'n buddsoddiadau strategol ac yn y dyfodol, rhan o'n ffocws fydd sut rydym yn parhau i ariannu'n strategol ar draws themâu a dysgu o hyn.



Mae **60%** o bobl sydd wedi cymryd rhan yn 14 rhaglen Ageing Better ledled Lloegr wedi nodi eu bod yn **teimlo'n llai unig.**



Ageing Better

Sefydlwyd HeadStart ac Ageing Better fel rhaglenni strategol hir dymor i fynd i'r afael â rhai o broblemau cymdeithasol mwyaf sefydlog cymdeithas mewn modd arloesol.

Disgwylir i'r ddwy raglen ddod i ben yn 2021. Dyfarnwyd ariannu gwerth £14.7 miliwn arall iddynt i leddfu'r anawsterau y mae cymunedau yn eu profi oherwydd COVID-19. Mae HeadStart wedi defnyddio'r ariannu ychwanegol hwn i gynorthwyo pobl ifanc i gael gafael ar yr help sydd ei angen arnynt mewn ymateb i'r galw cynyddol oherwydd y pandemig.

Rydym yn cefnogi rhaglen Changing Futures y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol trwy fuddsoddiad ychwanegol o £17.9 miliwn. Mae'r ariannu hwn yn adeiladu ar y dysgu o'n rhaglen Fulfilling Lives, gan fuddsoddi £112 miliwn i wella cefnogaeth i bobl agored i niwed trwy roi mwy o lais iddynt wrth ddylunio a darparu gwasanaethau.

Mae sgyrsiau gyda sawl budd-ddeiliad yn nodi'r cyfnodau heriol sydd o'n blaenau yn y sector elusennol yn Lloegr, nid yn unig yn ariannol, ond hefyd yn logistaidd wrth i grwpiau cymunedol ail-gyfaddasu ac addasu wrth i gyfyngiadau hwyluso a chymdeithasu. Bydd ein pwrpas o gefnogi cymunedau i ffynnu fel yr ariannwr mwyaf o weithgaredd cymunedol yn y DU yn parhau i fod mor berthnasol ag erioed.



Licketyspit

Mae'r sesiynau Zoom wedi bod yn wych. O'n hystafell fyw ein hunain gallwn fynd yn ddiogel ar anturiaethau rhyfeddol gyda theuluoedd o rannau eraill o Glasgow."

Boatemaa, Gwirfoddolwr

# Yr Alban

Dyfarnwyd
**£54 miliwn**
**ar draws**
**1,532 o grantiau**





## Parhau i wasanaethu cymunedau

Roeddem yn canolbwyntio ar gefnogi cymunedau trwy'r pandemig. Roeddem yn falch o weithio mewn partneriaeth ag arianwyr eraill i ddatblygu a darparu ariannu ymateb brys Llywodraeth yr Alban.

Er mis Mawrth 2020, rydym wedi cyflwyno dros **£3 miliwn** o gronfeydd y llywodraeth i **51 o grwpiau** fel rhan o'r gronfa Supporting Communities ac wedi dyfarnu **385 o ddyfarniadau** i'r gronfa Communities Recovery oedd yn werth dros **£7 miliwn.**

Mae hwn yn gyflawniad sylweddol i'r tîm ac mae'n cynrychioli cynnydd o 16 y cant mewn ymrwymiad ariannu yn ychwanegol at ein hariannu Loteri Genedlaethol graidd a thrydydd parti arall.

Mae ein harbenigedd mewn rhoi grantiau perthynol a'n perthnasoedd lleol dwfn wedi bod yn allweddol i'n gwaith, gyda'n wyth tîm ardal yn gwneud gwahaniaeth i grwpiau trwy ddeall yr hyn sydd ei angen arnynt i helpu eu cymuned i ffynnu, yn enwedig yn ystod y flwyddyn ddigynsail hon.

Er gwaethaf y pandemig, roedd ein hygyrchedd a'n perthnasoedd cryf yn golygu ein bod wedi cefnogi mudiadau megis Home-Start Renfrewshire ac Inverclyde gyda grant o £442,309 i addasu sut maen nhw'n darparu gwasanaethau llwyddiannus, gan ariannu ffyrdd i bobl wneud cysylltiadau newydd a rhannu dysgu.

Roedd mam ifanc 22 oed, Amyleigh, yn cael trafferth gydag iselder ôl-enedigol ac mae wedi canfod bod cefnogaeth Home Start Renfrewshire ac Inverclyde yn achubiaeth.



"Nid aeth wythnos heibio heb i rywun anfon neges destun, ffonio neu alw heibio fy nhŷ i sicrhau ein bod ni'n dau yn iawn. Mae Home-Start wedi newid fy mywyd yn llwyr er gwell."

Amyleigh, Home Start Renfrewshire ac Inverclyde

Ac rydym wedi cynnal ein taith tuag at gefnogi mudiadau sydd ag incwm o lai na £150,000 y flwyddyn, gyda 58% o'n holl grantiau (gwerth £17 miliwn) yn cael eu dyfarnu i'r mudiadau hyn, sy'n aml yn lleol.

## Cadw pobl gyda'i gilydd

Mae pobl wrth wraidd popeth a wnawn. Mae ein rhaglen Improving Lives yn cefnogi pobl i oresgyn amgylchiadau heriol a dod yn fwy gwydn. Mae ein £153,334 mewn arian nu i'r Scottish Ethnic Minority Deaf Club (SEMDC) wedi sicrhau bod eu hamrywiaeth hanfodol o weithgareddau a gwasanaethau cymorth i oedolion o'r gymuned ethnig fyddar, yn parhau i wneud gwahaniaeth dros y flwyddyn ddiwethaf anodd.



Scottish Ethnic Minority Deaf Club

"Mae ein haelodau yn aml yn agored i niwed ac wedi'u hynysu'n ddifrifol, ac mae'r prosiect hwn yn helpu i gynyddu hyder ac annibyniaeth yn gyffredinol."

Tasnim, Rheolwr Prosiect, Scottish Ethnic Minority Deaf Club

Fe wnaethon ni brofi ymagwedd i fynd i'r afael â mannau oer ar gyfer ariannu yng Nghaeredin. Gan weithio gyda mudiadau angor cymunedol lleol (CAO) fe ganfuom er bod grwpiau'n ymwybodol ohonom, nid oeddent yn credu bod ein hariannu ar eu cyfer. Gan weithio mewn partneriaeth â CAO yn Craigmillar a Craigentinny, llwyddodd ein tîm ariannu i ddyfarnu dau grant gwerth £10,000 i gyflawni cyfres o ficro-brosiectau gyda mudiadau cymunedol ar lawr gwlad. Mae'r cydweithrediad hwn â mudiadau lleol dibynadwy wedi gweddnewid ein henw da yn y meysydd hyn ac wedi dod â llawer mwy o bobl ynghyd trwy ein hariannu. Trwy fod ar gael i siarad â phobl am eu syniadau a gallu cynnig mynediad at symiau cyflym, bach o arian, mae pobl wedi ein cael yn hygyrch ac yn gallu gweld yr hyn y gallant ei gyflawni gyda chefnogaeth y Loteri Genedlaethol.

## Rydym yn gatalydd i bobl eraill

Gall fod yn anodd cynnwys cymunedau yn ystyrlon mewn prosiectau sydd wedi'u cynllunio i gyflawni eu nodau, a dyna pam rydyn ni'n cefnogi ein grwpiau'n agos yn y gwaith hwn.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydyn ni wedi gweithio gyda sawl grŵp sy'n canolbwyntio ar anabledd yn gofyn iddyn nhw, a'r rhai sydd â phrofiad o fyw gydag anabledd, sut allwn ni weithio gyda nhw yn well. Dywed un cyfranogwr: "Mae'n ymagwedd flaengar iawn i ariannwr ei gymryd ac rwy'n mawr obeithio y byddwn yn gweld arianwyr eraill yn gwneud mwy ohono." Mae dysgu sy'n dod i'r amlwg o'r gwaith hwn yn cael ei ddefnyddio i lywio cynlluniau gwaith ein timau ardal yn ogystal â gwaith ar draws y Gronfa.

Fe ddyfarnom £3,620 i Dundee International Women's Center (DIWC) i barhau i ddarparu cymorth iechyd meddwl, yn ogystal â gweithgareddau cymdeithasol a dysgu dros y ffôn a chyfryngau cymdeithasol i fenywod ynysig o gefndiroedd mudol a lleiafrifoedd ethnig.

"Nid ydym wedi gallu cynnig ein cartref oddi cartref arferol i'n dysgwyr ynysig iawn yn ein Canolfan ar hyn o bryd, ond mae hyn wedi golygu y gallwn estyn allan yn ddigidol a dros y ffôn. Mae menywod sy'n dibynnu ar DIWC am gyfeillgarwch a dysgu wedi dal i allu cysylltu â'u dosbarthiadau a'u grwpiau gartref a chynnal y cysylltiadau pwysig hyn." Susan, Swyddog Gwerthuso ac Effaith, Dundee International Women's Centre.

Mae Friends at the End yn fudiad sy'n helpu pobl i roi eu dogfennaeth diwedd oes yn ei lle megis ewyllys neu bŵer atwrnai. Cyn y pandemig, cynhaliodd yr elusen weithdai i helpu pobl gyda'u gwaith papur. Dyma Amanda yn esbonio: "Llawer o'r gwaith rydyn ni'n ei wneud yw ceisio rhoi rheolaeth yn ôl i bobl, er mwyn rhoi dewisiadau a chyfleoedd iddyn nhw."

Daeth newidiadau enfawr yn sgil y cyfnod clo ac estynnodd yr elusen allan i'w haelodaeth bresennol i ofyn sut y gallent barhau i'w cefnogi. Fe aethant ati hefyd i godi ymwybyddiaeth trwy grwpiau gwirfoddol, cyfryngau lleol a chymdeithasol. O ganlyniad, mae mwy o rwydweithiau cyfeillio wedi ychwanegu Friends at the End, sy'n derbyn llawer mwy o atgyfeiriadau. Mae nifer yr ymholiadau wedi treblu wrth i fwy o bobl wynebu marwolaeth nag erioed o'r blaen.

## Rydym yn dysgu gan y bobl a'r cymunedau rydym yn eu hariannu

Galluogodd ein hymagwedd seiliedig ar ardal ac ansawdd ein perthnasoedd ariannu i ni ymateb yn gyflym i effaith gychwynnol COVID-19. Fe gynhaliom sgyrsiau cynnar gyda'n holl ddeiliaid grantiau a derbyniodd ariannu gwerth dros £10,000, gan sicrhau ein bod yn eu cefnogi gyda'r adnoddau sydd eu hangen i gynnal gwaith, ac i ymateb i heriau'r argyfwng.

Gofynnom iddynt beth oedd ei angen arnynt a chynigiwyd amrywiadau i'r dyfarniadau presennol lle bo hynny'n briodol fel y gallem gael ariannu hanfodol iddynt yn gyflym. Roedd ein dyfarniad o £127,150 i Ayrshire Cancer Support (ACS) yn golygu y gallent ymestyn eu gwasanaethau arbenigol i weithio gyda phobl sy'n profi profedigaeth o ganlyniad i COVID-19.



"Mae'r staff yma yn anhygoel ac wedi fy helpu cymaint yn ystod fy nhaith canser. Nawr rwy'n gwirfoddoli gyda nhw. Rwyf wrth fy modd yn gallu helpu unrhyw un sy'n dod i mewn i'r ganolfan."

Alan, Ayrshire Cancer Support

Ar ddechrau'r argyfwng, roedd y rhan fwyaf o'n harian cysylltiedig â COVID-19 yn cefnogi dosbarthiad bwyd i bobl yr oedd yr argyfwng yn effeithio'n uniongyrchol arnynt. Bu i ni hefyd gefnogi grwpiau i barhau i ddarparu eu gwasanaethau o bell, gan ariannu caledwedd a meddalwedd TG. Mae ein hymateb i COVID-19 hefyd wedi dangos lle mae angen i ni ganolbwyntio mwy o ran estyn allan a chefnogi grwpiau y mae'r pandemig yn effeithio'n anghymesur arnynt.



Yr Alban




Flourish

"Mae'r Pantri'n wych. Dechreuodd fel 50 i 60kg o fwyd yr wythnos mewn un oergell ac erbyn hyn rydyn ni'n dosbarthu tunnell ac mae gennym ni bedwar oergell a rhewgell!"

Jenny, Gwirfoddolwr, Flourish

# Cymru

Dyfarnwyd
**£31 miliwn**
**ar draws**
**894 prosiect**





## Parhau i wasanaethu cymunedau

Gallem drosglwyddo'n ddi-dor i gefnogi cymunedau o bell yn ystod argyfwng COVID-19 diolch i'n perthnasoedd cryf â chymunedau ledled Cymru.

Er gwaethaf y cyfyngiadau ar gwrdd yn bersonol, gallem ddefnyddio ein rhwydweithiau i fod yno ar gyfer cymunedau, p'un ai trwy gynnal presenoldeb mewn dros 60 o ddigwyddiadau ariannu ar-lein neu drwy redeg gwasanaeth dibynadwy gyda'n Llinell Gyngor, gan gefnogi dros 1,300 o grwpiau i wneud cais am ein hariannu. Fe wnaethom hefyd gynnal digwyddiadau wedi'u targedu i gefnogi cymunedau yr oedd y pandemig yn effeithio'n anghymesur arnynt oherwydd salwch neu arwahanrwydd, gan gynnwys meddygfeydd ar gyfer grwpiau dan arweiniad LHDTC+.

Daeth sesiynau rhwydweithio ar-lein â grwpiau ynghyd i rannu dysgu ac arfer gorau. Buom yn gweithio gyda Chymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin i sefydlu digwyddiadau rhwydweithio anffurfiol ar gyfer grwpiau a mudiadau. Arweiniodd sesiwn wedi'i hanelu at fudiadau sy'n cefnogi pobl ifanc at ddatblygu Fforwm Ieuenctid newydd ledled y sir, gan ddefnyddio cryfder ac asedau ei holl aelodau.

Nododd ein data a'n gwybodaeth leol fod cymunedau yn Blaenau Gwent wedi'u tangynrychioli yn ein hariannu. Fe gyflwynom gynllun peilot micrograntau i gyrraedd grwpiau newydd. Gyda ffurflen gais syml, allgymorth rhagweithiol a grantiau hyd at £300, llwyddwyd i ddenu ystod amrywiol o grwpiau, y mwyafrif ohonynt erioed wedi derbyn ariannu gennym o'r blaen.

"Yn ystod COVID-19 fe benderfynon ni annog y gymuned i wau o gysur eu cartrefi eu hunain, gan ddarparu cefnogaeth rithwir. Mae'r weithred o ymuno â'i gilydd i wau a/neu sgwrsio wedi cael effaith gadarnhaol enfawr ar hyder, lefelau straen a lles cyffredinol pobl."

Maria, Stiwdios Persona

## Cadw pobl gyda'i gilydd

Trwy ein hariannu ymatebol, rydym wedi galluogi cymunedau i addasu ac ymateb i argyfwng y coronafeirws. Defnyddiodd nifer o brosiectau dan arweiniad gwirfoddolwyr ein hariannu i helpu pobl i gyrchu hanfodion dyddiol ym mhob awdurdod lleol ledled Cymru.

Defnyddiodd un bartneriaeth rhwng **Medrwn Môn**, Cyngor Sir Ynys Môn a Menter Môn **£59,995** i ymateb i gynnydd mawr yn nifer y gwirfoddolwyr.

"Cafwyd ymateb anhygoel gan ein cymunedau gyda dros 850 o wirfoddolwyr o 37 o dimau Cefnogaeth Ardal yn dod ymlaen i gefnogi preswylwyr yr ynys. Mae ariannu'r Loteri Genedlaethol wedi golygu ein bod yn gallu sicrhau cyflenwad cyson o fwyd, Cyfarpar Diogelu Personol a gwybodaeth gyhoeddus."

Seiriol, Medrwn Môn

Derbyniodd Gofal Solfach £94,888 i ddod â grwpiau cymunedol a gwasanaethau cyhoeddus at ei gilydd ledled Sir Benfro trwy raglen partneriaeth Gyda'n Gilydd dros Newid. "Mae grwpiau cymunedol wedi bod yn hanfodol erioed i iechyd a lles y boblogaeth, ond mae COVID-19 wedi dangos pa mor bwysig ydyn nhw trwy addasu'n gyflym ac yn greadigol i gwrdd â heriau diweddar. Rydym yn hynod falch o fod wedi derbyn y grant hwn gan y Loteri Genedlaethol. Bydd hwn yn helpu i adael etifeddiaeth gadarnhaol ar ôl effaith COVID-19." Sue, Gofal Solfach

Yn y cyfamser yn Abertawe, derbyniodd Congolese Development Project £10,000 i ddosbarthu bwyd, helpu gyda siopa, cynnal dosbarthiadau llesiant ar-lein a lledaenu ymwybyddiaeth o sgamiau COVID-19 gyda chefnogaeth gwirfoddolwyr. Pan darodd COVID-19, aethon nhw ati i weithredu ar unwaith, gan wneud parseli a'u dosbarthu i bobl a oedd yn agored i niwed, wedi'u hynysu ac mewn angen. Un profiad arbennig o fythgofiadwy i Richard, gwirfoddolwr, oedd helpu menyw feichiog nad oedd wed gallu gadael ei chartref.

"Roedd hi wedi bod yn ei hystafell am ddau ddiwrnod heb fwyd gan nad oedd hi'n gallu sefyll ac roedd ganddi bresgripsiwn ar gyfer y feddyginiaeth roedd ei hangen arni. Des i yn ôl ychydig o oriau wedyn gyda'i meddyginiaeth hi. Roedd hi'n hapus iawn."

Richard, Gwirfoddolwr, Congolese Development Project

## Rydym yn gatalydd i bobl eraill

Er bod COVID-19 wedi cymryd drosodd fel blaenoriaeth eleni, nid ydym wedi colli golwg ar y darlun ehangach. Trwy ein hariannu rydym yn ysbrydoli grwpiau i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yn eu cymunedau. Gall newidiadau bach gael effaith fawr. Er enghraifft, bu i'n peilot Ychwanegiadau Gweithredu Hinsawdd alluogi The Hwb Torfaen i ddiweddaru eu gosodiadau golau i rai LED, gan arwain at amcan arbediad blynyddol o £2,019 a 5.1 tunnell o $CO_2$.



Gerddi Bro Ddyfi Gardens

Mae ein cynllun Hwb i'r Hinsawdd wedi galluogi 34 o grwpiau nad sy'n rhai amgylcheddol i dderbyn hyd at £15,000 o ariannu i leihau eu heffaith ar yr amgylchedd, gyda chefnogaeth ychwanegol yn y gwaith hwn oddi wrth Adfywio Cymru a Chymunedau Cynaliadwy Cymru. Mae Gerddi Bro Ddyfi Gardens wedi plannu coed ffrwythau a chnau a llwyni ffrwythau meddal mewn mannau cymunedol ledled Machynlleth i gynyddu bioamrywiaeth, tyfu bwyd a chysylltu'r gymuned â'u hamgylchedd lleol.





## Rydym yn dysgu gan y bobl a'r cymunedau rydym yn eu hariannu

Trwy ymgysylltu â'n budd-ddeiliaid, y sector a'r cyhoedd, fe nodom bod cefnogi gwytnwch pobl ifanc yn flaenoriaeth i Gymru. Fe ymatebom trwy recriwtio panel cynghori o ddeg person ifanc amrywiol a ddyluniodd a chynnal ymchwil gyda phobl ifanc eraill ledled Cymru i ddeall pa faterion sydd bwysicaf iddyn nhw.



Dangosodd ymchwil bod **50% o bobl ifanc**, sydd wedi cael eu heffeithio mewn modd anghymesur gan COVID-19, yn teimlo'n gadarnhaol am eu dyfodol y tu hwnt i'r pandemig.

"Rwyf wedi delio gyda sawl her dros y blynyddoedd ac rwyf wedi dysgu i fownsio yn ôl o dorcalon, siom a methiant oherwydd bod yfory yn dod o hyd a bod sut rwy'n teimlo ond dros dro."

Cyfranogwr yr Ymchwil

Yn ystod y pandemig rydym wedi datblygu perthynas agosach gydag arianwyr eraill ac rydym wedi bod ar y rheng flaen yn cefnogi cymunedau i ymateb i heriau'r pandemig trwy gydweithio â Fforwm Arianwyr Cymru (WFF) i uchafu effaith ariannu'r Loteri Genedlaethol. Trwy gydlynu ein hymateb brys gydag arianwyr eraill, roeddem yn gallu uchafu eu cyrhaeddiad ac effaith ariannu COVID-19 ledled Cymru. Rydym bellach yn arwain ar waith o fewn WFF i gyfnerthu'r berthynas hon a nodi meysydd lle gallwn ni gydweithio i uchafu'r buddion a gyflwynwn i'r sector gwirfoddol a gwella sut mae ein heffaith gydlynol yn cael ei gyfathrebu i fudd-ddeiliaid.



Food for Life



Portglenone Enterprise Group

"Rydym yn paratoi i ailagor cyn gynted â phosib. Nid ydym yn gallu aros i ailgysylltu â chydweithwyr, gan helpu eu hiechyd corfforol a meddyliol."

Victor, Trysorydd Grŵp Menter Portglenone

# Gogledd Iwerddon

Dyfarnwyd
**£28 miliwn**
**ar draws**
**700 o grantiau**





## Parhau i wasanaethu cymunedau

Mae timau'r Gronfa wedi'u lleoli yn y cymunedau rydym yn eu cefnogi ac er na fu'n bosibl cwrdd â chwsmeriaid wyneb yn wyneb yn ystod argyfwng y coronafeirws, mae ein timau wedi bod wrth law trwy gydol yr amser, gan ymateb yn gyflym a gweithio'n agos gyda'r bobl a'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu i lywio heriau'r pandemig.

Fe drefnom ddwy rownd o ariannu brys gan y Llywodraeth, gwerth cyfanswm o £8.8 miliwn, yn ogystal â dosbarthu mwy na £28 miliwn o arian y Loteri Genedlaethol. Roedd hyn yn golygu ein bod wedi darparu 19% yn fwy o ariannu na'r flwyddyn flaenorol, gan gynnwys arian trydydd parti, gan gyrraedd 1,071 o fudiadau.

Mae Women's Tec, mewn partneriaeth â Shankill Women's Center a GLOW, yn defnyddio grant o £544,944 i redeg eu rhaglen pum mlynedd Connect 4 Women. Gall menywod o bob rhan o Ogledd Iwerddon sy'n ddi-waith neu'n economaidd anactif gael mynediad at ddysgu ffurfiol ac anffurfiol.

"Roeddwn yn isel fy ysbryd heb ddim i'w wneud pan ddywedodd ffrind wrthyf am Women's Tec. Erbyn hyn rwy'n gwybod sut i ddefnyddio cyfrifiadur ac rwyf wedi gwneud cwrs Iechyd a Natur. Roedd yn hwyl ac yn gyffrous ac mae gwelliant anhygoel wedi bod yn fy iechyd meddwl. Mae'r gefnogaeth hon wedi bod hyd yn oed yn bwysicach i mi yn ystod y pandemig."

Cyfranogwr, Women's Tec



Women's Tec

Gwnaethom gefnogi ein deiliaid grantiau a darparu iddynt yr adnoddau sydd eu hangen i helpu i gwrdd â heriau'r argyfwng, gan ofyn iddynt beth oedd ei angen arnynt a chynnig ariannu ychwanegol lle bo angen.

Defnyddiodd Cwmni Buddiannau Cymunedol Strabane Health Improvement Project ariannu ychwanegol i brynu offer gan gynnwys gasebos. Roedd y pryniannau hyn yn caniatáu i bobl barhau i gymryd rhan mewn gweithgareddau celf a chrefft yn ddiogel yn yr awyr agored, gan fynd i'r afael ag unigedd a sicrhau y gallai pobl ddod at ei gilydd wrth barchu pellter cymdeithasol.

Wrth i ni ddarparu gwasanaeth o safon a chefnogi ein deiliaid grantiau wrth i'r byd newid o'u cwmpas, bu i ni hefyd ddarparu £8.8 miliwn o arian y llywodraeth trwy Gronfa Elusennau COVID-19. Cefnogwyd 501 o elusennau ledled Gogledd Iwerddon i sicrhau eu bod yn gallu addasu i'r newidiadau a ddaeth yn sgil y pandemig. Derbyniodd Cymdeithas Gymunedol Cashel £4,140 i dalu costau hanfodol a oedd yn eu galluogi i ddal ati trwy gydol yr argyfwng. "Mae'r grant hwn wedi bod yn achubiaeth. Mae wir yn golygu'r byd i ni ac wedi sicrhau y gallem barhau i gynnig cefnogaeth i bobl leol ar yr adeg yr oedd ei hangen arnynt fwyaf." Louise, Ysgrifennydd y Grŵp.

## Cadw pobl gyda'i gilydd

Fe roddom gyfle i ddeiliaid grantiau rannu eu profiadau o COVID-19 a'r hyn maen nhw wedi'i ddysgu o'r misoedd diwethaf trwy gynnal cyfres o ddigwyddiadau rhithwir ledled y DU. Cyn COVID-19, roedd yn heriol i rai mudiadau yng Ngogledd Iwerddon deithio i ddigwyddiadau yn Llundain. Mae symud y digwyddiadau hyn ar-lein yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi golygu bod mwy o fudiadau lleol wedi gallu cymryd rhan.

Er gwaethaf heriau'r flwyddyn hon, mae ymdeimlad o wytnwch hefyd wedi dod i'r amlwg gyda nifer o grwpiau'n rhannu cyfleoedd newydd i gysylltu â'u cymunedau.

Ymatebodd Prosiect Ieuenctid Lagmore yng ngorllewin Belfast yn gyflym i'r pandemig, gan ddarparu ystod o weithgareddau cymdeithasol.

> "Mae'r prosiect wedi ysbrydoli'r gymuned gyfan i ddod yn fwy cysylltiedig nag y gallem erioed fod wedi'i ddychmygu. Mae wir wedi cefnogi lles emosiynol a chorfforol pobl, ac maen nhw'n teimlo'n hapus ac yn edrych ymlaen at ddod at ei gilydd yn ddiogel. Mae ysbryd cymunedol wedi tyfu fel caseg eira."
>
> Colm, Prosiect Ieuenctid Lagmore


Prosiect Ieuenctid Lagmore

## Rydym yn gatalydd i bobl eraill

Bu i ni hefyd lansio Cronfa Cyfrifon Segur Gogledd Iwerddon. Mae £20.6 miliwn ar gael i gryfhau'r sector ac adeiladu gallu craidd, gwytnwch a chynaliadwyedd hir dymor hir mewn mudiadau gwirfoddol a chymunedol. Mae'r tri mudiad cyntaf i dderbyn grantiau ( elusen seiliedig ar ffydd, sefydliad Gwyddelig a diwylliannol a chwmni theatr) yn canolbwyntio ar ddiogelu eu mudiadau at y dyfodol trwy gynhyrchu incwm a gwella sgiliau aelodau'r Bwrdd.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gydag arianwyr eraill a thrwy Fforwm Cyllidwyr Gogledd Iwerddon, gan rannu dysgu i wella cydgysylltu, lleihau dyblygu a sicrhau'r effaith fwyaf.

Fe ddyfarnom grant o £500,000 i Ymddiriedolaeth Fermanagh, mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Holywell a'r Rhwydwaith Cymunedau Gwledig, i nodi a chefnogi cenhedlaeth newydd o arweinwyr cymunedol, gan eu helpu i lunio dyfodol cadarnhaol i'r sector gwirfoddol, cymunedol a mentrau cymdeithasol (VCSE) yng Ngogledd Iwerddon.

Rydym hefyd yn gweithio gyda CO3 i wella sgiliau ariannol arweinwyr VCSE ledled Gogledd Iwerddon a'u helpu i gynllunio ar gyfer y dyfodol. "Nid oes unrhyw beth tebyg i'r prosiect hwn allan yno ac mae hyn yn mynd ymhell y tu hwnt i'r rhaglenni codi arian safonol, gan gynnig cefnogaeth, dysgu a datblygu parhaus ar gyfer yr hir dymor, ynghyd â mynediad at ystod o raglenni hyfforddi a chyngor gan y garfan ehangach."
Nora, Prif Swyddog Gweithredol CO3

## Rydym yn dysgu gan y bobl a'r cymunedau rydym yn eu hariannu

Rydym yn parhau i sicrhau bod ein hariannu ar gyfer pawb. Un o'r ffyrdd yr ydym yn gwneud hyn yw datblygu rhaglen beilot gwneud grantiau cyfranogol lle bydd pobl a chymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) ledled Gogledd Iwerddon yn cymryd rhan yn y broses o benderfynu ble i ddyrannu'r arianu.

Rhoddodd ein perthnasoedd agos â'n deiliaid grant fewnwelediad da i ni o'r anghenion sy'n dod i'r amlwg mewn cymunedau wrth i'r pandemig barhau.

Mae Rhwydwaith Celfyddydau a Diwylliannol Newtownabbey yn Rathcoole, Swydd Antrim, yn cynnal prosiect technoleg ddigidol, arweinyddiaeth a sgiliau entrepreneuraidd ar gyfer pobl ifanc 15-25 oed. Fe addason nhw eu rhaglen fel y gallai pobl ifanc barhau i ddysgu a datblygu eu sgiliau, yn unol â chanllawiau pellhau cymdeithasol.

Mae Brooke yn arweinydd ifanc sy'n helpu i oruchwylio'r prosiectau ac mae wedi bod yn mynychu ers wyth mlynedd.

> "Fy angerdd yw cerddoriaeth a defnyddio cyfryngau cymdeithasol a zoom. Roeddem yn gallu cadw mewn cysylltiad a dysgu ffyrdd newydd o greu ein fideos cerddoriaeth. Mae'n wych gwybod fy mod i wedi gallu helpu pobl ifanc eraill yn ystod y cyfnod hwn."
>
> Brooke,
> Arweinydd Ifanc Newtown Abbey

Rydym nawr yn edrych i'r dyfodol a sut gallwn ni gefnogi'r sector gwirfoddol i esblygu ac addasu tra bo'r byd yn parhau i fyw gyda COVID-19.



Glasgow Community Food Network

> "Mae'r ariannu'n gam i fyny ar gyfer ein gweithredu yn yr hinsawdd ar lawr gwlad, a all wneud gwahaniaeth go iawn yn Glasgow."
>
> Emma, Manager, Glasgow Community Food Network

# Y Deyrnas Unedig

Dyfarnwyd
**£45 miliwn**
**ar draws**
**159 o grantiau**





## Parhau i wasanaethu cymunedau

Mae argyfwng COVID-19 wedi siapio ein holl weithgaredd fel ariannwr dros y flwyddyn ddiwethaf a bydd yn parhau i'w siapio yn y blynyddoedd i ddod.

Trwy bortffolio'r DU, gan gefnogi mudiadau sy'n gweithio ledled y DU, gallwn dargedu ein hariannu at themâu o arwyddocâd cenedlaethol a hirdymor yn ogystal â mynd i'r afael â materion rhanbarthol a hyperleol.

Er ein bod wedi chwarae rhan yn yr ymateb brys ar draws y Gronfa i'r materion uniongyrchol sy'n wynebu cymunedau, bu i ni ganolbwyntio'r rhan fwyaf o'n hymdrechion ar ein gwaith at y dyfodol i'w cefnogi wrth i ni ddod allan o'r argyfwng a thu hwnt. Fe ddatblygom a phrofi ffyrdd o adeiladu cymunedau cryfach a chymdeithas sifil lewyrchus.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae prosiectau a gefnogir gan bortffolio'r DU wedi helpu o leiaf **5.4 miliwn o bobl** rhwng Rhagfyr 2019 a Rhagfyr 2020.

Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar ein hariannu wedi'i anelu at yr heriau y bydd cymdeithas yn eu hwynebu ymhell ar ôl argyfwng y coronafeirws a'r angen i ail-ddychmygu'r dyfodol ar y cyd wrth i'r bobl a'r cymunedau yr ydym yn eu cefnogi symud tuag at adnewyddu ac ailadeiladu.

Beat yw prif elusen anhwylder bwyta'r DU. Mae'r galw am wasanaethau Beat wedi codi o leiaf 73% ers i'r cyfnod cloi ddechrau dros flwyddyn yn ôl ac mae'n parhau i godi. Mae dros £450,000 o'n hariannu yn helpu Beat i gynyddu oriau gweithredu'r elusen a nifer yr ymgynghorwyr ar eu llinell gymorth. Mae'r ariannu hefyd yn eu galluogi i sefydlu dau becyn newydd o gefnogaeth i bobl ag anhwylderau bwyta a gofalwyr.

## Cadw pobl gyda'i gilydd

Lansiwyd Cronfa Datblygu'r Dyfodol i ymateb i'r sgwrs gynyddol am adferiad ac adnewyddiad cymunedau yn y dyfodol ar ôl y pandemig. Mae 53 prosiect wedi derbyn arian am gyfanswm o £2.2 miliwn i roi lle, offer ac amser i gymunedau adeiladu eu dyfodol. Mae Barrow's New Constellation yn bartneriaeth rhwng y cyngor lleol, y gymuned a New Constellations, sydd wedi cyd-ddylunio cynlluniau ar gyfer y dref ar gyfer y dyfodol. Maent yn sicrhau y gellir dychmygu a gwireddu dyfodol cwbl newydd ac amgen.

Cwblhaodd y Gronfa Gweithredu Hinsawdd ei rownd gyntaf o ariannu eleni, gan ddyfarnu dros £19.7 miliwn i 27 prosiect ledled y DU. Bydd y prosiectau hyn yn defnyddio arian y Loteri Genedlaethol i ddangos yr hyn sy'n bosibl pan ddaw pobl ynghyd i arwain wrth fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yn eu hardal leol. Fel rhan o'r gwaith hwn, rydym wedi comisiynu tri phartner a fydd yn dod â deiliaid grant ynghyd mewn mudiad hinsawdd a arweinir gan y gymuned ledled y DU, gan fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu newid yn yr hinsawdd a chreu datrysiadau.

## Rydym yn gatalydd i bobl eraill

Ers 2018, mae ein Cronfa Ddigidol wedi cefnogi Cymdeithas Sifil ac wedi helpu nifer o fudiadau i baratoi ar gyfer y newidiadau a grëwyd gan y pandemig.

Eleni, gwelsom y rôl bwysig y mae mudiadau isadeiledd yn ei chwarae wrth gefnogi grwpiau anffurfiol, cymunedau arbenigol a gweithredu cymdeithasol ledled y DU. Mewn ymateb, agorom y Rhaglen Seilwaith Newydd i gefnogi mudiadau isadeiledd sefydledig a rhai sy'n dod i'r amlwg. Dyfarnom 16 grant, cyfanswm o £772,584, i gefnogi ailgynllunio sefydliadol, adeiladu cryfder a gallu. Trwy'r gwaith hwn, byddwn yn gallu dysgu mwy am sut mae angen i isadeiledd drawsnewid ar gyfer y dyfodol.

Fe gychwynnom gydweithrediad ag arianwyr eraill - gan chwarae rhan weithredol wrth ddatblygu Hwb Cydweithredol i Arianwyr. Yn cael ei letya gan y Gymdeithas Sefydliadau Elusennol, mae'r Hwb yn cynnig gwell dealltwriaeth, aliniad agosach, a chyfleoedd i arianwyr gydweithredu mewn ymateb i COVID-19.



Drink Wise Age Well

**Dywedodd 70% o'n deiliaid grantiau** a arolygwyd ym mis Rhagfyr 2020 eu bod wedi sicrhau ariannu ychwanegol, sef cyfanswm o **£51 miliwn**, o ganlyniad i'n grantiau.





## Rydym yn dysgu gan y bobl a'r cymunedau rydym yn eu hariannu

Yn ystod y flwyddyn, fe ddysgon ni bwysigrwydd hyblygrwydd a gwrando ar y cymunedau rydym yn eu hariannu. Yng nghyfnod cynnar COVID-19, fe gymerom gamau fel mudiad i wrando ar yr heriau roedd ein deiliaid grantiau yn eu hwynebu ac ymateb iddynt.

Fe roddom gyfle iddynt ofyn am ariannu ychwanegol neu gyfeirio ariannu cyfredol i le roedd ei angen mwyaf nawr.

Ymddiriedolaeth St Giles oedd un o'r grwpiau a gefnogom i ymateb i'r argyfwng yn y modd hwn. "Roeddem yn ddiolchgar iawn i dderbyn cefnogaeth bellach gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol i ddarparu gliniaduron i gynghorwyr cyfoedion i fynd i'r afael â phroblemau mynediad digidol, gan ychwanegu capasiti sydd wedi bod yn amhrisiadwy o ran bodloni'r cynnydd yn y galw." Ann, Prif Reolwr y Rhwydwaith Cynghorwyr Cymheiriaid.

Derbyniodd Breast Cancer Now £375,000 o ariannu i ddarparu gweithgareddau sydd wedi'u hanelu'n benodol at gefnogi cymunedau trwy'r argyfwng COVID-19, megis profiadau rhithwir o wasanaethau wyneb yn wyneb allweddol a ffyrdd i bobl yr effeithir arnynt gan ganser y fron gysylltu ar-lein â nyrsys arbenigol gofyn cwestiynau a siarad am bryderon.

Gan barhau â'r thema dysgu, fe adeiladom hefyd ar fewnwelediadau ein peilot Arweinwyr â Phrofiad o Lygad y Ffynnon yn 2019. Eleni, dyfarnom £2.4 miliwn i 49 o fudiadau dan arweiniad pobl sydd â phrofiad o lygad y ffynnon o faterion ledled y DU, megis caethiwed neu afiechyd meddwl. Mae Red Rose Recovery o Swydd Gaerhirfryn yn defnyddio eu grant i ddarparu strwythur a sefydlogrwydd i fywydau pobl leol sy'n cael trafferth gyda chaethiwed, fel y gallant symud ymlaen i rolau arwain uwch o fewn Red Rose Recovery a thu hwnt.



**"Mae mwy na 90% o'n staff yn cynnwys pobl sydd â phrofiad o lygad y ffynnon, a bydd y rhaglen hon yn helpu eraill i brofi cynnydd yn eu bywyd ac i ryddhau eu hunain o stigma eu gorffennol. Rydyn ni am roi rhan iddyn nhw mewn cymdeithas a bod yn bositif am yr effaith y gallan nhw ei chael yn y dyfodol."**

Peter, Sylfaenydd, Red Rose Recovery

Rhan annatod o'n gwaith eleni oedd estyn allan at fudiadau sy'n gweithio gyda chymunedau i ddeall effaith y pandemig a cheisio eu cyngor ar ein hymateb. Derbyniodd y Grŵp Hyfforddi a Menter Du arian i ddarparu cefnogaeth meithrin gallu sy'n briodol yn ddiwylliannol i fudiadau cymdeithas sifil rheng flaen BAME i helpu i sicrhau eu bod yn goroesi trwy'r pandemig.




Clwb Bocsio Monkstown

# Rhan 02 Adroddiad atebolrwydd


| | |
|---|---|
| Ein hadroddiad llywodraethu corfforaethol | 48 |
| Ein hamcanion corfforaethol | 52 |
| Ein dangosyddion perfformiad allweddol | 53 |
| Dadansoddiad o'n perfformiad: ariannol | 57 |
| Dadansoddiad o'n perfformiad: cydraddoldeb | 62 |
| Dadansoddiad o'n perfformiad: adroddiad cynaliadwyedd | 68 |
| Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu | 71 |
| Y datganiad llywodraethu | 75 |
| Ein hadroddiad tâl cydnabyddiaeth a staff | 96 |
| Ein hadroddiad atebolrwydd ac archwilio seneddol | 104 |
| Nodiadau i'r cyfrifon | 115 |
| Ein cefndir statudol | 156 |

# Ein hadroddiad llywodraethu corfforaethol

## Adroddiad y Cyfarwyddwyr

### Ein diben a gweithgareddau

Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yw enw gweithredu'r Gronfa Loteri Fawr. Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn gorfforaeth statudol a sefydlwyd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 2006. Mabwysiadodd y Gronfa yr enw gweithredu newydd ym mis Ionawr 2019 er mwyn adlewyrchu ffynhonnell ein hadnoddau ariannol yn well a'r ariannu ar gyfer achosion da a godir trwy gemau'r Loteri Genedlaethol ynghyd â'n rôl yn cefnogi cymunedau wrth eu helpu i wireddu eu huchelgeisiau.

Mae'r Gronfa yn gyfrifol am ddosbarthu 40% o'r holl arian a godir ac rydym yn dosbarthu hwn trwy ddyfarniadau grant i gefnogi prosiectau gyda ffocws cymunedol. Er 2004 rydym wedi dosbarthu dros £10 biliwn mewn dyfarniadau. Mae gennym amrediad o raglenni ariannu, o grantiau bach gwerth hyd at £10,000 i raglenni strategol, graddfa fawr gwerth miliynau o bunnoedd.

Yn ychwanegol at ein gwaith yn dosbarthu arian a godir gan y Loteri Genedlaethol i achosion da, mae'r Gronfa'n gyfrifol am ddosbarthu arian a ryddheir o gyfrifon banc segur ac asedau perthynol dan ddarpariaethau Deddf Cyfrifon Banc a Chymdeithas Adeiladu Segur 2008.

Rydym hefyd yn gweithio gyda mudiadau eraill, cyrff cyhoeddus yn bennaf, i reoli a dosbarthu eu hariannu trwy raglenni grantiau a redwn ar eu rhan. Rydym wedi dosbarthu dros £235 trwy'r rhaglenni hyn. Mae esiamplau o'r math hwn o weithgarwch yn cynnwys dosbarthu arian mewn partneriaeth â'r Swyddfa Cymdeithas Sifil mewn perthynas â Chronfa #iwill a rhaglen cyllid cyfatebol Cronfa Gymdeithasol Ewrop, Building Better Opportunities.

Wrth gyflwyno ein rhaglen waith rydym yn gweithredu o fewn y ddeddfwriaeth berthnasol, arweiniad sector cyhoeddus arall a gofynion yr Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS), ein hadran noddi sy'n darparu Cytundeb Rheoli i ni'n disgrifio ein perthynas â'r llywodraeth. Mae DCMS hefyd yn cyhoeddi Cyfarwyddiadau Polisi sy'n amlinellu'r blaenoriaethau sy'n rhaid i ni eu hystyried wrth sefydlu ein rhaglenni grant ar gyfer Lloegr a'r portffolio grant ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan. Mae'r adrannau perthnasol ym mhob un o'r Cenhedloedd datganoledig yn cyhoeddi Cyfarwyddiadau Polisi ar gyfer gweithgareddau gwneud grantiau yng Nghymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon. Wrth ddilyn y cyfarwyddiadau hyn, mae penderfyniadau'r Gronfa ar raglenni a grantiau yn annibynnol o'r Llywodraeth. Mae'n ofynnol i'n hariannu ddilyn yr egwyddor ychwanegedd - hynny yw, mae'n rhaid i'n hariannu fod yn wahanol i'r llywodraeth, gall cydweddu ond mae'n rhaid iddo beidio â disodli rhaglenni gwariant y llywodraeth.

Mae'r Gronfa'n gweithredu ym mhedair gwlad y Deyrnas Unedig gyda rhaglenni ariannu penodol ar gyfer pob gwlad. Ar ben hynny, rydym yn gweithredu amrediad o raglenni sydd â chwmpas y Deyrnas Unedig gyfan. Mae pob un o'r gwledydd a phortffolio'r DU yn dyfarnu grantiau trwy bwyllgor portffolio, gydag aelodau'r pwyllgorau hyn yn cael eu penodi'n allanol. Eu rôl yw amlinellu a chytuno ar raglenni grantiau a fewn Fframwaith Strategol y Gronfa gan sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r ymagwedd gyffredinol a gymeradwywyd gan y Bwrdd. Mae cymeradwyaeth o'r rhan fwyaf o ddyfarniadau wedi'i dirprwyo i swyddogion y Gronfa neu baneli penodol ar gyfer y rhaglenni amrywiol ym mhob portffolio.

Mae ein cyllidebau dyfarniadau grant yn cael eu dosrannu rhwng pob gwlad ar sail cyfrannau a gytunwyd arnynt, sy'n cael eu pennu gan fwyaf yn seiliedig ar boblogaeth ac ar ôl didynnu cyfran - hyd at 10% o'r cyfanswm - i fynd tuag at bortffolio'r Deyrnas Unedig.

Yn yr un modd â mudiadau eraill, nid yw'r Gronfa wedi dianc rhag effaith y Coronafeirws. Roedd y Gronfa mewn sefyllfa dda i alluogi ei thimau i weithio o bell gyda phob aelod o'r timau'n meddu ar dechnoleg addas i weithio o adref a'r holl systemau allweddol ar gael o bell. Rydym wedi parhau i weithredu a diwallu gofynion ein hymgeiswyr a deiliaid grantiau, er gyda rhai newidiadau i brosesau a sut rydym yn ymgysylltu â budd-ddeiliaid.

Fis Ebrill diwethaf, fe amlinellom ein dull o gefnogi elusennau a mudiadau cymunedol trwy'r argyfwng uniongyrchol a sicrhau cynaliadwyedd tymor hwy gan ddefnyddio ein hadnoddau Loteri Genedlaethol ein hunain ynghyd â £220 miliwn o ariannu ar ran llywodraethau'r DU, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r gofynion a osodwyd ar y mudiad i gyflawni hyn yn sylweddol ac rydym wedi addasu rhai o'n prosesau i gyflwyno hyn. Er gwaethaf yr amgylchedd heriol, mae'r Gronfa wedi parhau i ymrwymo adnoddau'r loteri i gefnogi elusennau a mudiadau cymunedol.

### Materion a risgiau allweddol

Mae mwyafrif ein hincwm yn dibynnu ar y refeniw a gynhyrchi gan y Loteri Genedlaethol; mae cyfran pris gwerthu pob gêm yn cael ei dyfarnu at achosion da ac yn cael ei basio i Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (NLDF), ac yn cael ei wneud ar gael i ddosbarthwyr y Loteri trwy'r Gronfa honno. Rydym yn rheoli ein dyfarniadau grant, cyllidebau a phroffiliau talu dros nifer o flynyddoedd er mwyn lliniaru yn erbyn amrywiadau posib yn refeniw y Loteri Genedlaethol ac i sicrhau y gallwn gyflawni ein rhwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus. Mae argyfwng y Coronafeirws a'r ansicrwydd o ran incwm ar gyfer 2020/21 yn gofyn ein bod yn fwy pwyllog nag a ragwelwyd wrth ddyfarnu grantiau newydd er mwyn sicrhau y gallwn fodloni ein rhwymedigaeth gyfredol tra'n uchafu faint o arian y gallwn ei darparu i gefnogi'r sector trwy'r argyfwng.

Rydym yn darparu cydbwysedd o raglenni ariannu sy'n ymateb i alw ac wedi'u targedu i fodloni gofynion cymunedau mewn modd sy'n cyfateb i'r egwyddorion a ddisgrifir yn ein Fframwaith Strategol.

Rydym hefyd yn newid ac yn addasu ein ffordd o weithio er mwyn cyflwyno ein strategaeth yn well. Mae'r system rheoli grantiau newydd wedi darparu buddion sylweddol yn ystod y flwyddyn gan gynnwys y gallu i'n rhaglen grantiau bach dderbyn ceisiadau ar-lein. Mae hyn wedi symleiddio'r broses o ymgeisio am ddyfarniadau hefyd a gwneud y broses o asesu gweithgarwch dyfarniadau a chrynhoi data yn ymwneud â cheisiadau a dyfarniadau lawer yn haws. Rydym hefyd wedi diweddaru ein hymagwedd at weithgareddau eraill yn ymwneud â



Ein hadroddiad llywodraethu corfforaethol

Ein hadroddiad llywodraethu corfforaethol

dyfarnu grantiau wrth i ni gyflwyno'r system newydd. Mae hyn wedi ein galluogi i gael prosesau lawer mwy cyson a syml ar draws bob un o'n portffolios gan ddarparu buddion sylweddol i ymgeiswyr trwy gwell ymagweddau at geisiadau. Mae cyflwyno'r system newydd wedi ein galluogi i barhau i gyflwyno ein holl wasanaethau yn ystod argyfwng y Coronafeirws gan fod y system yn seiliedig ar wasanaeth sydd ar gael o bell i'n timau.

Rydym yn wynebu risgiau ariannol mewn perthynas â thwyll posib yn deillio o'n gweithgareddau gwneud grantiau. Rydym hefyd wedi gorfod rheoli ein hymgysylltiad mewn rhaglenni grantiau sydd â chyllid cyfatebol o Gronfa Gymdeithasol Ewrop yn ofalus mewn ymateb i heriau Brexit. Mae ein rhaglen o newid yn gofyn am gynllunio gofalus er mwyn sicrhau bod mentrau newydd yn llwyddiannus, fodd bynnag, mae dibyniaeth gynyddol ar wasanaethau digidol yn cynyddu ein hamlygiad posib at risgiau seiber. Mae ein rhaglen rheoli risg yn darparu dull o asesu'r risgiau allweddol yr ydym yn agored iddynt a sefydlu mesurau rheoli priodol i liniaru'r rhain. Mae asesiad llawnach o'n prosesau rheoli risg wedi'i gynnwys yn ein datganiad llywodraethu.

## Crynodeb o Berfformiad

Bob blwyddyn rydym yn disgrifio ein hamcanion corfforaethol a'r dangosyddion perfformiad allweddol (DPA) a ddefnyddiwn i asesu sut rydym wedi cyflawni ein nodau corfforaethol. Ar gyfer 2020/21, fe osodom bedwar amcan gyda saith DPA i'w cefnogi. Fe gyflawnom y saith targed DPA a osodwyd. Mae'r DPA wedi'u rhestru yn adran 'Ein dangosyddion perfformiad allweddol' hwyrach ymlaen yn yr adroddiad hwn. Mae'r Gronfa yn asesu ei pherfformiad trwy gydol y flwyddyn gan ddefnyddio'r DPA a metrig perfformiad arall gan gynnwys mesurau gweithredu allweddol, dangosyddion ariannol, data cyfrifeg rheoli a thechnegau rhagweld er mwyn sicrhau ei bod yn gallu cymryd camau lliniaru ble fo angen ar yr adeg gynharaf bosib er mwyn cyflawni ei hamcanion ac i leihau'r risg i'w gweithrediadau ac amcanion.

Nid ydym yn gosod unrhyw warged neu ddiffyg gweithredu penodol fel mesur rheoli allweddol neu darged. Rydym yn rheoli ein perfformiad allweddol er mwyn mwyafu ein gallu i wneud grantiau ar sail yr arian a dderbyniwyd ac a gaiff ei dderbyn gan y Loteri Genedlaethol. Rydym yn cydnabod gwerth llawn dyfarniadau grant pan gânt eu cymeradwyo ni waeth pryd bynnag y daw'r arian ar gyfer y dyfarniadau hynny'n daladwy. Felly, mae ein canlyniad ariannol, a fesurir trwy warged neu ddiffyg, yn gallu amrywio yn sylweddol blwyddyn ar ôl blwyddyn.

Ar gyfer y flwyddyn ariannol cofnodwyd gwarged o £213 miliwn yn dilyn gwarged o £82 miliwn yn 2019/2020.

Ceir asesiad manylach o'n perfformiad yn ein dadansoddiad perfformiad ac yn ein datganiadau ariannol.

Paratowyd y datganiadau ariannol ar sail busnes cyfredol. Mae ein datganiad sefyllfa ariannol yn cofnodi rhwymedigaethau net sylweddol. Mae hyn o ganlyniad i'n polisi cydnabod dyfarniadau grant sy'n cofnodi gwerth llawn dyfarniadau ar adeg cymeradwyo a hysbysu (ac eithrio pan fydd meini prawf perfformiad penodol) er na fydd y taliadau arian parod o bosib yn berthnasol am beth amser. Rydym yn rheoli ein rhwymedigaethau ar sail ein gallu i fodloni'r galw arian parod o adnoddau arian parod cyfredol a rhagamcaniadau o incwm y dyfodol. Mae hyn yn tybio, fel mater o bolisi cyhoeddus, y bydd y Loteri Genedlaethol yn parhau i weithredu. Mae ein cynllun corfforaethol blynyddol yn disgrifio ein cyllidebau, amcanion a thargedau ar gyfer y flwyddyn.

Nododd Cynllun Corfforaethol 2020/21 bedwar amcan â'r nod o lunio ein blaenoriaethau a phennwyd saith dangosydd perfformiad allweddol i fesur llwyddiant. Ar ben hynny, fe amlinellom nifer o feysydd strategol a mentrau penodol i ganolbwyntio arnynt fel dangosyddion o gynnydd. Mae ein perfformiad wedi cael ei fonitro yn erbyn ein targedau ac adroddwyd amdano i'r Bwrdd trwy gydol y flwyddyn.

# Ein hamcanion corfforaethol

## Amcan corfforaethol un:

Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn cefnogi syniadau a phrosiectau sy'n bwysig i bobl a chymunedau

### Beth ydym wedi'i wneud?

Mae ymateb i bandemig COVID-19 wedi bod yn flaenoriaeth hanfodol yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae'r Gronfa wedi cyflwyno £220 miliwn o ariannu'r llywodraeth ar ran llywodraethau'r DU, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn ogystal â £516 miliwn o Arian y Loteri Genedlaethol i gymunedau ar hyd a lled y DU.

## Amcan corfforaethol dau:

Rydym yn defnyddio ein grantiau a'n perthnasoedd i helpu creu cymunedau mwy cryf a chysylltiedig.

### Beth ydym wedi'i wneud?

Fe weithiom yn agos gyda chymunedau a pharhau i ddatblygu partneriaethau newydd i sicrhau bod ein hariannu'n cyrraedd y cymunedau hynny a effeithiwyd arnynt mewn modd anghymesur gan y pandemig.

Rydym wedi defnyddio ymagweddau arloesol at ariannu i gyrraedd cymunedau a mudiadau nad ydynt wedi ymgeisio am ariannu gan y Gronfa o'r blaen.

## Amcan corfforaethol tri:

Mae elusennau a grwpiau cymunedol ledled y Deyrnas Unedig yn ffynnu, yn amrywiol ac yn barod at y dyfodol.

### Beth ydym wedi'i wneud?

Rydym wedi hwyluso ymgysylltiad eang budd-ddeiliad a'r gymuned, gan archwilio rôl elusennau a mudiadau cymunedol yn y dyfodol yn cefnogi'r cymunedau hyn sy'n ffynnu.

Rydym wedi datblygu a chyflwyno amrediad o raglenni ariannu ac adnoddau sy'n cefnogi anghenion, isadeiledd a dychymyg cymunedau.

## Amcan corfforaethol pedwar:

Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn effeithlon, wedi'i werthfawrogi ac ymddiriedir ynddi.

### Beth ydym wedi'i wneud?

Rydym wedi parhau i wella profiad cwsmeriaid trwy ein system rheoli grantiau newydd (GMS), sydd hefyd wedi galluogi perfformiad gweithredol mwy effeithlon ac effeithiol, hyd yn oed yng nghyd-destun ein holl aelodau o staff yn gweithio gartref yn ystod y pandemig.

Mae ein Strategaeth Ymgysylltu'n amlinellu sut rydym yn atgyfnerthu gwerth y Loteri Genedlaethol i gymunedau trwy achosion da.

Yn ystod y flwyddyn ariannol, mae'r Gronfa wedi llwyddo rheoli ei chostau gweithredu lawer is na'i throthwy costau o 8%.

Yn ystod y flwyddyn, rydym hefyd wedi cychwyn adolygu ein strategaeth eiddo er mwyn lleihau nifer y cytundebau lleoliad o fewn y portffolio i gyflawni'r mannau gorau posib i dimau a budd-ddeiliaid weithredu'n effeithlon ac yn fwy hyblyg. Rydym eisoes wedi lleihau maint ein swyddfa yng Nghymru yn 2020/21.





# Ein dangosyddion perfformiad allweddol

Ochr yn ochr â'n hamcanion, mae ein DPA yn helpu i asesu ein perfformiad mewn nifer o feysydd gan ein cefnogi i gyflawni ein hamcanion yn llwyddiannus. Rydym wedi cyflawni'r saith DPA a osodwyd ar gyfer y flwyddyn. Mae ein hamcanion hefyd yn llunio'r sail o reoli ein risg tra bod ein gallu i gyflawni amcanion corfforaethol a lleol yn pennu'r parodrwydd i dderbyn risg ar gyfer y mudiad. Ar sail hwn rydym yn pennu i ba raddau y mae mesurau rheoli a lliniaru a chamau gweithredu'n ofynnol i gyfyngu ar risg ac ar yr un pryd ein galluogi i barhau'n uchelgeisiol o ran ein dull ac yn gymesur o ran ein hymateb. Gan hynny, mae cynnydd gyda'r DPA yn ganllaw ar gyflawni amcanion ac yn llywio ein hymagwedd at reoli risg.

## DPA 1: Boddhad Cwsmeriaid dros 80%.

| Cyflawnwyd y dangosydd perfformiad allweddol | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| Roedd Boddhad Cwsmeriaid yn 83% o ddeiliaid grantiau ac ymgeiswyr. | Arhosodd Boddhad Cwsmeriaid yn uwch na'r targed yn 2020/21 ar 83%. Er gwaethaf blwyddyn heriol, roedd cwsmeriaid yn teimlo bod y Gronfa yn eu cefnogi'n effeithiol yn ystod argyfwng COVID-19. Roedd teimlad cwsmeriaid tuag at y Gronfa yn parhau i fod yn hynod gadarnhaol gyda'r mwyafrif helaeth yn canmol staff am eu cefnogaeth barhaus ac am wneud y broses yn syml. |

## DPA 2: Costau gweithredu yn unol â'n trothwy a gytunwyd o 8% o incwm dros dair blynedd.

| Cyflawnwyd y dangosydd perfformiad allweddol | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| Roedd ein costau gweithredu ar gyfer ein gweithgareddau Loteri Genedlaethol yn cyfateb â 6.5% o'n hincwm gan y Loteri Genedlaethol. | Gwnaed arbedion cost yn bennaf oherwydd incwm gan drydydd partïon gan fod rhan o'r ymateb cyflym i'r pandemig ac incwm y Loteri Genedlaethol wedi bod yn uwch na'r disgwyl ar ddechrau COVID-19 |

## DPA 3: Dyfarniadau grant i fod o fewn 5% o'r gyllideb.

| Cyflawnwyd y dangosydd perfformiad allweddol | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| Cyfanswm ein dyfarniadau grant oedd £516 miliwn sydd 1.1% yn is na'r gyllideb a osodwyd gennym. | Hon oedd ein blwyddyn lawn gyntaf gan ddefnyddio'r system rheoli grantiau yn ogystal ag ymateb i ddulliau gweithio newydd yn sgil ein hymateb i'r coronafeirws a oedd yn gofyn am ddargyfeirio adnoddau.<br><br>Er gwaethaf yr heriau o ymateb yn benodol i Gronfa Gymorth Cymunedol y Coronafeirws a chynnal ein hymrwymiadau grant eraill, mae'r Gronfa wedi llwyddo dyfarnu grantiau o fewn 5% i'r gyllideb. |

## DPA 4: Bod o leiaf 65% o'n cydweithwyr yn argymell y Gronfa fel lle da i weithio.

| Cyflawnwyd y dangosydd perfformiad allweddol | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| Nododd ein harolwg ymgysylltu â gweithwyr a gynhaliwyd yn ystod trydydd chwarter y flwyddyn fod 69% o gydweithwyr yn cytuno bod y Gronfa yn lle da i weithio. | Mae cydweithwyr yn parhau i deimlo bod gweithio i'r Gronfa yn swydd werth chweil lle gallant wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl, yn enwedig yn ystod argyfwng COVID-19. Maent yn teimlo bod cymorth a chefnogaeth ar gael, gyda hyn yn cael ei dangos trwy gydol y pandemig gydag offer, arweiniad a hyblygrwydd yn cael eu darparu i gydweithwyr i ganiatáu gweithio gartref yn effeithiol. Rydym hefyd wedi datblygu cynnig lles cryf, sydd ar gael i bob cydweithiwr, gan ategu ein buddion presennol. |



Ein dangosyddion perfformiad allweddol

## DPA 5: Bod nifer y bobl sy'n ymwybodol bod y Loteri Genedlaethol yn ariannu achosion da dros 45%.

| Cyflawnwyd y dangosydd perfformiad allweddol | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| Nododd ein harolwg diweddaraf ar gyfer y DPA hwn fod 45% o bobl yn cydnabod y Loteri Genedlaethol fel ariannwr achosion da. | Rydym yn parhau i wneud cynnydd yn y maes hwn ynghyd â theulu'r Loteri Genedlaethol. Rydym wedi cefnogi gweithgaredd brand y Loteri Genedlaethol sy'n tynnu sylw at yr ariannu sy'n mynd at achosion da i gymunedau ledled y DU. Mae ein holl gyfathrebu'n parhau i dynnu sylw at rôl ariannu'r Loteri Genedlaethol mewn cymunedau. |

## DPA 6: Bod nifer y bobl sy'n ymwybodol o ddiben Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol dros 45%.

| Cyflawnwyd y dangosydd perfformiad allweddol | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| Nifer y bobl sy'n ymwybodol o ddiben Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol oedd 48%. | Rydym wedi gweld gostyngiad bach ar draws ein DPA canfyddiad y cyhoedd yn ystod y misoedd diwethaf a chredwn fod hyn oherwydd gorfod gohirio gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd ar raddfa fawr, amseriad yr ymchwil yn ystod y cyfnod cloi a'n ffocws ar ddosbarthu ariannu'r Llywodraeth, sy'n golygu bod cyfathrebiadau'n canolbwyntio ar yr ariannu a negeseuon hynny yn hytrach na brand Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol. |

## DPA 7: O leiaf 80% o'n grantiau'n cael eu dyfarnu i elusennau a mudiadau cymunedol.

| Cyflawnwyd y dangosydd perfformiad allweddol | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| Ar gyfer y flwyddyn gyfan, roedd 92.0% o'n dyfarniadau yn ôl swm i elusennau a mudiadau cymunedol tra bod 96.3% o werth dyfarniadau'n bodloni'r meini prawf hwn. | Ffocws allweddol yn ein strategaeth Pobl yn yr Arwain oedd cefnogi prosiectau sy'n cael eu harwain gan elusennau a mudiadau cymunedol. Parhaodd hyn trwy gydol 2020/21 gyda maint a gwerth dyfarniadau i'r cyrff hyn yn fwy na'n targed dros y flwyddyn. |

Yn ychwanegol at y DPA a nodwyd uchod, mae'r Gronfa'n defnyddio nifer o fesurau eraill i asesu cynnydd tuag at ein nodau ac iechyd y mudiad. Mae'r rhain yn cynnwys mesurau ariannol - er enghraifft pennu amrediad priodol ar gyfer ein gweddill yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol; Mesurau cwsmeriaid gan gynnwys dadansoddiad manwl o fodlonrwydd cwsmeriaid gydag agweddau prosesau ar draws pob un o'n portffolios; a mesurau yn ymwneud â Phobl er enghraifft monitro lefelau absenoldeb gyda rhesymau. Mae data arall yn ymwneud â rhai o'r mesurau hyn yn ymddangos mewn rhannau eraill o'r adroddiad hwn gan gynnwys yn yr Adroddiad Tâl Cydnabyddiaeth a Staff.





# Dadansoddiad o'n perfformiad: ariannol

Mae ein fframwaith strategol - Pobl yn Arwain - yn amlinellu ein cred bod cymunedau'n ffynnu pan maen nhw'n cymryd yr arweiniad o brosiectau a gweithgareddau a bod pobl yn y cymunedau hynny yn deall beth sydd ei hangen yn well nag unrhyw un arall. Rydym yn ymrwymedig i fwyafu ein hariannu, adnoddau, gwybodaeth a rhwydweithiau i gefnogi pobl, prosiectau a chymunedau ar draws y Deyrnas Unedig.

Ein mesur effeithlonrwydd ariannol allweddol yw'r gyfran o'n hincwm gan y Loteri Genedlaethol a wariwn ar ddosbarthu grantiau. Rydym yn eithrio o'r mesuriad hwn y costau rydym yn eu hail-godi ar bobl eraill, er enghraifft, y costau o ddosbarthu ariannu nad sy'n arian y Loteri Genedlaethol gan gynnwys mewn perthynas â'r cynllun cyfrifon segur. Hefyd, rydym yn eithrio costau penodol eraill, er enghraifft costau unigol sy'n fuddsoddiadau neu ailstrwythuro i gyflawni mesurau effeithlonrwydd yn y dyfodol (gweler Nodyn 6 y datganiadau ariannol). Mae costau TAW anadferadwy hefyd wedi'u heithrio.

Mae'r llywodraeth yn pennu uchafswm targed ar gyfer costau gweithredu'r holl ddosbarthwyr Loteri.Ar gyfer 2020/21 roedd hyn yn 8% o'n hincwm gan y Loteri Genedlaethol. Caiff y mesur hwn ei asesu dros gyfnod treigl o dair blynedd.

### Yr hyn a gyflawnom yn 2020/21

Yn ystod y flwyddyn cyflwynwyd yn llwyddiannus yn erbyn y targed cyfanswm costau gweithredu 8% a bennir gan y llywodraeth. Cyfanswm y gwariant gweithredu cymwys ar gyfer gweithgareddau gwneud grantiau y Loteri Genedlaethol oedd £37.5 miliwn, £13.0 miliwn yn is nag yn 2019/20. Tra bod incwm y Loteri Genedlaethol yn cyd-fynd â'n tybiaethau ar gyfer y gyllideb ac roeddem yn gallu gweithredu o fewn y gyllideb a osodom ar gyfer ein costau gweithredu, roedd ysgogydd allweddol y gostyngiad hwn mewn gwariant gweithredu yn deillio o ddargyfeirio rhan sylweddol o'n hadnoddau i gyflwyno Ariannu Cymorth Cymunedol Coronafeirws y Llywodraeth ar gyflymder.

Roedd ein gwariant gweithredu cymwys go iawn yn 5.1% o incwm y Loteri Genedlaethol yn ystod y flwyddyn ac yn 6.5% o incwm y Loteri dros y cyfnod o dair blynedd hyd at fis Mawrth 2021. Ein perfformiad yn y ddwy flynedd cyn hynny oedd 7.1% a 7.3% yn y drefn honno. Ar y sail hon, roedd costau gweithredu'r Gronfa dros y tair blynedd hyd at fis Mawrth 2021 £31.7 miliwn yn is nag y caniateir gan y mesuriad effeithiolrwydd. Gwneir y gwarged hwn ar gael ar gyfer gweithgareddau gwneud grantiau.

Mae costau staff yn gyfran sylweddol o'n costau gweithredu. Mae ein niferoedd staff wedi cynyddu yn ystod 2020/21 gyda nifer cyfwerth ac amser llawn (CaALl) o 815 (2018/19: 785). Fel rhan o'n hymateb i'r pandemig ym mis Mawrth 2020, symudom yn gyflym i newid ein blaenoriaethau ariannu ar unwaith i gefnogi cymunedau a mudiadau yr effeithiwyd yn ddifrifol arnynt, gan ddarparu proses cyflymach wrth asesu ceisiadau a gwneud penderfyniadau ariannu. Gwnaeth yr ymagwedd hon ei

gwneud yn angenrheidiol cynyddu ein staff cyfwerth ag amser llawn o fewn timau gwneud grantiau i alluogi gweithredu'r ymagwedd hon.

## Yr hyn rydym yn bwriadu ei gyflawni yn 2021/22

Rydym wedi cyllidebu i gyflwyno cyfanswm costau gweithredu o fewn y trothwy costau 7.75% yn 2021/22 ond gyda'r capasiti am rywfaint o fuddsoddiad ychwanegol mewn gwelliannau gwasanaeth yn seiliedig ar y dull mesur tair blynedd treigl newydd. Mae'r targed yn seiliedig ar incwm Loteri Genedlaethol y cyllidebwyd ar ei gyfer o £675 miliwn, sy'n deillio o'n rhagolwg o refeniw ar gyfer 2021/22 ar adeg paratoi'r gyllideb a chan ystyried newidiadau disgwyliedig mewn gweithrediadau yn ystod y flwyddyn.

Mae'r gyllideb yn seiliedig ar ddatblygu gweithgareddau i gefnogi ein cynllun corfforaethol, parhau ein rhaglen o newid a cheisio effeithiolrwydd i'n galluogi i ddyfeisio a chyflwyno gweithgareddau ariannu a fydd yn ein cefnogi i gyflwyno'r Fframwaith Strategol.

## Ein gwarged ar gyfer y flwyddyn

Roedd gennym warged ar gyfer y flwyddyn 2020/21 o £213 miliwn (2019/20 £82 miliwn).

Ein diffyg cronnus ar 31 Mawrth 2021 oedd £407 miliwn (31 Mawrth 2020 £620 miliwn).

Mae ein polisi cyfrifyddu'n trin dyfarniadau fel gwariant mor fuan ag y bydd eu cymeradwyaeth wedi'i chyfathrebu i'r derbynnydd (yn amodol ar feini prawf penodol). Yn yr un modd â holl ddosbarthwyr y Loteri, rydym yn rheoli ein llif arian dros y tymor hwy yn seiliedig ar rwymedigaethau arian grant a rhagamcaniadau incwm yn hytrach na cheisio cyflawni unrhyw warged neu ddiffyg blynyddol penodol. Telir dyfarniadau dros nifer o flynyddoedd ac rydym yn hyderus y bydd modd i ni fodloni ein rhwymedigaethau o incwm y dyfodol wrth iddynt ddod yn ddyledus. Roedd gennym warged ar gyfer y flwyddyn o £169 miliwn o weithrediadau'r Loteri Genedlaethol (2019/20 £76 miliwn). Roedd yr incwm ar gyfer 2020/21 yn uwch nag yn 2019/20 ac yn uwch na'r gyllideb a osodwyd gennym. Roedd cyfanswm ein dyfarniadau ar gyfer 2020/21 £71 miliwn yn is na'r llynedd sef £517 miliwn (2019/20 £588 miliwn) ac roedd yn uwch na'r gyllideb a bennwyd. Y ffactorau hyn yn bennaf arweiniodd at y gwarged uwch yng ngwarged gweithrediadau'r Loteri ar gyfer y flwyddyn.

Roedd gennym ddiffyg o £42 miliwn ar gyfer gweithrediadau Cyfrifon Banc a Chymdeithasau Adeiladu Segur (2019/20 gwarged £7 miliwn). Roedd yr incwm £21 miliwn yn uwch tra bod dosbarthiad trwy ddyfarniadau a throsglwyddiadau i fudiadau eraill yn is ar £48 miliwn (2019/20 £62 miliwn).

## Ein strategaeth ariannu

Ar gyfer ein rhaglenni arian y Loteri Genedlaethol, ein strategaeth yw dyfarnu'r uchafswm y gallwn ymrwymo iddo'n ddiogel dros gyfnod o bum mlynedd, o ystyried incwm disgwyliedig. Gan fod nifer o'n grantiau yn talu allan dros nifer o flynyddoedd ar ôl y dyfarniad cychwynnol, mae'r strategaeth hon yn sicrhau bod y prosiectau a gweithgareddau a gefnogir gan ein dyfarniadau yn gallu cyflwyno'u buddion mor gynnar â phosib gan sicrhau ein bod yn amddiffyn ein hunain rhag unrhyw newidiadau annisgwyl mewn incwm.





Ar 31 Mawrth 2021, roedd gennym £875 miliwn (2019/20 £1,052 miliwn) o ymrwymiadau yn ddyledus mewn perthynas â dyfarniadau a wnaed ond fe gadwom £264 miliwn (2019/20 £303 miliwn) yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (NLDF) er mwyn eu bodloni. Mae hyn yn golygu yr oeddem wedi gwneud rhwymedigaethau net o £611 miliwn (2019/20 £749 miliwn) uwchben yr adnoddau sydd ar gael i ni ar hyn o bryd. Mae hyn yn cyfateb i tua 11 mis o incwm y Loteri Genedlaethol yn y dyfodol yn seiliedig ar ein rhagamcaniadau cyfredol.

## Rhaglenni ariannu nad yw'n gysylltiedig â'r Loteri

Yn ychwanegol at ein busnes craidd o ddosbarthu arian achosion da'r Loteri Genedlaethol, rydym hefyd yn gyfrifol am ddosbarthu arian sydd wedi'i ryddhau o Reclaim Fund Ltd o dan ddarpariaethau Deddf Cyfrifon Banc a Chymdeithas Adeiladu Segur 2008.Mae'r gweithgareddau hyn wedi'u cynnwys o fewn ein datganiadau ariannol cyfunedig. Disgrifir set o gyfrifon cryno ar gyfer y gweithgaredd hwn yn nodyn 32 y cyfrifon.

Mae Deddf Cyfrifon Banc a Chymdeithas Adeiladu Segur 2008 yn galluogi banciau a chymdeithasau adeiladu i drosglwyddo arian a ddelir mewn cyfrifon segur i gronfa ganolog i'w fuddsoddi yn y gymuned. Mae'r cynllun hefyd yn gwneud darpariaeth i'r Gronfa ddyfarnu grantiau yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon dan gyfarwyddyd polisi a amlinellir gan y gweinyddiaethau datganoledig. Ar gyfer Lloegr, roedd cyfarwyddiadau polisi gwreiddiol yn ei gwneud yn ofynnol bod ariannu'n cael ei basio'n gyfan gwbl at Big Society Capital sy'n gweithredu fel cyfanwerthwr buddsoddiad cymdeithasol.

Gan weithio gyda Reclaim Fund Ltd, mae Llywodraeth y DU wedi bod yn ceisio sicrhau bod y symiau sydd ar gael i'w dosbarthu ymlaen yn cael eu huchafu.

Yn 2017, cyhoeddodd y llywodraeth y byddai tua £330 miliwn yn cael ei ryddhau dros y tair blynedd nesaf. Ynghyd â hyn, byddai Big Society Capital yn stopio bod yn unig dderbynnydd cyfran Lloegr o'r arian sydd ar gael. Mae'r Gronfa wedi cydnabod y symiau sy'n ddyledus i bob mudiad dosbarthu penodol dan y rhaglen yn seiliedig ar eu cyfran o gyfanswm y derbyniadau hyd yma.

Cyfanswm y symiau a nodwyd gan Reclaim Fund Ltd fel y rhai sydd ar gael i'r Gronfa yn ystod y flwyddyn 2020/21 oedd £90.3 miliwn (2019/20 £69.0 miliwn). Caiff y symiau hyn eu cadw ar ran y Gronfa gan Reclaim Fund Ltd am hyd at 12 mis ar ôl diwedd y flwyddyn, neu tan i'r Gronfa ddefnyddio'r arian i fodloni ei rwymedigaethau dan ymrwymiadau grant neu i basio ymlaen at fudiadau trydydd parti, pa un bynnag sydd gyntaf. Yn dilyn codi'r arian, rydym yn adneuo arian tan fod angen y rhain i fodloni ymrwymiadau grant neu rwymedigaethau trosglwyddo. Yn ystod y flwyddyn derbyniwyd llog gwerth £136,493 (2019/20 £650,034) mewn perthynas â'r arian hwn.

Mae Deddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 hefyd yn amlinellu pwerau i'r Gronfa weithio gyda mudiadau eraill i ddosbarthu arian. Rydym yn cyfeirio at y gweithgareddau hyn fel Rhaglenni Trydydd Parti. Mae'r pwerau hyn yn rhoi cwmpas i ni ddosbarthu arian ar ran neu ochr yn ochr â, mudiadau eraill pan ddaw hyn o fewn y meysydd ariannu a bennir gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol ar gyfer ein gwaith a'i fod yn gweddu i'n hamcanion strategol. Yn ystod y flwyddyn dosbarthwyd ariannu

gwerth cyfanswm o £39.2 miliwm trwy'r dull hwn dros arianwyr eraill.

I'r graddau bod yr arian a ddyfernir o dan y rhaglenni hyn yn cael ei lywodraethu gan yr ariannwr trydydd parti, rydym yn gweithredu fel y dosbarthwr yn unig. Nid ydym yn cofnodi derbyn yr arian ei hun neu'r grantiau a wneir yn ein cyfrifon ein hunain. Fodd bynnag, rydym yn adennill y costau o ymgymryd â'r gweithgaredd hwn o'r arianwyr perthnasol ac yn cofnodi hwn fel incwm. Pan fyddwn yn darparu arian ar y cyd neu gyfatebol ar gyfer y rhaglenni hyn rydym yn cofnodi ein cyfran o'r dyfarniadau grant a wnaed mewn gwariant ar raglenni'r Loteri Genedlaethol.

Rydym yn cofnodi arian a gedwir i'w dosbarthu yn ein balansau arian yn y Datganiad sefyllfa ariannol ynghyd ag unrhyw rwymedigaethau a wnaed cyn derbyn yr arian o'r ariannwr. Mae cofnod o'r balansau yn ymwneud â phob rhaglen yn nodyn 24 y cyfrifon.

Ar ddechrau 2020/21, derbyniodd y Gronfa £200 miliwn trwy gytundeb grant gyda DCMS ar gyfer rhaglen Cronfa Cymorth Gymunedol y Coronafeirws, i'w dosbarthu i elusennau a mudiadau cymunedol yn Lloegr i'w galluogi i ateb y gofynion a osodir arnynt gan y coronafeirws. Roedd rhaid cwblhau'r rhaglen weithgarwch erbyn diwedd mis Medi 2020 gyda'r disgwyliad y bydd y mudiadau derbyn yn gwario'r arian o fewn chwe mis o'i derbyn.

Mae'r rhaglen weithgarwch hon yn arwyddocaol i'r Gronfa ac yn heriol ar gyfer ein capasiti ond yn hanfodol ochr yn ochr ag arian y Loteri Genedlaethol i gefnogi elusennau a mudiadau cymunedol i fodloni'r gofynion a osodir arnynt gan yr argyfwng neu i ddarparu hylifedd yn sgil gostyngiadau yn eu hincwm.

Yn ystod 2020/21, cytunodd y Gronfa ar raglen Cronfa Elusennau COVID-19 gyda'r Adran Cymunedau fel rhan o'n hymateb i'r coronafeirws yng Ngogledd Iwerddon. Darparodd yr Adran Cymunedau ariannu i'n galluogi i wneud ymrwymiadau grant o £8.8 miliwn.

Hefyd, cytunodd y Gronfa ar raglenni'r Gronfa Cefnogi Cymunedau a'r Gronfa Adfer Cymunedau gyda Llywodraeth yr Alban fel rhan o'n hymateb i'r coronafeirws yn yr Alban. Darparodd yr Adran Cymunedau ariannu i'n galluogi i wneud ymrwymiadau grant o £10.3 miliwn.

## Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (NLDF)

Delir enillion achosion da net y Loteri Genedlaethol yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (NLDF), sydd o dan stiwardiaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon hyd nes y caiff ei dynnu i lawr gan ddosbarthwyr y Loteri Genedlaethol. Mae'r Gronfa yn derbyn incwm buddsoddi yn ychwanegol at enillion y Loteri o'r un gyfran ag enillion o dderbynebau'r Loteri Genedlaethol (40%). Yn 2020/21 roedd hyn yn £0.4 miliwn (2019/20 £3.4 miliwn).

**ROEDD EIN BALANS NLDF YN £264 MILIWN AR 31 MAWRTH 2021 (2019/20 £303 MILIWN)**

Gostyngodd ein balans yn y NLDF yn ystod y flwyddyn gan £39 miliwn. Mae hyn o ganlyniad i barhau i fodloni ymrwymiadau o ddyfarniadau a wnaed yn ystod blynyddoedd blaenorol pan roedd incwm o'r Loteri Genedlaethol yn uwch nad yn ystod blynyddoedd diweddar.



Dadansoddiad o'n perfformiad: ariannol

Rydym yn cymryd y newid disgwyliedig yn y balans i ystyriaeth ochr yn ochr â rhagamcaniadau o refeniw y dyfodol ac amser rhwymedigaethau dros ben wrth bennu cyllideb dyfarniadau grant y dyfodol. Gan nad ydym yn rheoli incwm y Loteri Genedlaethol nid yw'n bosib i ni reoli'r balans yn y NLDF yn y tymor byr ac felly nid ydym yn pennu targed penodol ar gyfer ein balans. Ein strategaeth ariannu yw uchafu gwerth ymrwymiadau grant newydd y gallwn eu gwneud yn ddiogel dros gyfnod o bum mlynedd gan ystyried ymrwymiadau cyfrif cyfredol. Rydym yn rhagweld ein llif arian i mewn ac allan yn y dyfodol er mwyn asesu balans isafswm diogel yn y NLDF er mwyn sicrhau y gallwn fodloni ein rhwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus, gan ganiatáu ar gyfer asesiadau seiliedig ar risg o amrywiadau posib mewn incwm. Bydd y balans gwirioneddol ar unrhyw adeg benodol yn amrywio yn ôl strwythur ac amseru ein rhaglenni grant a'r incwm a gynhyrchir trwy'r Loteri Genedlaethol ar gyfer y cyfnod dan sylw.

Gostyngodd y balans a gedwir gennym yn y NLDF yn sylweddol yn ystod 2020/21 yn sgil heriau argyfwng y Coronafeirws. Cynyddodd incwm yn 2020/21 o'i gymharu â'r hyn y gwnaethom gyllidebu ar ei gyfer.

Ar ben hynny, rydym yn ceisio uchafu'r arian y gallwn eu darparu i'r sector i gefnogi mudiadau trwy'r argyfwng. Byddwn yn addasu rhaglenni grant yn y dyfodol i sicrhau ein bod yn cadw digon o arian wrth gefn i fodloni ein rhwymedigaethau yn seiliedig ar ddisgwyliadau diwygiedig o incwm wrth i'r adferiad barhau.

## Archwilwyr

O dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1993, mae'n rhaid i'n cyfrifon blynyddol gael eu harchwilio a'u hardystio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

Nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y Gronfa yn ymwybodol ohoni.

Nid oedd unrhyw ffioedd ar gyfer gwasanaethau nad oeddent yn ymwneud ag archwilio gan archwilwyr allanol.

## Deiliad gwybodaeth y sector cyhoeddus

Fel pob corff cyhoeddus, mae'r Gronfa yn ddeiliad gwybodaeth sector cyhoeddus. Nid yw felly wedi codi tâl am ailddefnydd penodol o wybodaeth.

# Dadansoddiad o'n perfformiad: cydraddoldeb

## Cydraddoldeb yn cyrchu ariannu

Mae'r Gronfa i bawb mewn cymunedau. Rydym yn gweithio'n barhaus i esblygu cyrhaeddiad ein gwahoddiad a'n croeso. Rydym yn gwerthfawrogi ac yn gweithio gyda'r asedau a'r wybodaeth y mae pobl amrywiol yn dod â nhw i'w cymunedau ac i'r Gronfa.

Mae ein hegwyddorion ac arweiniad cydraddoldeb ar gyfer ymgeiswyr a deiliaid grant ar gael ar ein gwefan: tnlcommunityfund.org.uk/about/customer-service/equalities

Mae'r tabl isod yn amlinellu ein hadroddiad monitro cydraddoldeb ar gyfer 2020/21

| | Nifer o geisiadau a'r gyfradd ymgeisio | | Nifer y dyfarniadau a chyfradd lwyddo'r ceisiadau | | Swm y gofynnwyd amdano a chanran y swm y gofynnwyd amdano | | Swm y gofynnwyd amdano a chanran y swm a ddyfarnwyd | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ethnigrwydd | Rhif | % | Rhif | % | £'000 | % | £'000 | % |
| Du/Affricanaidd/ Caribïaidd/Du o'r DU | 3,956 | 7 | 2,010 | 51 | 114,716 | 6 | 46,680 | 41 |
| Asiaidd/Asiaidd Deyrnas Unedig | 3,077 | 6 | 1,607 | 52 | 92,582 | 4 | 38,839 | 41 |
| Ethnigrwydd lluosog cymysg | 2,785 | 5 | 1,378 | 49 | 87,927 | 4 | 39,934 | 45 |
| Grŵp ethnig arall | 4,133 | 8 | 2,143 | 52 | 120,607 | 6 | 51,107 | 42 |
| Gwyn arall | 1,198 | 2 | 572 | 48 | 41,346 | 2 | 18,770 | 45 |
| Gwyn Deyrnas Unedig | 1,342 | 3 | 661 | 49 | 49,016 | 2 | 19,154 | 39 |
| Dim ethnigrwydd penodol | 36,267 | 69 | 17,142 | 47 | 1,569,028 | 76 | 612,242 | 39 |



Dadansoddiad o'n perfformiad: cydraddoldeb

| | Nifer o geisiadau a'r gyfradd ymgeisio | | Nifer y dyfarniadau a chyfradd lwyddo'r ceisiadau | | Swm y gofynnwyd amdano a chanran y swm y gofynnwyd amdano | | Swm y gofynnwyd amdano a chanran y swm a ddyfarnwyd | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedran | Rhif | % | Rhif | % | £'000 | % | £'000 | % |
| 0 - 24 | 7,229 | 16 | 3,544 | 49 | 243,003 | 13 | 121,155 | 50 |
| 25 - 64 | 3,563 | 8 | 1,997 | 56 | 118,606 | 6 | 63,134 | 53 |
| 65+ | 4,069 | 9 | 2,507 | 62 | 111,221 | 6 | 59,608 | 54 |
| Dim oedran penodol | 31,078 | 67 | 14,266 | 46 | 1,399,271 | 75 | 513,183 | 37 |

| | Nifer o geisiadau a'r gyfradd ymgeisio | | Nifer y dyfarniadau a chyfradd lwyddo'r ceisiadau | | Swm y gofynnwyd amdano a chanran y swm y gofynnwyd amdano | | Swm y gofynnwyd amdano a chanran y swm a ddyfarnwyd | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhywedd | Rhif | % | Rhif | % | £'000 | % | £'000 | % |
| Gwrywaidd | 2,730 | 6 | 1,493 | 55 | 98,695 | 5 | 43,083 | 44 |
| Benywaidd | 2,290 | 5 | 1,261 | 55 | 84,900 | 4 | 37,280 | 44 |
| Traws | 2,785 | 1 | 220 | 42 | 27,764 | 1 | 7,797 | 28 |
| Rhyngryw | 384 | 1 | 148 | 39 | 20,907 | 1 | 4,598 | 22 |
| Anneuaidd | 468 | 1 | 195 | 42 | 24,766 | 1 | 6,947 | 28 |
| Dim rhyw benodol | 39,127 | 86 | 18,643 | 48 | 1,646,654 | 88 | 652,072 | 40 |

| | Nifer o geisiadau a'r gyfradd ymgeisio | | Nifer y dyfarniadau a chyfradd lwyddo'r ceisiadau | | Swm y gofynnwyd amdano a chanran y swm y gofynnwyd amdano | | Swm y gofynnwyd amdano a chanran y swm a ddyfarnwyd | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Crefydd | Rhif | % | Rhif | % | £'000 | % | £'000 | % |
| Bwdhaeth | 202 | 0 | 79 | 39 | 6,602 | 0 | 1,931 | 29 |
| Cristnogol | 438 | 1 | 192 | 44 | 14,847 | 1 | 4,495 | 30 |
| Hindŵaeth | 31 | 0 | 17 | 55 | 1,436 | 0 | 531 | 37 |
| Iddewiaeth | 666 | 2 | 362 | 54 | 13,417 | 1 | 5,299 | 39 |
| Moslemiaeth | 482 | 1 | 237 | 49 | 13,940 | 1 | 7,205 | 52 |
| Sikhiaeth | 255 | 1 | 104 | 41 | 7,911 | 0 | 2,194 | 28 |
| Arall | 21 | 0 | 9 | 43 | 1,293 | 0 | 760 | 59 |
| Dim crefydd | 1,064 | 2 | 653 | 61 | 49,054 | 3 | 32,955 | 67 |
| Dim gwybodaeth | 39,964 | 93 | 19,001 | 48 | 1,680,421 | 94 | 653,882 | 39 |

| | Nifer o geisiadau a'r gyfradd ymgeisio | | Nifer y dyfarniadau a chyfradd lwyddo'r ceisiadau | | Swm y gofynnwyd amdano a chanran y swm y gofynnwyd amdano | | Swm y gofynnwyd amdano a chanran y swm a ddyfarnwyd | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Anableddau | Rhif | % | Rhif | % | £'000 | % | £'000 | % |
| Anabl | 6,106 | 15 | 3,918 | 64 | 181,502 | 10 | 96,455 | 53 |
| Heb fod yn anabl | 35,807 | 85 | 16,244 | 45 | 1,570,078 | 90 | 601,482 | 38 |



Dadansoddiad o'n perfformiad: cydraddoldeb

| | Nifer o geisiadau a'r gyfradd ymgeisio | | Nifer y dyfarniadau a chyfradd lwyddo'r ceisiadau | | Swm y gofynnwyd amdano a chanran y swm y gofynnwyd amdano | | Swm y gofynnwyd amdano a chanran y swm a ddyfarnwyd | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tueddfryd Rhywiol | Rhif | % | Rhif | % | £'000 | % | £'000 | % |
| LGBT | 949 | 2 | 480 | 51 | 35,047 | 2 | 16,389 | 47 |
| Amhenodol | 40,964 | 98 | 19,682 | 48 | 1,716,533 | 98 | 681,548 | 40 |

Noder: Nid yw'r data uchod bob amser yn adio i fyny i'r un cyfansymiau ar gyfer unrhyw weithgareddau dyfarnu grantiau. Mae hyn oherwydd nad yw'r dosbarthwyr yn ein data grant yn fandadol pan gwblheir data ymgeisio ac mae'n bosib y bydd rhai ceisiadau'n cwblhau is-set yn unig o'r cyfanswm. Ar ben hynny, gellir dewis sawl categori mewn nifer o ddosbarthwyr.

## Cydraddoldeb mewn cyflogaeth

Mae'r Gronfa yn ceisio bod yn gyflogwr amrywiol a chynhwysol. Rydym yn ceisio sicrhau bod ein staff yn adlewyrchu ac yn cynrychioli'r cymunedau y maent yn eu cefnogi'n briodol. Mae ein dull recriwtio'n sicrhau ein bod yn denu ystod amrywiol o ymgeiswyr ac rydym yn defnyddio ffynonellau, cysylltiadau, asiantaethau a dulliau hysbysebu priodol i gefnogi hyn.

Rydym yn ceisio sicrhau ein bod yn darparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu i'r holl staff i fwyafu eu gallu i ymgymryd â rolau dros y Gronfa. Rydym yn cefnogi ystod o gyfleoedd hyfforddi sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol, ac yn unigryw, i sgiliau y mae eu hangen i gyflawni'r rôl gan gynnwys datblygu arweinwyr a rheolwyr. Pan fydd staff yn datblygu problemau mynediad yn ystod eu cyflogaeth rydym yn ceisio sicrhau y gallant barhau i fodloni gofynion eu rôl gan gynnwys darparu cefnogaeth a hyfforddiant ychwanegol fel y bo angen. Mae'r tabl isod yn amlinellu ein hadroddiad monitro cydraddoldeb ar gyfer 2020/21.

| | Y Gronfa | Gwasanaeth Sifil | Poblogaeth Deyrnas Unedig sy'n weithgar yn economaidd |
|---|---|---|---|
| Statws Anabledd | % | % | % |
| Staff sydd wedi datgan anabledd | 11.8 | 11.7 | 13.4 |
| Staff sydd heb ddatgan anabledd | 88.2 | 88.3 | 86.6 |

| | Y Gronfa | Gwasanaeth Sifil | Poblogaeth Deyrnas Unedig sy'n weithgar yn economaidd |
|---|---|---|---|
| Rhywedd | % | % | % |
| Benywaidd | 67.3 | 53.9 | 47.2 |
| Gwrywaidd | 32.7 | 46.1 | 52.8 |

| | Bwrdd | Cyfarwyddwyr | Poblogaeth Deyrnas Unedig sy'n weithgar yn economaidd |
|---|---|---|---|
| Rhywedd | % | % | % |
| Benywaidd | 75.0 | 58.3 | 64.0 |
| Gwrywaidd | 25.0 | 41.7 | 36.0 |

| | Y Gronfa | Poblogaeth Deyrnas Unedig sy'n weithgar yn economaidd |
|---|---|---|
| Grŵp Ethnig | % | % |
| Asiaidd | 7.1 | 4.7 |
| Du | 3.9 | 3.3 |
| Tsieineaidd | 0.2 | 0.4 |
| Cymysg | 2.4 | 1.2 |
| Arall | 0.3 | 2.8 |
| Gwyn | 84.8 | 87.6 |
| Dim gwybodaeth | 1.3 | - |
| Ddim eisiau datgan | - | - |





## Safonau'r Gymraeg

Rydym yn ymroddedig i gyflwyno gwasanaeth dwyieithog yng Nghymru trwy weithredu Safonau Cymraeg y Gronfa a ddaeth i rym ar 25 Ionawr 2017.

Mae gweithrediad y Safonau'n cael ei fonitro a'i drafod mewn cyfarfodydd rheolaidd rhwng Swyddog Iaith Gymraeg y Gronfa a Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Rydym wedi bodloni holl derfynau amser Safonau'r Gymraeg, gyda'r olaf yn cael eu bodloni ym mis Gorffennaf 2018. O ganlyniad i Safonau'r Gymraeg a'n hymagwedd ragweithiol fel mudiad, mae nifer o wasanaethau a gynigir gan y Gronfa i'w staff ar gael yn Gymraeg gan gynnwys ein gwasanaethau Adnoddau Dynol a chyrsiau hyfforddiant. Rhoddir cyfle i'n cwsmeriaid ddilyn eu taith gyda ni yn Gymraeg o'r pwynt cyswllt cyntaf, boed dros y ffôn, ar e-bost, cyfryngau cymdeithasol neu trwy gais ysgrifenedig hyd at ddiwedd eu grant. Darperir ein presenoldeb mewn digwyddiadau ac mewn cymorthfeydd ariannu yng Nghymru yn Gymraeg a Saesneg ac rydym yn cynnig hyfforddiant pwrpasol ar ofynion y Gymraeg i'n deiliaid grantiau. Dros y flwyddyn ddiwethaf o weithio gartref, rydym wedi parhau i gynnig ein holl wasanaethau i'n cwsmeriaid a deiliaid grantiau yn Gymraeg neu Saesneg yn rhithwir ac mae dros hanner ein staff yng Nghyfarwyddiaeth Cymru naill ai'n siaradwyr Cymraeg neu'n ddysgwyr.

# Dadansoddiad o'n perfformiad: adroddiad cynaliadwyedd

## Parhau i reoli effaith amgylcheddol y Gronfa

### Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr, Gwastraff a Defnydd 2020/21

Mae mesuriadau perfformiad amgylcheddol eleni yn dangos gwelliant sylweddol pellach mewn cynaliadwyedd, gyda'n hôl troed carbon am y flwyddyn yn gostwng i 285 tCO2e, gostyngiad ar draws holl gwmpas yr allyriadau o 68%. Bydd allyriadau a gyfrifir ar gyfer y cyfnod hwn yn cael eu gwrthbwyso trwy gynllun gwirfoddol cymeradwy sy'n gweithio gyda mudiadau amgylcheddol yn y DU.

Mae'r data a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn cynrychioli blwyddyn o weithio'n wahanol ar draws y Gronfa oherwydd y cyfnodau cloi yn sgil y coronafeirws. Gelir gweld yn amlwg bod y gostyngiad mwyaf sylweddol mewn allyriadau a chost o dan gwmpas 3 (teithio). Mae'r allyriadau sy'n weddill (ar draws pob cwmpas) hefyd wedi gweld gostyngiadau sylweddol, yn rhannol oherwydd gweithio gartref a chau swyddfeydd. Mae'r ffigurau isod yn nodi effaith y cyfnodau cloi yn sgil y coronafeirws ar ein hallyriadau CO2 yr adroddwyd amdanynt yn ystod y cyfnod hwn. Mae'n bwysig nodi nad yw unrhyw allyriadau cwmpas 1 a 2 sy'n gysylltiedig â gweithio gartref wedi'u cynnwys yma, ond mae cyfrifiad yn cael ei adolygu i gyd-fynd â'n blwyddyn achredu gyntaf. Mae'r ffigurau isod yn nodi effaith y cyfnodau cloi yn sgil y coronafeirws ar weithgareddau busnes ac, yn ei dro, ar allyriadau.

**Allyriadau swyddfa i lawr 25%**
**Allyriadau teithio i lawr 98%**
**Gwastraff i safleoedd tirlenwi i lawr 100%**
**Cynhyrchu gwastraff yn gyffredinol i lawr 100%**
* Yn amodol ar amrywiadau Pandemig y Coronafeirws

### Edrych i'r dyfodol

Mae ein Cynllun Corfforaethol 2020-23 yn amlinellu sut byddwn yn gweithio gyda'n deiliaid grant i wella eu perfformiad amgylcheddol ac yn ymrwymo 50% o'n Cronfa gweithredu hinsawdd erbyn 2023.

Rydym wedi ymrwymo'n llwyr i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd trwy ein gweithgareddau ein hunain, ac yn y prosiectau rydyn ni'n eu hariannu. Er mwyn rheoli DPA yn well, mae'r Gronfa bellach yn gweithio ochr yn ochr â'r achredwyr Planet Mark i osod targedau realistig ar gyfer y flwyddyn i ddod, ac edrych ar welliant parhaus mewn meysydd megis; eiddo, teithio, gweithio hyblyg, caffael ac isadeiledd TG craidd.

Gyda'r ymateb parhaus i'r coronafeirws, a'r cyfle i weithio'n fwy hyblyg, bydd y Gronfa'n dechrau mesur, a monitro allyriadau sy'n gysylltiedig â gweithio gartref. Mae sawl ffordd ar gael inni fesur y gweithgaredd hwn ac rydym yn ymchwilio i'r un gorau posibl i'w ddefnyddio er mwyn rhoi mesuriad allyriadau mwy cywir inni.





### Allyriadau nwyon tŷ gwydr

| | | 2020/21 | 2019/20 |
|---|---|---|---|
| Dangosyddion anariannol (tCO2E)[1] | Cyfanswm gros ar gyfer Cwmpasau 1 a 2 | 279 | 373 |
| | Cyfanswm net ar gyfer Cwmpasau 1 a 2 | 279 | 373 |
| | (llai gostyngiadau h.y. tariffau Gwyrdd) | - | - |
| | Allyriadau gros ar gyfer Cwmpas 3 (teithio busnes) | 6 | 357 |
| | Allyriadau Cwmpas 3 eraill a fesurwyd | - | 11 |
| Defnydd ynni cysylltiedig (kWh)[2] | Trydan: anadnewyddadwy | 414,665 | 448,045 |
| | Trydan: adnewyddadwy | - | - |
| | Nwy | 901,612 | 1,393,240 |
| | LPG | - | - |
| | Arall | - | - |
| Dangosyddion ariannol ( £'000s) | Gwariant ar ynni | 147 | 97 |
| | Gwariant ar deithio busnes swyddogol | 20 | 1,496 |

### Gwastraff

| | | 2020/21 | 2019/20 |
|---|---|---|---|
| Dangosyddion anariannol (t)[3] | Cyfanswm gwastraff | - | 56 |
| | Gwastraff Peryglus | - | - |
| | Tirlenwi | - | 25 |
| | Ailddefnyddio/Ailgylchu | - | 26 |
| | Ynni o wastraff a losgir | - | 5 |
| Dangosyddion ariannol ( £'000s) | Cyfanswm cost gwaredu | 9 | 25 |
| | Gwastraff peryglus - cyfanswm cost gwaredu | - | - |
| | Tirlenwi | 4.5 | 10 |
| | Ailddefnyddio/Ailgylchu | 4.5 | 9 |
| | Ynni o wastraff a losgir | - | 4 |

[1] Mae tCO2e yn sefyll am dunelli o garbon deuocsid a'i gyfatebol. Mae 'carbon deuocsid a'i gyfatebol' yn uned safonol ar gyfer cyfrif allyriadau nwyon tŷ gwydr (GHG).

[2] Mae kWh yn sefyll am awr cilowat. Mae'n fesur o faint o egni rydych chi'n ei ddefnyddio. Nid yw'n golygu nifer y cilowat rydych chi'n eu defnyddio bob awr. Yn syml, uned fesur ydyw sy'n cyfateb i faint o ynni y byddech chi'n ei ddefnyddio pe byddech chi'n cadw teclyn 1,000 wat yn rhedeg am awr.

[3] Mae t yn sefyll am 'tunelli'. Dyma'r mesur safonol ar gyfer mesur gwastraff.

### Adnodd Meidraidd - defnydd/dŵr

| | | 2020/21 | 2019/20 |
|---|---|---|---|
| Dangosyddion anariannol (m3)[4] | Dŵr a gyflenwyd | - | 4,762 |
| Dangosyddion ariannol ( £'000) | Costau cyflenwi dŵr | 16 | 20 |

Mae cwmpas 1, 2 a 3 yn cyfeirio at y diffiniadau a ddisgrifir yn y Protocol Nwyon Tŷ Gwydr gan Sefydliad Adnoddau'r Byd a Chyngor Busnes y Byd ar Ddatblygu Cynaliadwy.

Mae Cwmpas 1 yn cyfeirio at nwyon tŷ gwydr a gynhyrchir yn uniongyrchol (yn bennaf trwy wresogi ein swyddfeydd) tra bod Cwmpas 2 yn cyfeirio at gynhyrchu anuniongyrchol megis trydan.

Er gwaethaf cau ein holl swyddfeydd dros dro yn ystod 2020/21 oherwydd cyfnod cloi'r coronafeirws, rydym wedi parhau i leihau maint ein swyddfeydd trwy gau ein swyddfa yng Nghaerdydd ym mis Tachwedd 2020. Mae'r holl swyddfeydd eraill yn ein portffolio wedi lleihau'r defnydd o nwy a thrydan yn sylweddol oherwydd y diffyg gweithgaredd yn y mannau hyn yn ystod y flwyddyn. Mae hyn wedi arwain at barhad o'r duedd o allyriadau yn gostwng o dan gwmpas 1 a 2. Mae'r data a ddefnyddir i gyfrifo allyriadau Cwmpas 1 wedi dod o daliadau gwasanaeth oherwydd y diffyg data ar ddefnydd sydd ar gael inni trwy filio arall.

Mae allyriadau cwmpas 2 yn fwy cywir eleni oherwydd argaeledd anfonebau go iawn ac mewn rhai achosion darlleniadau mesuryddion bob mis. Mae wedi bod yn gyfle da yn ystod y cyfnod cloi i weld lle mae'r mwyafrif o ynni'n cael ei ddefnyddio ar draws pob swyddfa.

Mae Cwmpas 3 yn cyfeirio at allyriadau o deithio busnes a gweithgareddau eraill megis aros dros nos, gwastraff, dŵr ac argraffu. Mae ein hallyriadau o dan y categori hwn hefyd wedi lleihau'n sylweddol yn ystod 2020/21 oherwydd y newidiadau i ddulliau gweithio ers y cyfnod cloi yn sgil y coronafeirws.

Y gostyngiad mwyaf sylweddol fu cwymp o 98% mewn allyriadau o deithio sy'n gysylltiedig â busnes. Y defnydd o geir sydd wedi parhau i fod y cyfrannwr uchaf yn y gweithgaredd hwn, tra gostyngodd hediadau busnes (mewnol a thramor) i ddim.

Cyfrifwyd allyriadau ar gyfer gwastraff a dŵr ar sero eleni gan fod yr holl swyddfeydd wedi bod yn cael eu defnyddio cyn lleied â phosibl am y flwyddyn gyfan. Fodd bynnag, rydym yn dal i fynd i daliadau gan landlordiaid am eu defnyddio hyd yn oed os nad yw'r gwasanaeth wedi'i ddefnyddio.

Mae'r defnydd o bapur ar ei isaf ers cychwyn cadw cofnodion, gan ostwng bron 100%. Mae allyriadau sy'n gysylltiedig â faint o bapur sy'n cael ei argraffu yn disgyn o dan dunnell mewn pwysau am y cyfnod hwn.

[4] m3 yw'r mesur ar gyfer y defnydd o ddŵr. Mae'n cynrychioli metr ciwbig.





# Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Adran 36A Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddfau'r Loteri Genedlaethol 1998 a 2006), mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi cyfarwyddo'r Gronfa Loteri Fawr i baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer bob blwyddyn ariannol ar ffurf ac ar sail a amlinellir yng Nghyfarwyddiadau'r Cyfrifon

Paratoir y Cyfrifon ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddo ddarparu golwg gwir a theg o sefyllfa'r Gronfa ac o'i hincwm, ei gwariant, Datganiad sefyllfa ariannol a'i llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth ac yn benodol:

- glynu wrth y Cyfarwyddyd Cyfrifyddu a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu priodol yn gyson;
- ffurfio barn a gwneud amcangyfrifon ar sail resymol;
- datgan a yw safonau cyfrifyddu perthnasol fel y'u disgrifir yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth wedi eu dilyn, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau materol yn y datganiadau ariannol;
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes cyfredol;
- cadarnhau bod yr Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol cyfan yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Fel Swyddog Cyfrifyddu ers 7 Mehefin 2021, ymgymeraf â chyfrifoldeb dros yr Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol a'r farn y mae ei hangen i bennu eu bod yn deg, cytbwys ac yn ddealladwy.

Cadarnhaf fod yr adroddiad hwn yn gyffredinol yn bodloni'r gofynion hynny yn fy marn i. Mae'r Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi penodi Prif Weithredwr y Gronfa fel Swyddog Cyfrifyddu.

Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n gyfrifol amdano, cadw cofnodion priodol a diogelu asedau'r Gronfa, wedi'u disgrifio yn 'Rheoli Arian Cyhoeddus' a gyhoeddir gan Drysorlys EM.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylwn i sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i bennu bod archwilwyr y Gronfa'n ymwybodol o'r wybodaeth honno. Hyd yr wyf yn gwybod, does dim gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni.

## Cyfrifoldebau dirprwyedig

Pryd bynnag y bo'n briodol, mae'r Gronfa wedi ceisio defnyddio pwerau dirprwyo y darparwyd ar eu cyfer gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998. O ganlyniad i hyn, gall partïon eraill fod yn atebol am elfennau penodol o raglenni dyfarniadau.

## Cynlluniau ar y cyd

Mae'r Gronfa wedi ymgymryd â chynlluniau ar y cyd, fel y'u diffinnir yn Neddf y Loteri Genedlaethol 1998, i ddarparu ariannu ochr

yn ochr â chyrff eraill er mwyn cyflawni'r canlyniadau a ddiffiniwyd gan y Gorchymyn Cynllun ar y Cyd perthnasol. Yn y cynlluniau hyn mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am sicrhau:

- y cymhwysir arian Loteri a ddyrennir gan y Gronfa yn unol â'n pwerau cyfreithiol;
- defnydd economaidd, effeithlon ac effeithiol o arian y Loteri a ddyrennir gan y Gronfa i'r rhaglen;
- bod y systemau a ddefnyddir i weithredu'r rhaglen yn gadarn ac yn addas i'r diben;
- bod y mecanwaith ar gyfer dyrannu costau gweinyddol y rhaglen yn cael ei gytuno ar y cyd rhwng y dosbarthwyr Loteri sy'n cymryd rhan.

Yn ystod 2020/21, mae'r Gronfa wedi cymryd rhan yn y cynlluniau canlynol ar y cyd:

- Parks for People - cynllun a weinyddwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, ar ran Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a Chronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol;
- Rethinking Parks - cynllun a weinyddwyd gan Nesta, ar ran Nesta (asiantaeth arloesi yn y DU er budd cymdeithasol), Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a Chronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.

## Partneriaid dyfarnu

Mae'r Gronfa wedi defnyddio'r pwerau a ddarperir gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998 i ddirprwyo'r cynlluniau grant a restrir isod i bartneriaid dyfarnu. Mae'r cytundeb dirprwyo rhwng y Gronfa a'r partner dyfarnu'n amlinellu cyfrifoldeb Prif Weithredwr y partner dyfarnu i sicrhau bod y systemau a roddir ar waith i weinyddu ceisiadau'r Loteri Genedlaethol ac i brosesu a monitro grantiau'r Loteri Genedlaethol yn dderbyniol ac yn addas i'r diben a bod arian y Loteri Genedlaethol yn cael ei ddosbarthu mewn ffordd gywir a phriodol.

Mae Prif Weithredwr y Gronfa yn cadw'r cyfrifoldeb dros ddiogelwch cyffredinol yr arian cyhoeddus a ddaw o'r Loteri Genedlaethol a dros sicrhau bod partneriaid dyfarnu yn gweithredu o fewn telerau a gytunir arnynt ac yn unol â chyfarwyddiadau ariannol a pholisi.

## Ein partneriaid dyfarnu

**Fel rhan o'r rhaglen Buddsoddiad Cymdeithasol**

- Yr Ysgol Entrepreneuriaid Cymdeithasol

**Fel rhan o'r Gronfa Dwf**

- Forward Enterprise FM Limited
- PICNIC Investment Limited
- Community Impact Partnership
- BIG Issue Access Limited
- Cultural Impact Loans
- Devon Community Foundation
- GMCVO
- Homeless Link Social Investment Ltd
- Kent Community Foundation
- Somerset Community Foundation
- Sporting Capital Ltd
- UnLtd
- First Ark
- Key Fund Investments Ltd
- Resonance Health & Wellbeing





### Fel rhan o raglen y Gronfa #iwill

- Virgin Money Foundation
- Sport England
- Co-operative Community Investment Foundation
- Awdurdod Llundain Fawr
- Clarion Futures
- Ormiston Trust
- Sefydliad Paul Hamlyn
- UK Community Foundations
- Ymddiriedolaeth Ysbryd 2012
- Young Manchester
- Plant mewn Angen y BBC
- Ernest Cook Trust
- Dunhill Medical Trust
- Premier League Charitable Fund

### Fel rhan o'r rhaglen Partneriaeth

- Yr Ysgol Entrepreneuriaid Cymdeithasol

### Fel rhan o Ymddiriedolaeth y Loteri Ynys Manaw

- Ymddiriedolaeth y Loteri Ynys Manaw

### Fel rhan o raglen Reaching Communities

- Cripplegate Foundation
- Buttle UK

### Fel rhan o Gronfa Gymorth Cymunedol y Coronafeirws

- The Landworkers' Alliance
- The Bulldog Trust
- Community Foundation for Surrey
- The Bridge Renewal Trust
- Suffolk Community Foundation
- Norfolk Community Foundation
- Kingston Voluntary Action
- Harrow Community Action Ltd
- Hampton Fuel Allotment Charity
- CVS Brent
- Community Barnet
- Community Action Sutton
- Buckinghamshire Community Foundation
- Bexley Voluntary Service Council Ltd
- Blagrave Trust
- Enfield Voluntary Action
- Essex Community Foundation
- Transition Network
- Y Sefydliad Entrepreneuriaid Cymdeithasol
- Yr Ysgol Entrepreneuriaid Cymdeithasol
- Key Fund
- Community Land and Finance CIC
- Big Issue Invest Ltd
- Smallwood Trust
- Buttle UK
- Bridge House Estates
- Centre for the Acceleration of Social Technology
- Power to Change Trust
- The Access to Justice Foundation
- The Barrow Cadbury Trust
- Homeless Link
- Heathrow Community Trust

### Fel rhan o raglen Tlodi Gwledig

- Asiantaeth Ynni Hafren Gwy Cyf

### Ychwanegedd

Yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol 2006 mae'n ofynnol i holl ddosbarthwyr y Loteri adrodd am eu polisïau a'u harferion ychwanegedd. Mae ychwanegedd yn egwyddor bwysig ein hariannu. Mae'r Gronfa'n defnyddio'r diffiniad a ganlyn: "Mae arian gan y Loteri'n wahanol i arian gan y Llywodraeth ac yn ychwanegu gwerth. Er nad yw'n disodli gwariant y Trysorlys, lle bo'n briodol mae'n ategu polisïau ac ariannu'r Llywodraeth a rhaglenni eraill."

Roedd yr holl ddyfarniadau a wnaed yn 2020/21 yn cyfateb i'r diffiniad hwn o ychwanegedd. Yn ychwanegol at y diffiniad hwn, mae'r Gronfa hefyd yn ystyried y ddarpariaeth a ganlyn ar ychwanegedd a ddisgrifir yn ein cyfarwyddiadau polisi. "YCHWANEGEDD a CHYDWEDDU – dylai datblygu rhaglenni ac ariannu prosiectau gydweddu ag arianwyr a phartïon eraill sy'n gweithio tuag at gyrchnodau'r Gronfa Loteri Fawr, ategu, ychwanegu gwerth atynt a bod yn unigryw iddynt."





# Y datganiad llywodraethu

Fel Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu, fy nghyfrifoldeb i yw'r datganiad llywodraethu hwn.

Yr wyf yn gyfrifol am sicrhau trefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol cadarn ar draws y mudiad cyfan i gefnogi cyflawniad cenhadaeth y Gronfa ac ar yr un pryd diogelu'r arian ac asedau cyhoeddus yr wyf yn gyfrifol amdanynt.

Cefais fy mhenodi'n Brif Swyddog Gweithredol a Swyddog Cyfrifyddu Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn effeithiol 7 Mehefin 2021. Trosglwyddwyd a derbyniwyd sicrwydd Swyddog Cyfrifyddu gan y Swyddog Cyfrifyddu newydd cyn cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg ar 16 Mehefin 2021.

Mae'r datganiad hwn yn disgrifio sut yr wyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldeb i reoli a rheoleiddio adnoddau'r Gronfa yn ystod y flwyddyn. Mae'n galw ar waith Bwrdd y Gronfa, ei bwyllgorau Archwilio a Risg a Thâl Cydnabyddiaeth ynghyd â'r Uwch Dîm Rheoli (UDRh) fel ei gorff gweithredol. Rwyf hefyd wedi adolygu ac ystyried yr adroddiad sicrwydd blynyddol a baratowyd gan yr adran Archwilio Mewnol.

## Atebolrwydd y Gronfa i Senedd y Deyrnas Unedig, y cyrff deddfwriaethol a llywodraethau datganoledig

Crëwyd y Gronfa, sy'n gweithredu ar draws y Deyrnas Unedig, gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 2006, a ddiwygiodd Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 ac sy'n amlinellu'r prif reolau y mae'n gweithredu oddi tanynt. Mae hefyd wedi derbyn swyddogaethau penodedig o dan Ddeddf Cyfrifon Banc a Chymdeithasau Adeiladu Segur 2008.

Mae'r Gronfa'n gorff cyhoeddus anadrannol ac yr wyf yn llawn atebol i Senedd y Deyrnas Unedig am ein cyllid. Mae gorchmynion penodol sy'n gysylltiedig ag arian Loteri a chyfrifon segur yn cael eu gwneud gan Senedd y Deyrnas Unedig neu Senedd Yr Alban, Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu Adran Cymunedau Gogledd Iwerddon ond gweithredir y prif oruchwyliaeth o'r Gronfa gan y llywodraeth trwy gyfarwyddiadau a gyhoeddir gan weinidogion.

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn atebol am Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol a hefyd yn cyhoeddi cyfarwyddiadau ariannol a chyfrifon i'r Gronfa mewn perthynas â'i swyddogaethau o dan Ddeddfau'r Loteri Genedlaethol. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cyhoeddi cyfarwyddyd tebyg mewn perthynas ag arian cyfrifon segur. Mae'r cyfarwyddiadau hyn yn rheoleiddio systemau a phrosesau'r Gronfa.

Noddwr polisi'r Gronfa yw'r Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae Gweinidog yr adran noddi'n cyhoeddi cyfarwyddiadau polisi y mae'n rhaid eu hystyried wrth ddosbarthu arian yn gyffredinol ar draws y Deyrnas Unedig ac yn benodol yn Lloegr, ac mae'r gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cyhoeddi cyfarwyddiadau polisi mewn perthynas ag arian a ddosberthir yn y gwledydd hynny. Mae'r cyfarwyddiadau

hyn wedi'u cynnwys yn adran wyth yr adroddiad hwn.

O fewn fframwaith y cyfarwyddiadau hyn mae'r Gronfa yn gwneud penderfyniadau annibynnol ar ba raglenni y dylai eu rhedeg a pha grantiau y dylai eu gwneud.

Mae'r Gronfa'n cymhwyso arweiniad Trysorlys EM a Swyddfa'r Cabinet mewn Llywodraethu Corfforaethol adrannau llywodraeth ganolog i'r graddau ei fod yn berthnasol i gyrff cyhoeddus anadrannol. Rwyf wedi fy modloni bod yr egwyddorion yn yr arweiniad, ynghyd â ffynonellau arweiniad eraill ar arfer da mewn llywodraethu corfforaethol wedi'u hadlewyrchu'n llawn yn nhrefniadau llywodraethu'r Gronfa.

## Adolygu llywodraethu anweithredol

Mae'r Gronfa wedi'i llywodraethu gan Fwrdd sy'n cynnwys y Cadeirydd, cadeiryddion y pedwar pwyllgor gwlad a hyd at saith aelod arall. Mae'r Bwrdd wedi penodi un o'i aelodau fel Is-gadeirydd. Yn ystod 2020/21 roedd 10 aelod o'r Bwrdd. Mae nifer o newidiadau wedi bod i rolau Byrddau a Phwyllgorau yn ystod y flwyddyn. Mae rhagor o wybodaeth ar hyn yn y tabl ar ddiwedd yr adran hon.

Mae gan bob gwlad bwyllgor sy'n gyfrifol am y rhaglenni ariannu yn ei wlad; mae'r Bwrdd wedi penodi pwyllgor ar gyfer ariannu Deyrnas Unedig gyfan hefyd.

Mae'r Bwrdd yn pennu Fframwaith Strategol y Gronfa ac mae'r pwyllgorau'n gweithio o fewn y fframwaith hwn, wedi dirprwyo awdurdod i bennu'r rhaglenni ariannu yn eu gwledydd (neu ar gyfer y portffolio ariannu Deyrnas Unedig). Maent hefyd yn gwneud penderfyniadau am grantiau, neu'n cytuno ar y trefniadau dirprwyedig ar gyfer gwneud nhw, o fewn y rhaglenni hyn.

Mae'r Bwrdd wedi penodi Pwyllgor Archwilio a Risg sy'n cwrdd pob chwarter i roi cyngor ar faterion adrodd ariannol, archwilio a sicrwydd a rheoli risg. Hefyd, mae wedi penodi Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth i ddelio gyda'r materion a ddisgrifir yn yr adroddiad tâl cydnabyddiaeth.

Mae'r Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth yn cwrdd bob blwyddyn fel arfer. Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn adrodd i bob cyfarfod o'r Bwrdd ar unrhyw faterion y mae'r Pwyllgor yn tybio y mae angen eu dwyn at eu sylw, ac i ddarparu sicrwydd i'r Bwrdd. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg hefyd yn darparu adroddiad llawn i'r Bwrdd ar ei waith unwaith y flwyddyn.

Mae'r Bwrdd yn derbyn adroddiadau am y rhaglenni ym mhob portffolio gwlad er mwyn iddo sicrhau bod eu gweithgarwch gwneud grantiau'n cydymffurfio â'r Fframwaith Strategol a bod dysgu'n cael ei rannu.

Mae aelodaeth y Bwrdd a'r holl bwyllgorau a phresenoldeb ynddynt wedi'i amlinellu yn y tablau ar ddiwedd yr adran hon. Mae holl aelodau Bwrdd wedi'u penodi gan y Gweinidog dros yr adran noddi.

Mae aelodau Pwyllgorau Gwlad yn cael eu penodi gan y Gronfa. Mae'r gweinyddiaethau datganoledig yn cymryd rhan yn llawn yn y penodiadau sy'n gysylltiedig â'u gwledydd ac mae'r holl aelodau Bwrdd a phwyllgor yn cael eu penodi yn sgil proses hysbysebu a dethol agored.

Ym mis Chwefror 2021, penododd y Gronfa gadeirydd newydd. Cyn y penodiad, roedd yr Is-gadeirydd yn gweithredu fel Cadeirydd o fis Rhagfyr 2019 i fis Chwefror 2021.





## Ansawdd data

Mae'r Bwrdd yn derbyn data perthnasol a rheolaidd gan systemau ar draws y Gronfa i ddarparu sicrwydd ar berfformiad, mesurau rheoli a risg. Mae wedi'i foddhau bod ansawdd a chywirdeb y data hwn yn briodol ar gyfer ei anghenion o ran asesu effeithiolrwydd y rhaglenni ariannu, y dull rheoli risg, perfformiad ariannol a gweithredu'r Gronfa a phriodoldeb mesurau rheoli mewnol. Mae'r systemau sy'n darparu'r wybodaeth hon wedi'u sicrhau trwy gael eu cynnwys yn y rhaglen archwilio mewnol.

## Rheolaeth weithredol

Rwy'n arwain rheolaeth weithredol y Gronfa gyda chefnogaeth UDRh a oedd â 10 aelod ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Mae'r UDRh yn cwrdd yn rheolaidd gyda chyfarfod ffurfiol o leiaf unwaith y mis fel arfer. Mae'r UDRh yn ystyried materion polisi, strategol a gweithredol allweddol, yn darparu cyngor i'r Bwrdd ar faterion sy'n gofyn am ei gymeradwyaeth ac yn goruchwylio perfformiad gweithredol ac ariannol a threfnau rheoli risg y Gronfa'n gyffredinol.

Mae aelodau'r UDRh a'u meysydd cyfrifoldeb wedi'u disgrifio ar ddiwedd yr adran hon.

Gadawodd un aelod o'r UDRh (Prif Weithredwr) y Gronfa yn ystod y flwyddyn. Penodwyd Cyfarwyddwr Cymru John Rose yn Brif Weithredwr Dros Dro rhwng 1 Ionawr 2021 a 6 Mehefin 2021. Yna deuthum yn Brif Weithredwr Dros Dro o 7 Mehefin 2021, tra i John Rose ailgychwyn ei swydd fel Cyfarwyddwr Cymru o 7 Mehefin 2021. Cefais fy mhenodi'n Brif Weithredwr parhaol ar 18 Hydref 2021.

## Rheoli risg

Mae'r Gronfa'n gweithredu system rheoli risg gynhwysfawr, gyda chofrestr risgiau strategol yn cael ei hadolygu bob chwarter gan y Pwyllgor Archwilio a Risg. Mae'r Bwrdd yn adolygu'r gofrestr risgiau o leiaf bob blwyddyn i sicrhau nad oes unrhyw hepgorion materol. Gyda chyngor ac arweiniad y Pwyllgor Archwilio a Risg ac yn dilyn argymhelliad yr UDRh, mae'r Bwrdd hefyd wedi pennu saith thema risg i'w defnyddio i reoli ein hymagwedd at risg ac wedi cytuno i lefelau goddefiant y Gronfa ar gyfer pob un o'r rhain.

Mae cofrestrau risgiau'n cael eu cadw ar lefel cyfarwyddiaethau ac ar gyfer pob prosiect a rhaglen, ac maent yn cael eu hadolygu ar lefel uwch o leiaf bob tri mis. Mae proses yn bodoli ar gyfer esgoli materion risg sylweddol i'r UDRh ac i'r Pwyllgor Archwilio a Risg os bydd angen.

Ar ben hynny, mae'r UDRh yn ystyried yn rheolaidd pa risgiau allweddol sydd â'r potensial i effeithio ar y mudiad ac mae'n sicrhau bod yr ymagwedd rheoli risg yn mynd i'r afael â'r rhain ar draws y Gronfa.

Mater allweddol i'r Gronfa yw cydnabod bod ein nod o helpu cymunedau ar draws y Deyrnas Unedig weithiau'n mynnu ein bod yn ariannu o dan amgylchiadau heriol ac yn cymryd risgiau o ran llwyddiant rhai prosiectau.

Mae hyn yn gofyn am farn dda ar ran ein staff gwneud grantiau ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y parodrwydd i dderbyn risg a osodwn yn ein thema risg ariannu.

Mae'r themâu risg wedi cael eu pennu gan y Gronfa i helpu ystyried y risgiau sy'n codi o ganlyniad i'w gweithgareddau ar i ddarparu ffocws wrth reoli risg. Y themâu a ystyrir mewn perthynas â rheoli risg yw:

## 1. Ariannol

Mae'r Gronfa'n gwneud ymrwymiadau dyfarniadau ar sail bodloni rhwymedigaethau yn ymwneud â'r dyfarniadau hynny sy'n deillio o dderbynebau'r Loteri Genedlaethol yn y dyfodol. Rydym yn rheoli'r risg o anghysondebau mewn incwm trwy ragolygon arian parod cadarn. Bu'r incwm gynyddu yn 2020/21 ond mae'n parhau i fod yn sylweddol is na'i uchafbwynt yn 2015/16. Mae rheoli ein hatebolrwydd a llif arian yn y dyfodol wrth ystyried incwm amrywiol yn faes sy'n derbyn llawer o sylw. Yn y thema hon rydym hefyd yn ystyried y rheoliadau o ran ein costau gweithredu ac, yn benodol, sicrhau ein bod yn gweithredu o fewn y trothwy costau a bennir ar ein cyfer gan y llywodraeth. Nid yw'r Coronafeirws wedi cael effaith arwyddocaol ar werthiannau cynnyrch y Loteri Genedlaethol. Rydym wedi adolygu ein capasiti i wneud dyfarniadau yn y dyfodol a bodloni ein rhwymedigaethau a'r cyfnod disgwyliedig i gyflawni adferiad llawn.

## 2. Amgylchedd Allanol

Ymhlith y risgiau a ystyriwyd yma mae'r effaith bosib ar enw da yn sgil gostyngiad yn nifer y mudiadau a ariennir a'r effaith yn y sector ehangach o faterion sylweddol i elusennau a grwpiau cymunedol.

Mae effaith y coronafeirws wedi bod yn sylweddol i nifer o fudiadau, fel y dangosir yn adran un yr adroddiad hwn. Mae'r Gronfa wedi ymateb yn dda gyda'n holl dimau yn gallu cyflawni'r holl weithgareddau o bell. Bu'r Gronfa hefyd ymgymryd â'r dasg o ddosbarthu £220 miliwn o ariannu'r llywodraeth yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a Alban i gefnogi elusennau a mudiadau cymunedol trwy'r argyfwng. Roedd hyn yn heriol o fewn ein cyfyngiadau gallu, ond gwnaed cynnydd mawr ar gyflymder a chyflawnwyd y rhaglenni yn llwyddiannus.

## 3. Arweinyddiaeth a Llywodraethu

Rydym yn ystyried yma effaith bosibl colli unigolion allweddol gan gynnwys newidiadau i'r Bwrdd o ganlyniad i gyfnodau penodiad yn dod i ben. Rydym hefyd yn mynd i'r afael â'r risgiau nad yw ein cynllun strategol yn cyd-fynd â diben y mudiad a'r effaith ar ein diwylliant a'n timau. Mae gan golli unigolion allweddol sy'n gweithio mewn rolau rheoli y potensial i ychwanegu ansicrwydd i dimau sydd yn ei dro yn cynyddu'r risg ariannol posib a'r risg i enw da i'r Gronfa. Mae'r Gronfa yn lliniaru'r risgiau hyn yn ei chynllun strategol, fodd bynnag, mae'r Gronfa'n parhau i fod yn ymrwymedig i ddisodli unigolion allweddol cyn gynted â phosibl trwy bolisi recriwtio cadarn i sicrhau na fod y risgiau posibl yn cael eu gwireddu.

## 4. Pobl

Ymhlith y risgiau a ystyriwyd ar gyfer y thema hon oedd ein gallu i wobrwyo ein timau'n briodol mewn marchnadoedd fwyfwy cystadleuol; sicrhau bod ein timau'n meddu ar yr hyfforddiant a sgiliau priodol i gyflwyno ein huchelgais a'n bod yn bodloni ein hamcanion amrywiaeth o ran gweddu natur amrywiol y cymunedau a gefnogwn. Mae pandemig COVID-19 wedi cyflwyno risgiau newydd i'r Gronfa sydd wedi gwneud i ymrwymiadau pobl y Gronfa esblygu'n gyflym.

Mae risgiau i iechyd a diogelwch galwedigaethol, lles staff, seilwaith technoleg digonol i gefnogi cydweithwyr sy'n gweithio gartref a rheoli pobl o bell wedi dod â set unigryw o amgylchiadau. Mae'r Gronfa wedi ymrwymo i addasu i ddiwallu anghenion yr amgylchedd gweithle sy'n esblygu yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth.

## 5. Gweithrediadau

Ymhlith y risgiau yn y thema hon mae'r amlygiad posib at faterion Seiberddiogelwch, sicrhau bod gennym y bensaernïaeth a systemau TG priodol i gefnogi ein dulliau gweithio a bod ein hawyrgylchoedd gweithio'n briodol ar gyfer ein timau a'n hamgylchiadau. Rydym wedi gwneud newidiadau sylweddol i'n pensaernïaeth TG dros y blynyddoedd diweddar ac yn parhau i ddatblygu ein hymagwedd i fodloni ein hanghenion i rannu gwybodaeth ar draws y Gronfa. Rydym wedi symud yn helaeth i ddarparu gwasanaethau drwy'r cwmwl sydd hefyd wedi gofyn am newidiadau i'n hisadeileddau mewnol. Mae hyn yn cysylltu'n agos â sut rydym yn dylunio ac yn defnyddio ein cyfleusterau swyddfa ein hunain i greu lleoedd hyblyg sy'n galluogi ein timau i gydweithio'n effeithiol gan gynnwys gweithio o bell yn unol â chanllawiau COVID-19 y Llywodraeth. Yn ein gweithrediadau rydym hefyd yn parhau i ystyried ein hymagwedd at reoli gwybodaeth gan gynnwys gwaredu ar ddata mewn modd priodol er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data tra'n bodloni ein hanghenion am ddata o ansawdd ar ein gweithgareddau ariannu.

## 6. Prosiectau

Rydym yn ystyried y risg o fethiant mewn prosiectau allweddol gan gynnwys y sawl sy'n ymwneud â systemau ac isadeiledd busnes a bod gennym sgiliau priodol i gyflwyno ar amser ac o fewn y gyllideb.

## 7. Ariannu

Rydym yn wynebu nifer o risgiau o ran ein gweithgareddau gwneud grantiau gan gynnwys amlygiad posib at weithgarwch twyllodrus mewn ceisiadau neu gyflwyno grantiau yn ogystal â risg bosib i'n henw da o brosiectau neu fudiadau a ariennir gennym sy'n methu neu nad sy'n bodloni'r safonau uchel y disgwylir ohonynt.

Gan weithio ar y cyd â'n tîm gweithredol, mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Risg wedi parhau i adolygu a datblygu ein hymagwedd at reoli risg yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau bod gennym ymagwedd briodol at risg. Rydym yn ceisio sicrhau bod ein cofrestr risgiau corfforaethol yn cysylltu'n agos â'n nodau ac uchelgeisiau strategol.

Mae ein system o fesurau rheoli, ynghyd â goruchwyliaeth gan dîm rheoli profiadol, wedi'i dylunio i reoli risg i lefel dderbyniol. Ni all ddileu pob risg o fethiant wrth geisio cyflawni ein nodau strategol, ac felly ni all ond ddarparu sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd yn hytrach na sicrwydd llwyr. Mae ein rheoliadau ar dwyll yn cynnwys polisi clir ar dwyll; polisi datgelu camarfer ynghyd â ffordd i'r cyhoedd gyfeirio pryderon yn uniongyrchol i'n tîm ymholiadau.

Mae rhaglen waith archwilio mewnol yn cael ei pharatoi bob blwyddyn gan y Pennaeth Archwilio Mewnol a'i chytuno gyda'r UDRh a'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Dylunnir y rhaglen hon i roi sicrhad bod mesurau rheoli priodol wedi cael eu dylunio a'u bod yn gweithredu'n gywir mewn perthynas â'r holl risgiau sylweddol y mae'r Gronfa yn eu hwynebu. Yn ystod y flwyddyn, mae adroddiadau Archwilio Mewnol wedi mynd i'r afael â nifer sylweddol o risgiau o fewn y themâu risg allweddol a ganlyn; brand, cynllunio

parhad busnes, cynhyrchion System Rheoli Grantiau, hyfforddiant sgiliau Gwneud Grantiau, rheolaethau ariannol, strategaeth cwmwl a diogelwch, rheoli mynediad, a darparu Cronfa Gefnogaeth Gymunedol y Coronafeirws.

Mae canfyddiadau adroddiadau archwilio mewnol yn cael eu hystyried gennyf i, y cyfarwyddwyr perthnasol a'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

Craffir unrhyw adroddiadau sy'n rhoi sicrwydd cyfyngedig o ran dyluniad mesurau rheoli neu eu heffeithiolrwydd gweithredol yn fanylach. Mae camau gweithredu'n cael eu cytuno gan reolwyr wrth ymateb i bob argymhelliad a wneir, ac adroddir am gynnydd yn erbyn y rhain i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

Cwblhawyd nifer o adolygiadau archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn ac ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw wendidau sylweddol allai beri i'r fframwaith rheoli fynd yn annigonol neu'n aneffeithiol.

Mae'r Gronfa'n rhoi mwyafrif ei weithgaredd archwilio mewnol ar contract allanol mewn trefniant a drefnir ar y cyd. Mae cyflenwr newydd wedi bod yn darparu'r gwasanaethau hyn er Ebrill 2019.

Mae pob un o gyfarwyddwyr yr UDRh wedi darparu datganiad sicrwydd y maent yn gyfrifol amdano i mi. Gan alw ar y rhain a chanlyniadau adolygiadau archwilio mewnol, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi darparu adroddiad sicrwydd blynyddol ar fy nghyfer. Mae'r adroddiad yn asesu bod gan y Gronfa 'sicrwydd digonol' mewn perthynas â'i fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth, sef rhywbeth rwy'n cytuno ag ef, ac mae'n dda gweld na fod unrhyw archwiliadau mewnol yn dynodi sicrwydd cyfyngedig.

Nododd yr adroddiad hefyd nad yw archwilio mewnol wedi adnabod unrhyw dor-reolau neu ddiffyg cydymffurfio â chyfarwyddiadau ariannol a chyfrifon y Gronfa neu unrhyw arweiniad arall a gyhoeddir gan Drysorlys EM neu DCMS.

Cyflawnir archwiliad allanol yr Adroddiad Blynyddol hwn a'r Cyfrifon hyn gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Ymdrinnir â chanfyddiadau ac argymhellion sy'n deillio o'r archwiliad allanol yn yr un modd â'r rhai o archwilio mewnol ac maent yn cael eu hystyried yn llawn gan y Pwyllgor Archwilio a Risg.

## Sicrwydd Swyddog Cyfrifyddu

Fel Swyddog Cyfrifyddu, mae gen i gyfrifoldeb dros gynnal system gadarn o reolaethau mewnol sy'n cefnogi cyflawni polisïau'r Gronfa, nodau ac amcanion i ddiogelu arian cyhoeddus ac asedau'r Gronfa.

Er mwyn cyflawni'r amcan hwn, mae'r Gronfa wedi ennill a derbyn sicrwydd o'r ffynonellau canlynol:

### 1. Adroddiad Archwilio allanol diwedd blwyddyn

Ni chynigiwyd unrhyw addasiadau archwilio, ac ni wnaed unrhyw argymhellion arwyddocaol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021. Dangosodd a chadarnhaodd gwaith archwilio KPMG ar reolaethau systemau GMS fod digon o reolaethau ar waith i ddangos priodoldeb a rheoleidd-dra'r ariannu.

### 2. Adroddiad archwilio mewnol

Yn gyffredinol, mae'r adroddiad blynyddol mewnol yn rhoi sicrwydd cymedrol sy'n gyson â blynyddoedd blaenorol. Mae hyn yn dangos bod gan y Gronfa reolaethau priodol ar waith i liniaru unrhyw risgiau.

### 3. Datganiadau Sicrwydd Blynyddol gan gyfarwyddwyr

Fel rhan o'r broses lywodraethu a'r swyddogaeth archwilio fewnol, derbynnir datganiadau Sicrwydd gan y cyfarwyddwyr yn cadarnhau eu bod wedi cyflawni eu cyfrifoldebau wrth sicrhau y cydymffurfir â pholisïau a gweithdrefnau'r Gronfa.

### 4. Rheoli Risg

Adolygir y cofrestrau risg yn fanwl bob chwarter. Yna trafodir cofrestrau risg y gyfarwyddiaeth, a'r gofrestr risg sefydliadol gan banel cymedroli risg i benderfynu pa risgiau y dylid eu hychwanegu neu eu tynnu o'r gofrestr risg sefydliadol.

### 5. Asesiad manwl o risg twyll

Craffid yn fanwl ar risg twyll a oedd yn cynnwys cynnal cyfarfodydd manwl gyda'r penaethiaid adrannau perthnasol a staff gweithredol. Mae'r asesiad risg twyll yn dangos y prif risgiau twyll a pha reolaethau sydd gan y gronfa ar waith i liniaru'r risgiau hyn.

### 6. Adolygiad a chymeradwyaeth yr Uwch dîm rheoli (UDRh)

Mae UDRh yn adolygu'r holl newidiadau i gofrestrau risg y gyfarwyddiaethau a'r gofrestr risg sefydliadol bob chwarter.

### 7. Pwyllgor Archwilio a Risg

Mae'r pwyllgor Archwilio a Risg yn cyfarfod bob chwarter i adolygu a thrafod yr holl ddiweddariadau risg i sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli'n briodol trwy liniaru rheolaethau.

Fel rhan o waith Sicrwydd Ôl-Ddigwyddiadau, comisiynodd yr Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) brosiect ar wahân gydag ymgynghorwyr allanol BDO i asesu'r lefelau twyll a risg yn seiliedig ar sampl o grantiau a ddyfarnwyd mewn ymateb i argyfwng COVID-19. O ganlyniad, adolygwyd Arian a ddosbarthwyd ar ran y llywodraeth, fel rhan o'r pecyn cymorth brys ar gyfer COVID-19 yn 2020 a 2021 ar gyfer twyll posibl ar gais DCMS. Aseswyd lefelau twyll a risg gan gynghorwyr allanol BDO, gan gymryd sampl o grantiau a ddyfarnwyd mewn perthynas ag argyfwng COVID-19. Er na roddwyd unrhyw ddibyniaeth benodol ar adroddiad BDO gan yr archwilwyr allanol, mae ymchwiliad pellach i adfer cronfeydd mewn perthynas â chymorth brys a'r fethodoleg a fabwysiadwyd wrth gyfrifo'r risgiau twyll a chamgymeriad allosodedig yn dangos bod lefelau twyll a risg Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol o fewn trothwy perthnasedd yr archwiliad.

## Cynllunio corfforaethol a rheoli perfformiad

Mae gan y Gronfa system gynllunio gyda'r nod o adnabod blaenoriaethau a chynlluniau corfforaethol ym mhob cyfnod ac i weithredu fel canllaw wrth gyflwyno'r strategaeth a gymeradwywyd gan y Bwrdd. Mae cynlluniau Cyfarwyddiaethau'n cael eu datblygu ar draws y Gronfa, ac yn bwydo i mewn i'r cynllun corfforaethol cyffredinol ac amcanion personol staff.

Roedd cynllun corfforaethol 2020/21 yn cynnwys dau dangosydd perfformiad allweddol (DPA) ariannol a phump anariannol. Cafodd y rhain eu monitro'n rheolaidd ac adroddwyd amdanynt i'r UDRh ac i'r Bwrdd, gyda chamau cywiro'n cael eu cytuno pryd bynnag y bu angen.

Adroddir ar ein perfformiad yn erbyn y DPA hyn yn adran Adroddiad Perfformiad y ddogfen hon. Rydym wedi cyflawni'r saith DPA a osodwyd ar gyfer y flwyddyn.

Coladwyd a dadansoddwyd gwybodaeth reoli allweddol (KMI) ychwanegol ar gyfer yr UDRh trwy gydol y flwyddyn mewn amryw ffurfiau.

Mae hyn yn cyflwyno data ar y fath faterion ag ystadegau cyflogaeth, gwasanaethau gwneud grantiau a materion ariannol eraill fel ein balans yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol.

Mae ein hymagwedd at gynllunio yn parhau i esblygu ac mae wedi cefnogi ein cynlluniau a'n cyllideb ar gyfer y cyfnod i ddod. Mae hyn yn cynnwys gosod blaenoriaethau penodol i ddatblygu yn erbyn pedwar nod corfforaethol.

## Cyfrifon Segur

Mae gan y Gronfa uwch brosesau llywodraethu sydd wedi'u hen sefydlu i reoli llif ariannu'r Cyfrifon Banc a Chymdeithasau Adeiladu Segur mewn ymateb i lefelau cynyddol o weithgarwch. Rydym wedi gweithio gyda DCMS i roi strwythurau adrodd ar waith i sicrhau bod pob agwedd ar yr ystod o weithgareddau gwneud grantiau'n cael eu dylunio a'u cyflwyno'n briodol a bod y trefniadau llywodraethu ar gyfer y Gronfa'n effeithiol yn y maes hwn a'u bod yn cefnogi'r cynllun Cyfrifon Banc Segur cyffredinol yn briodol. Mae'r gwaith i gyflwyno gweithgareddau cyfrifon segur yn llunio rhan o'n hymagwedd gyffredinol at lywodraethu sefydliadol ar draws y Gronfa a, thrwy hynny, mae rôl y Bwrdd, y Pwyllgor Archwilio a Risg, Archwilio Mewnol a'r Swyddog Cyfrifyddu yn ymestyn i fynd i'r afael â'r gweithgareddau hyn ynghyd â'r sawl sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau a ariannwn trwy'r Loteri.

## Arian trydydd parti

Mae'r Bwrdd yn ymwneud yn weithredol â phenderfyniadau am waith trydydd parti; ystyried, ar gyfer pob cais, a yw, neu a allai fod yn briodol, i'r Gronfa ymgymryd â'n strategaeth ariannu trydydd parti a'r egwyddorion yn y Fframwaith Strategol, ac a yw'n gyson gwneud hynny. Rydym yn cymhwyso risgiau a chyfundrefn reoli i bob cyfle yn unol â'r dasg a bennir gan y cleient, gan sicrhau nad oes unrhyw risg y bydd arian Loteri'n cael ei roi mewn perygl neu y bydd gwaith nad yw'n ymwneud â'r Loteri'n cael ei groes-gymorthdalu.

Ar ddechrau 2020/21, derbyniodd y Gronfa £200m trwy gytundeb grant gyda DCMS ar gyfer rhaglen Cronfa Gefnogaeth Gymunedol y Coronfeirws, i'w dosbarthu i elusennau a mudiadau cymunedol yn Lloegr i'w galluogi i ateb y gofynion a osodir arnynt gan y coronafeirws. Mae'r trefniadau llywodraethu'n cael eu cytuno gan DCMS fel yr adran noddi sy'n atebol i'r Trysorlys am yr arian. Adenillom gyfran briodol o'r costau sy'n gysylltiedig â'r gweithgaredd hwn.

Cytunwyd ar gytundebau ariannu unigol tebyg gyda Llywodraeth yr Alban a'r Adran Cymunedau yng Ngogledd Iwerddon fel rhan o'n hymateb i'r coronafeirws, roedd hyn yn gyfanswm o £20 miliwn.

## Trefniadau dirprwyedig ac ymddiriedolaeth

Mae'r Gronfa'n dirprwyo rhai o'i swyddogaethau i fudiadau eraill, fel a ddisgrifir yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu. Cyflawnir gwaith diwydrwydd dyladwy cymesur ar lywodraethu a systemau partneriaid dyfarnu arfaethedig cyn dyfarnu grantiau. Mae'r trefniadau'n cael eu rheoli'n weithredol ac mae trefniadau archwilio mewnol ac allanol priodol yn cael eu cymhwyso hefyd.

Gall y Gronfa hefyd wneud dyfarniadau fel gwaddolion i ymddiriedolaethau, fel arfer wedi'u creu'n benodol at ddibenion y dyfarniad. Ymhlith yr esiamplau blaenorol o hyn mae Ymddiriedolaeth Power to Change a gafodd ei sefydlu yn 2014/15 i gefnogi mentrau cymunedol ledled Lloegr, o ysbrydoli a meithrin syniadau i helpu cymunedau i gynyddu graddfa ac ehangu eu busnesau.

Yn ogystal â gwneud gwaith diwydrwydd dyladwy tebyg cyn y dyfarniad, mae'r Gronfa yn penodi amddiffynnwr annibynnol yn y mwyafrif o achosion sydd â phwerau i sicrhau bod y gwaddol yn cael ei gymhwyso'n briodol yn unol â bwriad y Gronfa.

## Ein polisi ac arfer talu

Yn unol â'r canllaw Arfer Taliadau Gwell, rydym yn anelu at dalu ein holl gredydwyr o fewn 30 niwrnod o dderbyn anfoneb, oni bai bod amodau a thelerau eraill wedi eu cyd-drafod. Yn 2020/21, talwyd 81% (82% yn 2019/20) o'r holl gredydwyr o fewn 30 niwrnod ar ôl i ni dderbyn anfoneb.

Canran y cyflenwyr a dalwyd o fewn 10 diwrnod oedd 40% yn ystod 2021 (35% yn 2019/20).

Roedd ein cyfanswm diwrnodau credydwyr (cyfanswm gwerth ein credydwyr ar 31 Mawrth 2021 wedi'i rannu â'r cyfanswm taliadau credydwyr yn ystod 2020/21, wedi'i fynegi mewn diwrnodau) yn 23 diwrnod (25 diwrnod yn 2019/20).

## Ansawdd data a diogelu data

Rydym yn trin ein rhwymedigaethau diogelu gwybodaeth fel mater o'r bwys pennaf ac, o dan weithdrefnau craffu a chynghori'r Pwyllgor Archwilio a Risgiau, aseswn ddigonolrwydd ein mesurau diogelu gwybodaeth yn rheolaidd.

Daeth y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data i rym ym mis Mai 2018 gan osod mwy o reoliadau ar fudiadau yn ymwneud â'u cyfrifoldebau wrth gasglu a storio data personol. Mae llawer o waith y Gronfa yn ymwneud â chasglu data personol yn cwympo o dan ein rôl statudol ond mae'r rheoliad yn berthnasol i'r Gronfa i gyd. Rydym wedi addasu ein prosesau a'n hymagwedd er mwyn sicrhau ein bod yn gallu bodloni'r gofynion newydd. Rydym wedi diweddaru ein trefniadau grantiau ac ystyried yn ofalus y trefniadau gyda deiliaid

grant o ran casglu, storio a rhannu data personol buddiolwyr unigol gan gynnwys lle mae categorïau arbennig o ddata personol yn cael eu storio.

Ni chafwyd unrhyw golledion data personol y gellir adrodd amdanynt yn ystod 2020/21.

## Effaith Brexit

Mae'r Gronfa yn rhan o ddwy raglen ariannu weithredol gyda chyllid cyfatebol o Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF). Mae'r ariannu eisoes yn ei le trwy'r Adran Gwaith a Phensiynau fel yr Asiant Reoli i gyflwyno'r grantiau hyn. Mae costau'r Gronfa i gyflwyno'r rhaglenni hyn yn cael eu sicrhau gan y Trysorlys a'r Adran Gwaith a Phensiynau am gyfnod y rhaglen gyfredol beth bynnag y trefniadau ar gyfer unrhyw ariannu yn y dyfodol yn setliad terfynol Brexit.

Nid yw gweddill gweithgareddau'r Gronfa'n ddibynnol ar ffynonellau ariannu ar draws ffiniau na chwaith ydyw'n dibynnu ar wasanaethau arwyddocaol o endidau'r Undeb Ewropeaidd. Ni ragwelir unrhyw effaith faterol ar y Gronfa yn dilyn ymadawiad rhagweledig y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd.

## Sicrwydd Ôl-Ddigwyddiadau

Fel rhan o waith Sicrwydd Ôl-Ddigwyddiadau, comisiynodd yr Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) brosiect ar wahân gydag ymgynghorwyr allanol BDO i asesu'r lefelau twyll a risg yn seiliedig ar sampl o grantiau a ddyfarnwyd mewn ymateb i argyfwng COVID-19. O ganlyniad, adolygwyd Arian a ddosbarthwyd ar ran y llywodraeth, fel rhan o'r pecyn cymorth brys ar gyfer COVID-19 yn 2020 a 2021 ar gyfer twyll posibl ar gais DCMS. Aseswyd lefelau twyll a risg gan gynghorwyr allanol BDO, gan gymryd sampl o grantiau a ddyfarnwyd mewn perthynas ag argyfwng COVID-19. Er na roddwyd unrhyw ddibyniaeth benodol ar adroddiad BDO gan yr archwilwyr allanol, dangosodd gwaith archwilio dilynol pellach nad oedd unrhyw afreoleidd-dra perthnasol yn y cyfrifon ynghylch y twyll a'r gwall sy'n deillio o'r taliadau grant ar gyfer rhaglen frys COVID-19.

Mae'n hanfodol bod Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn dosbarthu'r grantiau ar gyfer rhaglen frys COVID-19 mewn modd amserol, ymatebol ac effeithlon i gefnogi mudiadau a chymunedau a oedd angen y gefnogaeth. O ganlyniad, roedd disgwyl, o ystyried natur dosbarthu'r arian, bod siawns o dwyll a gwall yn deillio o hyn.

Ar gyfer Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol mae'r risgiau allweddol wrth wneud taliadau grant i gyflawni rhaglen frys COVID-19 fel a ganlyn:

1. Gwariant nad yw'n unol â thelerau ac amodau'r grant.
2. Grantiau a roddir i fudiadau twyllodrus.
3. Grantiau heb eu gwario a'r broses o adennill unrhyw symiau heb eu gwario.
4. Diffyg tystiolaeth ddogfennol i gefnogi'r gwariant ar y grant.
5. Adnoddau cyfyngedig i olrhain pob grant i sicrhau priodoldeb y gwariant ar y grant.

Er mwyn lliniaru'r risgiau uchod mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol wedi ychwanegu'r gwelliannau canlynol i'r gwaith monitro ac adolygu parhaus cyfredol:

1. Rhoddwyd gwelliannau ar waith yn ein monitro o grantiau gwerth hyd at £10,000.
2. Darparwyd arweiniad ychwanegol i gydweithwyr Ariannu sy'n gweithio ar gynnyrch Syml a Safonol ynghylch monitro ac asesu canolbwynt a diwedd grant.
3. Gwnaed ychwanegiadau i'n hadolygiadau rheolwyr i wirio bod timau Ariannu'n cadw at reolaethau

## Asesiad cyffredinol o lywodraethu a rheoli mewnol

Yn fy marn i ac wedi'i chefnogi gan adroddiad sicrwydd y Pennaeth Archwilio Mewnol, mae systemau llywodraethu a rheoli mewnol y Gronfa yn ddigon i'm galluogi fi i sicrhau cydymffurfiad y Gronfa â Deddfau'r Loteri Genedlaethol, y Ddeddf Cyfrifon Banc a Chymdeithas Adeiladu Segur a'r cyfarwyddiadau polisi, ariannol a chyfrifyddu a gyhoeddir oddi tanynt.




**David Knott**

**Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu**

7 Rhagfyr 2021

Y datganiad llywodraethu

# Aelodaeth, presenoldeb mewn cyfarfodydd a thâl cydnabyddiaeth y Bwrdd a phwyllgorau yn ystod y flwyddyn

## Aelodau Bwrdd y DU

| Enw | Rôl | Presenoldeb 2020/21 | Taliadau 2020/21 | Taliadau 2019/20 |
|---|---|---|---|---|
| **Peter Ainsworth** | Cadeirydd, Bwrdd (tan 30 Tachwedd 2019) | 0/0 | - | 26,667 |
| | Cadeirydd, Pwyllgor Taliadau (tan 30 Tachwedd 2019) | 0/0 | | |
| | Cadeirydd, Pwyllgor Ariannu DU (tan 30 Tachwedd 2019) | 0/0 | | |
| **Blondel Cluff CBE** | Cadeirydd, Bwrdd DU (O 1 Chwefror 2021) | 1/1 | 6,177 | - |
| **Tony Burton CBE** | Cadeirydd Interim, Bwrdd DU (Tan 31 Ionawr 2021) | 3/3 | 30,910 | 28,201 |
| | Aelod, Bwrdd DU (O 1 Chwefror 2021 tan 31 Mawrth 2021) | 1/1 | | |
| | Cadeirydd, Pwyllgor Taliadau | 1/1 | | |
| | Cadeirydd, Pwyllgor Ariannu DU | 4/4 | | |
| **Natalie Campbell** | Aelod, Bwrdd DU (tan 30 Mehefin 2020) | 1/1 | 1,962 | 7,848 |
| **Perdita Fraser** | Aelod, Bwrdd DU | 4/4 | 7,848 | 7,848 |
| | Aelod, Pwyllgor Archwilio a Risg | 4/4 | | |
| **Julie Harrison** | Cadeirydd, Pwyllgor Gogledd Iwerddon (tan 17 Ionawr 2020) | 0/0 | - | 18,736 |
| | Aelod, Bwrdd DU (tan 17 Ionawr 2020) | 0/0 | | |
| **Maureen McGinn** | Cadeirydd, Pwyllgor Yr Alban (tan 30 Tachwedd 2019) | 0/0 | - | 16,000 |
| | Aelod, Bwrdd DU (tan 30 Tachwedd 2019) | 0/0 | | |
| **Elizabeth Passey** | Aelod, Bwrdd DU | 4/4 | 7,848 | 7,848 |
| | Aelod, Pwyllgor Ariannu DU | 3/4 | | |
| **Rachael Robathan** | Aelod, Bwrdd DU | 4/4 | 7,848 | 7,848 |
| | Cadeirydd, Pwyllgor Ariannu | 1/1 | | |
| **Nat Sloane CBE** | Cadeirydd, Pwyllgor Lloegr (tan 30 Tachwedd 2019) | 0/0 | - | 16,000 |
| | Aelod, Bwrdd DU (tan 30 Tachwedd 2019) | 0/0 | | |
| **Sir Adrian Webb** | Cadeirydd, Pwyllgor Cymru | 5/5 | 24,000 | 24,000 |
| | Aelod, Bwrdd DU | 4/4 | | |
| | Aelod, Pwyllgor Archwilio a Risg | 4/4 | | |
| | Is-Gadeirydd, Bwrdd DU (O 10 Mai 2021) | 0/0 | | |
| **Emma Boggis** | Is-Gadeirydd Interim (o 1 Ebrill 2020 i 9 Mai 2021) | 4/4 | 15,696 | 9,278 |
| | Aelod, Pwyllgor Taliadau | 1/1 | | |
| | Cadeirydd, Pwyllgor Archwilio a Risg | 4/4 | | |
| **Danielle Walker-Palmour** | Aelod, Bwrdd DU | 3/4 | 7,848 | 8,922 |
| **John Mothersole** | Aelod, Bwrdd DU (O 15 Mai 2020) | 4/4 | 22,090 | 7,848 |
| | Cadeirydd, Pwyllgor Lloegr (o 15 Mai 2020) | 10/10 | | |

| Enw | Rôl | Presenoldeb 2020/21 | Taliadau 2020/21 | Taliadau 2019/20 |
|---|---|---|---|---|
| **Sandra McNamee** | Aelod, Bwrdd DU (o 1 Awst 2020) | 4/4 | 27,733 | 5,232 |
| | Cadeirydd Interim, Pwyllgor Gogledd Iwerddon (o 1 Awst 2020) | 7/8 | | |
| **Kate Still** | Aelod, Bwrdd DU (O 15 Mehefin 2020) | 4/4 | 19,067 | - |
| | Cadeirydd, Pwyllgor yr Alban (o 15 Mehefin 2020) ) | 5/5 | | |

## Aelodau eraill

### Pwyllgor Lloegr

| Enw | Rôl | Presenoldeb 2020/21 | Taliadau 2020/21 | Taliadau 2019/20 |
|---|---|---|---|---|
| **Margaret Jones** | Cadeirydd Interim, Pwyllgor Lloegr (tan 30 Mehefin 2020) | 2/10 | 25,346 | 7,848 |
| | Aelod, Pwyllgor Lloegr (tan 30 Mehefin 2020) | 7/10 | | |
| **Tarn Lamb** | Aelod, Pwyllgor Lloegr | 9/10 | 7,848 | 7,701 |
| **Kevin Bone** | Aelod, Pwyllgor Lloegr | 9/10 | 7,848 | 7,848 |
| | Aelod, Pwyllgor Ariannu DU | 4/4 | | |
| **Rosie Ginday** | Aelod, Pwyllgor Lloegr | 10/10 | 7,848 | 7,848 |
| **Ray Coyle** | Aelod, Pwyllgor Lloegr (o 1 Ebrill 2019) | 10/10 | 654 | 7,848 |





### Pwyllgor yr Alban

| Enw | Rôl | Presenoldeb 2020/21 | Taliadau 2020/21 | Taliadau 2019/20 |
|---|---|---|---|---|
| **Jackie Brock** | Aelod, Pwyllgor yr Alban (o 1 Ebrill 2020) | 6/7 | 5,232 | - |
| **Grant Carson** | Aelod, Pwyllgor yr Alban | 6/7 | 5,232 | 5,232 |
| **Stella Everingham** | Aelod, Pwyllgor yr Alban (tan 31 Rhagfyr 2019) | 0/0 | - | 3,924 |
| | Aelod, Pwyllgor Ariannu DU (tan 31 Rhagfyr 2019) | 0/0 | | |
| **Lindsay Graham** | Aelod, Pwyllgor yr Alban | 6/7 | 5,232 | 5,232 |
| **Aaliya Seyal** | Aelod, Pwyllgor yr Alban | 7/7 | 5,232 | 5,232 |
| | Aelod, Pwyllgor Ariannu DU | 4/4 | | |
| **Martin Johnstone** | Aelod, Pwyllgor yr Alban | 5/7 | 5,232 | 5,232 |
| **Janet Miles** | Aelod, Pwyllgor yr Alban | 7/7 | 6,282 | 5,242 |

### Pwyllgor Cymru

| Enw | Rôl | Presenoldeb 2020/21 | Taliadau 2020/21 | Taliadau 2019/20 |
|---|---|---|---|---|
| **Rona Aldrich** | Aelod, Pwyllgor Cymru | 5/5 | 5,232 | 5,232 |
| **Sian Callaghan** | Aelod, Pwyllgor Cymru | 5/5 | 5,232 | 5,232 |
| | Aelod, Pwyllgor Ariannu DU | 4/4 | | |
| **Rob Pickford OBE** | Aelod, Pwyllgor Cymru (tan 31 Rhagfyr 2019) | 0/0 | - | 3,924 |
| **Helen Wilkinson** | Aelod, Pwyllgor Cymru (tan 15 Chwefror 2021) | 5/5 | 4,594 | 5,232 |
| **Nicola Russell-Brooks** | Aelod, Pwyllgor Cymru | 5/5 | 5,232 | 5,232 |
| **Fadhili Maghiya** | Aelod, Pwyllgor Cymru (o 13 Ionawr 2020) | 5/5 | 5,232 | 1,139 |

## Pwyllgor Gogledd Iwerddon

| Enw | Rôl | Presenoldeb 2020/21 | Taliadau 2020/21 | Taliadau 2019/20 |
|---|---|---|---|---|
| **Dr Michael Dobbins** | Aelod, Pwyllgor Gogledd Iwerddon | 0/8 | 5,232 | 5,232 |
| | Aelod, Pwyllgor Ariannu DU | 3/3 | | |
| **Tony Doherty** | Aelod, Pwyllgor Gogledd Iwerddon | 7/8 | 5,232 | 5,232 |
| **Charles Mack** | Aelod, Pwyllgor Gogledd Iwerddon | 7/8 | 5,232 | 5,232 |
| **Eileen Mullan** | Aelod, Pwyllgor Gogledd Iwerddon | 8/8 | 5,232 | 5,232 |
| | Aelod, Pwyllgor Ariannu DU | 3/4 | | |
| **Kate Clifford** | Aelod, Pwyllgor Gogledd Iwerddon (o 1 Chwefror 2021) | 1/1 | 872 | - |

## Pwyllgor Archwilio a Risg

| Enw | Rôl | Presenoldeb 2020/21 | Taliadau 2020/21 | Taliadau 2019/20 |
|---|---|---|---|---|
| **Ruth Marchington** | Aelod, Pwyllgor Archwilio a Risg | 4/4 | 1,744 | 1,744 |
| **Charlotte Moar** | Aelod, Pwyllgor Archwilio a Risg | 4/4 | 1,744 | 1,744 |



Y datganiad llywodraethu

## Cofrestr buddiannau

Mae'n rhaid i holl aelodau ein Bwrdd a'n Pwyllgorau, ein haseswyr, ein hymgynghorwyr ac aelodau unrhyw banel ymgynghorol, a'n staff, ddatgan buddiannau perthnasol o dan ein côd moeseg. Mae'r côd hwn yn cydymffurfio â chôd ymarfer Swyddfa'r Cabinet ar gyfer aelodau Byrddau cyrff cyhoeddus. Mae buddiannau sydd wedi'u datgan gan aelodau Bwrdd wedi'u cyhoeddi ar ein gwefan. Mae manylion y cyfryw fuddiannau ar gyfer yr holl aelodau pwyllgor sy'n gwneud penderfyniadau ar gael trwy ysgrifennu at y Pennaeth Llywodraethu.

Os yw'r Bwrdd neu bwyllgor yn ystyried unrhyw faterion y gellir tybio'n rhesymol eu bod yn achosi gwrthdaro buddiannau, yn bennaf o ran penderfyniadau ar grantiau i fudiadau ond hefyd unrhyw berthnasoedd masnachol, mae cadeirydd y cyfarfod yn sicrhau o'r cychwyn cyntaf bod y datgeliad yn cael ei wneud a bod yr aelod yn gadael pan drafodir yr eitem berthnasol.

Mae'r tabl a ganlyn yn rhoi manylion y dyfarniadau a wnaed i fudiadau y mae aelodau'r Bwrdd neu bwyllgorau gwlad wedi datgan buddiant ynddynt o fewn y flwyddyn ariannol bresennol neu pan ddatgelir buddiannau eraill o ran mudiadau a ariannwyd.

| Enw | Enw Sefydliad | Natur y perthynas | | Dyfarniadau wedi ei neud yn 2020/21 | | Tynnu'n ôl o'r dyfarniad | Dyfarniad grant sy'n weddill ar 31 Mawrth 2021 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | No | £ | | £ |
| **Aaliya Seyal** | Parent Network Scotland | Eu hunain | Aelod Bwrdd | 1 | 9,054 | N/A | - |
| | Airdrie CAB | Eu hunain | Gweithiwr | 1 | 103,861 | N/A | 77,783 |
| | Glasgow University | Plant | Gweithiwr | 1 | 135,179 | N/A | 135,179 |
| **Adrian Webb** | Cardiff Business School | Eu hunain | Athro gwadd | - | - | N/A | 78,314 |
| | RSPB | Eu hunain | Cadeirydd Cymru, Ymddiriedolwr DU | 1 | 282,891 | N/A | 327,463 |
| **Charlotte Moar** | Comic Relief | Eu hunain | Ymddiriedolwr a Trysorydd | - | - | N/A | 54,122 |
| **Danielle Palmour** | MySight York | Eu hunain | Ymddiriedolwr | - | - | N/A | 89,401 |
| **Emma Boggis** | The National Trust | Mam | Aelod | - | - | N/A | 37,808 |
| **Eileen Mullan** | Age Northern Ireland | Eu hunain | Cadeirydd | - | - | N/A | 1,381,737 |
| **Elizabeth Passey** | The University of Glasgow | Eu hunain | Cynullydd (Cadeirydd) ac Aelod Llys | 1 | 135,179 | N/A | 135,179 |
| | Black Mountains College | Eu hunain | Aelod Bwrdd | - | - | N/A | 36,075 |
| **Fadhili Maghiya** | Sub-Saharan Cynghoryddy Panel | Eu hunain | Cyfarwyddwr | 3 | 115,325 | N/A | - |
| | Cardiff Community Housing Association | Eu hunain | Ymgynghorydd | 1 | 68,000 | N/A | 238,862 |
| **Grant Carson** | Glasgow Access Panel | Eu hunain | Aelod | 1 | 10,000 | N/A | - |
| | Glasgow Disability Alliance | Eu hunain | Cysylltiad ar Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol | 2 | 399,148 | Yes | 389,148 |
| **Helen Wilkinson** | NEWVOL trading as Denbighshire Voluntary Services Council (DVSC) | Eu hunain | Cyfarwyddwr | 1 | 10,000 | N/A | - |
| **John Mothersole** | Sheffield Churches Council for Community Care | Eu hunain | Ymddiriedolwr | - | - | N/A | 33,122 |
| **Kevin Bone** | Pilotlight Ltd | Eu hunain | Ymddiriedolwr | - | - | N/A | 73,525 |
| | Imperial Health Charity | Eu hunain | Ymddiriedolwr | 1 | 10,000 | N/A | - |
| **Lindsay Graham** | Dundee Bairns | Eu hunain | Ymddiriedolwr | 1 | 10,000 | N/A | - |
| | Royal Society of Arts | Eu hunain | Cymrawd | 1 | 49,940 | N/A | - |
| **Maggie Jones** | PossAbilities C.I.C | Eu hunain | Cyfarwyddwr | 1 | 10,000 | N/A | - |

| Enw | Enw Sefydliad | Natur y perthynas | | Dyfarniadau wedi ei neud yn 2020/21 No | £ | Tynnu'n ôl o'r dyfarniad | Dyfarniad grant sy'n weddill ar 31 Mawrth 2021 £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Womens Health Matters Leeds | Plant | Cysylltiad perthynas agos | 2 | 309,352 | N/A | 299,352 |
| | RSA (The Royal Society for the Encouragement of Arts, Manufactures and Commerce | Eu hunain | Cymrawd | 1 | 49,940 | N/A | - |
| | Leeds City Council Community Board | Eu hunain | Aelod | - | - | N/A | 976,220 |
| | YourConsortium | Eu hunain | Cysylltiad â'r sefydliad perthynol | - | - | N/A | 1,630,016 |
| | Consortium of Voluntary Adoption Agencies | Eu hunain | Prif Swyddog Gweithredol | - | - | N/A | 304,132 |
| **Martin Johnstone** | Faith in Community Scotland | Eu hunain | Ymddiriedolwr | 1 | 45,000 | Yes | 22,500 |
| | theGKexperience SCIO | Eu hunain | Cadeirydd and Ymddiriedolwr | 1 | 9,913 | N/A | - |
| | Wevolution | Eu hunain | Cynghorydd | - | - | N/A | 25,013 |
| | Home-Start Glasgow South | Cymar/Partner | Cysylltiad perthynas agos | 1 | 348,046 | Yes | 348,046 |
| | Cyrenians | Plant | Cysylltiad perthynas agos | 1 | 10,000 | N/A | 80,561 |
| | Penumbra | Plant | Cysylltiad perthynas agos | - | - | N/A | 80,455 |
| | Home-Start Renfrewshire and Inverclyde | Cymar/Partner | Cysylltiad â'r sefydliad perthynol | 2 | 452,309 | Yes | 374,548 |
| | The Pyramid at Anderston | Eu hunain | Cysylltiad â'r sefydliad perthynol | 1 | 1,100,000 | Yes | 1,100,000 |
| **Nicola Russell-Brooks** | Age Cymru Swansea Bay | Eu hunain | Gweithiwr | 1 | 66,880 | N/A | - |
| | NCVO | Eu hunain | Ymgynghorydd | 1 | 997,990 | N/A | 58,885 |
| | Canolfan Clydau Tegryn | Cymar/Partner | Aelod Bwrdd | 1 | 8,000 | N/A | - |
| | Family Housing Association Wales | Eu hunain | Cyn-weithiwr cyflogedig | 1 | 4,550 | N/A | - |
| | Paul Sartori Hospice at Home | Eu hunain | Mentor | 2 | 96,134 | N/A | 21,250 |
| | Pembrokeshire Frame Limited | Eu hunain | Mentor | 1 | 10,000 | N/A | - |
| | Comic Relief | Eu hunain | Ymgynghorydd | - | - | N/A | 54,122 |
| | Milford Youth Matters | Eu hunain | Ymgynghorydd | - | - | N/A | 110,854 |
| | Restorative Wales | Eu hunain | Ymgynghorydd | 1 | 7,187 | N/A | - |
| | Fishguard and Goodwick Young Persons | Eu hunain | Cysylltiad â'r sefydliad perthynol | 1 | 434,318 | Yes | 324,750 |

| Enw | Enw Sefydliad | Natur y perthynas | | Dyfarniadau wedi ei neud yn 2020/21 | | Tynnu'n ôl o'r dyfarniad | Dyfarniad grant sy'n weddill ar 31 Mawrth 2021 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | No | £ | | £ |
| **Perdita Fraser** | RSA London | Eu hunain | Cymrawd | 1 | 49,940 | N/A | - |
| | Ashoka UK | Eu hunain | Cynghorydd | - | - | N/A | 20,000 |
| **Ruth Marchington** | National Trust | Eu hunain | Aelod Tanysgrifio | - | - | N/A | 37,808 |
| **Sian Callaghan** | Royal Society for the Protection of Birds | Cymar/Partner | Cysylltiad perthynas agos | 1 | 282,891 | N/A | 327,463 |
| | The National Trust | Eu hunain | Aelod | - | - | N/A | 37,808 |
| **Sandra McNamee** | NSPCC | Eu hunain | Ymgynghorydd | - | - | N/A | 23,871,904 |
| | Limavady Community Development Initiative | Eu hunain | Ymgynghorydd | 2 | 12,600 | N/A | - |
| | Belfast and Lisburn Women's Aid | Eu hunain | Ymgynghorydd | 1 | 25,000 | N/A | - |
| | Women's Aid Antrim, Ballymena, Carrickfergus, Larne and Newtownabbey | Eu hunain | Cysylltiedig a sefydliadau Cymorth i Fenywod | 1 | 277,144 | Yes | 477,144 |
| | Men's Action Network | Eu hunain | Cysylltiedig a Cymorth i Fenywod Gog. | - | - | N/A | 149,508 |
| **Tony Burton** | National Trust | Eu hunain | Aelod | - | - | N/A | 37,808 |
| | Renaisi Limited | Eu hunain | Ymgynghorydd | - | - | N/A | 355,501 |
| | Royal Institute of British Architects | Eu hunain | Cymrawd | 1 | 49,940 | N/A | - |
| | The Conservation Volunteers | Eu hunain | Ymddiriedolwr | - | - | N/A | 52,396 |
| **Tony Doherty** | Versus Arthritis | Eu hunain | Cystadleuydd drwy HLC Alliance | 2 | 437,863 | Yes | 437,863 |
| | Rural Health Partnership | Eu hunain | Aelod o HLC Alliance | 1 | 500,000 | Yes | 440,000 |
| **Tarn Lamb** | The Design Council - Transforming Ageing | Eu hunain | Cynghorydd | 1 | 48,750 | N/A | - |
| | The Learning Partnership for Cornwall and the Isles of Scilly | Eu hunain | Cyfarwyddwr | 1 | 107,252 | N/A | 112,802 |

Nodiadau: 1. Pan gofnodir nad yw'n berthnasol ("N/A") mae'r unigolyn wedi datgan cysylltiad â'r sefydliad ond nid oedd yn rhan o unrhyw benderfyniadau ynghylch grantiau cysylltiedig.

## Yr Uwch Dîm Rheoli

**Prif Weithredwr**
Dawn Austwick (tan fis Rhagfyr 2020)

**Prif Weithredwr Dros Dro**
John Rose (o fis Ionawr 2021 i fis Mehefin 2021)

**Prif Weithredwr**
David Knott (o fis Mehefin 2021)

**Cyfarwyddwr Lloegr**
Elly de Decker

**Cyfarwyddwr yr Alban**
Neil Ritch

**Cyfarwyddwr Gogledd Iwerddon**
Kate Beggs

**Cyfarwyddwr Cymru**
John Rose (tan fis Rhagfyr 2020. Eto o fis Mehefin 2021)

**Cyfarwyddwr Cymru Dros Dro**
Ruth Bates (o fis Rhagfyr 2020 i fis Mehefin 2021)

**Cyfarwyddwr Technoleg a Data**
Matthew Green (tan fis Medi 2021)

**Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol**
Neil Harris

**Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro**
Emma Kavanagh (tan fis Ionawr 2021)

**Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro**
Harnish Hadani (o fis Ionawr 2021)

**Cyfarwyddwr Ymgysylltu a Mewnwelediad**
Faiza Khan MBE

**Cyfarwyddwr Strategaeth Ariannu**
Emma Ackerman (o fis Hydref 2020)

**Cynghorydd i'r UDRh**
David Knott (o fis Hydref 2020 i fis Mehefin 2021)





# Ein hadroddiad tâl cydnabyddiaeth a staff

## Llywodraethu

Mae gan Bwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth y Bwrdd gyfrifoldeb i:

- cytuno ar amodau a thelerau cyflogaeth y Prif Weithredwr
- penderfynu ar arfarniad perfformiad a thâl cysylltiedig y Prif Weithredwr
- pennu tâl cydnabyddiaeth cyfarwyddwyr
- cymeradwyo arfarniadau perfformiad a thâl cysylltiedig cyfarwyddwyr, a
- phenderfynu ar delerau diswyddo ar gyfer y Prif Weithredwr a'r cyfarwyddwyr.

Ar gais Cadeirydd y Pwyllgor, mae'r Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Pobl neu swyddogion eraill yn dod i gyfarfodydd ar gyfer eitemau penodol ar yr agenda.

Mae penderfyniadau'r Pwyllgor yn amodol ar:

- gydymffurfio â'r arweiniad tâl a gyhoeddir gan Swyddfa'r Cabinet/ Trysorlys EM sy'n berthnasol i dâl cydnabyddiaeth staff yn gyffredinol
- cymeradwyaeth gan DCMS o amodau a thelerau cyflogaeth y Prif Weithredwr
- cymeradwyaeth gan DCMS o unrhyw daliadau terfynu i'r Prif Weithredwr.

## Polisi tâl cydnabyddiaeth cyfarwyddwyr gweithredol

Mae ein polisi yn cynnig tâl cydnabyddiaeth sy'n galluogi'r Gronfa i ddenu, cadw a symbylu unigolion hynod alluog sydd â'r sgiliau a'r galluoedd i arwain a rheoli'r mudiad. Wrth wneud hyn, mae'r polisi'n ceisio darparu tâl cydnabyddiaeth teg ar gyfer cyfraniadau a chyfrifoldeb unigol, gan ddarparu elfen o dal ar sail perfformiad.

Mae Cyfarwyddwyr, gan gynnwys y Prif Weithredwr, yn derbyn cyflog sylfaenol a thâl ar sail perfformiad. Mae'r amodau a thelerau cyflogaeth eraill yr un â chyflogeion eraill y Gronfa. Mae ganddynt hawl i fod yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae'r holl gyfarwyddwyr ar gontractau parhaol (ac eithrio pan fônt yn destun trefniadau dros dro neu interim) yn amodol ar dri mis o rybudd. Telir unrhyw daliadau terfynu yn unol â chynllun iawndal y gwasanaeth sifil.

Pennir unrhyw gynnydd yng nghyflog y Prif Weithredwr gan y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth; ar gyfer 2020/21, roedd hyn yn 0.81%.

Cymeradwyir unrhyw gynnydd blynyddol yng nghyflogau'r Cyfarwyddwyr eraill gan y Prif Weithredwr, gan adlewyrchu canlyniad dyfarniad tâl y staff yn gyffredinol.

Mae gan y Prif Weithredwr hawl i daliad ar sail perfformiad gwerth hyd at 12% o'i chyflog sylfaenol. Mae gan y Cyfarwyddwyr eraill hawl i daliad gwerth hyd at 8% o'u cyflog sylfaenol. Mae taliadau ar sail perfformiad yn anghyfunedig (hynny yw, nid ydynt yn cael eu hychwanegu at y cyflog sylfaenol, ac mae'n rhaid eu hennill eto bob blwyddyn). Nid ydynt wedi'u cynnwys mewn tâl pensiynadwy.

Nid oes unrhyw un o'r cyfarwyddwyr yn derbyn unrhyw fuddiannau trethadwy

mewn da. Ad-delir treliau a geir fel rhan o'u dyletswyddau i gyfarwyddwyr ar yr un sail â holl gyflogeion eraill y Gronfa.

Bu un aelod o'r Uwch Dîm Rheoli adael yn ystod y flwyddyn.

Mae manylion cyflog sylfaenol, taliadau ar sail perfformiad a buddiannau pensiwn cyfarwyddwyr wedi'u hamlinellu yn y tabl ar dudalennau 95 a 96. Gellir dod o hyd i fanylion eu treuliau ar y wefan tnlcommunityfund.org.uk/about/our-people/senior-management-team

## Swyddogion sydd â chyfrifoldeb ariannol sylweddol

Penododd y Gronfa 25 o aelodau Bwrdd neu aelodau o'r Uwch Dîm Rheoli yn ystod y flwyddyn y pennwyd bod ganddynt gyfrifoldeb ariannol sylweddol. Talwyd am yr holl benodiadau hyn trwy gyflogres y Gronfa.

## Lluosrifau tâl (gwybodaeth wedi'i harchwilio)

Lluosrifau tâl (gwybodaeth wedi'i harchwilio)Mae'n ofynnol i ni ddatgelu'r berthynas rhwng tâl cydnabyddiaeth y cyfarwyddwr â'r tâl uchaf (sef y Prif Weithredwr) a thâl cydnabyddiaeth canolrif cyflogeion y Gronfa.

Mae'r cyfanswm tâl cydnabyddiaeth yn cynnwys cyflog, tâl ar sail perfformiad A buddiannau mewn da; Mae'n eithrio taliadau terfynu. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn cyflogwyr a gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian pensiynau.

Band cyfanswm cyflog plws dyfarniad perfformiad y cyfarwyddwr â'r tâl mwyaf, sef y Prif Weithredwr, eleni oedd £160,000 i £165,000 (2019/20 £160,000 i £165,000), cyflog canolrif cyflogeion y Gronfa oedd £28,937 (2019/20 £28,044). Yn 2020/21, mae'r gymhareb rhwng y tâl mwyaf a'r canolrif wedi newid i 5.6:1 (2019/20 5.8:1). Yn 2020/21, doedd dim (2019/20 dim) cyflogeion a dderbyniodd tâl cydnabyddiaeth sy'n fwy na'r cyfarwyddwr â'r tâl uchaf. Mae'r ystod tâl cydnabyddiaeth yn amrywio o'r ystod £10,000 - £15,000 i'r ystod £160,000 - £165,000.

## Staff

Dangosir manylion nifer y staff, eu cyfansoddiad ac unrhyw becynnau ymadael yn nodyn 7 y datganiadau ariannol.

## Absenoldeb salwch staff

Rydym yn ymroddedig i iechyd a lles ein staff. Mae gan y Gronfa bolisi absenoldeb salwch staff cynhwysfawr ac mae'n gweithredu gweithgareddau lles a arweinir gan gyflogeion hefyd. Yn ystod 2020/21, y nifer cyfartalog o ddiwrnodau absenoldeb salwch oedd diwrnod fesul cyflogai (8.0 diwrnod yn 2019/20).

## Cyfranogiad cyflogeion

Mae gan y Gronfa berthynas adeiladol gyda'n hundebau cydnabyddedig ar y cyd, Prospect ac Unite, ac mae'n ceisio annog a dod o hyd i gyfleoedd cynnwys ac ymgynghori â chyflogeion. Mae'r Gronfa yn cywain barn ei staff yn rheolaidd trwy ddeialog anffurfiol a thrwy arolygon cyswllt cyflogeion blynyddol ffurfiol.

## Iechyd a Diogelwch

Mae'r Gronfa yn trin ei chyfrifoldebau dros Iechyd a Diogelwch ei staff, contractwyr a deiliaid grant fel mater o ddifrif. Rydym yn ceisio mabwysiadu arfer gorau wrth reoli ac adrodd ar risg. Mae newidiadau i'r ffordd yr ydym yn gweithio, gyda mwy o'n staff yn gweithio i ffwrdd o swyddfeydd penodol, wedi achosi i ni ymdrin ag unrhyw risgiau ychwanegol a allai godi.

## Penodiadau ac Ymgynghoriaeth Oddi Ar y Gyflogres

Yn ystod y flwyddyn mae'r Gronfa wedi penodi tri (2019/20 pump) o unigolion trwy gontractau oddi ar y gyflogres. Mae'r Gronfa'n gweithredu profion llymion i sicrhau yr asesir natur pob penodiad yn briodol a bod contractau'n cael eu gosod ym mhob achos i sicrhau y bodlonir y rhwymedigaethau treth ac Yswiriant Gwladol priodol. Cyfanswm cost y trefniadau hyn oedd £158,290 (2019/20 £405,017).

Roedd y tri o'r contractau oddi ar y gyflogres yn gontractau newydd yn y flwyddyn neu wedi cyrraedd cyfnod penodi o chwe mis yn ystod y flwyddyn. At hynny, roedd y tair yn rolau ar gyfer sgiliau arbenigol nad ydym fel arfer yn eu cyflogi'n uniongyrchol. Ceisiwyd sicrwydd mewn perthynas â didyniadau treth ac yswiriant gwladol ac fe'i darparwyd ym mhob achos. Ni chyflogwyd unrhyw un ohonynt yn uniongyrchol trwy gyflogres y Gronfa ac nid oedd yr un yn destun newid statws.

Mae'r Gronfa wedi talu costau ymgynghori o £425,431 (2019/20 £330,178) yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â darparu cyngor ac arbenigedd na fyddem yn eu caffael fel mater o drefn i gefnogi ein gweithgareddau parhaus.

## Ardoll Brentisiaethau

Mae'r ardoll brentisiaethau'n berthnasol i bob mudiad sydd â bil cyflogau dros £3 miliwn. Mae cyfraniadau at y cyfrif ardoll brentisiaethau'n 0.5% o'r cyfanswm bil cyflogau ar ôl didynnu lwfans £15,000. Mae'r llywodraeth yn cyfrannu hyd at 10% at y cyfrif mewn perthynas â symiau sy'n gysylltiedig â Lloegr. Gall cyflogwyr ddefnyddio'r cyfrif i dalu am weithgareddau hyfforddiant cymwys.

Mae trefniadau prentisiaeth mewn perthynas â Chymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon heb eu newid.

Mae'r Gronfa wedi gwneud cyfanswm cyfraniad o £120,944 (2019/20 £125,314) at y cynllun yn ystod y flwyddyn ac yn unol ag arweiniad cyfrifyddu'r llywodraeth mae wedi dileu hwn fel cost staff o dan drethi.

Mae'r Gronfa wedi hawlio cyfanswm o £95,183 (2019/20 £0) yn ôl mewn costau hyfforddi gan ddarparwyr priodol. Dangosir y costau hyn fel arfer fel costau hyfforddi mewn costau gweithredu gyda mantais tynnu i lawr o'r cyfrif ardoll brentisiaethau wedi'i ddangos mewn incwm fel grant gan y llywodraeth.

## Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau

Mae'n ofynnol i'r Gronfa adrodd ar ei pherfformiad i'r llywodraeth o dan y rheoliadau Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau. Mae manylion llawn ar gael ar borth bwlch cyflog rhwng y rhywiau gov.uk ac fe'u cyhoeddir ar ein gwefan. Ar draws y Gronfa'n gyffredinol, rydym yn adrodd am fwlch cyflog rhwng y rhywiau o 2.8% (2019/20 3.2%) ar gyfer cyflog canolrif tra ar gyfer tâl cymedrig, y bwlch yw 5.3% (2019/20 5.5%). Rydym yn falch o'r gostyngiad yn ein bwlch cyflog ers y llynedd a byddwn yn parhau â'r gwaith cadarnhaol rydym wedi'i ddechrau i leihau'r bwlch hwn ymhellach fyth.

## Bwlch Cyflog mewn perthynas ag Ethnigrwydd

Er na fod dyletswydd gyfreithiol arnom i adrodd ein bwlch cyflog mewn perthynas ag ethnigrwydd, rydym wedi gwneud y penderfyniad i gyhoeddi ein canlyniadau ochr yn ochr â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Ar draws y Gronfa'n gyffredinol, rydym yn adrodd am fwlch cyflog ethnigrwydd o 0.9 y cant (2019/20 minws 0.1%) ar gyfer cyflog canolrif tra ar gyfer tâl cymedrig, y gyfradd yw minws 1.8 y cant (2019/20 0.9%). Mae'r niferoedd hyn yn parhau i fod yn gadarnhaol, gan ddangos bron dim gwahaniaeth rhwng cyflog ar draws yr holl gydweithwyr.



Ein hadroddiad tâl cydnabyddiaeth a staff

### Amser Cyfleuster Undebau Llafur

| | |
|---|---|
| Nifer y cyflogeion a oedd yn swyddogion undeb perthnasol yn ystod y flwyddyn ariannol | 4 |
| Rhif gweithiwr cyfwerth ag amser llawn | 2.2 |
| Canran yr amser a dreulir ar amser cyfleuster gan swyddogion perthnasol yr undeb: | |
| 0% | - |
| 1-50% | 1 |
| 51-99% | 3 |
| 100% | - |
| | |
| Cyfanswm cost yr amser cyfleuster | £95,416 |
| Cyfanswm cost y bil cyflogau | £36,081,822 |
| Canran y bil cyflog a wariwyd ar amser cyfleuster | 0.3% |
| | |
| Oriau a dreulir ar weithgareddau undebau llafur cyflogedig | 180 |
| Oriau a dreulir ar amser cyfleuster â thâl | 4,289 |
| Canran | 4.2% |

## Cydnabyddiaeth y Swyddogion Gweithredol – un cyfanswm ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol (gwybodaeth archwiliedig)

| Swyddogion Gweithredol | 2020/21 Cyflog £'000 | 2020/21 Taliadau sy'n gysylltiedig â pherfformiad £'000 | 2020/21 Gwerth Buddion Pensiwn £'000 | 2020/21 Cyfanswm sengl ar gyfer Cydnabyddiaeth Ariannol £'000 | 2019/20 Cyflog £'000 | 2019/20 Taliadau sy'n gysylltiedig â pherfformiad £'000 | 2019/20 Gwerth Buddion Pensiwn £'000 | 2019/20 Cyfanswm sengl ar gyfer Cydnabyddiaeth Ariannol £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dawn Austwick (Prif Weithredwr) tan 31 Rhagfyr 2020 | 120-125 (Cyfwerth ag amser llawn 145-150) | 10-15 | - | 130-135 | 130-135 (Cyfwerth ag amser llawn 145-150) | 10-15 | 52 | 200-205 |
| David Knott* (Prif Weithredwr Dros Dro) o 7 Mehefin 2021 (Cyngorydd i'r Uwch Dîm Rheoli) o 12 Hydref 2020 tan 6 Mehefin 2021 | - | - | - | - | - | - | - | - |
| John Rose (Prif Weithredwr Dros Dro) o 1 Ionawr 2021 i 6 Mehefin 2021. (Cyfarwyddwr Cymru) tan 31 Rhagfyr 2020 (Cyfarwyddwr Cymru) eto o 7 Mehefin 2021 | 90-95 | 5-10 | 40 | 135-140 | 85-90 | 0-5 | 52 | 140-145 |
| Elly De Decker (Cyfarwyddwr Lloegr) o 1 Ionawr 2020 | 85-90 | 0-5 | 34 | 120-125 | 20-25 (Cyfwerth ag amser llawn 85-90) | 0-5 | 30 | 50-55 |
| Neil Ritch (Cyfarwyddwr Lloegr) o 1 Ionawr 2020 | 75-80 | 0-5 | 37 | 110-115 | 50-55 (Cyfwerth ag amser llawn 75-80) | 0-5 | - | 50-55 |
| Kate Beggs (Cyfawrwyddwr Gogledd Iwerddon) | 75-80 | 0-5 | 33 | 115-120 | 75-80 | 0-5 | 57 | 130-135 |
| Ruth Bates (Cyfarwyddwr Cymru Dros Dro) o 1 Rhagfyr 2020 i 6 Mehefin 2021 | 20-25 (Cyfwerth ag amser llawn 65-70) | 0-5 | 19 | 40-45 | N/A | N/A | N/A | N/A |
| Matthew Green (Cyfarwyddwr Technoleg a Data) tan fis Medi 2021 | 80-85 | 5-10 | 33 | 120-125 | 75-80 | 0-5 | - | 75-80 |
| Neil Harris (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol) | 90-95 | 0-5 | 35 | 125-130 | 75-80 | 0-5 | - | 75-80 |
| Emma Kavanagh (Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro) 1 Ebrill 2020 tan 15 Ionawr 2021 | 50-55 (Cyfwerth ag amser llawn 65-70) | 0-5 | 26 | 75-80 | N/A | N/A | N/A | N/A |
| Harnish Hadani (Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro) o 4 Ionawr 2021 | 20-25 (Cyfwerth ag amser llawn 95-100) | 0-5 | 9 | 30-35 | N/A | N/A | N/A | N/A |
| Faiza Khan MBE (Cyfarwyddwr Ymgysylltu a Mewnwelediad) o 13 Ionawr 2020 | 80-85 | 0-5 | 33 | 115-120 | 15-20 (Cyfwerth ag amser llawn 80-85) | 0-5 | 7 | 25-30 |
| Emma Ackerman (Cyfarwyddwr Strategaeth Ariannu) o 1 Hydref 2020 | 35-40 (Cyfwerth ag amser llawn 75-80) | 0-5 | - | 35-40 | N/A | N/A | N/A | N/A |

*Roedd David Knott yn Uwch Gynghorydd i'r Gronfa rhwng Hydref 2020 a Mehefin 2021. Nid oedd David yn Gyfarwyddwr nac yn aelod o'r Tîm Gweithredol yn ystod y cyfnod hwn.



101

## Cydnabyddiaeth y Swyddogion Gweithredol – pensiynau (gwybodaeth archwiliedig)

| Gweithredwyr | Pensiwn cronedig ar oedran pensiynadwy ar 31/03/21 a chyfandaliad cysylltiedig £'000 | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad wrth bensiwn £'000 | Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) 31/03/21 £'000 | Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) ar 31/03/20 £'000 | Cynnydd Gwirioneddol yn CETV £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Dawn Austwick<br>(Prif Weithredwr) tan 31 Rhagfyr 2020 | - | - | - | 338 | - |
| David Knott<br>(Prif Weithredwr Dros Dro) o 7 Mehefin 2021 (Cyngorydd i'r Uwch Dîm Rheoli) o 12 Hydref 2020 tan 6 Mehefin 2021 | - | - | - | - | - |
| John Rose<br>(Prif Weithredwr Dros Dro) o 1 Ionawr 2021 i 6 Mehefin 2021.<br>(Cyfarwyddwr Cymru) tan 31 Rhagfyr 2020<br>(Cyfarwyddwr Cymru) eto o 7 Mehefin 2021 | 25-30 | 0-2.5 | 460 | 415 | 26 |
| Elly De Decker<br>(Cyfarwyddwr Lloegr) o 1 Ionawr 2020 | 5-10 | 0-2.5 | 95 | 69 | 17 |
| Neil Ritch<br>(Cyfarwyddwr Lloegr) o 1 Ionawr 2020 | 20-25 ynghyd â chyfandaliad o 45-50 | 0-2.5 ynghyd â chyfandaliad o 0-2.5 | 402 | 361 | 24 |
| Kate Beggs<br>(Cyfawrwyddwr Gogledd Iwerddon) | 20-25 ynghyd â chyfandaliad o 45-50 | 0-2.5 ynghyd â chyfandaliad o 0-2.5 | 310 | 281 | 15 |
| Ruth Bates<br>(Cyfarwyddwr Cymru Dros Dro) o 1 Rhagfyr 2020 i 6 Mehefin 2021 | 5-10 | 0-2.5 | 68 | 54 | 9 |
| Matthew Green<br>(Cyfarwyddwr Technoleg a Data) tan fis Medi 2021 | 10-15 | 0-2.5 | 118 | 93 | 16 |
| Neil Harris<br>(Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol) | 5-10 | 0-2.5 | 64 | 39 | 17 |
| Emma Kavanagh<br>(Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro) 1 Ebrill 2020 tan 15 Ionawr 2021 | 10-15 | 0-2.5 | 119 | 103 | 8 |
| Harnish Hadani<br>(Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro) o 4 Ionawr 2021 | 0-5 | 0-2.5 | 8 | - | 6 |
| Faiza Khan MBE<br>(Cyfarwyddwr Ymgysylltu a Mewnwelediad) o 13 Ionawr 2020 | 0-5 | 0-2.5 | 23 | 4 | 13 |
| Emma Ackerman<br>(Cyfarwyddwr Strategaeth Ariannu) o 1 Hydref 2020 | - | - | - | - | - |





## Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian (CETV)

Gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian (CETV) yw gwerth wedi'i gyfalafu buddiannau'r cynllun pensiwn fel yr aseswyd gan actiwari sydd wedi'i gronni gan aelod ar bwynt penodol mewn amser. Y buddion a brisiwyd yw buddiannau cronnus yr aelod a phensiwn unrhyw briod dilynol a delir o'r cynllun. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddiannau y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i'w cyfanswm aelodaeth o'r cynllun, nid dim ond eu gwasanaeth mewn swydd uwch y mae'r datgeliad yn berthnasol iddi. Mae'r ffigurau hefyd yn cynnwys gwerth unrhyw bensiwn mewn cynllun neu drefniad arall y mae'r aelod wedi'i drosglwyddo i'r trefniadau pensiwn Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddiant pensiwn ychwanegol y mae'r aelod wedi'i gronni o ganlyniad iddynt brynu buddiannau pensiwn ychwanegol y maent wedi talu amdanynt eu hunain. Mae CETV yn cael eu cyfrifo yn unol â Rheoliadau Cynlluniau pensiwn galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygiad) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosib i fudd-daliadau o ganlyniad i Dreth Lwfans Gydol Oes a allai fod yn ddyledus pan ystyrir buddiannau pensiwn.n.

## Cynnydd gwirioneddol mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV sy'n cael ei ariannu gan y Gronfa. Nid yw'n ystyried y cynnydd mewn pensiwn a gronnwyd oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddiannau a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniad pensiwn arall ac yn defnyddio ffactorau prisio cyffredinol y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

## Tâl Cydnabyddiaeth Aelodau Bwrdd a Phwyllgorau

Mae tâl cydnabyddiaeth aelodau Bwrdd a Phwyllgorau'r Gronfa wedi'i bennu gan Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Ddigidol, Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Mae Cadeiryddion y Bwrdd Deyrnas Unedig a'r pwyllgorau gwlad yn derbyn cyflog blynyddol yn seiliedig ar nifer y diwrnodau y mae disgwyl iddynt eu hymroi i waith y Gronfa. Disgrifiwyd y rhain yn eu llythyr penodi.

Mae'r cyfansymiau a dderbyniant wedi'u dangos yn y tabl ar dudalennau 81 i 86.

Nid yw aelodau Bwrdd a phwyllgorau'n derbyn unrhyw fuddiannau trethadwy mewn da neu fuddiannau pensiwn. Ad-delir treuliau a geir fel rhan o'u dyletswyddau iddynt ar yr un sail â chyflogeion y Gronfa.

David Knott

**David Knott**

**Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu**

7 Medi 2021

# Ein hadroddiad atebolrwydd ac archwilio seneddol

**TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD Y RHEOLWR A'R ARCHWILYDD CYFFREDINOL I SENEDD Y DEYRNAS UNEDIG**

**Barn am ddatganiadau ariannol**

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol y Gronfa Loteri Fawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 a Deddf Cyfrifon Banc a Chymdeithas Adeiladu Segur 2008. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys: y Datganiadau o Incwm Net Cynhwysfawr, Sefyllfa Ariannol, Llif Arian, Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr'; a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu perthnasol. Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi o fewn y polisïau cyfrifyddu a amlinellwyd y tu mewn iddynt. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) ac a ddehonglir gan Lawlyfr Adrodd Llywodraeth Trysorlys EM.

Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Atebolrwydd y mae'r adroddiad yn disgrifio ei bod wedi'i harchwilio.

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn darparu barn wir a theg am gyflwr materion y Gronfa Loteri Fawr ar 31 Mawrth 2021 ac o'i Cyfanswm Incwm Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993, Deddf Cyfrifon Banc a Chymdeithasau Adeiladu Segur 2008 a chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddir oddi tanynt

**Barn am reoleidd-dra**

Yn fy marn i, ym mhob agwedd faterol mae'r incwm a gwariant a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso yn unol â bwriad Senedd y DU ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

**Sail dros y farn**

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (ISA) (Deyrnas Unedig) a Nodyn Arfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol fy nhystysgrif.

Mae'r safonau hynny'n mynnu fy mod i a fy staff yn cydymffurfio â Safonau Moesegol 2019 diwygiedig y Cyngor Adrodd Ariannol. Rwyf hefyd wedi dewis cymhwyso'r safonau moesegol sy'n berthnasol i endidau rhestredig. Rwy'n annibynnol oddi wrth y Gronfa Loteri Fawr yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm archwiliad a'r datganiadau ariannol yn y Deyrnas Unedig. Mae fy staff a minnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail dros fy marn.

**Casgliadau yn ymwneud â'r busnes gweithredol**

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, deuthum i'r casgliad bod defnydd Cronfa'r Loteri Fawr o sail cyfrif busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i wneud, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, daflu amheuaeth sylweddol ar allu'r Gronfa Loteri Fawr i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r adeg yr awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

Mabwysiadir sail busnes gweithredol cyfrifyddu Cronfa'r Loteri Fawr wrth ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adrodd Llywodraeth y Trysorlys EM, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu sail cyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle roedd yn rhagweld y byddai'r gwasanaethau y maent yn eu darparu yn parhau i'r dyfodol.

**Gwybodaeth arall**

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd y disgrifir yn yr adroddiad hwnnw eu bod wedi'u harchwilio, y datganiadau ariannol ac fy adroddiad archwilydd arnynt. Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am wybodaeth arall.

Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a gan eithrio i'r graddau y nodir yn benodol yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arnynt. Mewn perthynas â fy archwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried p'un a yw'r wybodaeth arall yn faterol anghyson â'r datganiadau ariannol neu fy ngwybodaeth y daethpwyd o hyd iddi yn yr archwiliad neu sydd fel arall i'w gweld fel cael ei chamddatgan yn faterol. Os byddaf yn nodi anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os dof i'r casgliad, yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i wneud, bod camddatgan materol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i mi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd ar hyn o beth.

**Barn am faterion eraill**

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnwyd yn ystod yr archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i'w harchwilio wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1993 a Deddf Cyfrifon Banc a Chymdeithasau Adeiladu Segur 2008; ac

- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Perfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol pan baratowyd y datganiadau ariannol yn cydweddu â'r datganiadau ariannol.

**Materion yr adroddaf arnynt trwy eithriad**

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Gronfa Loteri Fawr a'i hamgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi adnabod unrhyw gamddatgan materol yn yr Adroddiad Perfformiad neu'r Adroddiad Atebolrwydd. Nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd amdano mewn perthynas â'r materion canlynol yr adroddaf amdanynt i chi os, yn fy marn i:

- nad yw cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw neu ddychweliadau sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad wedi'u derbyn gan ganghennau nas ymwelwyd â hwy gan fy staff; neu
- os nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i'w harchwilio'n cyfateb i'r cofnodion cyfrifo a'r dychweliadau; neu
- ni wneir rhai datgeliadau o dâl a bennir gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Llywodraeth Trysorlys EM; neu
- os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen ar gyfer fy archwiliad; neu
- os nad yw'r Datganiad Llywodraethu'n adlewyrchu cydymffurfiad â chanllawiau Trysorlys EM.

**Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y datganiadau ariannol**

Fel yr esbonnir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n gyfrifol am:

- paratoi'r datganiadau ariannol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol cymwys ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi trosolwg gwir a theg;
- rheolaethau mewnol fel y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn pennu sy'n angenrheidiol er mwyn galluogi paratoi datganiad ariannol i fod yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, p'un ai oherwydd twyll neu wall.
- asesu gallu Cronfa'r Loteri Fawr i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel sy'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y Swyddog Cyfrifyddu yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Gronfa'r Loteri Fawr yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol neu naill ai'n bwriadu diddymu'r endid neu roi'r gorau i weithrediadau, neu nad oes ganddo ddewis arall realistig ond gwneud hynny.

**Cyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol**

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993. a Deddf Cyfrifon Banc a Chymdeithasau Adeiladu Segur 2008.

Fy amcanion yw sicrhau sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, p'un ai oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISA (y Deyrnas Unedig) bob amser yn datgelu camddatgan materol pan fydd yn bodoli. Gall camddatgan ddeillio o dwyll neu wall ac ystyrir ei fod yn faterol os, yn unigol neu ar y cyd, gellir disgwyl yn rhesymol eu bod yn dylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas â diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoleiddio, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau yn cynnwys y canlynol:

- Ymchwilio i reolwyr, pennaeth archwilio mewnol y Gronfa Loteri Fawr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau'r Gronfa Loteri Fawr sy'n ymwneud â:
  - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
  - canfod ac ymateb i risgiau twyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheus neu honedig; ac
  - ennill dealltwriaeth o fframwaith awdurdod y Gronfa Loteri Fawr yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoliadol eraill y mae'r Gronfa Loteri Fawr yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau'r Gronfa Loteri Fawr. Roedd y deddfau a'r rheoliadau allweddol a ystyriais yn y cyd-destun hwn yn cynnwys Deddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 a Deddf Cyfrifon Banc a Chymdeithas Adeiladu Segur 2008 a Chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a wnaed o dan y Ddeddf honno; cyfraith treth, cyfraith cyflogaeth a Rheoli Arian Cyhoeddus
- trafod ymhlith y tîm ymgysylltu ynghylch sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais botensial am dwyll yn y meysydd a ganlyn: cydnabod refeniw, a phostio cyfnodolion anarferol;
- ennill dealltwriaeth o fframwaith awdurdod y Gronfa Loteri Fawr yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoliadol eraill y mae'r Gronfa Loteri Fawr yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau'r Gronfa Loteri Fawr. Roedd y deddfau a'r rheoliadau allweddol a ystyriais yn y cyd-destun hwn yn cynnwys Deddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 a Deddf Cyfrifon Banc a Chymdeithas Adeiladu Segur 2008 a Chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a wnaed o dan y Ddeddf honno; a Rheoli Arian Cyhoeddus;
- perfformio gweithdrefnau dadansoddol i nodi unrhyw berthnasoedd anarferol neu annisgwyl a allai ddynodi risgiau o gamddatganiad perthnasol oherwydd twyll.
- Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:
  - o adolygu datgeliadau a phrofion datganiadau ariannol i ddogfennau ategol i asesu cydymffurfiad â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodwyd uchod;



Ein hadroddiad atebolrwydd ac archwilio seneddol

- ymholi'r rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a chwnsler cyfreithiol mewnol ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy reolwyr yn diystyru rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i waith arferol y busnes; a
- perfformio gweithdrefnau dadansoddol i nodi unrhyw berthnasoedd anarferol neu annisgwyl a allai ddynodi risgiau o gamddatganiad perthnasol oherwydd twyll.

Hefyd, mi wnes i gyfleu deddfau a rheoliadau perthnasol a risgiau twyll posib i holl aelodau'r tîm ymgysylltu gan gynnwys arbenigwyr mewnol a thimau archwilio cydrannau sylweddol a pharhau'n effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Mae disgrifiad pellach o fy nghyfrifoldebau dros archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy nhystysgrif.

At hynny mae'n ofynnol i mi ddod o hyd i ddigon o dystiolaeth i roi sicrhad rhesymol bod yr incwm a gwariant yr adroddir amdanynt yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso i'r dibenion yn unol â bwriad Senedd y Deyrnas Unedig a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sydd â gofal llywodraethu mewn perthynas â, ymysg pethau eraill cwmpas ac amseru cynlluniedig yr archwiliad a chanfyddiadau arwyddocaol yr archwiliad, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol yr wyf yn eu hadnabod yn ystod fy archwiliad.

**Adroddiad**

Nid oes gennyf unrhyw arsylwadau ynglŷn â'r datganiadau ariannol hyn.

**Gareth Davies**

Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP





## Datganiad incwm cynhwysfawr

| | Nodyn | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2021 £'000 | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2020 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Incwm** | | | |
| **Incwm Loteri** | | | |
| Enillion o'r Loteri Genedlaethol | 13 | 725,510 | 710,434 |
| Incwm buddsoddi gan Cronfa Ddosbarthu y Loteri Genedlaethol | 13 | 424 | 3,436 |
| Banc a llog arall sy'n dderbyniadwy | 2 | 41 | 145 |
| Adenillion grant | 2 | 1,995 | 1,976 |
| | | 727,970 | 715,991 |
| **Incwm arian cyfrifon segur** | | | |
| Derbyniwyd/Derbyniadwy gan Reclaim Fund Ltd | 32a | 90,281 | 68,530 |
| Llog banc yn dderbyniadwy | 32a | 136 | 650 |
| Adenillion grant | 32a | 33 | 2 |
| | | 90,450 | 69,182 |
| **Incwm Cronfa Cymorth Cymunedol y Coronafeirws** | | | |
| Derbyniwyd/ Derbyniadwy gan DCMS | 29 | 199,417 | - |
| **Incwm Cronfa Elusennau COVID-19** | | | |
| Derbyniwyd/ Derbyniadwy gan DfC | 31 | 9,215 | - |
| **Incwm y Gronfa Cysylltiadau Lleol** | | | |
| Derbyniwyd/ Derbyniadwy gan DCMS | 30 | 2,000 | - |
| Adenillion grant | | 5 | - |
| | | 2,005 | - |
| **Incwm arall** | 2 | 6,367 | 6,567 |
| **Cyfanswm Incwm** | | **1,035,424** | **791,740** |
| **Gwariant** | | | |
| **Gwariant rhaglenni'r Loteri Genedlaethol** | | | |
| Gwariant grant | 3 | 513,820 | 584,255 |
| Gwariant grant wedi'u dirymu neu darfod | 3 | (4,670) | (4,682) |

| | Nodyn | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2021 £'000 | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2020 £'000 |
|---|---|---|---|
| Gwariant uniongyrchol i gefnogi rhaglenni | 4 | 8,131 | 8,622 |
| | | 517,281 | 588,195 |
| **Gwariant rhaglen arian cyfrifon segur** | | | |
| Trosglwyddiadau/trosglwyddadwy i ddosbarthwyr dynodedig | 32a | 41,933 | 55,445 |
| Gwariant grant | 32a | 5,940 | 6,822 |
| Gwariant grant wedi'u dirymu neu darfod | 32a | (18) | (352) |
| | | 47,855 | 61,915 |
| **Gwariant gronfa Cymorth Cymunedol y Coronafeirws** | | | |
| Gwariant grant | 29 | 188,423 | - |
| Gwariant grant wedi'u dirymu neu darfod | 29 | 160 | - |
| | | 188,583 | - |
| **Gwariant Cronfa Elusennau COVID-19** | | | |
| Gwariant grant | 31 | 8,847 | - |
| Gwariant grant wedi'i dirymu neu darfod | 31 | (20) | - |
| | | 8,827 | - |
| **Gwariant y Gronfa Cysylltiadau Lleol** | | | |
| Gwariant grant | 30 | 1,828 | - |
| | | 1,828 | - |
| **Costau Gweithredu** | | | |
| Costau gweithredu ar gyfer dosbarthu incwm y Loteri Genedlaethol | 5 | 42,357 | 54,822 |
| Costau gweithredu wedi'u hailgodi | 5 | 3,159 | 2,985 |
| Costau gweithredu ar gyfer dosbarthu arian cyfrifon segur | 5 | 346 | 480 |
| Costau gweithredu ar gyfer dosbarthu arian Cronfa Cymorth Cymunedol y Coronafeirws | 5 | 9,266 | - |
| Costau gweithredu ar gyfer dosbarthu arian y Gronfa Cysylltiadau Lleol | 5 | 71 | - |
| Costau gweithredu ar gyfer dosbarthu arian y Gronfa Elusennau COVID-19 | 5 | 388 | - |
| | | 55,587 | 58,287 |
| **Gwariant y Gronfa Cysylltiadau Lleol** | 8 | 2,335 | 917 |
| **Gwariant grant** | | 822,296 | 709,314 |
| **Gwarged cyn trethiant** | | 213,128 | 82,426 |
| Trethiant | 9 | (8) | (28) |
| **Cyfanswm yr incwm net cynhwysfawr** | | 213,120 | 82,398 |

Mae'r holl incwm a gwariant yn ymwneud â gweithgareddau parhaus.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 109 i 149 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## Datganiad o newidiadau mewn ecwiti

### Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2021

| | Cyfrifon Loteri £'000 | Cyfrifon Segur £'000 | Cronfa Cymorth Cymunedol y Coronafeirws £'000 | Cronfa Cysylltiadau Lleol £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Safle gronfa agoriadol | (670,627) | 50,264 | - | - | (620,363) |
| Trosglwyddo o ddatganiad o wariant net cynhwysfawr | 169,197 | 42,249 | 1,568 | 106 | 213,120 |
| **Safle gronfa cau** | (501,430) | 92,513 | 1,568 | 106 | (407,243) |

**Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2020**

| | Cyfrifon Loteri | Cyfrifon Segur | Cronfa Cymorth Cymunedol y Coronafeirws | Cronfa Cysylltiadau Lleol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Safle gronfa agoriadol | (746,238) | 43,477 | - | - | (702,761) |
| Trosglwyddo o ddatganiad o wariant net cynhwysfawr | 75,611 | 6,787 | - | - | 82,398 |
| **Safle gronfa cau** | (670,627) | 50,264 | - | - | (620,363) |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 113 i 153 yn rhan o'r cyfrifon hyn

## Datganiad o'r sefyllfa ariannol

| | Nodyn | Ar y 31 Mawrth 2021 £'000 | Ar y 31 Mawrth 2020 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau nad ydynt yn gyfredol** | | | |
| Eiddo, peiriannau ac offer | 10 | 2,200 | 3,473 |
| Asedau anghyffwrdd | 11 | 249 | 368 |
| Asedau hawl i ddefnyddio | 20 | 6,976 | 11,676 |
| | | 9,425 | 15,517 |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Masnach a symiau derbyniadwy eraill | 12 | 155,319 | 124,847 |
| Arian parod yn y banc ac mewn llaw | | 81,512 | 79,951 |
| Balans buddsoddi yng nghronfa Dosbarthu'r Loteri Genedlaethol | 13 | 263,583 | 302,735 |
| | | 500,414 | 507,533 |
| **Cyfanswm Asedau** | | **509,839** | **523,050** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Masnach a symiau taladwy eraill | 14 | (465,152) | (505,491) |
| Rhwymedigaethau prydles | 20 | (1,343) | (4,710) |
| **Cyfanswm net yr asedau rhwymedigaethau cyfredol** | | 43,344 | 12,849 |





| | Nodyn | Ar y 31 Mawrth 2021 £'000 | Ar y 31 Mawrth 2020 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol** | | | |
| Masnach a symiau taladwy eraill | 14 | (426,722) | (555,414) |
| Rhwymedigaethau prydles | 20 | (4,995) | (6,636) |
| Darpariaethau | 15 | (18,870) | (71,162) |
| **Asedau rhwymedigaethau** | | **(407,243)** | **(620,363)** |
| **Cynrychiolwyd gan:** | | | |
| Cronfa arian y Loteri | | (501,430) | (670,627) |
| Cronfa arian cyfrifon segur | | 92,513 | 50,264 |
| Cronfa Cymorth Cymunedol y Coronafeirws | | 1,568 | - |
| Cronfa Cysylltiadau Lleol | | 106 | - |
| | | **(407,243)** | **(620,363)** |

Llofnodwyd ar ran Bwrdd y Gronfa Loteri Fawr ar 7 Rhagfyr 2021

David Knott

**David Knott**
**Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu**

**Blondel Cluff**
**Cadeirydd**

Mae'r nodiadau ar dudalennau 113 i 153 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## Datganiad o lif arian parod

| | Ar y 31 Mawrth 2021 £'000 | Ar y 31 Mawrth 2020 £'000 |
|---|---|---|
| Gwarged am y cyfnod | 213,120 | 82,398 |
| Gwaredu asedau nad ydynt yn gyfredol | - | 1,103 |
| Dibrisiant eiddo, peiriannau ac offer ac amorteiddio asedau anghyffwrdd | 1,669 | 2,781 |
| Dibrisiant asedau prydles hawl i ddefnyddio | 3,552 | 4,335 |
| Treuliau llog | 198 | 313 |
| Gwarged wedi'i addasu ar gyfer trafodion nad ydynt yn arian parod | 218,539 | 90,930 |
| (Cynnydd)/Gostyngiad mewn masnach a symiau derbyniadwy eraill | (30,472) | 4,694 |
| Gostyngiad/(Cynnydd) ym malans NLDF | 39,152 | (25,598) |
| Gostyngiad mewn masnach a symiau taladwy eraill | (169, 031) | (55,992) |
| Gostyngiad mewn darpariaethau | (52,292) | (23,132) |
| Dal i fyny cronnus o prydlesi IFRS 16 | - | (295) |
| Trosglwyddo i ased prydles hawl i ddefnyddio o ddi-rent | 230 | - |
| **Mewnlif arian parod net/(all-lif) o weithgareddau gweithredu** | 6,126 | (9,393) |
| Llifau arian o weithgareddau ariannu | | |
| Ad-dalu benthyciadau a rhwymedigaethau prydlesu | (4,289) | (4,683) |
| Llifau arian o weithgareddau buddsoddi | | |
| Taliadau i gaffael eiddo, peiriannau ac offer | (276) | (1,385) |
| **Cynnydd/(Lleihad) mewn arian parod** | **1,561** | **(15,461)** |
| Cynnydd net mewn arian parod a chyfatebion arian parod | | |
| Balansau arian parod yn cael eu cario ymlaen | 81,512 | 79,951 |
| Llai o falansau arian parod wedi'u cario ymlaen | (79,951) | (95,412) |
| | **1,561** | **(15,461)** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 113 i 153 yn rhan o'r cyfrifon hyn.





# Nodiadau i'r cyfrifon

## 1. Datganiad o bolisïau cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM) 2020/21 a gyhoeddir gan Drysorlys EM a'r Cyfarwyddiadau Cyfrifon a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn unol ag Adran 36A (2) Deddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 (fel y'i diwygir gan Ddeddfau'r Loteri Genedlaethol 1998 a 2006) a Deddf Cyfrifon Banc a Chymdeithasau Adeiladu Segur 2008. Mae'r polisïau cyfrifyddu sydd wedi'u cynnwys yn FReM yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u haddaswyd neu ddehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Pan fydd FReM yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddu, dewisir y polisi cyfrifyddu y bernir ei fod yn fwyaf priodol i amgylchiadau penodol y Gronfa at ddiben darparu barn wir a theg. Disgrifir y polisïau penodol a fabwysiedir gan y Gronfa ar gyfer 2020/21 isod. Maent wedi eu cymhwyso'n gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyrir eu bod yn faterol i'r cyfrifon. Nid ydym wedi mabwysiadu unrhyw IFRS a gyhoeddwyd nad yw wedi dod i rym eto.

### 1.1 Confensiwn cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol wedi'i addasu pan fo'n briodol er gwerth teg. Ac eithrio rhai asedau penodol a ailbrisiwyd, rydym yn credu nad yw cost hanesyddol yn wahanol yn faterol i werth teg.

Heb gyfyngu ar yr wybodaeth a roddir, mae'r cyfrifon yn bodloni gofynion cyfrifyddu a datgelu'r Ddeddf Cwmnïau, FReM a Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, lle bo'n briodol.

### 1.2 Busnes gweithredol

Paratowyd y cyfrifon blynyddol ar sail busnes gweithredol. Ymgymerwyd ag ymrwymiadau grantiau ar gyfer y blynyddoedd i ddod ar ôl ystyried gofynion arian parod derbynyddion grantiau (gall y rhain ymestyn hyd at saith mlynedd) ac ar ôl ystyried y rhagamcaniadau incwm a baratowyd fel rhan o'r broses cynllunio busnes. Wrth fabwysiadu'r agwedd hon at incwm y dyfodol, mae'r Bwrdd yn tybio fel mater o bolisi cyhoeddus y bydd y Loteri Genedlaethol yn parhau i weithredu.

### 1.3 Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol

Erys balansau a ddelir yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (NLDF) o dan stiwardiaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Er hynny, mae cyfran y balans hwn y gellir ei phriodoli i'r Gronfa i'w gweld yn y cyfrifon ac, ar 31 Mawrth 2021, mae wedi'i hardystio gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon fel arian sydd ar gael ar gyfer ei ddosbarthu gan y Gronfa mewn perthynas ag ymrwymiadau presennol a'r rhai yn y dyfodol.

### 1.4 Eiddo, peiriannau a chyfarpar

Mae eiddo, peiriannu a chyfarpar wedi'u cydnabod yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol am y gost, ac eithrio eitemau â chost o lai na £2,000 sy'n cael eu dibrisio i'r Datganiad incwm

cynhwysfawr ym mlwyddyn eu caffael.

Darperir dibrisiant yn unol â'r cyfraddau a gyfrifwyd i ddileu prisiau'r asedau ar sail llinell wastad yn ystod amcangyfrif o'u hoes ddefnyddiol, fel a ganlyn:

| Gwelliannau prydles | Dros gyfnod y les |
|---|---|
| Offer TG | 3 blynedd |
| Offer, dodrefn a ffitiadau Swyddfa | 3 blynedd |

## 1.5 Asedau anniriaethol

Yn unol ag IAS 38 'Asedau Anniriaethol', cydnabyddir costau datblygu y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i ddylunio a phrofi'r meddalwedd adnabyddadwy ac unigryw fel ased anniriaethol. Mae costau y gellir eu priodoli'n uniongyrchol yn cynnwys ffioedd contractwyr allanol a chostau cyflogeion. Yn dilyn cydnabyddiaeth gychwynnol o'r asedau rydym yn amorteiddio ar sail linol dros y bywyd defnyddiol amcangyfrifedig fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| System rheoli grantiau | 4 mlynedd neu fywyd economaidd defnyddiol sy'n weddill pan fydd wedi'i ddiwygio |
| Gwefan | 5 mlynedd |

Nid ydym yn amorteiddio costau mewn perthynas ag asedau sy'n cael eu hadeiladu.

Mae asedau anniriaethol wedi bod yn destun adolygiad gwerth gostyngol o dan IAS 36 (nodyn 11).

## 1.6 Cronfa bensiwn

Mae gweithwyr yn rhan o ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS), sy'n cynllun pensiwn amlgyflogwr heb ei ariannu â buddion wedi'u diffinio. Fel arall gallant ymuno â Chynllun Pensiwn Partneriaeth y Gwasanaeth Sifil - pensiwn budd-ddeiliad. Telir buddiannau pensiwn gan PCSPS. Mae ein rhwymedigaethau wedi'u cyfyngu i gost, sydd wedi'i osod gan Brif Actwari'r Llywodraeth, mewn perthynas â chyflogau a delir ym mhob blwyddyn Prisiwyd y cynllun ddiwethaf ar 31 Mawrth 2012. Defnyddiwyd prisiad interim wedi'i ddiweddaru a oedd yn weithredol o Ebrill 2019.

## 1.7 Prydlesi gweithredu

**Lesai**

Bu'r Gronfa fabwysiadu Prydlesi IFRS 16 am y tro cyntaf ym mlwyddyn ariannol 2019/20. Nodir asedau hawl i defnyddio yn y datganiad sefyllfa ariannol ar gost a bennir gan werth gyfredol y taliadau dan bob prydles. Caiff y costau hyn eu hamorteiddio dros gyfnod isafswm y brydles gan gynnwys cyfnodau dewisol lle mae'r Gronfa'n sicr neu'n weddol sicr o arfer yr opsiwn i ymestyn. Codir y costau ariannol o wasanaethu'r asedau ar brydles fel llog yn y datganiad o incwm cynhwysfawr.





**Leswr**

Pan fyddwn wedi darparu cyfnod di-rent neu gymhelliad arall i denant, mae cost y cymhelliad hwn wedi'i dosrannu dros y cyfnod i ba un bynnag yw'r cynharaf o'r dyddiad adolygu rhent neu ddyddiad dod i ben y les ar sail linol.

## 1.8 Gwariant ar raglenni

Mae Deddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 yn gwneud darpariaeth i'r Gronfa ddosbarthu grantiau i ariannu neu gynorthwyo ariannu prosiectau a gwneud neu gychwyn trefniadau sydd â'r nod o dalu am wariant sy'n elusennol neu'n gysylltiedig ag iechyd, addysg neu'r amgylchedd fel a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

**Dyfarniadau grant**

Cyfrifir dyfarniadau grant fel gwariant yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr a, hyd nes y cânt eu talu, fel rhwymedigaethau yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol os ydynt yn gweddu i ddiffiniad rhwymedigaethau yn IAS37 Darpariaethau, Rhwymedigaethau Amodol ac Asedau Amodol, p'un a ydynt yn deillio o rwymedigaethau cyfreithiol neu adeiladol. Cydnabyddir dyfarniadau grant fel gwariant a chyfrifir am rwymedigaethau pan:

1. fo'r Gronfa wedi dod i benderfyniad pendant ar y dyfarniad; ac
2. mae derbynnydd y dyfarniad wedi'i hysbysu amdano; ac
3. mae'r dyfarniad yn rhydd rhag unrhyw amodau o dan reolaeth y Gronfa.

Nid yw dyfarniadau grant y gwnaed penderfyniad ffurfiol arnynt gan y Gronfa nad ydynt yn bodloni diffiniad technegol rhwymedigaethau, naill ai oherwydd nad ydynt wedi'u cyfathrebu i'r derbynnydd, neu gan nad ydynt yn bodloni meini prawf llym mewn perthynas â naill ai amodau penodol neu fathau o ddyfarniadau (gweler isod), wedi'u cynnwys mewn gwariant yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr neu fel rhwymedigaethau yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol ond yn cael eu datgelu fel rhwymedigaethau amodol yn Nodyn 17.

**Dyfarniadau datblygu**

Pan fydd y Gronfa'n cadw'r disgresiwn i wneud dyfarniadau dilynol yn dilyn cam datblygu a ariannwyd, nid yw'r dyfarniad dilynol posib yn cael ei drin fel rhwymedigaeth hyd nes bod y Gronfa wedi gwneud penderfyniad ffurfiol pellach i symud ymlaen ag ef.

**Dyfarniadau ar sail perfformiad**

Pan fydd talu dyfarniad cyfan neu ran ohono'n amodol ar amod perfformiad, nid yw'r rhan o'r dyfarniad sy'n destun yr amod yn cael ei drin fel rhwymedigaeth hyd nes bod yr amod yn cael ei fodloni.

**Dyfarniadau cam lluosog**

Pan wneir dyfarniad sy'n daladwy dros gamau lluosog ac mae parhau â'r dyfarniad yn dibynnau ar ganlyniad adolygiadau ffurfiol gan y Gronfa, bydd camau diweddarach y dyfarniad yn cael eu trin fel rhwymedigaeth naill ai os mai natur yr adolygiad yw cadarnhau cynnydd, neu os mai canlyniad yr adolygiad yw bod y Gronfa'n parhau â'r dyfarniad.

**Dosbarthu rhwymedigaethau**

Mae rhwymedigaethau grant ar ddyddiad y Datganiad Sefyllfa Ariannol wedi'u dosbarthu'n groniadau oni bai eu bod yn bodloni'r meini prawf cydnabyddiaeth yn IAS37, Darpariaethau, Rhwymedigaethau Amodol ac Asedau Amodol.

**Grantiau sy'n cael eu had-dalu a'u hadennill**

Mae ein hamodau grant yn caniatáu adennill ac ad-dalu grantiau a dalwyd. Gall hyn ddigwydd pan fydd y deiliad grant yn methu â chydymffurfio ag amodau a thelerau neu pan fydd gwariant gwirioneddol derbynnydd yn is na'r grant a dalwyd yn seiliedig ar amcangyfrif o gostau.

Mae arian sy'n cael ei adennill yn cael ei gydnabod fel incwm ar ôl derbyn yr ad-daliad.

**Gwariant uniongyrchol ar raglenni**

Rydym yn cofnodi 'gwariant uniongyrchol ar raglenni' fel y costau hynny a geir wrth gyflwyno gwasanaethau'n uniongyrchol i fuddiolwyr neu dderbynyddion grant o dan a36B Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993. Act 1993. Er enghraifft, darparu strwythurau cefnogi ymgeiswyr a deiliaid grant a sicrhau ansawdd er budd uniongyrchol derbynyddion grant.

Rydym yn cofnodi 'gwariant grantiau wedi darfod neu eu diddymu' pan fydd y deiliad grant wedi dewis dychwelyd arian grant nas defnyddiwyd i'r Gronfa neu pan fyddwn wedi dewis diddymu arian grant nas defnyddiwyd gan y deiliad grant. Ym mhob achos mae hyn yn gysylltiedig â symiau a gofnodwyd yn flaenorol fel rhwymedigaethau.

## 1.9 Treth

Codir treth gorfforaethol ar sail y gyfraith dreth sydd mewn grym ar ddyddiad y sefyllfa ariannol. Mae'r dreth hon ar log a dderbyniwyd ar falansau arian a ddelir mewn cyfrifon banc masnachol.

Rydym yn gofrestredig ar gyfer treth ar werth (TAW). Codir ac adferir TAW ar ein gweithgareddau sy'n cydymffurfio â'r diffiniad o weithgareddau busnes a ddisgrifir mewn deddfwriaeth TAW.

Mae hyn yn cynnwys llawer o'n gweithgareddau Trydydd Parti. Codir TAW anadferadwy ar wariant neu wedi'i gyfalafu yng nghost asedau sefydlog.

## 1.10 Arian parod a chyfwerth ag arian parod

Mae arian parod yn cynnwys arian mewn llaw ac adneuon a ddelir ar alwad gyda banciau masnachol.

## 1.11 Darpariaethau

Mae'r Gronfa'n cydnabod darpariaeth pan fydd:

1. rhwymedigaeth gyfreithiol o ganlyniad i benderfyniad yn y gorffennol
2. yn debygol y bydd angen adnoddau i setlo'r rhwymedigaeth, a
3. phan ellir amcangyfrif y swm yn ddibynadwy.

Ar hyn o bryd mae gennym ddarpariaethau ar gyfer ailstrwythuro costau a throsglwyddi arian cyfrifon segur.

## 1.12 Rheoli'r grant

**Partneriaid dirprwyedig**

Rydym wedi ymgymryd â chytundebau lle mae nifer o gyrff dirprwyedig yn mynd i weithredu fel mudiadau arweiniol wrth gyflwyno cynlluniau grantiau. Wrth wneud hyn rydym wedi dirprwyo'r swyddogaeth gwneud penderfyniadau am grantiau statudol i fudiadau eraill. Cofnodir yr arian a roddir ymlaen llaw i bartneriaid dirprwyedig er mwyn talu am ymrwymiadau grant nad yw eu hamodau wedi'u bodloni ar ddiwedd y flwyddyn fel ased cyfredol hyd nes ein bod yn derbyn cadarnhad bod ymrwymiadau grant wedi'u bodloni.





**Ymddiriedolaethau**

Mae'r Gronfa wedi gwneud dyfarniadau i gwmnïau cyfyngedig trwy warant newydd sy'n gweithredu fel unig ymddiriedolwr mewn ymddiriedolaethau elusennol newydd. Cofnodir arian a ddyfernir i'r ymddiriedolaethau hyn fel rhwymedigaeth hyd nes ein bod yn gwneud taliadau i'r ymddiriedolaethau. Nid yw'r symiau a ddelir gan yr ymddiriedolaeth wedi'u dangos fel asedau.

**Cynlluniau ar y cyd**

Os ydym wedi ymrwymo i gynllun ar y cyd, fel a ddiffinnir yn Neddf y Loteri Genedlaethol 1998, cyfrifir ymrwymiadau grant a wneir trwy'r cynllun ar y cyd ar sail ein cyfran yn y cynllun. Cofnodir arian a anfonir ymlaen at y cynllun ar y cyd at ddiben talu ymrwymiadau grant fel ased cyfredol hyd nes i ni dderbyn cadarnhad bod y taliadau mewn perthynas â'r ymrwymiadau hynny wedi'u gwneud. Mae costau gweinyddu wedi'u cynnwys yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr yn unol â'r swm a godir ar y Gronfa.

## 1.13 Asedau trydydd parti

Mae'r Gronfa'n geidwad rhai asedau penodol sy'n perthyn i drydydd partïon. Nid yw'r rhain wedi'u cydnabod yn y cyfrifon gan nad oes gennym unrhyw fuddiant uniongyrchol ynddynt. Dangosir y balansau banc a ddelir ar ran trydydd partïon yn nodyn 24.

## 1.14 Offerynnau ariannol

Mae'r Gronfa wedi mabwysiadu Offerynnau Ariannol IFRS 9 a ddaeth i rym o flwyddyn ariannol 2018/19. Rydym wedi adolygu ein hofferynnau ariannol mewn perthynas â dosbarthu, mesur ac amhariad, gan nodi'r colledion credyd disgwyliedig lle bo'n berthnasol. Mae'r asedau a'r rhwymedigaethau yr ystyrir eu bod yn ariannol eu natur wedi'u hamlinellu yn nodyn 19. Nid ydym yn dal unrhyw offerynnau ariannol cymhleth.

## 1.15 Adrodd Cylchrannol

Yn unol ag IFRS 8 mae Bwrdd y Gronfa, fel 'Prif Gorff Gwneud Penderfyniadau Gweithredol', wedi pennu ein bod yn gweithredu mewn pum segment daearyddol materol - y Deyrnas Unedig, Cymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae gennym ffynhonnell incwm sylweddol unigol gan y Loteri, ac mae'r fformat adrodd cylchrannol yn adlewyrchu'n strwythur rheoli ac adrodd mewnol. Gweithredir rhai rhaglenni ar draws y Deyrnas Unedig gyfan ac adroddir ar y rhain yn annibynnol i'r pedair gwlad.

## 1.16 Cronfeydd cyfrifon segur

Cyfrifwyd am arian cyfrifon segur o dan yr un polisïau ag arian Loteri, gyda'r symiau'n ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol hyn a bod yn destun barn archwilio. Er eglurder, mae datganiadau ariannol ffurf fer sy'n ymwneud ag arian cyfrifon segur yn unig wedi'u cynnwys yn nodyn 32.

## 1.17 Cronfa Gymorth Cymunedol y Coronafeirws

Cyfrifwyd am arian Cronfa Gymorth Cymunedol Coronafeirws (CCSF) Llywodraeth y DU o dan yr un polisïau ag arian y Loteri Genedlaethol, gyda'r symiau'n ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol hyn ac yn destun barn archwilio. Er tryloywder ac eglurder, mae datganiadau ariannol ffurf fer sy'n ymwneud ag arian CCSF yn unig wedi'u cynnwys yn nodyn 29.

## 1.18 Cronfa Local Connections

Cyfrifwyd am arian Cronfa Local Connections o dan yr un polisïau ag arian y

Loteri Genedlaethol, gyda'r symiau'n ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol hyn ac yn destun barn archwilio. Er tryloywder ac eglurder, mae datganiadau ariannol ffurf fer sy'n ymwneud â'r rhaglen ariannu hon yn unig wedi'u cynnwys yn nodyn 30.

### 1.19 Cronfa Elusennau COVID-19

Cyfrifwyd am arian Cronfa Elusennau COVID-19 o dan yr un polisïau ag arian y Loteri Genedlaethol, gyda'r symiau'n ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol hyn ac yn destun barn archwilio. Er tryloywder ac eglurder, mae datganiadau ariannol ffurf fer sy'n ymwneud â'r rhaglen ariannu hon yn unig wedi'u cynnwys yn nodyn 31.

### 1.20 Safonau Cyfrifyddu sydd wedi'u cyhoeddi ond heb eu mabwysiadu eto

Nid oes unrhyw safonau cyfrifyddu sydd wedi'u cyhoeddi ond heb eu mabwysiadu eto gan y Gronfa yn 2020/21.

### 1.21 Amcangyfrifon cyfrifyddu a barn

Mae paratoi datganiadau ariannol yn gofyn bod rheolwyr yn ffurfio barn, tybiaethau neu amcangyfrif sy'n effeithio ar y symiau asedau, rhwymedigaethau, incwm a threuliau a adroddir amdanynt. Caiff amcangyfrifon a barn eu gwerthuso'n rheolaidd a'u diweddaru i adlewyrchu unrhyw newidiadau yn ystod y cyfnod o'u hadolygu.

Mae'r polisïau cyfrifyddu'n disgrifio meysydd sy'n ymwneud â gradd uchaf o dechnegau ffurfio barn, tybiaethau neu amcangyfrif, megis nodyn 1.5 (Asedau anniriaethol), nodyn 1.8 (Gwariant ar raglenni) a nodyn 1.11 (Darpariaethau).

Y barnau mwyaf arwyddocaol yw:

- Gwariant ar raglenni - mae'r Gronfa'n cydnabod gwerth dyfarniadau sy'n destun amodau perfformiad fel rhwymedigaethau amodol yn hytrach na chroniadau grant. Mae'r farn yn seiliedig ar amodau a thelerau'r contractau dyfarnu.
- Nam asedau anniriaethol - Cynhaliodd y Gronfa'r adolygiad amhariad blynyddol mewn perthynas â'i System Rheoli Grantiau newydd a ddangosodd nad oes angen amhariad ar yr ased.

Yr amcangyfrifon mwyaf arwyddocaol yw:

- Darpariaethau - Rydym wedi amcangyfrif cronfeydd cyfrifon segur ar sail cyhoeddiadau a wnaed gan DCMS mewn perthynas â Deddf Cyfrifon Banc a Chymdeithas Adeiladu Segur 2008. Rydym hefyd wedi amcangyfrif costau dadfeilio mewn perthynas ag ailstrwythuro ein swyddfa.
- Bywyd economaidd defnyddiol asedau anniriaethol - Fe adolygom ein hamcangyfrif o weddill oes ein System Rheoli Grantiau. Yn ein hamcangyfrif ni nid oes unrhyw newid i'r bywyd economaidd defnyddiol.





## 2. Incwm

Mae effaith cymhwysiad Refeniw o Gytundebau gyda Chwsmeriaid IFRS 15 wedi cael ei asesu, gydag adolygiad a dadansoddiad o bob cytundeb refeniw. Rydym yn dod i'r casgliad nad oes gennym unrhyw refeniw perthnasol o gontractau gyda chwsmeriaid. Lle mae gan y Gronfa gytundeb gyda thrydydd parti sy'n adran o'r llywodraeth ar gyfer gwasanaethau ariannu uniongyrchol neu ar gyfer partneriaeth cyd-ariannu, mae'r cytundebau'n nodi neu'n awgrymu y dylid trin y refeniw fel grant llywodraeth. Felly, rydym yn parhau i gymhwyso Cyfrifo ar gyfer Grantiau Llywodraeth IAS 20 lle mae incwm a threuliau yn cyd-fynd yn ystod yr un cyfnod.

Isod mae dadansoddiad o incwm arall nad yw wedi'i adnabod ar wahân yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr.

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 £'000 |
|---|---|---|
| **Llog banc a llog arall a dderbynnir** | | |
| Llog banc derbyniadwy | 41 | 145 |
| | **41** | **145** |
| **Gwerthu tir ar Benrhyn Greenwich** | | |
| Gwerthu tir ar Benrhyn Greenwich | 236 | 47 |
| | **236** | **47** |
| **Incwm arall** | | |
| Incwm o gyflwyno arian nad yw'n arian y Loteri | 2,976 | 3,254 |
| Incwm o gyflwyno arian y Loteri ar ran dosbarthwyr eraill | 47 | 82 |
| Incwm rhent | 2,814 | 2,786 |
| Mân incwm | 294 | 398 |
| | **6,131** | **6,520** |
| **Adennill grantiau gan ddeiliaid grant (Nodyn 1.8)** | | |
| Adennill grantiau | 1,995 | 1,976 |
| | **1,995** | **1,976** |

## 3. Gwariant ar raglenni'r Loteri Genedlaethol

Mae IFRS 8 yn mynnu datgelu data ariannol fesul cylchran adroddadwy. Mae'r Gronfa'n rheoli ac yn adrodd am weithgareddau dyfarnu grantiau fesul cylchrannau daearyddol. Er hynny, nid yw costau gweithredu'n cael eu rheoli a'u hadrodd ar sail gylchrannol.

Mae'r tabl isod yn amlinellu gwariant grant, ar gyfer pob portffolio, a godir ar y Datganiad Incwm Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn.

| | Deyrnas Unedig | Lloegr | Yr Alban | Cymru | Gogledd Iwerddon | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwariant ar grantiau | 44,340 | 358,126 | 51,280 | 32,194 | 27,880 | 513,820 |
| Llai gwariant ar grantiau wedi darfod neu eu diddymu | 490 | (4,059) | (193) | (935) | 27 | (4,670) |
| **Gwariant net ar grantiau a wnaed yn 2020/21** | **44,830** | **354,067** | **51,087** | **31,259** | **27,907** | **509,150** |
| Gwariant net ar grantiau a wnaed 2019/20 | 57,641 | 429,118 | 37,112 | 28,494 | 27,208 | 579,573 |

## 4. Gwariant uniongyrchol i gefnogi rhaglenni

Costau yn ymwneud â gwariant er budd uniongyrchol derbynyddion grant a'u buddiolwyr a wnaed fel rhan o gontract yn hytrach na dyfarniad grant.

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Cefnogaeth a ddarperir yn uniongyrchol i dderbynyddion a buddiolwyr grant | 8,131 | 8,622 |
| | 8,131 | 8,622 |





## 5. Costau Gweithredu

| | Costau gweithredu ar gyfer dosbarthu incwm y Loteri | Costau gweithredu wedi'u ailgodi | Costau gweithredu ar gyfer dosbarthu arian cyfrifon segur | Costau gweithredu ar gyfer dosbarthu arian CCSF | Costau gweithredu ar gyfer dosbarthu arian LCF | Costau gweithredu ar gyfer dosbarthu arian Cronfa Elusennau COVID-19 | Blwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2021 Cyfanswm y costau gweithredu | Blwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2020 Cyfanswm y costau gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Cydnabyddiaeth gweithwyr | 25,331 | 2,931 | 240 | 8,305 | 60 | 275 | 37,142 | 36,938 |
| Teithio a Threuliau | | | | | | | | |
| - Gweithwyr | 190 | 12 | - | 36 | - | - | 238 | 1,987 |
| - Pwyllgor a'r Bwrdd | 4 | - | - | - | - | - | 4 | 96 |
| Taliadau o dan brydlesi gweithredu tymor byr/gwerth isel: | | | | | | | | |
| - Eiddo | (103) | - | - | - | 3 | - | (100) | 109 |
| - Arall | 63 | - | - | - | - | - | 63 | 70 |
| Costau Llety Eraill | 2,224 | - | - | - | - | - | 2,224 | 913 |
| Costau cyfathrebu | 787 | (3) | 1 | - | - | - | 785 | 968 |
| Cymorth a ddarperir yn allanol ar gyfer rhaglenni grant | 1,042 | 169 | 18 | - | - | - | 1,229 | 506 |
| Gwerthuso Rhaglenni | 647 | 1 | - | 925 | - | - | 1,573 | 262 |
| Recriwtio a hyfforddi staff | 1,132 | 12 | 5 | - | - | - | 1,149 | 1,200 |
| Ffioedd proffesiynol | 834 | - | - | - | - | - | 834 | 871 |
| Cydnabyddiaeth archwilwyr am waith archwilio | 116 | - | - | - | - | - | 116 | 116 |
| Costau isadeiledd TG | 2,110 | - | - | - | - | - | 2,110 | 3,590 |
| Costau arall | 494 | 17 | 77 | - | - | 113 | 701 | 998 |
| Ysgrifennu eiddo, peiriannau ac offer | - | - | - | - | - | - | - | 1,103 |
| TAW | 2,067 | 20 | 5 | - | 8 | - | 2,100 | 1,131 |
| Eitemau nad ydynt yn arian parod: | | | | | | | | |
| - Dibrisiant (ac eithrio asedau hawl i ddefnyddio) | 1,669 | - | - | - | - | - | 1,669 | 2,781 |
| - Amorteiddio ar asedau hawl i ddefnyddio | 3,552 | - | - | - | - | - | 3,552 | 4,335 |
| - Cost llog ar rwymedigaethau prydles | 198 | - | - | - | - | - | 198 | 313 |
| | 42,357 | 3,159 | 346 | 9,266 | 71 | 388 | 55,587 | 58,287 |

Nid oedd unrhyw ffioedd ar gyfer unrhyw wasanaethau nad ydynt yn rhai archwilio gydag archwilwyr allanol.

## 6. Dangosydd perfformiad ariannol

Ein dangosydd perfformiad ariannol yw'r gyfran o incwm y Loteri a wariwn ar ddosbarthu, wedi'i hasesu dros gyfnod o dair blynedd. O'r mesur hwn rydym yn hepgor costau rydym yn eu hailgodi ar bobl eraill, gan gynnwys costau dosbarthu arian nad yw'n dod o'r Loteri dros fudiadau eraill, isosod eiddo a gwariant anghymhwysol. Rydym hefyd yn eithrio costau unigol buddsoddi i gyflawni mesurau effeithlonrwydd yn y dyfodol. Mae TAW anadferadwy hefyd wedi'i eithrio o wariant cymwys.

Fel olynydd i Gomisiwn y Mileniwm, mae gan y Gronfa hawl i gyfran o'r elw o werthu tir ar Benrhyn Greenwich a wnaed gan Awdurdod Llundain Fawr, wedi i gostau penodol gael eu talu. Ni dderbyniwyd na chronni unrhyw daliad yn 2020/21. Ar gyfer 2019/20, roeddem wedi cronni £47,000 ond mewn gwirionedd wedi derbyn £282,933.

Ar y sail hon, roedd y gost o ddosbarthu ein cyfran o incwm y Loteri yn 5.1% o'r incwm hwnnw yn ystod y flwyddyn (2019/21 7.1%). Wedi'i hasesu dros gyfnod treigl o dair blynedd, y gyfran oedd 6.5%.

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 £'000 |
|---|---|---|---|
| Costau gweithredu ar gyfer dosbarthu incwm y Loteri (yn unol â Nodyn 5) | 42,357 | 54,822 | 51,963 |
| Llai incwm rhent (yn unol â Nodyn 2) | (2,814) | (2,786) | (2,829) |
| Llai mân incwm (yn unol â Nodyn 2) | (294) | (398) | (331) |
| Namyn TAW anadferadwy | (2,099) | (1,131) | (1,921) |
| **Cyfanswm gwariant cymwys** | **37,150** | **50,507** | **46,882** |
| Enillion o'r Loteri Genedlaethol (yn unol â Nodyn 13) | 725,510 | 710,434 | 640,005 |
| Incwm Buddsoddi (yn unol â Nodyn 13) | 424 | 3,436 | 3,280 |
| Gwerthu tir ar Benrhyn Greenwich (yn unol â Nodyn 2) | 236 | 47 | 79 |
| **Cyfanswm incwm cymwys** | **726,170** | **713,917** | **643,364** |
| **Canran** | 5.1% | 7.1% | 7.3% |





### Safle treigl o dair blynedd

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 £'000 |
|---|---|
| Cyfanswm gwariant cymwys | 134,539 |
| Cyfanswm incwm cymwys | 2,083,451 |
| **Canran** | **6.5%** |

## 7. Niferoedd a chostau staff

Roedd cyfanswm cost y staff, gan gynnwys tâl cydnabyddiaeth aelodau'r Bwrdd, fel a ganlyn:

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 £'000 |
|---|---|---|
| Tâl a chyflogau | 26,561 | 26,731 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 2,656 | 2,755 |
| Costau pensiwn eraill | 6,865 | 6,884 |
| Costau ardoll brentisiaethau | 121 | 125 |
| Costau staff asiantaeth | 939 | 443 |
| | **37,142** | **36,938** |

Secondiwyd nifer o staff sydd wedi'u cynnwys uchod i fudiadau eraill, y mae ad-daliadau o £202,822 wedi'u cynnwys mewn incwm arall. Mae cyflog a hawliau pensiwn aelodau uwch dîm rheoli a Bwrdd y Gronfa wedi'u cynnwys uchod ac mae'r manylion wedi'u datgelu yn yr Adroddiad Tâl Cydnabyddiaeth a Staff. Nid yw'n bosib adnabod nifer a chost yr aelodau staff o fewn y cyfanswm nad ydynt wedi'u cyflogi ar sail barhaol ac eithrio'r rhai a gyflogir trwy asiantaethau.

Roedd nifer y cyflogeion cyfwerth ag amser llawn a staff dros dro sy'n gweithio i'r Gronfa yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | Nifer y staff dros dro ar 31 Mawrth 2021 (CaALl) | Nifer y cyflogeion ar 31 Mawrth 2021 (CaALl) | Cyfanswm nifer y staff ar 31 Mawrth 2021 (CaALl) | Cyfanswm nifer y staff ar 31 Mawrth 2020 (CaALl) |
|---|---|---|---|---|
| Gwneud grantiau | 33 | 435 | 468 | 437 |
| Cefnogi cwsmeriaid a budd-ddeiliaid | 2 | 178 | 180 | 190 |
| Llywodraethu a gweinyddu | 2 | 165 | 167 | 158 |
| | **37** | **778** | **815** | **785** |

Ar 31 Mawrth 2021, cyflogodd y Gronfa 815 o gyflogeion cyfwerth ag amser llawn (31 Mawrth 2020 785). Roedd hyn yn cynnwys 37 o gyflogeion dros dro cyfwerth ag amser llawn (31 Mawrth 2020, 4).

**Pecynnau ymadael**

Er nad yw cyflogeion y Gronfa'n weision sifil, mae eu telerau cyflogaeth yn darparu ar gyfer taliadau terfynu a phensiynau ymddeol yn gynnar a gyfrifir yn yr un modd â Chynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil. Telir costau'r buddiannau hyn gan y Gronfa ac nid gan y Gwasanaeth Sifil neu gronfeydd y Trysorlys.

| Band costau'r pecyn ymadael | Nifer y diswyddiadau gorfodol Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 | Nifer y diswyddiadau gwirfoddol Blwyddyn a ddaeth i ben 31Mawrth 2021 | Cyfanswm y diswyddiadau Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 | Nifer y diswyddiadau Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 |
|---|---|---|---|---|
| <£10,000 | - | - | - | 36 |
| £10,000 - £25,000 | - | - | - | 12 |
| £25,001 - £50,000 | - | - | - | 6 |
| £50,001 - £100,000 | - | - | - | 1 |
| **Cyfanswm y pecynnau ymadael** | **-** | **-** | **-** | **55** |
| **Cyfanswm cost £'000** | **-** | **-** | **-** | **642** |

## 8. Cost Ailstrwythuro

Rydym yn adolygu'r ffordd yr ydym wedi'n strwythuro'n rheolaidd ac yn gwneud newidiadau i gyflwyno gwasanaethau effeithlon ac effeithiol sy'n addas i'r diben. Mae costau ailstrwythuro yn cynnwys taliadau terfynu a thrafodion eiddo. Mae trafodion eiddo wedi codi oherwydd y costau adfer a ragwelir yn ystod gwagio ein swyddfeydd yng Nghaerdydd, Manceinion a Llundain a'n swyddfa yn yr Alban a oedd gynt yn wag.

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 £'000 |
|---|---|---|
| Taliadau terfynu | 36 | 1,059 |
| Rhesymoli eiddo | 2,299 | 160 |
| Taliadau prydles anochel | - | (302) |
| | **2,335** | **917** |

## 9. Treth

Mae'r Gronfa'n talu treth gorfforaethol ar log banc ac unrhyw log arall a dderbynnir. Mae cost dreth net o £7,881 (2019/20 £27,524) ar gyfer y flwyddyn.

Nid yw incwm buddsoddi a gynhyrchir ar falansau a ddelir yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol o dan stiwardiaeth yr Ysgrifennydd Gwladol yn destun treth gorfforaethol y Deyrnas Unedig.

## 10. Eiddo, peiriannau a chyfarpar

| | Gwella Prydlesau £'000 | TG £'000 | Offer swyddfa, dodrefn a ffitiadau £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Cost | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2020 | 9,921 | 1,399 | 796 | 12,116 |
| Ychwanegiadau | - | 276 | - | 276 |
| Gwarediad | - | (47) | - | (47) |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | **9,921** | **1,628** | **796** | **12,345** |
| Dibrisiad | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2020 | 7,566 | 473 | 604 | 8,643 |
| Tâl am y flwyddyn | 1,027 | 401 | 121 | 1,549 |
| Gwarediad | - | (47) | - | (47) |

| | Gwella Prydlesau | TG | Offer swyddfa, dodrefn a ffitiadau | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | **8,593** | **827** | **725** | **10,145** |
| **Gwerth llyfr net11** | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | **1,328** | **801** | **71** | **2,200** |
| **Cost** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2019 | 9,860 | 991 | 787 | 11,638 |
| Ychwanegiadau | 61 | 888 | 9 | 958 |
| Gwarediad | - | (480) | - | (480) |
| **Ar 31 Mawrth 2020** | **9,921** | **1,399** | **796** | **12,116** |
| **Dibrisiad** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2019 | 6,522 | 476 | 378 | 7,376 |
| Tâl am y flwyddyn | 1,044 | 79 | 226 | 1,349 |
| Gwarediad | - | (82) | - | (82) |
| **Ar 31 Mawrth 2020** | **7,566** | **473** | **604** | **8,643** |
| **Gwerth llyfr net** | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2020** | **2,355** | **926** | **192** | **3,473** |

Mae'r holl welliannau prydlesau ar eiddo prydles fer lle mae'r prydlesi'n dod i ben mewn llai nag 20 mlynedd

## 11. Asedau anghyffwrdd

| | System rheoli grantiau | Gwefan | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cost** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2019 | 427 | 358 | 785 |
| Ychwanegiadau | - | - | - |
| Gwarediad | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2020** | **427** | **358** | **785** |





| | System rheoli grantiau | Gwefan | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Amorteiddio** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2020 | 59 | 358 | 417 |
| Tâl am y flwyddyn | 119 | - | 119 |
| Gwarediad | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | **178** | **358** | **536** |
| **Gwerth llyfr net** | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | **249** | **-** | **249** |
| **Cost** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2019 | - | 358 | 358 |
| Ychwanegiadau | 427 | - | 427 |
| Gwarediad | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2020** | **427** | **358** | **785** |
| **Amorteiddio** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2019 | - | 358 | 358 |
| Tâl am y flwyddyn | 59 | - | 59 |
| Gwarediad | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2020** | **59** | **358** | **417** |
| **Gwerth llyfr net** | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2020** | **368** | **-** | **368** |

## 12. Masnach ac arian arall a dderbynnir

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn** | | |
| Yn cael ei ddal gan bartneriaid dirprwyol ar gyfer talu rhwymedigaethau grantiau | 10,886 | 6,199 |
| Symiau derbyniadwy drwy fasnach | 846 | 1,000 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | 11,771 | 3,309 |
| Arian cyfatebol Ewropeaidd | 32,414 | 41,697 |
| Cronfa Adennill | 90,300 | 68,500 |
| Symiau eraill i'w derbyn | 9,102 | 4,142 |
| | **155,319** | **124,847** |

## 13. Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol

| | | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 |
|---|---|---|
| | | £'000 |
| **Balans ar 1 Ebrill 2020** | | 302,735 |
| Enillion gan y Loteri Genedlaethol | 725,510 | |
| Incwm buddsoddi o NLDF | 424 | |
| Arian a dynnwyd i lawr o NLDF | (765,086) | |
| Cynnydd net yn y balans | | (39,152) |
| **Gwerth marchnad ar 31 Mawrth 2021** | | **263,583** |

Mae'r Gronfa'n derbyn cyfran o'r arian a delir gan Grŵp Camelot plc i NLDF ar ôl didyniad ar gyfer costau'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wrth weithredu ei swyddogaethau o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1993, costau'r rheoleiddiwr (y Comisiwn Hapchwarae), costau'r rheolwr buddsoddi (y Comisiynwyr Dyled Cenedlaethol) a chostau Uned Hyrwyddo'r Loteri Genedlaethol.



Nodiadau i'r cyfrifon

## 14. Masnach ac arian arall a delir

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn** | | |
| TAW | 179 | 337 |
| Treth a nawdd cymdeithasol arall | 708 | 705 |
| Masnach daladwy | 47 | 22 |
| Yn ddyledus i bartner ar y cyd/partner dirprwyol ar gyfer talu rhwymedigaethau grant | 2,117 | 3,913 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | 3,450 | 2,921 |
| Symiau taladwy eraill | 1,227 | 1,174 |
| Cronfa Gymorth Cymunedol y Coronafeirws | 8,657 | - |
| Cronfa Local Connections | 11 | - |
| Croniadau grant (Nodyn 16) | 448,755 | 496,419 |
| | **465,151** | **505,491** |
| **Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn mwy nag un flwyddyn** | | |
| Croniadau grant (Nodyn 16) | 426,722 | 555,414 |
| | **426,722** | **555,414** |

**Rhwymedigaethau Grant**

Mae rhwymedigaethau grant ar ddyddiad y Datganiad Sefyllfa Ariannol wedi'u dosbarthu'n ddarpariaethau os byddant yn bodloni'r meini prawf cydnabyddiaeth yn IAS37, Darpariaethau, Rhwymedigaethau Amodol ac Asedau Amodol, neu, os na fyddant, fel croniadau.

## 15. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

| | Dadfeiliadau | Diswyddo | Trosglwyddadwy i ddosbarthwyr cyfrifon segur a bennwyd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Dygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2020 | - | 62 | 71,100 | 71,162 |
| Darpariaethau newydd a grëwyd | 2,299 | - | 16,571 | 18,870 |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd | - | (62) | (71,100) | (71,162) |
| Darpariaethau a ryddhawyd | - | - | - | - |
| **Dygwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2021** | **2,299** | **-** | **16,571** | **18,870** |

**Dadfeiliadau**

Rydym wedi gadael ein swyddfa yng Nghaerdydd yn ystod y flwyddyn a hefyd wedi cyflwyno rhybudd ar ein prydlesi yn Llundain a Manceinion. Mae'r achosion hyn yn arwain at rwymedigaethau adfer yr ydym wedi gwneud darpariaethau dadfeilio ar eu cyfer. Mae darpariaeth hefyd wedi'i chreu ar gyfer ein swyddfa yn yr Alban a wagwyd yn flaenorol

**Diswyddo**

Yn ystod 2020/21, defnyddiwyd darpariaethau diswyddo'r blynyddoedd blaenorol yn llawn ac nid oedd angen unrhyw ddarpariaeth diswyddo newydd ar 31 Mawrth 2021.

**Trosglwyddadwy i ddosbarthwyr cyfrifon segur a bennwyd**

Mae Reclaim Fund Ltd wedi nodi bod £90.3 miliwn ar gael i'w dosbarthu i'r Gronfa yn ei blwyddyn ariannol hyd at fis Rhagfyr 2020 ac wedi cofnodi hwn fel credydwr. Gan hynny mae'r Gronfa wedi cofnodi hwn fel incwm derbynadwy a bydd yn tynnu'r arian i lawr fel y bo angen i gefnogi'r rhaglenni cysylltiedig. Mae dyfarniadau ar gyfer Cymru a'r Alban yn cael eu gwneud dan raglenni cyfredol tra bod Gogledd Iwerddon wedi sefydlu rhaglen yn ystod 2020/21 i ddosbarthu'r cronfeydd sydd ar gael.

O fewn Cyfarwyddiadau Polisi gan DCMS, dosbarthwyd £96.5 miliwn i Access - The Foundation for Social Enterprise, Big Society Capital, Fair4All Finance, Youth Futures Foundation a The Oversight Trust – Assets for the Common Good mewn perthynas â chyfran Lloegr o'r arian sydd ar gael. Yn ychwanegol at y £330m a gyhoeddwyd a oedd ar gael i'w ddosbarthu gan DCMS ym mis Ionawr 2018, yr oedd £277m ohono'n cynrychioli cyfran Lloegr, cadarnhawyd £71m arall mewn dosraniadau mewn perthynas â chyfran Lloegr yn ystod y flwyddyn. Rydym wedi darparu ar gyfer yr ymrwymiadau dosbarthu llawn i'r mudiadau sy'n derbyn cyfran Lloegr o'r symiau sydd ar gael i'r graddau bod yr ariannu ar gael gan Reclaim Fund Limited.

## 16. Croniadau grant

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31Mawrth 2021 |
|---|---|
| | £'000 |
| Symud croniadau grant | |
| Rhwymedigaethau grant a ddygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2020 | 1,051,833 |
| Ymrwymiadau grant a wnaed | 718,858 |
| Rhwymedigaethau wedi darfod a'u diddymu | (4,548) |
| Rhwymedigaethau grant a fodlonwyd | (890,666) |
| **Croniad a ddygwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2021** | **875,477** |

| | Ar 31 Mawrth 2021 | Ar 31 Mawrth 2020 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Dosbarthiad croniadau grant ar ddiwedd y flwyddyn | | |
| **Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn** | | |
| Croniadau (Nodyn 14) | 448,755 | 496,419 |
| **Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn mwy nag un flwyddyn** | | |
| Croniadau (Nodyn 14) | 426,722 | 555,414 |
| **Cyfanswm croniadau grant** | **875,477** | **1,051,833** |

| | Ar 31 Mawrth 2021 £'000 | Ar 31 Mawrth 2020 £'000 |
|---|---|---|
| Croniadau grant sy'n heneiddio | | |
| Yn ddyledus o fewn blwyddyn | 448,755 | 496,419 |
| Yn ddyledus o fewn mwy na blwyddyn ond llai na dwy flynedd | 223,407 | 300,920 |
| Yn ddyledus o fewn mwy na dwy flynedd ond llai na thair blynedd | 119,109 | 145,156 |
| Yn ddyledus o fewn mwy na thair blynedd ond llai na phedair blynedd | 64,828 | 61,458 |
| Yn ddyledus o fewn mwy na phedair blynedd ond llai na phum mlynedd | 15,789 | 43,380 |
| Yn ddyledus ar ôl mwy na phum mlynedd | 3,589 | 4,500 |
| | **875,477** | **1,051,833** |

## 17. Rhwymedigaethau Amodol

Datgelir grantiau fel rhwymedigaethau amodol os nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer eu trin fel rhwymedigaethau.

| | Ar 31 Mawrth 2021 £'000 | Ar 31 Mawrth 2020 £'000 |
|---|---|---|
| Dyfarniadau grant a wneir gan y Gronfa nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer eu trin fel rhwymedigaethau | (14,937) | (14,807) |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau grant amodol** | **(14,937)** | **(14,807)** |





## 18. Cynlluniau ar y cyd

**Parks for People**

Gweinyddir y cynllun hwn gan y National Heritage Memorial Fund ar ran yr holl bartïon i'r cytundeb. Rydym wedi cytuno i gyfrannu hyd at £150 miliwn i'r cyfanswm ariannu disgwyliedig o £385 miliwn. Wedi'i gynnwys o fewn rhwymedigaethau grant mae £2.2 miliwn o rwymedigaethau grant a dim rhwymedigaethau amodol, gan gynrychioli ein cyfraniad at gynllun Parks for People ar y cyd. Mae ffigur y credydwyr yn cynnwys £2.1m sy'n ddyledus i National Heritage Memorial Fund mewn perthynas â'n cyfraniad i daliadau a wnaed ganddynt i'n derbynyddion grant.

**Rethinking Parks**

Gweinyddir y cynllun hwn gan Nesta ar ran yr holl bartïon i'r cytundeb. Rydym wedi cytuno i gyfrannu hyd at £1.67 miliwn i'r cyfanswm ariannu disgwyliedig o £2 miliwn. Does dim rhwymedigaethau grant na rhwymedigaethau amodol mewn perthynas â'r cynllun ar y cyd ar gyfer y flwyddyn. Mae'r holl daliadau bellach wedi'u gwneud mewn perthynas â'r cynllun ar y cyd.

## 19. Risgiau ariannol

**Offerynnau ariannol**

Mabwysiadodd y Gronfa Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 9 o flwyddyn ariannol 2018/19 gan ddefnyddio'r ymagwedd gronnol. Gan nad oes gan y Gronfa pwerau benthyg, mae offerynnau ariannol yn chwarae rôl lawer fwy cyfyngedig o ran creu neu newid risg nag sy'n arferol ar gyfer y cwmnïau a restrir, i'r graddau y mae'r safon yn berthnasol iddynt. Mae asedau ac atebolrwydd ariannol yn cael eu cynhyrchu gan weithgareddau gweithredu bob dydd yn hytrach na chael; eu dal i newid y risgiau sy'n wynebu'r mudiad.

Mae hyn yn golygu bod y Gronfa yn agored i ychydig iawn o risgiau uniongyrchol o ran hylifedd, y farchnad neu gredyd.

**Risgiau hylifedd**

Bodlonir gofynion arian parod ar gyfer gwariant Loteri trwy dynnu i lawr yn erbyn rhagamcaniadau angen wythnosol o'r balansau a ddelir ar ran y Gronfa gan NLDF. Ym mis Mawrth 2020, balans y gronfa oedd £303 miliwn, roedd hyn wedi disgyn i £264 miliwn erbyn 31 Mawrth 2021, bryd hynny roedd gwerth £875 o rwymedigaethau grant i'w talu o hyd. Wrth gyllidebu ar gyfer gwariant cyfredol, mae'r Gronfa'n cydbwyso all-lif y taliadau arian parod yn erbyn rhwymedigaethau grant ynghyd â blaen-rhagamcaniadau o incwm y Loteri.

Yn 2020/21, deilliodd £726 miliwn (70.7%) o incwm y Gronfa o'r Loteri Genedlaethol, gan gynnwys incwm o £0.4 miliwn a ddeilliodd o enillion buddsoddi'r balans a ddelir gyda'r NLDF. Roedd incwm o arian cyfrifon segur yn £90 miliwn (8.8%). Roedd incwm o Gronfa Gymorth Cymunedol y Coronafeirws yn £199m (19.4%). Mae'r incwm sy'n weddill yn swm bach o incwm Cronfa Local Connections, llog banc a mân incwm.

Yn 2020/21, deilliodd £726 miliwn (70.7%) o incwm y Gronfa o'r Loteri Genedlaethol, gan gynnwys incwm o £0.4 miliwn a ddeilliodd o enillion buddsoddi'r balans a ddelir gyda'r NLDF. Roedd incwm o arian cyfrifon segur yn £90 miliwn (8.8%). Roedd incwm o Gronfa Gymorth Cymunedol y Coronafeirws yn £199m (19.4%). Mae'r incwm sy'n weddill yn swm bach o incwm Cronfa Local Connections, llog banc a mân incwm.

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Asedau hylifol | | |
| Gwerth marchnad buddsoddiadau NLDF | 263,583 | 302,735 |
| Arian parod | 81,512 | 79,951 |
| **Cyfanswm** | **345,095** | **382,686** |

**Risgiau marchnad a chyfraddau llog**

Mae asedau ariannol y Gronfa Loteri Fawr yn cael eu buddsoddi yn NLDF, sy'n buddsoddi mewn band cul o asedau isel eu risg megis bondiau llywodraeth ac arian parod. Nid oes gan y Bwrdd unrhyw reolaeth dros fuddsoddi'r arian hwn. Ar ddyddiad y Datganiad Sefyllfa Ariannol, £264 miliwn oedd gwerth ein buddsoddiadau yn NLDF ar y farchnad. Ar gyfartaledd enillodd arian NLDF 0.1% yn ystod y flwyddyn. Delir y balansau arian sy'n cael ei dynnu i lawr o Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol i dalu am ymrwymiadau grant a chostau gweithredu mewn cyfrifon banc mynediad di-oed, gyda chyfraddau llog amrywiol â chyfradd llog o 0.05% yn ystod y flwyddyn. Roedd y balans arian parod ar ddiwedd y flwyddyn yn £82 miliwn. Mae'r Bwrdd yn ystyried nad yw'r Gronfa'n agored i risgiau cyfraddau llog sylweddol.

| | 2020/21 | 2019/20 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Sterling ar gyfraddau llog arnawf – arian Loteri | 41,903 | 16,012 |
| Sterling ar gyfraddau llog arnawf – arian cyfrifon segur | 29,304 | 63,939 |
| Sterling ar gyfraddau llog arnawf – arian CCSF | 10,187 | - |
| Sterling ar gyfraddau llog arnawf – Arian y Gronfa Cysylltiadau Lleol | 117 | - |
| Sterling ar gymysgedd o gyfraddau sefydlog – NLDF | 263,583 | 302,735 |
| | **345,094** | **382,686** |





**Risgiau credyd**

Mae arian derbynadwy y Gronfa'n cynnwys balansau rhynglywodraethol Mae'r balansau rhynglywodraethol yn bennaf gyda chyd-ddosbarthwyr y Loteri ac yr oeddent oll wedi'u had-dalu neu eu cytuno erbyn cyfnod llofnodi'r cyfrifon.

Ar ddiwedd y flwyddyn cofnododd y Gronfa ddyledwr o £90.3m gyda Reclaim Fund Limited. Mae hyn yn cynrychioli'r symiau yr adnabyddir eu bod ar gael i'r Gronfa i'w dosbarthu o dan Ddeddf Cyfrifon Banc a Chymdeithas Adeiladu Segur 2008 nad ydynt wedi'u tynnu i lawr o Reclaim Fund Limited eto. Delir y rhain gan Reclaim Fund mewn cyfrifon arian parod risg isel gan gynnwys gyda Banc Lloegr. Nid yw'r Bwrdd yn ystyried bod y Gronfa'n agored i risgiau credyd sylweddol.

**Risgiau Arian Tramor**

Nid oes gan y Gronfa unrhyw asedau nad sy'n sterling ac nid yw'n agored at unrhyw risgiau yn ymwneud â chyfnewidfeydd tramor.

**Asedau ariannol fesul categori.**

| Asedau yn unol â'r Datganiad o sefyllfa ariannol | 2020/21 | 2019/20 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Asedau nad ydynt yn gyfredol | 9,425 | 15,517 |
| Balans buddsoddi yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol | 263,583 | 302,735 |
| Arian parod a chyfatebion arian parod – arian y Loteri Genedlaethol | 41,904 | 16,012 |
| Arian parod a chyfatebion arian parod - arian cyfrifon segur | 29,304 | 63,939 |
| Arian parod a chyfatebion arian parod - arian CCSF | 10,187 | - |
| Arian parod a chyfatebion arian parod – arian y Gronfa Cysylltiadau Lleol | 117 | - |
| | **354,520** | **398,203** |

**Prisiad Teg**

1. Mae'r Bwrdd yn disgwyl i'r llyfrwerth gyfateb i'r gwerth teg ar gyfer yr holl asedau a rhwymedigaethau ariannol. Ar y sail bod:
2. Yr holl adneuon arian parod mewn banciau masnachol
3. Er ein bod yn datgelu gwerth £427 miliwn o ymrwymiadau grant nad ydynt yn ddyledus i gael eu talu tan ar ôl un flwyddyn, nid ydym wedi gwneud addasiad gwerth teg. Mae'r Gronfa o dan rwymedigaeth gontract i dalu'r symiau hyn ar alw, yn amodol ar y contract, ac felly gallai'r symiau gael eu talu o fewn y 12 mis nesaf. Mae amodau a thelerau'r grant hefyd yn darparu am stopio taliadau pa bydd arian annigonol ar gael i fodloni'r gofynion.
4. Mae'r holl eitemau taladwy yn ddyledus o fewn telerau contract arferol, ac felly nid oes unrhyw wahaniaeth rhwng llyfrwerth a gwerth teg.
5. Mae colled credyd disgwyliedig o £307k wedi cael ei gydnabod yn sgil COVID-19. Mae'r golled hon yn seiliedig ar ein barn o'r tebygrwydd na fydd dyledwyr nad ydynt yn rhan o'r Llywodraeth yn gallu talu'n llawn y symiau sy'n ddyledus i'r Gronfa. Yn gyffredinol, mae hyn yn berthnasol i is-denantiaid y Gronfa.

**Aeddfedrwydd rhwymedigaethau ariannol**

| Rhwymedigaethau yn ôl y Datganiad Sefyllfa Ariannol | 2020/21 | 2019/20 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Mewn llai na blwyddyn | 466,494 | 510,201 |
| Mewn mwy na blwyddyn ond llai na dwy | 242,277 | 372,082 |
| Mewn dwy i bum mlynedd | 204,428 | 255,494 |
| Mewn mwy na phum mlynedd | 3,882 | 5,636 |
| | **917,081** | **1,143,413** |

Mae'r Datganiad sefyllfa ariannol yn datgelu'r ffigur uchod wedi'i wahanu rhwng y symiau sy'n ddyledus mewn blwyddyn ac mewn mwy na blwyddyn. Mae'r rhaniad hwnnw'n seiliedig ar brofiad blaenorol o symiau a dynnir i lawr gan grantïon gan nad yw ein contractau gyda grantïon yn cynnwys y cyfryw raniad.





# 20. Prydlesi

**Asedau hawl i ddefnyddio**

Prydlesi eiddo yw'r unig ased hawl i ddefnyddio sydd gan y Gronfa.

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 |
|---|---|
| | £'000 |
| Cost | |
| Ar 1 Ebrill 2020 | 16,011 |
| Ailbrisiadau | (1,148) |
| Balans ar 31 Mawrth 2021 | **14,863** |
| Amorteiddio | |
| Ar 1 Ebrill 2020 | 4,335 |
| Tâl am y flwyddyn | 3,552 |
| Ar 31 Mawrth 2021 | **7,887** |
| Llyfrwerth net | |
| Ar 31 Mawrth 2021 | **6,976** |
| Cost | |
| Ar 1 Ebrill 2019 | 16,011 |
| Ailbrisiadau | - |
| Balans ar 31 Mawrth 2020 | **16,011** |
| Amorteiddio | |
| Ar 1 Ebrill 2019 | - |
| Tâl am y flwyddyn | 4,335 |
| Balans ar 31 Mawrth 2020 | **4,335** |
| Llyfrwerth net | |
| Ar 31 Mawrth 2020 | **11,676** |

Roedd ailbrisiadau i asedau hawl i ddefnyddio yn ystod 2020-21 oherwydd cyfuniad o rent uwch ar gyfer swyddfeydd Belfast a Newcastle ynghyd â gostyngiadau yn rhent swyddfa Glasgow ac addasiadau ar gyfer TAW adferadwy.

**Atebolrwydd prydlesi**

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 £'000 |
|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill 2020 | (11,346) |
| Cost ariannol | (198) |
| Rhent | 4,289 |
| Ailbrisiadau | 917 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2021** | **(6,338)** |

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 £'000 |
|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill 2019 | (15,716) |
| Cost ariannol | (313) |
| Rhent | **4,683** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2020** | **(11,346)** |

**Atebolrwydd prydlesi sy'n aeddfedu**

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 £'000 |
|---|---|
| Ddim yn hwyrach na blwyddyn | (1,343) |
| Hwyrach na blwyddyn a ddim yn hwyrach na 5 mlynedd | (4,702) |
| Hwyrach na 5 mlynedd | (293) |
| | **(6,338)** |





**Prydleswyr**

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 £'000 |
|---|---|
| Ddim yn hwyrach na blwyddyn | 688 |
| Hwyrach na blwyddyn a ddim yn hwyrach na 5 mlynedd | 446 |
| Hwyrach na 5 mlynedd | - |
| | **1,134** |

## 21. Cynllun pensiwn

Darperir buddiannau pensiwn trwy drefniadau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Gall cyflogeion fod naill ai mewn cynllun buddiant diffiniedig cyfartaledd gyrfa (alpha) neu bensiwn budd-ddeiliad (cyfrif partneriaeth). Trosglwyddwyd cynllun cyflog terfynol (classic, classic plus neu premium) a'r cynllun cyfartaledd gyrfa – nuvos – i alpha yn 2015. Cadwodd aelodau fuddiannau cynlluniau cyflog terfynol blaenorol ar gyfer gwasanaeth hyd at y pwynt trosglwyddo. Nid yw'r trefniadau buddiant diffiniedig statudol yn cael eu hariannu, telir costau'r buddiannau gan arian a bennir gan Senedd y Deyrnas Unedig bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy o dan classic, premium, classic plus a nuvos a'u cynllun olynol alpha yn cynyddu bob blwyddyn yn unol â newidiadau yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI). Mae'r pensiwn cyfrif partneriaeth yn bensiwn budd-ddeiliad 'prynu arian' gyda chyfraniad gan y cyflogwr.

Ar gyfer y cynllun alpha mae cyfraniadau cyflogeion wedi'u pennu ar isafswm graddfa ar gyfer aelodau sydd â chyflogau pensiynadwy o dan £23,100 o 4.6% o enillion pensiynadwy. Mae hyn yn cynyddu mewn bandiau hyd at uchafswm o 8.05% ar gyfer aelodau sydd â chyflog pensiynadwy dros £150,001. Cronnodd buddiannau'r cynllun classic ar gyfradd o 1/80 o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer bob blwyddyn o wasanaeth. At hynny, mae cyfandaliad cyfwerth â phensiwn tair blynedd yn daladwy wrth ymddeol.

Cronnodd buddiannau'r cynllun premiwm ar gyfradd o 1/60 o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i classic, nid oes cyfandaliad awtomatig. Mae Classic Plus yn gynllun cymysg, gyda buddiannau ar gyfer gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras yn unol â classic a buddiannau ar gyfer gwasanaeth o fis Hydref 2002 wedi'u cyfrifo'n unol â premium. Yn alpha, mae aelodau'n cronni pensiynau'n seiliedig ar enillion pensiynadwy yn ystod cyfnod eu haelodaeth o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) mae'r cyfrif pensiwn wedi'i ennill yn cael ei gredydu gyda 2.32% o'u henillion pensiynadwy yn y flwyddyn honno o'r cynllun ac mae'r pensiwn a gronnir yn cael ei uwchraddio'n unol â'r CPI. Ym mhob achos gall aelodau ddewis ildio (cyfnewid) y pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a ganiateir gan ddeddfwriaeth dreth.

Trefniad pensiwn budd-ddeiliad yw'r cyfrif pensiwn partneriaeth. O 1 Hydref 2015, mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 8% a 14.75% (gan ddibynnu ar oedran yr aelod) i bensiwn budd-ddeiliad a ddewisir gan y cyflogai o banel o dri darparwr. Nid oes rhaid i'r cyflogydd gyfrannu ond os yw'n gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn cyfrannu'n gyfatebol hyd at uchafswm o 3% o'r cyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr).

Mae'r cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% pellach o gyflog pensiynadwy i dalu cost yr yswiriant risg a ddarperir yn ganolog (marw mewn gwasanaeth ac ymddeol oherwydd salwch).

Ar gyfer 2020/21, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £166,960 yn daladwy i'r cyfrif pensiwn partneriaeth (2019/20 £100,662).

Ceir manylion pellach am drefniadau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan civilservicepensionscheme.org.uk

Ar gyfer 2020/21, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £6,433,976 yn daladwy i'r cyfrif pensiwn partneriaeth (2019/20: £7,929,388) ar un o bedair graddfa yn yr amrediadau isod. Caiff cyfraniadau cyflogwr eu hadolygu adeg prisiad llawn o'r cynllun. Cynhaliwyd y prisiad diweddaraf, wedi'i gyflawni gan Hewitt Associates, ar 31 Mawrth 2012. Mae'r cyfraddau cyfrannu'n adlewyrchu'r buddiannau wrth iddynt gronni, nid pan fo'r costau'n cael eu codi, ac maent yn adlewyrchu profiadau'r cynllun yn y gorffennol. Mae'r cyfraddau ar gyfer 2020/21 yn cyfateb i argymhellion gan yr Actiwari.

Ar hyn o bryd, mae cyflogwyr yn talu 27.34% o gyflog eu gweithwyr ar gyfartaledd fel cyfraniad pensiwn ar bensiynau Alpha a 9.71% ar bensiynau Partneriaeth. Mae'r union ffigur yn dibynnu ar gyflogau'r cyflogeion unigol.

| Bandiau | Blwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 2021 | Bandiau | Blwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 2020 |
|---|---|---|---|
| £23,000 ac o dan | 26.6% | £23,000 ac o dan | 26.6% |
| £23,001 - £45,500 | 27.1% | £23,001 - £45,500 | 27.1% |
| £45,501 - £77,000 | 27.9% | £45,501 - £77,000 | 27.9% |
| £77,001 ac yn fwy | 30.3% | £77,001 ac yn fwy | 30.3% |

Nifer y staff y gwnaed cyfraniadau pensiwn ar eu cyfer yn 2020/21 oedd 7 classic, 20 premium, 0 nuvos, 835 alpha a 36 partneriaeth. Mae'r cyfanswm o 898 yn cynrychioli'r mwyafrif o gyfanswm yr aelodau staff unigol a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn.

Lefel ragfynedig cyfraniadau'r cyflogwr i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar gyfer 2020/21, yn seiliedig ar ddyfarniad tâl 1.7% ar lefelau tâl 2020/21, yw £6,543,354.





Fel cynllun amlgyflogwr heb ei ariannu sy'n gweithredu'n bennaf yn y sector cyhoeddus, mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn cynnal trafodaethau gyda'r Llywodraeth, Undebau Llafur ac aelodau mewn perthynas â'i sefyllfa ariannol, ei sefyllfa actiwaraidd a lefelau tebygol cyfraniadau cyflogeion a chyflogwyr. Mewn cyffredin â'r holl brif gynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus eraill, mae'r tebygolrwydd o gynnydd yn lefel y cyfraniadau'n rhan o'r trafodaethau hyn.

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn gynllun buddiant diffiniedig amlgyflogwr, felly ni allwn adnabod ein cyfran ni o asedau neu rwymedigaethau'r cynllun.

## 22. Colledion a thaliadau arbennig

Ceir colledion pan nad oes unrhyw dystiolaeth bod amcanion prosiect a ariannwyd wedi'u cyflawni. Yn y flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2021 rydym wedi dileu colledion o £497,757, gan gynrychioli 66 o ddyfarniadau (2019/20 £893,620 gan gynrychioli 105 o ddyfarniadau). Nid oedd unrhyw ddileadau uwchben£100,000 (2019/20 zero).

Ceir taliadau arbennig yn yr achosion canlynol:

- gwnaed grant yn anfwriadol i fudiad nad yw'n gyfreithiol gymwys i'w dderbyn ond lle mae'r grant o fewn bwriad cyffredinol deddfwriaeth statudol. Gwariwyd yr holl ddyfarniadau hyn ar amcanion prosiectau, yn unol ag amodau a thelerau'r grant.
- Cymeradwyir taliadau ex gratia.

Yn y flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2021, gwnaed 3 taliad arbennig gwerth cyfanswm o £29,884 (2019/20 dim) mewn perthynas â thrafodion grant.

## 23. Trafodion cyrff cysylltiedig

Mae'r Gronfa yn gorff cyhoeddus anadrannol. Ei hadran noddi yw DCMS. Gan hynny, mae DCMS wedi cael ei drin fel parti cysylltiedig trwy gydol y flwyddyn. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi cynnal trafodion materol amrywiol gyda DCMS a chyrff eraill yr ystyrir mai DCMS yw'r adran noddi ar eu cyfer: Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Sport England a Chyngor Celfyddydau Lloegr.

Mae trafodion gyda DCMS yn adlewyrchu incwm a dderbyniwyd drwy Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol a secondio staff i mewn. Mae trafodion gyda dosbarthwyr eraill y Loteri'n cynnwys incwm a dderbyniwyd ar gyfer rheoli dyfarniadau a darparu gwasanaethau proffesiynol.

Mae taliadau'n cael eu gwneud i Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar gyfer eu gwasanaethau rhedeg rhaglenni grant.

At hynny, mae gennym nifer o drafodion materol gydag adrannau a chyrff Llywodraeth sy'n ystyried adrannau llywodraeth eraill fel eu hadrannau noddi hwy:

- Cyllid a Thollau EM mewn perthynas â thrafodion Talu wrth Ennill ac Yswiriant Gwladol
- Mae Cronfa Gymdeithasol Ewrop wedi contractio rheolaeth y Gronfa Building Better Opportunities i'r Gronfa trwy DWP fel awdurdod rheoli.

- Mae'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol gynt) wedi contractio rheolaeth Cronfa Cymunedau'r Arfordir ar gyfer portffolio Cymru i'r Gronfa.
- Mae DCMS wedi contractio'r Gronfa i reoli'r Life Chances Fund, Youth Investment Fund, Place Based Social Action, Cronfa #iwill, Safeguarding Training Fund a'r Building Connections Fund.

Mae'r Youth Investment Fund, Cronfa #iwill, Saefguarding Training Fund a'r Building Connections Fund yn rhaglenni arian cyfatebol lle mae'r Gronfa'n cyfrannu ei hadnoddau arian loteri ac mae'n gyfrifol hefyd am wneud penderfyniadau am ddyfarniadau grant.

**Aelodau Bwrdd**

Mae'r Gronfa'n glynu wrth gôd ymarfer Swyddfa'r Cabinet ar gyfer aelodau Byrddau cyrff cyhoeddus. Fel mater o bolisi a gweithdrefn, mae aelodau Bwrdd yn cynnal cofrestrau buddiannau sydd ar gael yn gyhoeddus ac yn datgan unrhyw fuddiannau uniongyrchol mewn ceisiadau grant a wneir i'r Gronfa ynghyd â pherthnasoedd masnachol pan fydd gan neu pan allai fod gan fudiadau berthynas gyda ni.

Pan wneir unrhyw benderfyniadau pwyllgor y gellid tybio'n rhesymol y byddent yn achosi gwrthdaro buddiannau, yn bennaf o ran grantiau i gyrff gwirfoddol, mae cadeirydd y cyfarfod yn sicrhau ar y dechrau bod datgeliad yn cael ei wneud a bod yr aelod pwyllgor yn gadael yn ystod unrhyw drafodaeth o'r eitem berthnasol. Mae gofyn hefyd bod cydweithwyr ar draws y Gronfa'n datgelu unrhyw fuddiannau perthnasol mewn mudiadau rydym yn eu hariannu neu a dderbyniwn geisiadau ganddynt.

Mae ein gweithdrefnau'n sicrhau hefyd nad yw swyddogion grant yn ymwneud â phrosesu ceisiadau y byddai ganddynt fuddiant ynddynt.

Mae nifer o aelodau Bwrdd wedi datgan buddiannau mewn cyrff cyhoeddus, gwirfoddol ac elusennol y mae gennym fuddiannau busnes â nhw. Datgelir y rhain ar dudalennau 87 i 89.

## 24. Asedau trydydd parti

Mae'r asedau hyn yn cynrychioli balansau banc a ddelir ar ran trydydd partïon yr ydym yn rheoli rhaglenni grant ar eu rhan ac Uned Hyrwyddo'r Loteri Genedlaethol, i wneud taliadau a brosesir gan y Gronfa o dan gytundebau lefel gwasanaeth. Mae gwahaniaeth amseru symiau mewn perthynas â'r balansau hyn yn gynwysedig yn y symiau sy'n ddyledus neu'n daladwy yn y datganiad sefyllfa ariannol fel bo'n briodol.

Ar 31 Mawrth 2021 cadwyd y balansau banc a ganlyn ar ran trydydd partïon:

| | 31/03/2020 £'000 | Mewn-lifoedd £'000 | All-lifoedd £'000 | 31/03/2021 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| DCMS: Social Incubator Fund, Life Chances Fund, Youth Investment Fund, #iwill Fund, Place Based Social Action, Building Connections Fund, Safeguarding Training Fund | 2,833 | 10,484 | 12,304 | 1,013 |
| Creative Scotland; Arian I Bawb yr Alban | (60) | 232 | 52 | 120 |
| Uned Hyrwyddo'r Loteri Genedlaethol | 32 | 2,094 | 1,695 | 431 |
| Llywodraeth Cymru; Trosglwyddo Asedau Cymunedol | 2 | - | - | 2 |
| Sports Scotland; Arian I Bawb yr Alban | (755) | 572 | 568 | (751) |
| Llywodraeth yr Alban; Cronfa Tir yr Alban, Darparu Cynhwysiant Ariannol | 6,394 | 10,120 | 14,873 | 1,641 |
| Trysorlys EM; Cronfa Cymunedau'r Arfordir | 1,858 | 12,509 | 3,045 | 11,322 |
| Cyllid Ewropeaidd – Swyddfa'r Cabinet | 2 | 66,238 | 66,028 | 212 |

## 25. Menter ar y Cyd - Uned Hyrwyddo'r Loteri Genedlaethol

Mae Uned Hyrwyddo'r Loteri Genedlaethol (NLPU) yn fenter ar y cyd rhwng Grŵp Camelot plc, y dosbarthwyr Loteri a DCMS. Sefydlwyd NLPU i gynyddu ymwybyddiaeth gadarnhaol a chefnogaeth y cyhoedd o ddosbarthu arian Loteri ar draws y Deyrnas Unedig, gan gyfrannu at iechyd cyffredinol y Loteri Genedlaethol a hyrwyddo teyrngarwch a chyfranogiad.Ariennir traean o NLPU gan Camelot a dau draean yn uniongyrchol gan Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol. Mae'r cyfanswm gwariant wedi'i gyfyngu i £3 miliwn. Mae'n atebol i Fwrdd Rheoli sy'n cynnwys cynrychiolwyr tri budd-ddeiliad allweddol: Camelot, y dosbarthwyr Loteri a DCMS, gyda'r Comisiwn Hapchwarae'n bresennol fel arsylwr.

Nid yw cyfran y fenter ar y cyd sy'n ymwneud â'r Gronfa wedi'i chyfuno o fewn y cyfrifon blynyddol o ystyried ei hanfateroldeb.

Mae mwy o wybodaeth a chyfrifon NLPU ar gael yn lotterygoodcauses.org.uk/contact

## 26. Ymrwymiadau Cyfalaf

Ar 31 Mawrth 2021, nid oedd gan y Gronfa unrhyw ymrwymiadau cyfalaf. (2019/20 £0)

## 27. Asedau amodol

Mae hawl gan Ddosbarthwyr y Loteri Genedlaethol dderbyn cyfran o enillion o werthu tir ar Barc Olympaidd y Frenhines Elizabeth yn gyfnewid am gyfrannu £675m ychwanegol miliwn at ariannu Gemau Olympaidd a Pharalympaidd 2012 Llundain. Mae'r trefniadau wedi'u disgrifio mewn cytundeb cyfreithiol rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol ac Awdurdod Llundain Fawr dyddiedig 29 Mawrth 2012 sy'n disgrifio dosbarthiad yr arian rhwng Awdurdod Llundain Fawr a'r dosbarthwyr loteri. Mae gwerthu'r tir yn debygol o ddigwydd dros gyfnod hir, yr amcangyfrifir y bydd rhwng 2017-18 i 2036-37. Mae'r adran yn amcangyfrif y bydd y taliadau cyntaf i Ddosbarthwyr y Loteri yn cael eu derbyn ar ddechrau neu yng nghanol y 2020au.

Fel olynydd i Gomisiwn y Mileniwm, mae gan y Gronfa hawl i gyfran o'r elw o werthu tir ar Benrhyn Greenwich a wnaed gan Awdurdod Llundain Fawr, wedi i gostau penodol gael eu talu. Rhagwelir y bydd taliadau o £48.9 miliwn yn cael eu derbyn rhwng 2016 a 2045, gyda £8.1 miliwn eisoes wedi cael ei derbyn erbyn diwedd 2020/21. Roedd £236k wedi cael ei derbyn erbyn diwedd 2020/21.

## 28. Adolygiad ar ôl y fantolen

### Toriad data

Ar 8 Gorffennaf, bu'r Gronfa golli dwy ddisg ddata a oedd yn cynnwys gwybodaeth grant etifeddol. Adroddwyd am y toriad data i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar 9 Gorffennaf 2021. Adroddwyd am y toriad hefyd i'n hadran noddi, DCMS, Yr Adran Gwaith a Phensiynau (fel yr Awdurdod Rheoli ar gyfer rhaglen Building Better Opportunities) a gweithredwr y Loteri Genedlaethol, Camelot. Mae adolygiad annibynnol i lywodraethu a data TG bellach wedi'i gwblhau gydag argymhellion wedi'u gwneud ynghyd ag amserlenni gweithredu. Cadarnhaodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth na fydd unrhyw gamau'n cael eu cymryd ar gyfer y toriad data ac roedd eu penderfyniad yn seiliedig ar y ffaith bod Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol wedi cymryd y mesurau ataliol angenrheidiol.

### Ymholiad DCMS

Comisiynodd yr Adran dros Ddigidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) ymchwiliad annibynnol i ddiwylliant gwaith Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol. Comisiynwyd CMP Resolutions (CMP) i gynnal yr ymchwiliad. Dyluniwyd y Cylch Gorchwyl gyda'r nod o edrych i'r dyfodol i sicrhau bod diwylliant y Gronfa'n weithle cynhwysol a theg. Er i'r adroddiad wneud sawl argymhelliad, pwysleisiodd hefyd y cryfderau cadarnhaol niferus sydd gan y Gronfa a hefyd y cyfraniad enfawr y mae'n ei wneud i bobl, cymunedau a phrosiectau trwy roi grantiau. Mae'r Bwrdd ac uwch dîm arweinyddiaeth y Gronfa wedi ymrwymo i wella'r diwylliant yn y Gronfa trwy ddilyn i fyny ar yr argymhellion a wnaed yn yr adroddiad.

Ar adeg llofnodi'r cyfrifon, ni chafwyd unrhyw ddigwyddiadau ar ôl dyddiad y fantolen a fyddai'n addasu'r ffigurau a adroddwyd yn y datganiadau ariannol neu y mae angen eu datgelu. Awdurdodwyd cyhoeddi'r cyfrifon ar ddyddiad llofnodi'r dystysgrif archwilio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

## 29. Cronfa Gymorth Cymunedol y Coronafeirws

Yn 2020/21, derbyniodd y Gronfa £200 miliwn ar ffurf grant gan DCMS ar gyfer rhaglen Cronfa Gymorth Cymunedol y Coronafeirws, i'w dosbarthu i elusennau a mudiadau cymunedol yn Lloegr i'w galluogi i ateb y gofynion a osodir arnynt gan y coronafeirws. Roedd rhaid cwblhau'r rhaglen weithgarwch erbyn diwedd mis Medi 2020 gyda'r disgwyliad y bydd y mudiadau derbyn yn gwario'r arian o fewn chwe mis o'i derbyn. Llofnodwyd y cytundeb grant ar 22 Mai 2020 gan DCMS a'r Gronfa.

Yn y cytundeb grant, penderfynwyd y dylai'r Gronfa fod yn atebol am y grant ariannu a'r penderfyniadau dyfarnu sy'n deillio o hynny. Nid oes unrhyw bŵer gwneud penderfyniadau yn DCMS na llywodraeth ehangach a dim pŵer feto.

Felly, mae'r Gronfa wedi cymryd rôl Penadur yn hytrach nag Asiant yma. Bydd y Gronfa yn cofnodi fel incwm derbyn cyfanswm grant y llywodraeth a bydd yn cyfrif am y grantiau fel rhan o'i gwariant grant er rhaid gwahanu hyn yn glir oddi wrth ei gwariant grant Loteri.

### Datganiad incwm cynhwysfawr

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 £'000 |
|---|---|---|
| **Incwm** | | |
| Derbyniwyd/Derbyniadwy gan DCMS | 198,776 | - |
| Ad-daliadau | 641 | - |
| **Cyfanswm incwm** | **199,417** | **-** |
| **Gwariant** | | |
| Gwariant ar grantiau | 188,423 | - |
| Llai gwariant ar grantiau wedi darfod neu eu diddymu | 160 | - |
| | **188,583** | **-** |

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 £'000 |
|---|---|---|
| Costau gweithredu | 9,266 | - |
| **Cyfanswm gwariant** | **197,849** | **-** |
| **Cyfanswm incwm net cynhwysfawr** | **1,568** | **-** |

Datganiad sefyllfa ariannol

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31Mawrth 2020 £'000 |
|---|---|---|
| Asedau cyfredol | | |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 10,187 | - |
| **Cyfanswm asedau** | **10,187** | **-** |
| Rhwymedigaethau cyfredol | | |
| Symiau taladwy eraill | (8,619) | - |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau** | **(8,619)** | **-** |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | **1,568** | **-** |



Nodiadau i'r cyfrifon

**Colledion a thaliadau arbennig**

Ceir colledion pan nad oes unrhyw dystiolaeth bod amcanion prosiect a ariannwyd wedi'u cyflawni. Yn y flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2021 rydym wedi dileu colledion o £38,693, gan gynrychioli 6 o ddyfarniadau (2019/20 dd/b). Nid oedd unrhyw ddileadau uwchben £100,000 (2019/20 dd/b).

Ceir taliadau arbennig yn yr achosion canlynol:

- gwnaed grant yn anfwriadol i fudiad nad yw'n gyfreithiol gymwys i'w dderbyn ond lle mae'r grant o fewn bwriad cyffredinol deddfwriaeth statudol. Gwariwyd yr holl ddyfarniadau hyn ar amcanion prosiectau, yn unol ag amodau a thelerau'r grant.
- Cymeradwyir taliadau ex gratia.

Yn y flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2021, gwnaed 2 taliad arbennig gwerth cyfanswm o £10,884 (2019/20 dd/b) mewn perthynas â thrafodion grant.

## 30. Cronfa Local Connections

Yn ystod 2020/21, cytunodd y Gronfa ar y rhaglen ariannu newydd hon, a'i hyd yw 1 Hydref 2020 i 31 Mawrth 2022. Cyfanswm cost y rhaglen yw £4.0 miliwn, a bydd DCMS yn cyfrannu £2.0 miliwn ohono trwy gytundeb grant gyda'r Gronfa. Bydd y £2.0 miliwn sy'n weddill yn cael ei gyfrannu gan y Gronfa. Yn y cytundeb grant, penderfynwyd y bydd y Gronfa yn gweithredu fel Penadur yn hytrach nag Asiant.

Datganiad incwm cynhwysfawr

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31Mawrth 2021 £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 £'000 |
|---|---|---|
| Incwm | | |
| Derbyniwyd/Derbyniadwy gan DCMS | 2,000 | - |
| Ad-daliadau | 5 | - |
| **Cyfanswm incwm** | **2,005** | **-** |
| Gwariant | | |
| Gwariant ar grantiau | 1,828 | - |
| Costau gweithredu | 71 | - |
| **Cyfanswm gwariant** | **1,899** | **-** |
| **Cyfanswm incwm net cynhwysfawr** | **106** | **-** |

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31Mawrth 2021 £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 £'000 |
|---|---|---|

Datganiad sefyllfa ariannol

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 £'000 |
|---|---|---|
| Asedau cyfredol | | |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 117 | - |
| **Cyfanswm asedau** | **117** | **-** |
| Rhwymedigaethau cyfredol | | |
| Symiau taladwy eraill | (11) | - |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau** | **(11)** | **-** |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | **106** | **-** |





## 31. Cronfa Elusennau COVID-19

Yn ystod 2020/21, cytunodd y Gronfa ar y rhaglen ariannu newydd hon ar 11 Mehefin 2020 fel rhan o'n hymateb i'r coronafeirws. Bydd yr Adran Cymunedau, ar ffurf grant a roddir i'r Gronfa, yn darparu hyd at £15.9 miliwn. Byddai'n rhaid dychwelyd unrhyw arian sy'n weddill ar ôl 30 Medi 2020 i'r Adran erbyn diwedd mis Hydref 2020. Yn y cytundeb grant, penderfynwyd y bydd y Gronfa yn gweithredu fel Penadur yn hytrach nag Asiant.

Datganiad incwm cynhwysfawr

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 £'000 |
|---|---|---|
| Incwm | | |
| Derbyniwyd/Derbyniadwy gan DfC | 9,215 | - |
| **Cyfanswm incwm** | **9,215** | **-** |
| Gwariant | | |
| Gwariant ar grantiau | 8,847 | - |
| Llai gwariant ar grantiau wedi darfod neu eu diddymu | (20) | - |
| Costau gweithredu | 388 | - |
| **Cyfanswm gwariant** | **9,215** | **-** |
| **Cyfanswm incwm net cynhwysfawr** | **-** | **-** |

Cwblhawyd y rhaglen ariannu yn llawn yn ystod 2020/21, felly nid oes asedau na rhwymedigaethau i'w datgelu.

## 32. Cyfrifon Segur

O dan Ddeddf Cyfrifon Banc a Chymdeithasau Adeiladu Segur 2008 ('y Ddeddf'), gall banciau a chymdeithasau adeiladu drosglwyddo arian o gyfrifon segur i Reclaim Fund Ltd, endid nid er elw sydd ag awdurdod i weithredu fel y gronfa hawlio'n ôl.

Mae Reclaim Fund Ltd yn trosglwyddo arian y mae wedi'i fodloni nad oes ei angen i dalu hawliadau yn y dyfodol gan berchnogion yr arian cyfrifon segur i'r Gronfa Loteri Fawr. Mae'r Gronfa'n dosbarthu'r arian hwnnw yn unol â'r Ddeddf a chyfarwyddiadau a gyhoeddir iddi gan Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Ddigidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon yn unol â'i

wariant yn Lloegr a gan y gweinyddiaethau datganoledig o ran gwariant yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Dosrennir arian rhwng pedair gwlad y Deyrnas Unedig yn unol ag offeryn statudol a gymeradwyir gan Senedd y Deyrnas Unedig. Didynnir y costau a delir gan y Gronfa a’r Gweinidog mewn perthynas â gweithredu’r cynllun yn gyffredinol cyn eu dyrannu rhwng y pedair gwlad. Didynnir y costau a gafwyd gan y Gweinidog a’r gweinyddiaethau datganoledig mewn perthynas â’r gwledydd unigol o’r arian a ddyrennir.

Mae Reclaim Fund Ltd wedi nodi bod £90.3 miliwn ar gael i’w dosbarthu i’r Gronfa yn ei blwyddyn ariannol hyd at fis Rhagfyr 2020 ac wedi cofnodi hwn fel credydwr. Gan hynny mae’r Gronfa wedi cofnodi hwn fel incwm derbynadwy a bydd yn tynnu’r arian i lawr fel y bo angen i gefnogi’r rhaglenni cysylltiedig. Mae dyfarniadau ar gyfer Cymru a’r Alban yn cael eu gwneud dan raglenni cyfredol tra bod Gogledd Iwerddon wedi sefydlu rhaglen yn ystod 2020/21 i ddosbarthu’r cronfeydd sydd ar gael.

O fewn Cyfarwyddiadau Polisi gan DCMS, dosbarthwyd £96.5 miliwn i Access - The Foundation for Social Enterprise, Big Society Capital, Fair4All Finance, Youth Futures Foundation a The Oversight Trust – Assets for the Common Good mewn perthynas â chyfran Lloegr o’r arian sydd ar gael. Yn ychwanegol at y £330 miliwn a gyhoeddwyd a oedd ar gael i’w ddosbarthu gan DCMS ym mis Ionawr 2018, yr oedd £277 miliwn ohono’n cynrychioli cyfran Lloegr, cadarnhawyd £71 miliwn arall mewn dosbarthiadau mewn perthynas â chyfran Lloegr yn ystod y flwyddyn. Rydym wedi darparu ar gyfer yr ymrwymiadau dosbarthu llawn i’r mudiadau sy’n derbyn cyfran Lloegr o’r symiau sydd ar gael i’r graddau bod yr ariannu ar gael gan Reclaim Fund Limited.

Mewn perthynas â Chymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, mae’r Gronfa’n gwneud dyfarniadau grant mewn modd tebyg i arian Loteri, felly mae ymrwymiadau dros ben o ddyfarniadau grant a wnaed nad ydynt wedi cael eu tynnu i lawr gan dderbynyddion grantiau eto.

Mae’r Gronfa’n cadw arian a dynnwyd o Reclaim Fund Limited ond sydd heb ei dalu eto fel blaendal mewn banciau masnachol.





## 32a. Datganiad incwm cynhwysfawr

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 £’000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 £’000 |
|---|---|---|
| **Incwm** | | |
| Derbyniwyd/Derbyniadwy o Reclaim Fund Ltd | 90,281 | 68,530 |
| Llog banc derbyniadwy | 136 | 650 |
| Adennill grantiau | 33 | 2 |
| **Cyfanswm incwm** | **90,450** | **69,182** |
| **Gwariant** | | |
| Gwariant ar raglenni | | |
| Trosglwyddiadau/trosglwyddadwy i ddosbarthwyr penodol | 41,933 | 55,445 |
| Gwariant ar grantiau | 5,940 | 6,822 |
| Llai gwariant ar grantiau wedi darfod neu eu diddymu | (18) | (352) |
| | **47,855** | **61,915** |
| Costau gweithredu | 346 | 480 |
| **Cyfanswm gwariant** | **48,201** | **62,395** |
| **Gwarged cyn treth** | **42,249** | **6,787** |
| Treth | - | - |
| **Cyfanswm incwm net cynhwysfawr** | **42,249** | **6,787** |
| Dygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2020 | 50,264 | 43,477 |
| Cyfanswm incwm net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn | 42,249 | 6,787 |
| **Dygwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2021** | **92,513** | **50,264** |

## 32b. Datganiad sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2021

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Asedau cyfredol | | |
| Masnach ac arian arall a dderbynnir | 90,300 | 68,995 |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 29,304 | 63,939 |
| **Cyfanswm asedau** | **119,604** | **132,934** |
| Rhwymedigaethau cyfredol | | |
| Masnach ac arian arall a delir | (77) | (56) |
| Darpariaethau | (16,571) | (71,100) |
| Rhwymedigaethau grant | (10,443) | (11,514) |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau** | **(27,091)** | **(82,670)** |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | **92,513** | **50,264** |
| **Gwarged argadwedig** | **92,513** | **50,264** |





## 32c. Incwm a Gwariant Manwl gyda Dyraniad fesul Gwlad

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 | | | | | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Lloegr £'000 | Yr Alban £'000 | Cymru £'000 | Gogledd Iwerddon £'000 | Cyfanswm £'000 | Cyfanswm £'000 |
| Incwm | - | - | - | - | 90,417 | 69,180 |
| Namyn costau gweithredu | - | - | - | - | (346) | (480) |
| **Incwm net ar gael i'w dosbarthu** | **-** | **-** | **-** | **-** | **90,071** | **68,700** |
| Ar gael i bob gwlad | 75,570 | 7,565 | 4,414 | 2,522 | | |
| Adennill grantiau | - | 33 | - | - | 33 | 2 |
| Trosglwyddiadau/trosglwyddadwy i ddosbarthwyr penodol | (41,933) | - | - | - | (41,933) | (55,445) |
| Ymrwymiadau grant a wnaed | - | (4,744) | (999) | (179) | (5,922) | (6,470) |
| **Gwarged ar gyfer y flwyddyn** | **33,637** | **2,854** | **3,415** | **2,343** | **42,249** | **6,787** |
| Balans arian a ddygwyd ymlaen | 5,500 | 14,687 | 11,794 | 18,283 | 50,264 | 43,477 |
| **Balans yr arian a ddygwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2021** | **39,137** | **17,541** | **15,209** | **20,626** | **92,513** | **50,264** |
| Symud croniadau grant | | | | | | |
| Rhwymedigaethau grant a ddygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2020 | - | 6,093 | 5,421 | - | 11,514 | 11,984 |
| Ymrwymiadau grant a wnaed | - | 4,762 | 999 | 179 | 5,940 | 6,823 |
| Rhwymedigaethau wedi darfod a'u diddymu | - | (18) | - | - | (18) | (354) |
| Rhwymedigaethau grant a fodlonwyd | - | (4,830) | (2,163) | - | (6,993) | (6,939) |
| **Croniad a ddygwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2021** | **-** | **6,007** | **4,257** | **179** | **10,443** | **11,514** |
| Croniadau grant sy'n heneiddio | | | | | | |
| Yn ddyledus o fewn blwyddyn | - | 3,573 | 2,721 | 75 | 6,369 | 7,849 |
| Yn ddyledus o fewn mwy na blwyddyn ond llai na dwy flynedd | - | 1,855 | 1,128 | 72 | 3,055 | 2,927 |
| Yn ddyledus o fewn mwy na dwy flynedd ond llai na thair blynedd | - | 519 | 286 | 32 | 837 | 511 |
| Yn ddyledus o fewn mwy na thair blynedd ond llai na phedair blynedd | - | 60 | 122 | - | 182 | 204 |
| Yn ddyledus o fewn mwy na phedair blynedd ond llai na phum mlynedd | - | - | - | - | - | 23 |
| Yn ddyledus ar ôl mwy na phum mlynedd | - | - | - | - | - | - |
| | **-** | **6,007** | **4,257** | **179** | **10,443** | **11,514** |

# Ein cefndir statudol

## Cyfarwyddiadau Polisi

Rhoddir y pŵer i'n hadran noddi a'r gweinyddiaethau datganoledig o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 i roi Cyfarwyddiadau mewn perthynas â materion sydd i'w hystyried wrth ddyfarnu grantiau.

Mae'r cyfarwyddiadau polisi cyfredol mewn perthynas â Lloegr, Ynys Manaw ac ariannu Deyrnas Unedig wedi'u disgrifio isod. Cyhoeddwyd y rhain gan Swyddfa'r Cabinet ac fe ddaethant i rym at 1 Ebrill 2012. Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon fydd yn gyfrifol am gyfarwyddiadau polisi'r dyfodol yn dilyn trosglwyddo swyddogaethau o Swyddfa'r Cabinet yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Gronfa wedi cydymffurfio â'r Cyfarwyddiadau hyn ym mhob agwedd faterol trwy gydol y flwyddyn ariannol 2020/21.

Disgrifir y cyfarwyddiadau polisi cyfredol mewn perthynas â Chymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon, sydd wedi'u cyhoeddi gan y gweinyddiaethau datganoledig priodol, yn ddiweddarach yn yr adran hon.

## Lloegr a'r Deyrnas Unedig

**CYFARWYDDIADAU A RODDIR I'R GRONFA LOTERI FAWR O DAN ADRAN 36E(1)(b) DEDDF Y LOTERI GENEDLAETHOL ETC. 1993**

**Yn y Cyfarwyddiadau hyn bydd unrhyw gyfeiriad at adran yn cyfeirio at adran yn Neddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993. (fel y'i diwygiwyd).**

**Trwy hyn mae'r Ysgrifennydd dros Swyddfa'r Cabinet, wrth weithredu'r pwerau a gyflwynwyd iddi gan adran 36E(1)(b) ac ar ôl ymgynghori â'r Gronfa Loteri Fawr ("y Gronfa"), Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Gweinidogion yr Alban a'r Adran dros Ddiwylliant, y Celfyddydau a Hamdden Gogledd Iwerddon yn unol ag adran 36E(5), yn rhoi'r cyfarwyddiadau a ganlyn i'r Gronfa:**

**Lloegr, Ynys Manaw a'r Deyrnas Unedig**

## Cyfarwyddiadau Cyffredinol

1. Wrth weithredu unrhyw un o'i swyddogaethau mewn perthynas â gwariant y Deyrnas Unedig, bydd y Gronfa'n ystyried y materion a ganlyn wrth bennu i bwy y bydd yn dosbarthu grantiau, y dibenion dros ddosbarthu grantiau, a'r amodau y dylid eu hystyried wrth i'r Gronfa ddosbarthu ei harian o dan adran 25(1).

A. Yr angen am sicrhau dros amser bod yr arian a ddosberthir:

(i) Yn sicrhau bod pobl yn cymryd rhan ac yn ymwneud â defnyddio ariannu'r Gronfa i ddarparu atebion i'r materion sydd fwyaf pwysig iddynt yn eu cymunedau;

(ii) Yn helpu adnabod a galluogi'r rhai sy'n barod i arwain y broses o ddarparu'r atebion hyn ac yn dileu rhwystrau ar gyfer y rhai y gallai fod angen cymorth arnynt i wneud hyn; ac

(iii) Yn cefnogi atebion newydd ac arloesol ochr yn ochr â modelau sydd wedi profi eu gwerth, ac yn cynhyrchu dysgu i helpu datblygiad polisïau ac arfer y tu hwnt i ariannu'r Gronfa.

B. Yr angen am sicrhau bod y Gronfa'n cyflawni dosbarthiad yr ariannu i ledaeniad gweddol eang o brosiectau, yn bennaf y rhai a gyflwynir gan y sector gwirfoddol a chymunedol a mentrau cymdeithasol, gan gynnwys mudiadau bach, y mudiadau hynny sy'n gweithredu ar lefel leol yn unig, mudiadau newydd eu cyfansoddi, mudiadau sy'n gweithredu fel mentrau cymdeithasol a mudiadau sydd â'u pencadlys yn y Deyrnas Unedig y maent yn gweithio tramor.

C. Yr angen am sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu ar gyfer prosiectau sy'n hyrwyddo lles cyhoeddus a chymdeithasol nad ydynt wedi'u bwriadu'n bennaf er elw preifat.

D. Yr angen am gynnwys y cyhoedd wrth lunio polisïau, pennu blaenoriaethau a gwneud grantiau, a allai gynnwys partneriaethau â darlledwyr, cyfryngau electronig, print a digidol a chyfryngau eraill.

E. Yr angen am sicrhau bod grantiau'n cael ei ddosbarthu ar sail angen, gan gyflwyno canlyniadau mesuradwy ac effaith ehangach ar gyfer cymunedau ac unigolion.

F. Yr angen am gynnwys amod yn yr holl grantiau i dderbynyddion i gydnabod arian y Loteri gan ddefnyddio brand cyffredin y Loteri.

G. Bydd y Gronfa'n ystyried yr egwyddorion canlynol wrth ddosbarthu arian o dan adran 25(1):

1. YMGYSYLLTU – dylai datblygu rhaglenni fod yn seiliedig ar ymgysylltu'n weithredol â phartneriaid y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ac mewn mentrau cymdeithasol.

2. CYNRYCHIOLAETH – dylai datblygu rhaglenni gymryd y rhai mewn angen mwyaf i ystyriaeth trwy dargedu anghydraddoldeb a gwella gallu pobl a chymunedau i gyfrannu at raglenni'r Gronfa, cymryd rhan ynddynt ac elwa o'r canlyniadau a ariennir trwyddynt.

3. CYNALADWYEDD – gallu'r rhaglen i wella'r amgylchedd heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol a lleihau'r effaith ar yr amgylchedd.

4. BUDDION TYMOR HWY – y gall prosiectau gyflawni dichonolrwydd a gwydnwch ariannol dros y tymor hwy.

5. YCHWANEGEDD a CHYDWEDDU – dylai datblygu rhaglenni ac ariannu prosiectau gydweddu ag arianwyr a phartïon eraill sy'n gweithio tuag at gyrchnodau'r Gronfa, ychwanegu gwerth atynt a bod yn unigryw iddynt.

6. GWEITHIO AR Y CYD – pan fydd hyn yn cyflawni canlyniadau gwell, dylai datblygu rhaglenni ac ariannu prosiectau gefnogi gweithredu ar y cyd rhwng mudiadau a ariennir a phartneriaid y sectorau cyhoeddus, preifat a chymdeithas sifil.

**Gwariant datganoledig Lloegr ac Ynys Manaw**

2. Wrth weithredu unrhyw un o'i swyddogaethau mewn perthynas â gwariant datganoledig Lloegr ac Ynys Manaw, bydd y Gronfa'n ystyried y materion a ganlyn wrth bennu i bwy

y bydd yn dosbarthu arian, y dibenion dros ddosbarthu arian, a'r amodau y dylid eu hystyried wrth i'r Gronfa ddosbarthu arian:-

A.Yr angen am weithredu o fewn cyd-destun unigryw polisi a chamau gweithredu'r llywodraeth a chymdeithas sifil gan ychwanegu gwerth mewn ffyrdd priodol at yr amcan o greu cymdeithas fwy teg, rhydd a chyfrifol lle mae pawb yn chwarae rhan wrth wella'u cymuned a helpu ei gilydd.

B.Yr angen am sicrhau y caiff ariannu ei ddosbarthu i brosiectau sy'n creu buddion ar gyfer pobl a chymunedau lleol a wasanaethir gan y sector gwirfoddol a chymunedol.

C.Yr angen am sicrhau dros amser bod yr arian a ddosberthir yn ymdrin ag un neu fwy o'r blaenoriaethau a ganlyn:

(i) Annog cyfranogiad cymdeithasol mewn cymunedau a dileu rhwystrau;

(ii) Cryfhau gallu mudiadau gwirfoddol a chymunedol a mentrau cymdeithasol; ac

(iii) Chryfhau a chynyddu gallu'r farchnad buddsoddi cymdeithasol i gefnogi buddion cyhoeddus a gweithredu cymdeithasol.

D. Yr angen am ystyried:

(i) Buddion a chwmpas cymryd camau effeithiol ar gyfer Lloegr neu Ynys Manaw yn gyffredinol ac ar gyfer rhannau gwahanol o Loegr neu Ynys Manaw; ac

(ii) Meintiau poblogaeth a lefelau amddifadedd economaidd a chymdeithasol cymharol mewn rhannau gwahanol o Loegr ac Ynys Manaw.

Llofnodwyd gan y Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet

28 Mawrth 2012.

## Yr Alban

**CYFARWYDDIADAU A RODDIR I'R GRONFA LOTERI FAWR O DAN ADRAN 36E(4)(b) DEDDF Y LOTERI GENEDLAETHOL ETC. 1993.**

Trwy hyn mae Gweinidogion Yr Alban, wrth ddefnyddio'r pwerau a gyflwynwyd iddynt gan adran 36E(4)(b) Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 ac ar ôl ymgynghori â'r Gronfa Loteri Fawr ("y Gronfa") a sicrhau caniatâd gan Weinidog Swyddfa'r Cabinet yn unol ag adran 36E(8) y Ddeddf, yn rhoi'r cyfarwyddiadau a ganlyn i'r Gronfa:

1. Yn y Cyfarwyddiadau hyn bydd unrhyw gyfeiriad at adran yn cyfeirio at adran yn Neddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993.

**Cyfarwyddiadau Cyffredinol**

2. Wrth weithredu unrhyw un o'i swyddogaethau mewn perthynas â gwariant datganoledig Yr Alban, bydd y Gronfa'n ystyried y materion a ganlyn wrth bennu i bwy, at ba ddibenion ac o dan ba amodau y bydd yn dosbarthu arian:

A.Yr angen am sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu o dan adran 25(1) ar gyfer prosiectau sy'n hyrwyddo budd y cyhoedd ac nad ydynt wedi'u bwriadu'n bennaf er elw preifat.

B.Yr angen am sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu o dan adran 25(1) i brosiectau sy'n gwneud gwelliannau gwirioneddol a chynaliadwy i ansawdd bywyd cymunedau lleol.

C.Yr angen am annog arloesedd wedi'i gydbwyso gyda'r angen am reoli risg mewn modd sy'n gymesur â'r math o brosiect ac ymgeisydd.

D. Yr angen am hyrwyddo amcanion datblygiad cynaliadwy ymhellach.

E. Yr angen am bennu cyfyngiadau amser penodol ar y cyfnodau y mae grantiau'n daladwy, boed hynny ar gyfer gwariant cyfalaf neu refeniw.

F. Yr angen:

(i) ym mhob achos, i'r ymgeiswyr ddangos dichonoldeb ariannol y prosiect dros gyfnod y grant,'

(ii) os ceisir arian cyfalaf:

a) am gynllun busnes clir gan gynnwys yr angen am sicrhau adnoddau er mwyn bodloni unrhyw gostau rhedeg a chynnal a chadw sy'n gysylltiedig â phob prosiect am gyfnod rhesymol, gan ystyried maint a natur y prosiect; ac

b) sicrhau bod y broses gwerthuso a rheoli ar gyfer prosiectau sylweddol yn cyfateb i broses Adolygiadau Porth Swyddfa Fasnach y Llywodraeth.

(iii) mewn achosion eraill, dylid ystyried argaeledd tebygol arian arall i dalu am gostau parhaus am gyfnod rhesymol ar ôl cwblhau dyfarniad y Loteri, gan roi ystyriaeth i faint a natur y prosiect, ac i arian y Loteri gael ei ddefnyddio i gynorthwyo cynnydd tuag at ddichonoldeb pryd bynnag y bo'n bosib.

G. Y dymunoldeb o weithio gyda mudiadau eraill, gan gynnwys dosbarthwyr eraill, pan fo hyn yn ffordd effeithiol o gyflwyno elfennau o strategaeth y Gronfa.

H.Yr angen am sicrhau bod gan y Gronfa y cyfryw wybodaeth y mae'n ystyried ei bod yn angenrheidiol i wneud penderfyniadau ar bob cais, gan gynnwys cyngor arbenigol annibynnol pan fo hynny'n ofynnol.

I.Yr angen am fynnu elfen o gyllid partneriaeth a/neu gyfraniadau mewn da gan ffynonellau eraill sy'n gweddu i allu rhesymol gwahanol fathau o ymgeiswyr, neu ymgeiswyr mewn ardaloedd penodol, ddod o hyd i'r cyfryw gefnogaeth.

J.Yr angen am gynnwys amod yn yr holl grantiau i gydnabod arian y Loteri gan ddefnyddio brand cyffredin y Loteri.

K. Yr angen am gynnwys y cyhoedd wrth lunio polisïau, pennu blaenoriaethau a dosbarthu grantiau.

## Gwariant Datganoledig Yr Alban

3. Wrth weithredu unrhyw un o'i swyddogaethau mewn perthynas â gwariant datganoledig Yr Alban, bydd y Gronfa'n ystyried y materion a ganlyn wrth bennu i bwy, at ba ddibenion ac o dan ba amodau y bydd yn dosbarthu arian:

A. Yr angen am weithredu o fewn cyd-destun polisi unigryw Yr Alban, gan ychwanegu gwerth at strategaeth Gweinidogion Yr Alban lle bo'n briodol; gweithio yng nghyd-

destun y fframwaith perfformiad cenedlaethol i adeiladu Alban fwy teg a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb.

B.Yr angen am sicrhau bod y Gronfa yn dosbarthu arian dros amser i ymdrin â'r flaenoriaeth lleihau anghydraddoldeb; ac ar yr un pryd sicrhau lledaeniad rhesymol eang o dderbynyddion, gan gynnwys mudiadau bach, y rhai sy'n gweithio ar lefel leol yn unig, mentrau a mudiadau cymdeithasol a mudiadau sydd wedi'u lleoli yn Yr Alban ac yn gweithio tramor.

C.Yr angen am ystyried buddion Yr Alban yn gyffredinol, buddion rhannau gwahanol o'r Alban a meintiau poblogaeth cymharol, ac i ba raddau y gellir lleihau amddifadedd economaidd a chymdeithasol mewn rhannau gwahanol o'r Alban.

D.Yr angen am sicrhau bod y Gronfa'n cyfrannu at gynaladwyedd trwy gefnogi gweithgareddau sy'n helpu ymgorffori newidiadau a dylanwadu ar ddatblygu hir dymor.

E.Yn olaf, yr angen am sicrhau dros amser bod y Gronfa'n dosbarthu arian yn rhesymol gyfartal rhwng gwariant ar/sy'n gysylltiedig â:

(i) Hyrwyddo dysgu a datblygu cymunedol;

(ii)Hyrwyddo diogelwch a chydlyniant cymunedol;

(iii)Hyrwyddo grymuso cymunedau a chyfleoedd cynhwysol i bawb gymryd rhan, a

(iv) hyrwyddo lles corfforol a meddyliol.

4. Mewn perthynas â gwariant datganoledig Yr Alban, bydd y Gronfa'n ystyried yr angen am ddosbarthu Arian o dan adran 25(1) i waith sydd â'r nod o gyflawni un neu fwy o'r amcanion a ganlyn.

(i) Lleihau anghydraddoldeb trwy daclo anfantais a gwahaniaethu

(ii) Grymuso pobl trwy alluogi pobl i ymgysylltu a dylanwadu.

5. Mewn perthynas â gwariant datganoledig Yr Alban bydd y Gronfa'n ystyried yr egwyddorion a ganlyn wrth ddosbarthu arian o dan adran 25(1):

(i) Cyflawni'r defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau trwy ddewis yr ymagwedd fwyaf priodol mewn meysydd polisi priodol er mwyn ychwanegu gwerth at yr ymdrech gyhoeddus gyffredinol

(ii) Trosoli'r gwerth uchaf posib ar gyfer pobl a chymunedau o adnoddau trwy gefnogaeth dros wirfoddoli, gwaith teg a chaffael cynaliadwy.

Llofnodwyd ar ran Gweinidogion Yr Alban Chwefror 2016.





## Cymru

**CYFARWYDDIADAU A RODDWYD I'R GRONFA LOTERI FAWR O DAN ADRAN 36E DEDDF Y LOTERI GENEDLAETHOL ETC. 1993.**

Yn y Cyfarwyddiadau hyn bydd unrhyw gyfeiriad at adran yn cyfeirio at adran yn Neddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 (fel y'i diwygiwyd).

Trwy hyn mae Gweinidogion Cymru, wrth ddefnyddio'r pwerau a gyflwynwyd iddynt gan adran 36E(4)(b) Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 ac ar ôl ymgynghori â'r Gronfa Loteri Fawr (yn gweithredu fel Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol ac a gyfeirir ati o hyn ymlaen fel "Y Gronfa") a sicrhau caniatâd gan Weinidog Swyddfa'r Cabinet yn unol ag adran 36E(8)(b) y Ddeddf, yn rhoi'r cyfarwyddiadau a ganlyn i'r Gronfa.

**CYFARWYDDIADAU - GWARIANT DATGANOLEDIG CYMRU**

Wrth benderfynu i bwy y mae'n dosbarthu gwariant datganoledig Cymru, at ba bwrpas ac o dan ba amodau, bydd y Gronfa'n ystyried y materion canlynol o dan Adran 25(1).

A. Ystyried egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn enwedig:

- gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru
- annog cyrff cyhoeddus i feddwl mwy am yr hir dymor, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd
- atal problemau a chymryd ymagwedd fwy cyd-gysylltiedig
- y pum dull o weithio: hir dymor; atal; integreiddio; cydweithio; cymryd rhan
- saith nod llesiant.

B. Sicrhau bod y Gronfa yn dosbarthu arian i ystod eang o brosiectau a ddarperir yn bennaf gan y trydydd sector. Dylai hyn gynnwys mudiadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, gan gynnwys mentrau cymdeithasol.

C. Sicrhau bod y Gronfa'n gweithredu o fewn cyd-destun polisi, llywodraethol, cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, gan sicrhau bod ariannu'n gweddu i ac yn ychwanegu gwerth at waith y Llywodraeth tra'n aros ar wahân iddi ar yr un pryd.

D. Sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu mewn modd sy'n cefnogi cymunedau i ffynnu, ac sy'n hygyrch i bob cymuned, gan gynnwys y rhai a fydd angen cymorth ychwanegol.

E. Ystyried buddiannau Cymru gyfan a buddiannau gwahanol rannau o Gymru, gan gynnwys:

- y patrymau demograffig ac amddifadedd amrywiol yng ngwahanol rannau o Gymru
- barn cymunedau Cymru wrth osod blaenoriaethau a dosbarthu arian.

F. Sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu i brosiectau sy'n hyrwyddo budd cyhoeddus a chymdeithasol ac nad ydynt wedi'u bwriadu'n bennaf er budd preifat.

G. Hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg, gan adlewyrchu natur ddwyieithog Cymru trwy:

- gweithio yn ôl yr egwyddor o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na Saesneg yn holl weithgareddau'r Gronfa yng Nghymru
- gweithredu yn unol â Safonau'r Gymraeg a'n Cynllun Iaith Gymraeg, mewn partneriaeth â Chomisiynydd y Gymraeg.

H.Sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu sy'n gwella amgylchedd Cymru heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol ac ar yr un pryd hyrwyddo ei botensial i wella ansawdd bywyd cymunedau ac unigolion.

I.Darparu cefnogaeth i'r sawl sy'n ymgeisio i'r Gronfa, ac i fudiadau sy'n derbyn ariannu, er mwyn gwella cyflwyno canlyniadau prosiect a'u galluogi i ddarparu atebion cadarnhaol i'r materion sydd o'r pwys mwyaf iddyn nhw a'u cymunedau.

J.Cefnogi arloesedd a modelau sydd wedi'u profi, i gynhyrchu dysgu i helpu datblygu ac ymarfer polisi y tu hwnt i ariannu'r Gronfa.

K.Cynnwys amod ym mhob dyfarniad bod yn rhaid i dderbynwyr gydnabod ariannu'r Loteri Genedlaethol a defnyddio brandio cyffredin y Loteri Genedlaethol.

L.Sicrhau bod y Gronfa'n ffocysu gwariant ar gyflawni'r canlyniadau a ganlyn dros amser:

- Mae pobl yn iach ac yn byw bywydau cynhyrchiol mewn cymdeithas ffyniannus ac arloesol
- Amgylchedd gwledig a threfol gwydn gyda defnydd mwy cynaliadwy o adnoddau naturiol Cymru
- Cryfheir amgylchiadau i greu cymunedau mwy cryf, diogel a chydlynol, gan wella cyfiawnder cymdeithasol ac ar yr un pryd, lliniaru effaith tlodi yn ogystal ag annog twf economaidd cynaliadwy.

## Gogledd Iwerddon

**CYFARWYDDIADAU A RODDIR I'R GRONFA LOTERI FAWR O DAN ADRAN 36E(4)(b) DEDDF Y LOTERI GENEDLAETHOL ETC. 1993.**

Trwy hyn mae Ysgrifennydd Gwladol Gogledd Iwerddon, wrth ddefnyddio'r pwerau a gyflwynwyd iddo gan adran 36E(4)(b) Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 ac ar ôl ymgynghori â'r Gronfa Loteri Fawr ("y Gronfa") a sicrhau caniatâd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn unol ag adran 36E(8) y Ddeddf, yn rhoi'r cyfarwyddiadau a ganlyn i'r Gronfa:

1. Yn y Cyfarwyddiadau hyn bydd unrhyw gyfeiriad at adran yn cyfeirio at adran yn Neddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993.





**Cyfarwyddiadau Cyffredinol**

2. Wrth weithredu unrhyw un o'i swyddogaethau mewn perthynas â gwariant datganoledig Gogledd Iwerddon, bydd y Gronfa'n ystyried y materion a ganlyn wrth bennu i bwy, at ba ddibenion ac o dan ba amodau y bydd yn dosbarthu arian:

A.Yr angen am sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu o dan adran 25(1) ar gyfer prosiectau sy'n hyrwyddo budd y cyhoedd ac nad ydynt wedi'u bwriadu'n bennaf er elw preifat.

B.Yr angen am sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu o dan adran 25(1) i brosiectau sy'n gwneud gwelliannau gwirioneddol a chynaliadwy i ansawdd bywyd cymunedau lleol.

C.Yr angen am annog arloesedd wedi'i gydbwyso gyda'r angen am reoli risg mewn modd sy'n gymesur â'r math o brosiect ac ymgeisydd.

D.Yr angen am hyrwyddo amcanion datblygiad cynaliadwy ymhellach.

E.Yr angen am bennu cyfyngiadau amser penodol ar y cyfnodau y mae grantiau'n daladwy, boed hynny ar gyfer gwariant cyfalaf neu refeniw.

F.Yr angen: ym mhob achos, i'r ymgeiswyr ddangos dichonoldeb ariannol y prosiect dros gyfnod y grant;

(ii) os ceisir arian cyfalaf:

(a) am gynllun busnes clir gan gynnwys yr angen am sicrhau adnoddau er mwyn bodloni unrhyw gostau rhedeg a chynnal a chadw sy'n gysylltiedig â phob prosiect am gyfnod rhesymol, gan ystyried maint a natur y prosiect; ac

(b) sicrhau bod y broses gwerthuso a rheoli ar gyfer prosiectau sylweddol yn cyfateb i broses Adolygiadau Porth Swyddfa Fasnach y Llywodraeth.

(iii) mewn achosion eraill, dylid ystyried argaeledd tebygol arian arall i dalu am gostau parhaus am gyfnod rhesymol ar ôl cwblhau dyfarniad y Loteri, gan roi ystyriaeth i faint a natur y prosiect, ac i arian y Loteri gael ei ddefnyddio i gynorthwyo cynnydd tuag at ddichonoldeb pryd bynnag y bo'n bosib.

G. Y dymunoldeb o weithio gyda mudiadau eraill, gan gynnwys dosbarthwyr eraill, pan fo hyn yn ffordd effeithiol o gyflwyno elfennau o strategaeth y Gronfa.

H. Yr angen am sicrhau bod gan y Gronfa y cyfryw wybodaeth y mae'n ystyried ei bod yn angenrheidiol i wneud penderfyniadau ar bob cais, gan gynnwys cyngor arbenigol annibynnol pan fo hynny'n ofynnol.

I. Yr angen am fynnu elfen o gyllid partneriaeth a/neu gyfraniadau mewn da gan ffynonellau eraill sy'n gweddu i allu rhesymol gwahanol fathau o ymgeiswyr, neu ymgeiswyr mewn ardaloedd penodol, ddod o hyd i'r cyfryw gefnogaeth.

J. Yr angen am gynnwys amod yn yr holl grantiau i gydnabod arian y Loteri gan ddefnyddio brand cyffredin y Loteri.

K. Yr angen am gynnwys y cyhoedd wrth lunio polisïau, pennu blaenoriaethau a dosbarthu grantiau.

**Gwariant Datganoledig Gogledd Iwerddon**

3. Wrth weithredu unrhyw un o'i swyddogaethau mewn perthynas â gwariant datganoledig Gogledd Iwerddon, bydd y Gronfa'n ystyried y materion a ganlyn wrth bennu i bwy, at ba ddibenion ac o dan ba amodau y bydd yn dosbarthu arian:

A.Yr angen am sicrhau bod y Gronfa, wrth ystyried ei hasesiad o anghenion ac unrhyw flaenoriaethau y mae wedi'u hadnabod yn ei strategaeth, dros amser yn dosbarthu arian i ledaeniad weddol eang o dderbynyddion, gan gynnwys mudiadau bach, y mudiadau hynny sy'n gweithredu ar lefel leol yn unig, mentrau cymdeithasol, a mudiadau sy'n gweithio dramor y mae ganddynt bencadlys yng Ngogledd Iwerddon.

B.Yr angen am sicrhau dros amser bod y Gronfa'n dosbarthu arian yn rhesymol gyfartal rhwng gwariant ar neu sy'n gysylltiedig â:

(i) hyrwyddo dysgu cymunedol;

(ii) hyrwyddo diogelwch a chydlyniant cymunedol; ac

(iii) hyrwyddo lles corfforol a meddyliol.

C. Yr angen am ystyried buddiannau Gogledd Iwerddon yn gyffredinol, buddiannau holl rannau gwahanol Gogledd Iwerddon a meintiau poblogaeth cymharol, ac i ba raddau y gellir lleihau amddifadedd economaidd a chymdeithasol mewn rhannau gwahanol o Ogledd Iwerddon.

4. Mewn perthynas â gwariant datganoledig Gogledd Iwerddon, bydd y Gronfa'n ystyried yr angen am ddosbarthu arian o dan adran 25(1) i brosiectau sydd â'r nod o gyflawni un neu fwy o'r amcanion canlynol:

A. Mae gan bobl gyfle i gyflawni eu potensial llawn

B. Gall pobl gymryd rhan yn weithredol yn eu cymunedau i greu newidiadau cadarnhaol

C. Perchnogaeth gymunedol ar amgylcheddau gwledig a threfol gwell a mwy diogel.

D. Gwell iechyd corfforol a meddyliol i bawb.

5. Mewn perthynas â gwariant datganoledig Gogledd Iwerddon, bydd y Gronfa, wrth ddosbarthu arian o dan adran 25(1), yn ystyried yr angen am sicrhau bod un neu'n fwy o'r blaenoriaethau a ganlyn yn cael eu bodloni:

A. Gwella sgiliau hanfodol i ddiwallu anghenion cymdeithasol ac economaidd.

B. Cynyddu cyfleoedd ar gyfer dysgu cymunedol.

C. Adeiladu gallu cymunedau.

D. Cynyddu cyfleoedd gwirfoddoli ac ar gyfer ymgysylltu rhwng ac o fewn cymunedau.





E. Adeiladu partneriaethau cymunedol a gwirfoddol/statudol.

F. Gwella cyfleusterau, mynediad a gwasanaethau cymunedol.

G. Cynyddu cyfranogiad cymunedol wrth amddiffyn, adfer a chynnal yr amgylchedd trefol a gwledig.

H. Helpu unigolion a chymunedau i ddatblygu sgiliau i wneud dewisiadau ffordd o fyw mwy iach.

I. Hyrwyddo iechyd meddwl a lles emosiynol ar lefel unigolion a chymunedau. Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd Gwladol Gogledd Iwerddon

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd Gwladol Gogledd Iwerddon

## Cyfarwyddyd Cyfrifon

**CYFARWYDDIADAU A RODDIR I'R GRONFA LOTERI FAWR O DAN ADRAN 22(3) DEDDF CYFRIFON BANC A CHYMDEITHAS ADEILADU SEGUR 2008 FEL Y'I DIWYGIR**

Trwy hyn mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon, wrth weithredu'r pwerau a gyflwynwyd iddo gan adran 22(3) Deddf Cyfrifon Banc a Chymdeithas Adeiladu Segur 2008 (c.31) ac ar ôl ymgynghori â Chronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol ("y Gronfa") yn unol ag adran 22(7) y Ddeddf honno, yn rhoi'r cyfarwyddiadau a ganlyn i'r Gronfa.

1. Ar 30 Hydref 2019, bu'r Ysgrifennydd Gwladol dros DCMS gyhoeddi wyth Cyfarwyddyd Gwario dan adran 22(3) y Ddeddf. Mae'r Cyfarwyddwyd Gwario hwn yn diweddaru ac yn cyfuno'r rhain mewn un Cyfarwyddwyd. Yn unol â hyn, mae'r holl Gyfarwyddiadau Gwario hyd yn hyn yn cael eu tynnu'n ôl ar unwaith gyda'r Cyfarwyddwyd Gwario hwn yn eu disodli.
2. Dan delerau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng DCMS a'r Gronfa a gytunwyd ar 17 Hydref 2018, bydd y Gronfa'n parhau i ddosbarthu hyd at gyfanswm o £1.2m o gyfran Lloegr o arian y cyfrifon segur ar ffurf grantiau nad sy'n rhaid eu had-dalu i fudiadau gwirfoddol ieuenctid mewn lleoliadau targedig trwy'r Gronfa Capasiti Ieuenctid, gyda'r Gronfa a DCMS wedi cytuno ar grantiau o'r fath. Bydd y Gronfa'n parhau i reoli'r grantiau hyn tan eu cwblhad.
3. Bydd y Gronfa, yn amodol ar sicrwydd digonol, hefyd yn parhau i ddosbarthu hyd at £1m i gefnogi datblygiad effeithiol sefydliadol Youth Futures Foundation Limited sydd â'r nod o fodloni gwariant yn ymwneud neu'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau, cyfleusterau neu gyfleoedd i ddiwallu anghenion pobl ifanc, yn unol ag adran 18(1a) y Ddeddf.
4. Bydd y Gronfa, yn amodol ar sicrwydd digonol, hefyd yn parhau i ddosbarthu hyd at £1m i gefnogi datblygiad effeithiol sefydliadol Fair4All Finance Limited sydd â'r nod o fodloni gwariant yn ymwneud neu'n gysylltiedig â (i) datblygu gallu unigolion i reoli eu cyllidebau, neu (ii) gwella mynediad at wasanaethau ariannol personol, yn unol ag adran 18(1b) y Ddeddf.

5. Bydd y Gronfa hefyd yn dosbarthu cyfran o £145m fel y ganlyn (gan eithrio'r arian i'w dosbarthu yn unol â pharagraff 2 o'r Cyfarwyddyd Gwario hwn, ond gan gynnwys yr arian i'w dosbarthu yn unol â pharagraffau 3 a 4 o'r Cyfarwyddyd Gwario hwn). Gellir dosbarthu mewn cyfrannau dros gyfnod o amser neu mewn un gwaddoliad, fel y cytunir gan y Gronfa a DCMS. Bydd y Gronfa ond yn dyrannu'r ariannu hwn i bob mudiad unwaith i bob mudiad ddangos llywodraethu a pharodrwydd gweithredol digonol. Bydd y dyraniad o £145m yn cael ei rannu fel a ganlyn:

- £90m i fodloni gwariant ar neu'n ymwneud â darparu gwasanaethau, cyfleusterau neu gyfleoedd i ddiwallu anghenion pobl ifanc, yn unol ag a18(1)(a) y Ddeddf, a gyflwynir gan Youth Futures Foundation Limited; ac
- £55m i fodloni gwariant ar neu'n ymwneud â (i) datblygu gallu unigolion i reoli eu harian, neu (ii) wella mynediad at wasanaethau ariannol personol, yn unol ag a18(1)(b) y Ddeddf, a gyflwynir gan Fair4All Finance Limited

6. Bydd y Gronfa'n parhau i ddosbarthu, hyd at gyfanswm o £435m (gyda £300m o hwnnw'n caei ei dosbarthu erbyn Rhagfyr 2017), o gyfran Lloegr arian y cyfrifon segur ar ffurf grantiau nad sy'n rhaid eu had-dalu i'r Big Society Trust i fuddsoddi yn Big Society Capital ac i gyfrannu at ariannu Access — the Foundation for Social Investment, gan weithredu fel cyfanwerthwr buddsoddiad cymdeithasol yn unol ag adran 18 y Ddeddf.
7. Bydd y Gronfa hefyd yn dosbarthu hyd at £500k y flwyddyn o gyfran Lloegr arian y cyfrifon segur, ac ar ffurf grant, i'r Big Society Trust (BST) ar sail barhaol (oni bai a than y cyhoeddir cyfarwyddiadau pellach gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon i addasu neu ddisodli'r cyfarwyddyd hwn).
8. Bydd BST ond yn defnyddio'r ariannu hwn i gynorthwyo cyrff eraill sydd o fewn rheolaeth gyfreithiol unigryw neu helaeth BST, ac sy'n dosbarthu arian cyfrifon segur i fodloni gwariant sydd â diben cymdeithasol neu amgylcheddol.
    - Rhaid i gyrff eraill fel hyn, ar ben hyn, naill ai (i) fod yn gyfanwerthwr buddsoddiad cymdeithasol; neu (ii) ddefnyddio arian cyfrifon segur wrth gyflawni eu swyddogaethau sydd:
        i. yn bodloni'r gwariant ar neu sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau, cyfleusterau neu gyfleoedd i ddiwallu anghenion pobl ifanc; neu
        ii. yn bodloni gwariant ar neu sy'n ymwneud â (a) datblygu gallu unigolion i reoli eu cyllidebau, neu (b) wella mynediad at wasanaethau ariannol personol.
9. Cyfarwyddir y Gronfa i beidio â gwneud unrhyw daliadau eraill o gyfran Lloegr o arian cyfrifon segur tan i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi rhagor o Gyfarwyddiadau dan y Ddeddf.

Llofnodwyd trwy awdurdod yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon





## Atodiad A

**Gofynion Cyfrifyddu a Datgelu Ychwanegol (yn effeithiol o fis Rhagfyr 2006)**

Mae'r paragraffau a ganlyn yn datgelu'r gofynion ychwanegol y cytunwyd arnynt gan y Trysorlys, yr Adran a'r Gronfa Loteri Fawr, uwchben y datgeliadau hynny sy'n ofynnol yn FReM.

1. Bydd y Datganiad Incwm/Gwariant Cynhwysfawr Net yn cynnwys y canlynol fel eitemau ar wahân, lle bo'n faterol:

    A. cyfran yr enillion Loteri y gellir eu priodoli i'r Gronfa Loteri Fawr

    B. cyfran incwm buddsoddi Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol y gellir eu priodoli i'r Gronfa Loteri Fawr

    C. llog sy'n dderbynadwy ar arian loteri

    D. ad-dalu grantiau

    E. unrhyw incwm arall

    F. grantiau a wnaed o arian Loteri

    G.grant sydd wedi darfod neu ei ddiddymu a gofnodwyd yn flaenorol fel rhwymedigaethau o arian Loteri

    H.y cyfanswm costau gweithredu a delir mewn perthynas â gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol

2. Bydd y Datganiad Sefyllfa Ariannol yn cynnwys:

    A. o dan y pennawd "Asedau cyfredol": wedi'i ddangos fel buddsoddiad, y balans a ddelir ar ran y Gronfa Loteri Fawr yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol.

    B. Dylid datgelu grant sy'n dod yn ddyledus i'w dalu o fewn blwyddyn ar wahân o dan y pennawd "Rhwymedigaethau Cyfredol".

    C. Dylid datgelu grant sy'n dod yn ddyledus i'w dalu ar ôl mwy na blwyddyn ar wahân o dan y pennawd "Rhwymedigaethau Anghyfredol".

3. Bydd y Datganiad Llif Arian yn defnyddio'r dull anuniongyrchol wrth gyflwyno "Llif arian o Weithgareddau Gweithredu";

4. Dylai'r Nodiadau i'r Cyfrifon fodloni gofynion FReM a chynnwys:

    A. Datganiad y paratowyd y Cyfrifon ar ffurf a bennwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol gyda chaniatâd y Trysorlys yn unol ag Adran 35D(3) Deddf y Loteri Genedlaethol ayyb 1993. Act 1993.

    B.Datganiad o'r polisïau cyfrifyddu. Mae'n rhaid i hyn gynnwys datganiad sy'n esbonio natur y balansau a ddelir ar ran y Gronfa Loteri Fawr yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol fel a ganlyn:

"Mae balansau a ddelir yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol yn parhau o dan stiwardiaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Fodd bynnag, mae cyfran y balansau hyn y gellir eu priodoli i'r Gronfa Loteri Fawr i'w gweld yn y Cyfrifon ac, ar ddyddiad y Datganiad Sefyllfa Ariannol, mae wedi'i hardystio gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon eu bod ar gael i'w ddosbarthu gan y Gronfa Loteri Fawr mewn perthynas ag ymrwymiadau cyfredol a rhai'r dyfodol."

C. gwerth ymrwymiadau grant ar ddiwedd y flwyddyn y mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi'u gwneud nad ydynt wedi'u cynnwys fel rhwymedigaethau yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol gan nad oeddent yn bodloni gofynion cael eu trin fel rhwymedigaethau ar y dyddiad hwnnw.

D.Pan fydd grantiau'n fwy na'r adnoddau sydd ar gael fel a ddangosir yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol, nodyn sy'n esbonio sail resymegol y gor-ymrwymiad gan gymryd unrhyw gyngor a dderbyniwyd gan yr Adran i ystyriaeth fel y bo'n briodol.

E.Nodyn sy'n cysoni balans agoriadol a therfynol buddsoddiadau a ddelir yn NLDF. Dylai hyn ddatgelu enillion a dderbynnir gan y Loteri Genedlaethol, incwm buddsoddi, enillion a cholledion nas gwireddwyd ar fuddsoddi, ac arian a dynnwyd i lawr o NLDF.

F. Dadansoddiad o'r cyfanswm rhwymedigaethau grant (cyfredol ac anghyfredol) yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol i ddangos:

- Rhwymedigaeth a ddygwyd ymlaen
- Rhwymedigaethau yn y flwyddyn
- Dadrwymedigaethau
- Rhwymedigaethau a dalwyd
- Rhwymedigaeth a gariwyd ymlaen.

Dadansoddiad o'r rhwymedigaeth ar gyfer bob blwyddyn hyd at a chan gynnwys 5 mlynedd a thros 5 mlynedd.

**CYFARWYDDIADAU A RODDIR I'R GRONFA LOTERI FAWR O DAN ADRAN 22(5)(B) DEDDF CYFRIFON BANC A CHYMDEITHAS ADEILADU SEGUR 2008 MEWN PERTHYNAS Â GWARIANT YN YR ALBAN**

Trwy hyn mae Gweinidogion yr Alban, wrth weithredu'r pwerau a gyflwynwyd iddo gan adran 22(5)(b) Deddf Cyfrifon Banc a Chymdeithas Adeiladu Segur 2008 ac ar ôl ymgynghori â'r Gronfa Loteri Fawr ("y Gronfa") yn unol ag adran 22(7) y Ddeddf honno, yn rhoi'r cyfarwyddiadau a ganlyn i'r Gronfa:

**Cyfarwyddiadau Cyffredinol**

1. Wrth weithredu unrhyw un o'i swyddogaethau wrth ddosbarthu arian cyfrifon segur o dan y Ddeddf honno mewn perthynas â gwariant Yr Alban, mae'n rhaid i'r Gronfa gydymffurfio â'r cyfarwyddiadau cyffredinol a ganlyn wrth bennu'r sawl i bwy y mae'r Gronfa'n gwneud dosbarthiadau, at ba ddibenion y bydd y Gronfa'n gwneud dosbarthiadau, y broses a ddefnyddir i benderfynu pa daliadau i'w gwneud ac o dan ba amodau a thelerau y mae'r Gronfa'n gwneud dosbarthiadau.

2. Mae'n rhaid i ddosbarthiad arian cyfrifon segur fod;

A. ar gyfer prosiectau sy'n hyrwyddo lles y cyhoedd nad ydynt wedi'u bwriadu'n bennaf er elw preifat;

B. ar gyfer prosiectau sy'n gwneud gwelliannau gwirioneddol a chynaliadwy i ansawdd bywyd cymunedau lleol;

C. dim ond ar gyfer mudiadau trydydd sector, h.y. mudiadau sy'n bodoli'n gyfan gwbl neu'n bennaf i ddarparu buddion ar gyfer cymdeithas neu'r amgylchedd;

D. rhaid cydbwyso annog arloesedd gyda'r angen am reoli risg mewn modd sy'n gymesur â'r math o brosiect ac ymgeisydd; ac

E. dylid ceisio hyrwyddo amcanion datblygu cynaliadwy.

3. Wrth ddosbarthu arian cyfrifon segur, mae'n rhaid i'r Gronfa Loteri Fawr sicrhau bod ymgeiswyr:

A. ym mhob achos yn dangos dichonoldeb ariannol y prosiect dros gyfnod y dosbarthiad;

B. mewn achosion pan geisir arian cyfalaf;

a).dangos cynllun busnes clir gan gynnwys unrhyw gostau rhedeg a chynnal a chadw sy'n gysylltiedig â phob prosiect am gyfnod rhesymol, a rhoi ystyriaeth i faint a natur y prosiect; ac

b).ar gyfer prosiectau mawr, dangos bod prosesau gwerthuso a rheoli prosiectau'n cyfateb i rai Adolygiadau Porth Swyddfa Fasnach y Llywodraeth; neu

C. mewn achosion pan na cheisir arian cyfalaf, dylid ystyried argaeledd tebygol unrhyw arian arall i dalu am gostau parhaus am gyfnod rhesymol ar ôl ar ôl i arian cyfrifon segur ddod i ben, gan roi ystyriaeth i faint a natur y prosiect, ac i arian cyfrifon segur gael ei ddefnyddio i gynorthwyo cynnydd tuag at ddichonoldeb pryd bynnag y bo'n bosib.

4. Wrth ddosbarthu arian cyfrifon segur, mae'n rhaid i'r Gronfa Loteri Fawr sicrhau'r canlynol;

A. y pennir cyfyngiadau amser penodol ar y cyfnodau y mae dosbarthiadau'n daladwy, boed hynny ar gyfer gwariant cyfalaf neu refeniw;

B. cynnwys amod ym mhob dosbarthiad bod derbynyddion yn cydnabod defnyddio arian Cyfrifon Segur gan ddefnyddio brand cytunedig Cynllun Cyfrifon Segur Yr Alban;

C. sicrhau bod ganddi'r cyfryw wybodaeth y mae'n ei hystyried yn angenrheidiol i wneud penderfyniadau ar bob cais, gan gynnwys cyngor arbenigol annibynnol pan fo hynny'n ofynnol;

D. gweithio gyda mudiadau eraill, gan gynnwys dosbarthwyr eraill, pan fo hyn yn ddull

effeithiol o gyflwyno ei swyddogaethau ac amcanion;

E. lle bo'n bosib, cynnwys y cyhoedd wrth lunio polisïau, pennu blaenoriaethau a gwneud dosbarthiadau;

F. gweithredu o fewn cyd-destun polisi unigryw Yr Alban, gan ychwanegu gwerth at strategaeth Gweinidogion Yr Alban lle bo'n briodol; cefnogi Alban Fwy Teg wrth ddatblygu cyfleoedd i bawb ffynnu o fewn cenedl sy'n fwy llwyddiannus ac yn fwy cynaliadwy;

G. dros amser, sicrhau dosbarthiad arian i ledaeniad rhesymol eang o dderbynyddion, gan gynnwys mudiadau bach, y rhai sy'n gweithio ar lefel leol yn unig, mentrau cymdeithasol a mudiadau sydd wedi'u lleoli yn Yr Alban ac yn gweithio tramor;

H. ystyried buddion Yr Alban yn gyffredinol, buddion rhannau gwahanol o'r Alban a meintiau poblogaeth cymharol, ac i ba raddau y gellir lleihau amddifadedd economaidd a chymdeithasol mewn rhannau gwahanol o'r Alban;

I. sicrhau y bwriedir i brosiectau gyfrannu at gyflawni diben trosgynnol Llywodraeth Yr Alban o dwf economaidd cynyddol a chynaliadwy a hefyd un neu fwy o'r amcanion strategol a ganlyn:

MWY CLYFAR: Gwell cyfleoedd i bobl mewn bywyd

MWY CRYF A DIOGEL: Cymunedau sy'n cydweithio i ymdrin ag anghydraddoldeb

MWY GWYRDD: Gwasanaethau ac amgylcheddau gwell a mwy cynaliadwy i bobl

MWY IACH: Pobl a chymunedau mwy iach; ac

J. chymryd yr egwyddorion a ganlyn i ystyriaeth:

YMGYSYLLTU – dylai datblygu rhaglenni fod yn seiliedig ac ymgysylltu'n weithredol â phartneriaid cyhoeddus a phreifat ac yn y trydydd sector.

UNDOD A CHYDLYNIANT - sicrhau bod unigolion a chymunedau ledled Yr Alban yn cael cyfle i gyfrannu at genedl sy'n fwy llwyddiannus, cymryd rhan ynddi ac elwa ohoni.

CYNALADWYEDD – gwella amgylchedd Yr Alban heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, a lleihau effaith Yr Alban ar yr amgylchedd byd-eang.

**Cyfarwyddiadau Penodol**

5. Cyn gweithredu unrhyw un o'i swyddogaethau wrth ddosbarthu arian cyfrifon segur mewn perthynas â gwariant Yr Alban, mae'n rhaid i'r Gronfa gydymffurfio â'r cyfarwyddyd penodol a ganlyn wrth bennu'r unigolion at bwy y mae'r Gronfa'n gwneud dosbarthiadau, at ba ddiben y dylai'r Gronfa wneud y dosbarthiadau hynny:

A. Mae'n rhaid i'r Gronfa ddarparu asesiad effaith seiliedig ar dystiolaeth o ddosbarthu'r arian cyfrifon segur yn unol â chyfyngiadau a ragnodwyd a ddisgrifiwyd yng Ngorchymyn Cyfrifon Banc a Chymdeithas Adeiladu Segur (Yr Alban) 2010 ac yn unol ag un o'r opsiynau a ganlyn:

Opsiwn 1: Cefnogi 4 thema bolisi eang: byddai'n rhaid i'r Gronfa sicrhau bod dosbarthiad yr arian yn cael ei ddosrannu'n rhesymol i gefnogi'r rhain:

Cyfleoedd i blant a phobl ifanc;

Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd drwy fwy o weithgareddau; Cryfhau gweithgareddau rhwng y cenedlaethau; ac

Chreu cyfleoedd cyflogaeth gymunedol.

Opsiwn 2 Dosrannu 50%, 67% neu 100% o'r arian cychwynnol i'w drosglwyddo gan y Gronfa Loteri Fawr i ymddiriedolaeth waddoledig. Byddai gweddill yr arian yn cael ei ddosbarthu gan y Gronfa i gefnogi'r 4 thema bolisi eang.

**CYFARWYDDIADAU A RODDIR I'R GRONFA LOTERI FAWR O DAN ADRAN 22(5) DEDDF CYFRIFON BANC A CHYMDEITHAS ADEILADU SEGUR 2008 MEWN PERTHYNAS Â GWARIANT YNG NGHYMRU**

Trwy hyn mae Gweinidogion Cymru, wrth weithredu'r pwerau a gyflwynwyd iddynt gan adran 22 Deddf Cyfrifon Banc a Chymdeithas Adeiladu Segur 2008 ac ar ôl ymgynghori â'r Gronfa Loteri Fawr (yn gweithredu fel Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol ac a gyfeirir ati o hyn ymlaen fel "Y Gronfa), yn rhoi'r cyfarwyddiadau a ganlyn i'r Gronfa:

**Cyfarwyddiadau Cyffredinol**

1.Wrth benderfynu i bwy y mae'n dosbarthu arian o gyfrifon segur mewn perthynas ag arian Cymru, at ba bwrpas ac o dan ba amodau, rhaid i'r Gronfa gydymffurfio â'r canlynol:

A. Ystyried egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn enwedig:

- gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru
- annog cyrff cyhoeddus i feddwl mwy am yr hir dymor, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd
- atal problemau a chymryd ymagwedd fwy cyd-gysylltiedig
- y pum dull o weithio: hir dymor; atal; integreiddio; cydweithio; cymryd rhan
- saith nod llesiant.

B. Sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu i brosiectau sy'n hyrwyddo lles cyhoeddus a chymdeithasol ac nad yw wedi'i fwriadu'n bennaf er budd preifat.

C. Sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu i brosiectau sy'n gwneud gwelliannau cynaliadwy i ansawdd bywyd cymunedau lleol.

D. Sicrhau bod y Gronfa yn dosbarthu arian i ystod eang o brosiectau a ddarperir yn bennaf gan y trydydd sector. Dylai hyn gynnwys mudiadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, gan gynnwys mentrau cymdeithasol. Mewn sefyllfaoedd eithriadol, gellir dosbarthu arian i awdurdodau lleol neu gyrff statudol eraill lle mae prosiect yn cynnwys partneriaeth neu gonsortiwm, a bod y corff statudol yn gweithredu mewn swyddogaeth gydlynu.

E. Cydbwyso annog arloesedd â rheoli risg.

F. Hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg, gan adlewyrchu natur ddwyieithog Cymru trwy:

- gweithio yn ôl yr egwyddor o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na Saesneg yn holl weithgareddau'r Gronfa yng Nghymru
- gweithredu yn unol â Safonau'r Gymraeg a'n Cynllun Iaith Gymraeg, mewn partneriaeth â Chomisiynydd y Gymraeg.

G. Y pennir cyfyngiadau amser ar y cyfnodau y mae grantiau'n daladwy, boed hynny ar gyfer gwariant cyfalaf neu refeniw.

B. Sicrhau bod yr ymgeiswyr yn ddangos dichonoldeb ariannol y prosiect dros gyfnod y grant.

C. Sicrhau bod y Gronfa'n gweithio gyda mudiadau eraill lle mae hon yn fodd effeithiol o ddarparu elfennau o arian cyfrifon segur yng Nghymru.

D. Sicrhau bod gan y Gronfa'r wybodaeth angenrheidiol i wneud penderfyniadau ar bob cais, gan gynnwys cyngor arbenigol annibynnol lle bo angen.

E. Cynnwys amod ym mhob dyfarniad bod derbynwyr yn cydnabod arian cyfrifon segur ac yn defnyddio brandio Cynllun Cyfrifon Segur y cytunwyd arno.

F. Mabwysiadu ymagwedd seiliedig ar ganlyniadau, gan gydweithio'n agos â phartneriaid priodol i gyflawni'r patrwm buddsoddiad gorau er budd cymunedau ledled Cymru.

G. Wrth ddosbarthu arian cyfrifon segur, mae'n rhaid i'r Gronfa ystyried buddion Cymru'n gyffredinol, buddion rhannau gwahanol o Gymru a meintiau poblogaeth cymharol, ac i ba raddau y gellir lleihau amddifadedd economaidd a chymdeithasol mewn rhannau gwahanol o Gymru.

**Cyfarwyddiadau Penodol**

2. Rhaid i'r Gronfa gydymffurfio â'r cyfarwyddiadau penodol canlynol wrth benderfynu ar y personau y mae'n rhoi grantiau iddynt ac at ba bwrpas.

A. Rhaid i'r Gronfa weithredu'n unol â'r cyfyngiadau a ragnodir sydd wedi'u disgrifio yng Ngorchymyn Deddf Cyfrifon Banc a Chymdeithas Adeiladu Segur 2008 (Cyfyngiadau a Ragnodir) (Cymru) 2010 ac yn unol â'r themâu a ganlyn:

- Cefnogi plant a phobl ifanc i gyrraedd eu llawn botensial trwy weithio trwy'r trydydd sector i hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a dileu'r rhwystrau i ddatblygiad personol a chyflogaeth.
- Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a hyrwyddo datblygu cynaliadwy ehangach trwy weithgareddau cymunedol â ffocws.

B. Rhaid i'r Gronfa ystyried y buddion ehangach y gall ceisiadau eu cynnig, yn enwedig eu potensial i ddenu arian o ffynonellau eraill (e.e. cyllid cyfatebol) a'r cyfraniad y gallant ei wneud i bolisïau a strategaethau Llywodraeth Cymru.



Ein cefndir statudol

**CYFARWYDDIADAU GWARIANT A RODDIR I'R GRONFA LOTERI FAWR O DAN ADRAN 22(5)(C) DEDDF CYFRIFON BANC A CHYMDEITHAS ADEILADU SEGUR 2008 MEWN PERTHYNAS Â GWARIANT YNG NGOGLEDD IWERDDON**

O dan Adran 22 o Ddeddf Cyfrifon Banc Segur a Chymdeithas Adeiladu 2008, "Y Ddeddf" o hyn ymlaen, wrth arfer unrhyw un o'i swyddogaethau o dan y Ddeddf, bydd Cronfa'r Loteri Fawr (a elwir bellach yn Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol) yn cydymffurfio â chyfarwyddiadau a roddir iddi o dan yr adran honno.

Trwy hyn, mae'r Adran Gyllid, wrth arfer y pwerau a roddwyd iddi gan Adran 22(5)(c) o Ddeddf Cyfrifon Banc Segur a Chymdeithas Adeiladu 2008 ac ar ôl ymgynghori â Chronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol fel sy'n ofynnol o dan Adran 22(7) o mae'r Ddeddf, yn rhoi'r cyfarwyddiadau canlynol i Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol mewn perthynas â gwariant Gogledd Iwerddon o dan y Ddeddf.

- Dylid sefydlu Cynllun i ddosbarthu Cyfrifon Segur yng Ngogledd Iwerddon cyn gynted â phosibl.
- Dylai Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol baratoi a mabwysiadu cynllun strategol ar gyfer Gogledd Iwerddon fel y nodir yn Atodlen 3 Rhan 1 o'r Ddeddf.
- Bydd Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn ymgynghori ar gynnwys y Cynllun Gweithredu Strategol cyn ei osod gerbron y Cynulliad fel y nodir yn Atodlen 3 Rhan 1 Paragraff 4 Is-adran 6 (b) y Ddeddf.
- Dylai'r Cynllun fod ar gael er budd y trydydd sector yng Ngogledd Iwerddon, trwy brosiectau/gwaith a ddarperir yn bennaf gan fudiadau Gwirfoddol, Cymunedol a Menter Gymdeithasol i gynyddu gallu, tyfu gwytnwch ac annog cynaliadwyedd.
- Dylai'r Cynllun sicrhau bod gan brosiectau/gwaith a ariennir gynrychiolaeth ddaearyddol deg ar draws Gogledd Iwerddon.
- Dylai gwersi a ddysgwyd o ddosbarthu cronfeydd Cyfrifon Segur mewn rhannau eraill o'r DU gael eu hadlewyrchu yng Nghynllun Gogledd Iwerddon lle bo hynny'n bosibl.
- Ni fydd yr Adran yn cyfyngu ar ddefnydd neu ddosbarthiad y Cynllun, fodd bynnag, yr egwyddor yw na ddylid defnyddio arian cyfrifon segur i ariannu prosiectau neu agweddau ar brosiectau a fyddai fel rheol yn denu ariannu statudol.
- O ran modelau cyflenwi, gallai'r rhain olygu, ond heb fod yn gyfyngedig i, Fodel Benthyciad Buddsoddi ar gyfer mudiadau mwy sefydledig, model hybrid grant/benthyciad neu fodel arddull grant mwy traddodiadol i gefnogi mudiadau cymunedol ar lawr gwlad i ddatblygu gallu a meithrin gwytnwch.
- Fel y caniateir o dan y Ddeddf Cyfrifon Segur, caiff Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol gyflawni'r Cynllun yn ei gyfanrwydd neu weithio gyda thrydydd parti. Dylid penodi unrhyw drydydd parti yn unol ag Adran 25 (1) o'r Ddeddf a chadw at yr amodau wedi hynny fel y nodir yn y Ddeddf.
- Un o amodau'r holl ariannu a ddosberthir o'r Cynllun yw bod yn rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus gydnabod y defnydd o ariannu Cyfrifon Segur, gan ddefnyddio'r brandio y cytunwyd arno ar gyfer y Cynllun Cyfrifon Segur yng Ngogledd Iwerddon.

- Bydd dosbarthiad ariannu o dan y Cynllun Cyfrifon Segur yn gyfyngedig i brosiectau sydd wedi'u lleoli yng Ngogledd Iwerddon fel y nodir yn Adran 22 5(c) o'r Ddeddf.
- Dylai'r trefniadau Adrodd a Chyfrifyddu fod fel y nodir yn Atodlen 3, Rhan 3, y Ddeddf.
- Dylai'r Cynllun gyfrannu at Raglen ddrafft Cynllun Cyflenwi Canlyniadau'r Llywodraeth a'i olynydd lle bo hynny'n bosibl.

CRONFA GYMUNEDOL
COMMUNITY FUND


## Cysylltwch â ni

### Swyddfa Gorfforaethol

Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, 3 Embassy Drive,
Edgbaston, Birmingham, B15 1TR

t. 028 9568 0143
f. 020 7211 1750

I'r rhai sydd â nam ar eu clyw neu eu lleferydd:
Cyfnewid Testun: 18001 + 020 7211 1800 neu 0300 500 5050



Credyd delwedd clawr: Victoria Dawe
Enw'r prosiect: Time to Talk Befriending

ISBN 978-1-5286-3063-4
E02678178